

BBC



Adroddiad Blynyddol a  
Chyfrifon y BBC 2016/17



Hysbysu



Addysgu



Diddanu



# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2016/17

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant,  
y Cyfryngau a Chwaraeon drwy orchymyn ei Mawrhydi

Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hefyd ar gael ar-lein yn [bbc.co.uk/annualreport](http://bbc.co.uk/annualreport)

#### **(h) Hawlfraint y BBC 2017**

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol neu asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y BBC a nodi teitl y ddogfen. Defnyddir ffotograffau (h) BBC neu cânt eu defnyddio o dan delerau cytundeb PACT, oni nodir fel arall. Mae'n rhaid cael caniatâd deiliaid yr hawlfraint cyn atgynhyrchu unrhyw ffotograffau.

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o [bbc.co.uk/annualreport](http://bbc.co.uk/annualreport)

#### **Dyluniwyd gan**

Emperor  
emperor.works

#### **Cyfieithwyd gan**

Prysg Cyf

Paratowyd yn unol ag Erthygl 10 o ddarpariaethau trosiannol Siarter Frenhinol y BBC 2016 (Atodlen i'r Siarter).



# Cynnwys



## Cipolwg ar y BBC

Crynodeb o'n cenhadaeth a sut rydym yn cyflawni ein dibenion

t.02

Rhageiriau gan y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol

t.06



Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf

t.20



## Sut y cawn ein llywodraethu

O dan delerau'r Siarter Frenhinol newydd, mae trefniadau llywodraethu'r BBC wedi newid

t.12

Datganiadau ariannol manwl

t.124



## Perfformiad ledled y DU

Mae'r BBC yn darparu cynnwys nodedig wedi'i deilwra i gynulleidfaoedd ym mhedair gwlad y DU

t.36



Cyflawni ein dibenion yn 2016/17

t.14

Adolygu ein gwasanaethau ledled y DU

t.22



### Trosolwg

02 Cipolwg ar y flwyddyn

### Adroddiad strategol

- 06 Neges gan y Cadeirydd
- 08 Datganiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol
- 12 Trefniadau llywodraethu newydd
- 14 Cyflawni ein dibenion
- 15 – *Newyddion diduedd*
- 16 – *Dysgu i bobl o bob oedran*
- 17 – *Cynnwys creadigol, nodedig, o safon*
- 18 – *Adlewyrchu cymunedau amrywiol*
- 19 – *Cyflwyno'r DU i'r byd*
- 20 Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf
- 22 Trosolwg o berfformiad gwasanaethau rhwydwaith

- 24 – *Teledu*
- 26 – *Radio*
- 28 – *Ar-lein*
- 30 – *Newyddion yn y DU*
- 32 – *Newyddion ledled y byd*
- 34 – *fesul cyrhaeddiad*
- 35 – *fesul genre*
- 36 Trosolwg o berfformiad ledled y DU
- 38 – *Y BBC yng Nghymru*
- 40 – *Y BBC yn yr Alban*
- 42 – *Y BBC yng Ngogledd Iwerddon*
- 44 – *Y BBC yn Lloegr*
- 47 Adolygiad y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol
- 49 Trosolwg ariannol
- 54 Ein pobl
- 60 Amrywiaeth a chynhwysiant
- 61 Gwaith elusennol
- 63 Cynaliadwyedd amgylcheddol

### Llywodraethu

- 64 Bwrdd y BBC
- 66 Adroddiad llywodraethu
- 67 Adroddiad cydnabyddiaeth
- 74 Adroddiad y Pwyllgor Archwilio
- 78 Risgiau a chyfleoedd
- 82 Datganiad ynghylch hyfywedd
- 83 Adroddiad masnachu teg
- 85 Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd
- 86 Adolygiad terfynol Ymddiriedolaeth y BBC
- 93 Data perfformiad fesul gwlad
- 105 Performance against public commitments

### Financial statements

- 115 Independent auditor's report
- 125 Consolidated income statement
- 126 Consolidated statement of comprehensive loss
- 127 Consolidated balance sheet
- 128 Consolidated statement of changes in equity
- 129 Consolidated cash flow statement
- 130 Key themes for the BBC
- 131 Notes to the accounts
- 183 Glossary

### Additional information

- 186 Index
- IBC Contact information and feedback
- IBC Photo credits

Annex to the Annual Report and Accounts: BBC Pay Disclosures, July 2017

# Cipolwg ar y flwyddyn

Mewn blwyddyn brysur a welodd ddechrau Siarter Frenhinol newydd, gwnaethom gyflawni ein targedau effeithlonrwydd, ymrwymo cyllid newydd i wasanaethau yn y gwledydd a chael sêl bendith i lansio BBC Studios. Gwnaethom barhau i gyflwyno cynnwys clodwiw ar deledu, radio ac ar-lein i gynulleidfa oedd ledled y DU a ledled y byd.

## BBC World Service

Cyhoeddodd BBC World Service ei ehangiad mwyaf ers y 1940au, mewn cam a gynlluniwyd i gyflwyno ei newyddiaduraeth annibynnol i filiynau'n fwy o bobl ledled y byd, gan gynnwys mewn mannau lle ceir bygythiad i ryddid y cyfryngau.



Rydym wedi cyhoeddi cynnydd mawr mewn cyllid i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn adlewyrchu'r pwys a roddwn ar wasanaethu a chynrychioli'r DU gyfan.



# 26m

Gwylodd 26 miliwn o bobl BBC One a sianel BBC News ar gyfer ein darllediadau o ganlyniad Refferendwm yr UE. Ymwelodd y nifer fwyaf erioed â BBC Ar-lein gyda'r traffig ar ei uchaf yn cyrraedd 53 miliwn o borwyr unigryw ledled y byd, a 24.7 miliwn o borwyr unigryw yn y DU.

## Planet Earth II

Cyrhaeddodd *Planet Earth II* 30.3 miliwn o wylwyr a chafodd 20 miliwn o geisiadau ar BBC iPlayer, gan olygu mai hon oedd y rhaglen hanes naturiol a berfformiodd orau ers o leiaf 15 mlynedd.





## BAFTA

Enillodd y BBC 19 allan o 25 o Wobrau Teledu BAFTA gydag enillwyr yn cael eu cydnabod mewn naw allan o ddeg genre, gan gynnwys yn y categori Ffeithiol Gwneuthuredig a Realiti ar gyfer *Muslims Like Us*.




# +17%

Treuliodd *The Archers* ar Radio 4 dros ddwy flynedd yn ymchwilio i'w stori am gam-drin domestig, ac yn ôl Refuge a Cymorth i Fenywod, sy'n cydreddeg y Llinell Gymorth Genedlaethol ar gyfer Trais Domestig, yn ystod y mis y cyrhaeddodd y stori ei hanterth, cafwyd cynnydd o 17% yn y galwadau i'r llinell gymorth.

Dathlodd BBC Three ei phen-blwydd cyntaf fel sianel ar-lein yn unig ac enillodd wobwr Sianel y Flwyddyn RTS ar gyfer 2017. Bu'r gyfres gomedi *Fleabag* yn llwyddiant ysgubol ac enillodd Phoebe Waller-Bridge, seren y sioe, lu o wobrau, gan gynnwys dau anrhydedd gan y Gymdeithas Deledu Frenhinol ynghyd â BAFTA.

## iPlayer Kids

Lansiwyd yr ap newydd iPlayer Kids ym mis Mawrth. Gyda mwy na 10,000 o benodau'n cael eu rhyddhau eleni yn unig, mae'n gartref i holl gynnwys clodwiw BBC Children.



Y BBC yw un o'r partneriaid allweddol ar gyfer blwyddyn Hull fel Dinas Diwylliant y DU. Ymysg y prosiectau y bydd y BBC yn eu cynnal mae gŵyl gair llafar genedlaethol fawr newydd, bale a wnaed yn Hull ar gyfer plant bach, a'r broses o recriwtio cant o ohebwy'r cymunedol lleol.



# 246m



2016 oedd y flwyddyn fwyaf eto ar gyfer BBC iPlayer, a chafodd 246 miliwn o geisiadau bob mis ar gyfartaledd.



# Hysbysu. Addysgu. Diddanu.

Cynnwys nodedig, o'r radd flaenaf sy'n ddifyr, mentrus, addysgol a chlodwiw.

## Rydym yn creu cynnwys beiddgar...

+ Darllenwch fwy am berfformiad cynnwys ar dudalennau 22 i 35



## ...yn darlledu ar sawl sianel...



## ...yn gweithio gyda thalent o fewn holl ddiwydiannau creadigol y DU.

+ Darllenwch fwy am staff a thalent y BBC ar dudalennau 54 i 60

### Drama glodwiw

Y ddrama *The Night Manager* ar BBC One oedd yr enillydd mwyaf yn yr adran deledu yng ngwobrau mawreddog y Golden Globes yn America.

### BAFTAS

Enillodd y BBC 19 allan o 25 o Wobrau Teledu BAFTA, gydag enillwyr yn cael eu cydnabod mewn naw allan o ddeg genre.

### Sianel y Flwyddyn

Cafodd BBC Three y wobwr 'Sianel y Flwyddyn' gan y Gymdeithas Deledu Frenhinol, gan gloriannu blwyddyn gyntaf wych fel sianel ar-lein yn unig.

### Sianel Newyddion y Flwyddyn

Enillodd BBC News 'Sianel Newyddion y Flwyddyn' yng Ngwobrau Newyddiaduraeth Teledu'r Gymdeithas Deledu Frenhinol.

### Teledu

Naw gwasanaeth teledu ledled y DU, gan gynnwys gwasanaeth ar-lein yn unig BBC Three i bobl ifanc. Gwasanaethau teledu cenedlaethol a rhanbarthol ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

### Radio

Deg rhwydwaith radio ledled y DU a dau wasanaeth radio cenedlaethol yr un yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, 40 o orsafoedd radio lleol yn Lloegr ac Ynysoedd y Sianel.

### Ar-lein

Gwasanaethau yn cynnwys Newyddion, Chwaraeon, Tywydd, CBBC, iPlayer ac iPlayer Radio a Botwm Coch y BBC drwy amrywiaeth o ddyfeisiau sy'n cysylltu â'r rhyngwyd gan gynnwys llechi, ffonau deallus a setiau teledu cysylltiedig – yn ogystal â chyfrifiaduron.

### BBC World Service

Gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein mewn 28 o ieithoedd, gydag 11 arall wedi'u cyhoeddi yn 2016.

### Staff y BBC

Mae ein pobl yn dalentog, amrywiol, ymrwymedig ac angerddol. Nhw yw ein hasgwrn cefn.

### Partneriaethau

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau sy'n rhannu ein hangerdd am greadigrwydd, ansawdd a natur nodedig.

### Buddsoddiad

Mae'r BBC yn fuddsoddi mawr yn niwydiannau creadigol y DU, gan gyfrannu cannoedd o filiynau o bunnoedd i'r sector ehangach.

### Rhannu gwybodaeth

Mae peirianwyr y BBC bob amser yn arwain datblygiadau technolegol. Rydym yn cynnig 'canolfan ragoriaeth', gan rannu datblygiadau ac arfer gorau ledled y diwydiant.

### Hyfforddiant

Rydym yn ymrwymedig i gynnis cyfleoedd i bawb. Ers 2014, prentisiaid sy'n cyfrif am 1% o'n gweithlu ac ym mis Chwefror 2017, gwnaethom gyhoeddi cynllun £1 miliwn i recriwtio, hyfforddi a datblygu newyddiadurwyr ag anableddau.



Drama *Poldark* ar BBC One

## Rydym yn cyflawni ein dibenion cyhoeddus...

+ Darllenwch fwy am gyflawni ein dibenion ar dudalennau 14 i 19



## ...drwy ein nodau a'n huchelgeisiau...

+ Darllenwch fwy am ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf ar dudalennau 20 ac 21



## ...gan sicrhau gwerth am arian i'n cynulleidfa oedd.

+ Darllenwch fwy am ein cyllid ar dudalennau 46 i 53

Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch

Cefnogi dysgu i bobl o bob oedran

Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau

Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi creadigol ledled y DU

Adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

Ein nod yw ail-greu'r BBC ar gyfer cenhedlaeth newydd. Byddwn yn gwneud hyn drwy gyflawni yn erbyn ein huchelgeisiau.

- Sicrhau bod pawb yn cael gwerth o'r BBC
- Creadigrwydd o'r radd flaenaf
- Cyrhaeddiad byd-eang

- Sefydlogrwydd ariannol
- Gwneud y BBC yn lle gwell fyth i weithio ynddo

Buddsoddi cymaint o arian â phosibl yn darparu cynnwys a gwasanaethau gwych.


**Lleihau gorbenioin**  
Roedd 95% o wariant rheoladwy'r BBC eleni yn canolbwyntio ar gynnwys a chyflawni, gyda dim ond 5% yn cael ei wario ar redeg y sefydliad.

**Lleihau gwariant ar dalent**  
Mae cyfanswm ein gwariant ar dalent ar y sgrin ac ar yr awyr wedi'i leihau i 11.5% o'n gwariant mewnol ar gynnwys.

**Bil cyflogau uwch reolwyr**  
Mae'r gymhareb uwch reolwyr i gyfanswm y cyflogeion gwasanaeth cyhoeddus bellach yn 1.6% ac mae'r bil cyflogau ar gyfer uwch reolwyr wedi lleihau mwy na £36 miliwn ers 2009.

**Cyfanswm yr arbedion costau**  
Cyflawnwyd £172 miliwn o arbedion blynyddol yn ystod y flwyddyn.

# Neges gan y Cadeirydd



“Credwn fod y Siarter newydd yn ailddatgan cenhadaeth graidd y BBC, gan danlinellu'r ffaith bod ein nod o 'hysbysu, addysgu a diddanu' mor berthnasol nawr ag y bu drwy gydol hanes y Gorfforaeth.”

 Syr David Clementi,  
Cadeirydd

**Roedd dechrau mis Ebrill 2017 yn gyfnod o drawsnewid i'r BBC: sefydlwyd Bwrdd unedol newydd yn lle'r trefniadau blaenorol a rannodd y cyfrifoldeb llywodraethu rhwng Bwrdd Ymddiriedolaeth y BBC a Bwrdd Gweithredol y BBC. Bellach, y Bwrdd newydd, sydd â mwyafrif o gyfarwyddwyr anweithredol ac sy'n cynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol a thri chyfarwyddwr gweithredol arall, sy'n gyfrifol am holl weithgarwch y BBC.**

Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cwmpasu'r flwyddyn hyd at fis Mawrth 2017; ac mae'n ymwneud â chyfnod lle roedd yr hen drefniadau a chyfrifoldebau mewn grym. Gwnaed cryn dipyn o'r gwaith paratoi ar gyfer yr Adroddiad cyn diwedd y flwyddyn, ond cyfrifoldeb y Bwrdd newydd yw cwblhau'r gwaith o'i baratoi, trefnu'r broses o'i gyhoeddi a chymryd cyfrifoldeb terfynol amdano.

Ers cael fy mhendi, rwyf wedi canolbwyntio ar sefydlu Bwrdd newydd y BBC a sefydlu'r system lywodraethu newydd sy'n ofynnol gan y Siarter newydd.

 Ceir manylion llawn y trefniadau newydd hyn ar dudalennau 12 a 13

Am y tro cyntaf yn hanes y BBC, mae'r trefniadau hyn yn gwahaniaethu'n glir rhwng y broses o lywodraethu'r BBC, sydd yn amlwg yn nwylo'r Bwrdd newydd, a'r broses allanol o reoleiddio'r BBC, sydd bellach yn nwylo rheoleiddiwr annibynnol y diwydiant, Ofcom. Ar lefel weithredol a lefel anweithredol, rydym wedi dechrau meithrin yr hyn a fydd yn gydberthynas bwysig â'n rheoleiddiwr.

Prif dasg y Bwrdd yw sicrhau ein bod yn cyflawni'r rhwymedigaethau a roddir ar y BBC dan y Siarter newydd, sy'n rhedeg hyd at ddiwedd 2027. Yn ystod y cyfnod yn arwain at ei chyhoeddi, cafwyd cyfraniad sylweddol gan amrywiaeth eang o bobl, yn arbennig aelodau'r cyhoedd y gwnaeth niferoedd nas gwelwyd o'r blaen ohonynt ymateb i bapur ymgynghori'r Llywodraeth ar ddyfodol y BBC.


Credwn fod y Siarter newydd yn ailddatgan cenhadaeth graidd y BBC, gan danlinellu'r ffaith bod ein nod o 'hysbysu, addysgu a diddanu' mor berthnasol nawr ag y bu drwy gydol hanes y Gorfforaeth. Mae'r pum diben cyhoeddus craidd, a nodir yn y Siarter ac a welir ar dudalennau 14-19 o'r Adroddiad hwn, yn rhoi fframwaith clir ar gyfer sicrhau gwerth i'r cyhoedd, ac y cawn ein dwyn i gyfrif ganddynt.



Mae'n werth amlygu'r pwys mawr a roddwn ar y diben cyhoeddus cyntaf, sicrhau natur ddiuedd lem y BBC. Ers bron i ganrif mae'r BBC wedi cyflawni swyddogaeth hanfodol fel y ffynhonnell y mae'r wlad yn troi ati er mwyn sicrhau y gall wahaniaethu rhwng ffaith a ffuglen. Gyda'r llu o ffynonellau newyddion sydd ar gael bellach, mae'r rôl hon yn bwysicach nag erioed. Mae'r cyhoedd ym Mhrydain yn rhoi pwys mawr ar ddarllediadau newyddion awdurdodol y gall ymddiried ynddynt. Dyna pam y bydd natur ddiuedd, cywirdeb ac annibyniaeth yn egwyddorion sylfaenol sy'n greiddiol i waith y Bwrdd newydd.

Er i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r tîm uwch-reolwyr dreulio rhan helaeth o'r flwyddyn ar faterion sy'n ymwneud â'r Siarter newydd, mae'n amlwg i mi y bu'n flwyddyn wych unwaith eto ar yr awyr ac ar y sgrin. Ni chafodd sylw rheolwyr ei dynnu oddi wrth ddarparu'r hyn sydd bwysicaf i gynulleidfaedd: rhaglenni a gwasanaethau uchelgeisiol a nodedig, o ansawdd uchel. Mae'r cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn rhoi trosolwg o rai o'r uchafbwyntiau.

Hoffwn ddiolch i Rona Fairhead, ar ddiwedd ei chyfnod yn gadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC, a'r holl ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr a oedd yn rhan o'r trefniadau llywodraethu blaenorol, am eu gwaith a'u hymrwymiad yn ystod y flwyddyn rydym yn adrodd arni. Hoffwn hefyd groesawu fy nghyd-aelodau o'r Bwrdd newydd. Mae pob un ohonom yn deall maint y cyfrifoldeb sydd ar ein hysgwyddau. Ar yr un pryd, rydym yn edrych ymlaen at yr heriau pwysig sy'n ein hwynebu yn y 12 mis i ddod a thu hwnt.



**Syr David Clementi**  
Cadeirydd

“Ers bron i ganrif mae'r BBC wedi cyflawni swyddogaeth hanfodol fel y ffynhonnell y mae'r wlad yn troi ati er mwyn sicrhau y gall wahaniaethu rhwng ffaith a ffuglen. Gyda'r llu o ffynonellau newyddion sydd ar gael bellach, mae'r rôl hon yn bwysicach nag erioed.”



Sarah Montague a Justin Webb yn cyflwyno rhaglen *Today* ar Radio 4.

# Datganiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Bu'n flwyddyn brysur arall i'r BBC, gyda chynnwys nodedig, ysbrydoledig a chlodwiw ar y sgrin ac ar yr awyr, yn ogystal â chwblhau proses lwyddiannus o adolygu'r Siarter.

**Mae dechrau Siarter newydd yn foment dyngedfennol. Dyma'r cyfle i anelu'n uchel dros yr 11 mlynedd nesaf, a sicrhau bod y BBC cyfan yn gweithio tuag at nod hynod glir ac uchelgeisiol.**

Dyna pam, wrth i gyfnod y Siarter newydd ddechrau, y gosodais her i'r Gorfforaeth: dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, rwyf am i ni ail-greu darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cenhedlaeth newydd.

Wrth gwrs, nid yw hyn yn golygu troi cefn ar ein cynulleidfaoedd presennol mewn rhyw fodd. Fel y dywedais sawl gwaith o'r blaen, mae gennym rôl ddeublyg yn y blynyddoedd i ddod: gwneud pethau anhygoel ar ein sianelau a'n gwasanaethau presennol, ond hefyd arloesi yn y gofod digidol.

Ein tasg yw ail-greu darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cenhedlaeth newydd a hefyd sicrhau ei fod yn gweithio i bob cynulleidfa fel y gall pawb yn y wlad gael gwerth o'r BBC.

Pam mae hyn mor bwysig? Yn ystod y trafodaethau am y Siarter, gwnaethom ddysgu rhywbeth hanfodol: mae'r cyhoedd yn dal i gredu'n gryf yng nghenhadaeth y BBC. Pan edrychwn ar sut mae cymdeithas yn newid, gwelaf fod cenhadaeth y BBC yn bwysicach nag erioed i'r DU.

## Cyrraedd cynulleidfaoedd iau

Yr hyn sy'n fwy calonogol fyth, fel y gwelir yng ngwaith ymchwil Ofcom, yw bod pobl ifanc yn dal i werthfawrogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn fawr, ynghyd â'r cyhoedd yn gyffredinol. Fodd bynnag, er bod pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r hyn a wnawn, mae llwyddo i'w cyrraedd yn fater hollol wahanol. Mewn gwirionedd, dyma un o'r prif faterion strategol rydym yn ei wynebu. I ddechrau, am fod cymaint o gystadleuaeth am eu hamser. Mae oedolion yn treulio 8% o'u hamser

cyfryngau ar gyfryngau cymdeithasol ac yn negesu. Mae hyn yn codi i 25% ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed. O ran y farchnad deledu gyfan, mae'r amser a dreulir gyda chynulleidfaoedd ifanc wedi gostwng 20% i 30%. Mae'r un peth yn wir am radio.

Yn gynyddol, mae cynulleidfaoedd iau a chynulleidfaoedd hŷn yn defnyddio'r cyfryngau mewn ffyrdd gwahanol. Dyna pam y mae'n rhaid i ni ymateb.

Yr ail fater pwysig yw bod hinsawdd y cyfryngau o'n hamgylch wedi newid yn llwyr. Mae wedi mynd yn llawer mwy eang a chystadluol.

Rydym bellach mewn amgylchedd lle mae eraill yn barod i fuddsoddi llawer iawn o arian mewn ymgais i gipio cyfran o'r farchnad, a lle mae cwmnïau technoleg yn symud mwyfwy i feysydd y mae darlledwyr yn draddodiadol wedi eu hystyried fel eu rhai nhw. Er gwaethaf yr heriau hyn a mwy, credaf y gallwn fod yn hyderus iawn am ein dyfodol. Efallai ein bod yn fach yn ariannol o gymharu ag eraill, ond gall ein heffaith fod yn anferth.

Gyda ni y mae cynulleidfaoedd ifanc yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser o hyd o bell ffordd. Rydym yn ddarparwr blaenllaw o ran rhaglenni a gwasanaethau i blant: CBeebies yw'r sianel fwyaf poblogaidd ar gyfer plant

dan chwech, CBBC ar gyfer plant dros chwech, ac mae Bitesize yn hanfodol wrth adolygu ar gyfer arholiadau TGAU. I bobl rhwng 16 a 34 oed, BBC One yw eu hoff sianel deledu o hyd – yr un y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ei gwyllo. Yn gyffredinol, maent yn treulio 11 awr gyda'r BBC bob wythnos.

Mae hefyd yn fantais fawr bod gennym sefydlogrwydd setliad ariannol 11 mlynedd, a'n bod yn siŵr o'n cyllideb ar gyfer y pum mlynedd i ddod. Wrth gwrs, bydd angen i ni wneud rhai dewisiadau anodd er mwyn sicrhau y gallwn fyw o fewn ein modd, ond mae gennym sicrwydd mewn byd ansicr, ac mae angen i ni wneud iddo gyfrif. Fodd bynnag, efallai mai'r ffactor mwyaf sydd wedi rhoi hyder i ni yw hyn: dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi profi unwaith eto, pan fyddwch yn darparu ansawdd gwirioneddol, mae cynulleidfaoedd – hen ac ifanc – yn ymateb.

## Cynnwys nodedig, o'r radd flaenaf

Dyna pam y daeth mwy na 50 miliwn o bobl o bob oedran atom ar gyfer ein darllediadau chwaraeon yr haf diwethaf; a pham – er mai dim ond tua 2% o gyfanswm yr oriau o chwaraeon a ddarlledir ar y teledu sy'n perthyn i ni – y mae gennym fwy na 40% o'r gynulleidfa. Ac nid eu bod yn dod atom ar gyfer y digwyddiadau mawr sydd dan sylw. Mae ein rhaglenni wedi dod yn ddigwyddiadau



mwy na  
50m

– nifer y bobl o bob oedran a fwynhaodd ein darllediadau chwaraeon yr haf diwethaf.





mawr ynddynt eu hunain – p'un a yw hynny'n golygu *The Night Manager*, Ed Balls ar *Strictly*, neu *Sherlock* dros y Flwyddyn Newydd. Gwylwyd *Planet Earth II* gan fwy na 30 miliwn o bobl yn y DU a hon oedd y rhaglen a wylwyd fwyaf ar nos Sul yn rheolaidd.

Rydym hefyd wedi dysgu dros y flwyddyn ddiwethaf y gallwn gael effaith gref wrth arloesi ar-lein. Mae ein hapiau i blant wedi'u lawrlwytho 12 miliwn o weithiau erbyn hyn. Ar YouTube, Radio 1 yw'r orsaf radio fwyaf yn y byd, ac mae BBC Three yn bod yn wirioneddol arloesol gyda chynnwys fformat byr.

Gwyddom, pan wnawn bethau o'r ansawdd uchaf, fod cynulleidfaoedd yn troi at y BBC. Maent yn dibynnu arnom i gael cynnwys gorau'r DU, wedi'i ddarparu mewn ffyrdd traddodiadol ac arloesol.

Mae ein cynllun ar gyfer ail-greu darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cenhedlaeth newydd yn dibynnu ar bum uchelgais allweddol, wedi'u hategu gan 12 o amcanion ar gyfer y BBC cyfan. Nodir y rhain ar dudalennau 20 a 21. Rwyf eisoes wedi amlygu pa mor bwysig yw sicrhau ein sefydlogrwydd ariannol hirdymor, a sicrhau bod pawb yn cael gwerth o'r BBC. Yn ogystal â'r rhain, credaf y bydd angen i ni ganolbwyntio ar dair blaenoriaeth hanfodol er mwyn i ni lwyddo.

I ddechrau, ein creadigrwydd, sef ein rhaglenni a'n gwasanaethau.

Rwyf am i'r BBC fod yn feiddgar, yn wreiddiol ac yn fentrus yn ystod y Siarter hon. Rwyf am i ni fod yn barod i sefyll dros ein hegwyddorion, i feiddio gwneud y pethau nad yw eraill yn meiddio eu gwneud, ac i glywed, dro ar ôl tro: "dim ond y BBC fyddai'n gwneud hynny". Nid yw hynny ond yn golygu gwneud pethau nad oes neb arall yn eu gwneud, ond hefyd dorri tir newydd ac arwain y ffordd.

"Yn ystod y Siarter hon, rwyf am i'r BBC fod yn feiddgar, yn wreiddiol ac yn fentrus."

**Tony Hall,**  
Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC

Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei gael yn iawn dros y blynyddoedd i ddod, oherwydd y bydd yn brawf gwirioneddol o'n creadigrwydd ac yn fesur gwirioneddol o'n natur nodedig.

Wrth gwrs, rydym ar ein gorau yn greadigol eisoes, ond gwyddom na allwn orffwys ar ein rhwyfau. Mae angen i ni greu syniadau newydd o hyd, arloesi ymhellach a chymryd mwy o risgiau. Mae'n rhaid i hyn ein hysgogi ni'n barhaus yn ein holl wasanaethau a ddarperir yn draddodiadol, ond mae hefyd angen i ni edrych eto ar y gofod ar-lein – lle ceir llawer o gystadleuaeth, lle mae cynulleidfaoedd newydd i'w gweld fwyaf, a lle gallwn eu gwasanaethu mewn ffyrdd newydd gwych.

Mae hynny'n golygu ail-greu iPlayer. Dyma oedd chwyldro mwyaf y Siarter ddiwethaf, a sicrhoedd ei le fel y gwasanaeth fideo ar alw mwyaf poblogaidd yn y DU, gan gyrraedd mwy o bobl nag unrhyw wasanaeth arall. Nawr, mae angen iddo gymryd y naid o fod yn wasanaeth dal i fyny i fod yn gyrchfan hanfodol ynddo'i hun.

Ein nod, hyd yn oed yn wyneb twf cyflym gan ein cystadleuwyr, yw sicrhau mai iPlayer yw'r gwasanaeth teledu ar-lein mwyaf poblogaidd yn y DU. Bydd hyn yn golygu dyblu ein cyrhaeddiad, a chynyddu'r amser y bydd pob person yn ei dreulio arno bob wythnos bedair gwaith, ac rydym am gyflawni hyn erbyn 2020. Mae hyn yn dalcen caled, ond rwy'n hyderus y gallwn lwyddo.

### Arloesi mewn tirwedd cyfryngau newidiol

Mae angen i ni wneud yr un peth ar gyfer sain. Heddiw, ni sy'n gyfrifol am rywfaint o'r radio llafar a cherddoriaeth gorau yn y byd, ond credaf y gallwn wneud llawer mwy gyda'n cynnwys o'r radd flaenaf ynghyd ag ennill cynulleidfaoedd newydd yn fyd-eang.

Mae her i'n timau newyddion hefyd. Rydym wedi bod yn edrych mwy a mwy ar y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau newyddion 'cyflym' ac 'araf'. Rydym ymysg y gorau yn y byd am ddweud wrth bobl beth sy'n digwydd ar yr eiliad hon, ac am fod yn lle iddynt droi i gael gwybod beth sy'n digwydd mewn amser real. Nawr, rwyf am i ni wneud cymaint mwy gyda'n gwasanaethau newyddion 'araf'.

Arlwy yw hon sydd â'r nod o egluro beth sy'n digwydd yn y byd, gan helpu'r cyhoedd i wirioneddol ddeall digwyddiadau mewn amser cythryblus. Mae hynny'n golygu mwy o ffocws ar arbenigedd o'r tu mewn a'r tu allan i'r BBC, mwy o ddadansoddiadau manwl, mwy o ymchwiliadau pwysig a mwy o newyddiaduraeth data.

Mae'r rhain yn heriau mawr, a'r peth sy'n eu dwyn ynghyd yw personoli, a fydd yn flaenoriaeth wirioneddol i'r BBC dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

Mae data yn esgor ar ansawdd. Mae'n golygu y gall cynulleidfaoedd gael y gorau o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, ond dim ond os byddant yn mewngofnodi. Rydym yn parhau i weld twf mewn cynulleidfaoedd mewngofnodi a gwnaeth bron i bedair miliwn o ddefnyddwyr

“Gyda ni y mae cynulleidfaoedd ifanc yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser o hyd o bell ffordd.”

fewngofnodi ym mis Mai. Rwyf am godi'r nifer honno i bron i 20 miliwn, ac rwyf am i ni gyflawni hynny cyn gynted â phosibl. Credaf, uwchlaw popeth arall efallai, mai ar hyn y bydd ein llwyddiant yn dibynnu yn y dyfodol. Drwy ddysgu mwy am ein cynulleidfaoedd a beth maent yn ei hoffi, gallwn greu cynnwys gwell, ei wneud yn fwy perthnasol, a'i gyflwyno iddynt yn fwy effeithiol. Po agosaf a mwyaf personol y mae ein cydberthynas â'n cynulleidfaoedd, y mwyaf y byddant yn dewis y BBC.

Fy ail brif flaenoriaeth yw ein diwylliant – sicrhau bod y BBC yn lle gwych i weithio ynddo.

Wrth i mi deithio o amgylch y DU, gwelaf ddigonedd o enghreifftiau o'r hyn sy'n mynd yn dda iawn. Rydym wedi gwneud cynnydd gwirioneddol ar symleiddio'r Gorfforaeth: torri gorbenion i ddim ond 5%, sy'n well na'r rhan fwyaf yn y sector preifat; lleihau'r haenau a geir mewn sawl maes; lleihau is-adrannau, byrddau a nifer yr uwch reolwyr. Wrth gwrs, taith yw hon nid cyrchfan, ac ni allwn fyth fforddio gorffwys ar ein rhwyfau. Mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn symud ar gyflymder gwahanol, ac mae gennym lawer o waith i'w wneud o hyd.

Un flaenoriaeth fawr i mi yw sicrhau ein bod yn gallu cydweithio'n well rhwng timau, a gweithio'n gyflym. Mae hynny oherwydd na all yr hen ffordd o wneud pethau – gweithio mewn seilos – lwyddo yn yr amgylchedd cyfryngau modern. Ni all y ffyrdd traddodiadol o ddarparu gwasanaethau, drwy gynlluniau prosiect mawr gyda chyllidebau wedi'u dyrannu flynyddoedd ymlaen llaw, weithio ychwaith.

Heddiw, mae'n rhaid i ni fod yn llawer mwy entrepreneuriaidd. Mae'r hyn a wnaethom yr haf diwethaf ar gyfer Gemau Olympaidd Rio yn enghraifft wych. I mi, efallai mai'r llwyddiant mwyaf oedd sut y daeth ein timau technegol a golygyddol ynghyd i ddatrys problemau ac i arloesi – gydag ymddiriedaeth a chefnogaeth lawn y rheolwyr, heb adael i rwystrau mewdol ein hatal, gan sicrhau y gallent newid, ymateb ac addasu'n gyflym.

Fy nhrydedd flaenoriaeth yw bod yn llawer mwy uchelgeisiol ar gyfer y BBC yn fyd-eang.

Heddiw, rydym yn rhagori ar ddisgwyliadau yn fyd-eang. Fel un o allforion mwyaf gwerthfawr y DU, rydym yn ei helpu hithau i ragori ar ddisgwyliadau hefyd. Credaf, yn y cyfnod hwn ar ôl Brexit, fod ein hangen ni fwy nag erioed ar Brydain – a bod angen i ni wneud mwy nag erioed i Brydain.

Dyna pam, hydref diwethaf, roeddwn mor falch o allu cyhoeddi ehangiad hanesyddol ein World Service – yr ehangiad mwyaf ers y 1940au. Ond y tu hwnt i'r World Service, credaf fod dau brif ffactor a fydd yn hanfodol i'n llwyddiant yn fyd-eang yn y dyfodol.

Y cyntaf yw BBC Studios, sy'n chwyldro gwirioneddol yn y ffordd rydym yn cyrchu ac yn gwneud ein rhaglenni. Wrth gwrs, mae'n golygu rhywfaint o risg, gyda'r gystadleuaeth am raglenni a geir ar hyn o bryd, ond mae hefyd yn gyfle pwysig.

O ran radio a theledu, mae angen i ni fod yn berchen ar hawliau eiddo deallusol i gynulleidfaoedd. Nid wyf am i ni fod yn gyhoeddwr-ddarledwr byth. Rwy'n argyhoeddedig mai BBC Studios yw'r unig ffordd i ni sicrhau ein dyfodol fel un o'r gwneuthurwyr rhaglenni gorau yn y byd.



12m



– y nifer o weithiau y cafodd apiau Plant y BBC eu lawrlwytho



EIN NOD YW...

...ail-greu'r BBC ar gyfer cenhedlaeth newydd.

GWNAWN HYN DRWY...

...ein pum uchelgais

### Sicrhau bod pawb yn cael gwerth o'r BBC

- sicrhau bod y BBC wrth wraidd bywyd bob dydd yn y DU
- datblygu ein cydberthynas â'n holl gynulleidfaoedd
- bod yn fwy cynhwysol
- cynrychioli pob gwlad a rhanbarth

### Creadigrwydd o'r radd flaenaf

- creu cynllun cynnwys i gefnogi ein cenhadaeth greadigol
- bod yn ganolbwynt ar gyfer gwreiddioldeb
- bod yn hyderus
- bod yn fwy creadigol gyda'r gwasanaethau o'r ansawdd gorau

### Cyrhaeddiad byd-eang

- sicrhau'r cyrhaeddiad byd-eang mwyaf posibl
- gwneud rhaglenni o'r radd flaenaf
- ehangu ein darpariaeth
- ehangu'r World Service

### Sefydlogrwydd ariannol

- rheoli cystadleuaeth gynyddol
- parhau â'n hagenda effeithlonrwydd
- buddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau
- byd o fewn ein modd


### Gwneud y BBC yn lle gwell fyth i weithio ynddo

- dod o hyd i ffyrdd o weithio'n symlach
- gweithredu fel un BBC
- gwerthfawrogi ein gilydd a dathlu llwyddiant
- bod yn weladwy a chymryd rhan

Ar yr un pryd, nid wyf am i ni fod yn wych am wneud rhaglenni Prydeinig nodedig o ansawdd uchel yn unig. Rwyf hefyd am i ni fod yn wirioneddol wych am eu hallforio i bob cwr o'r byd. Dyna pam y mae angen i BBC Worldwide ffynnu fel partner strategol ar gyfer BBC Studios, gan wneud y gorau o'n cyrhaeddiad byd-eang.

Dyma pam rwyf wedi herio BBC Worldwide i edrych eto ar y ffordd orau i ni dyfu ein busnes er mwyn sicrhau mwy o elw yn ôl i'r gwasanaeth cyhoeddus – i ailfuddsoddi mewn mwy fyth o raglenni a gwasanaethau Prydeinig gwych.

Erbyn i ni gyrraedd ein canmlwyddiant yn 2022, rydym am sicrhau bod y BBC yn rhan annatod o fywydau ein holl gynulleidfaoedd. Mewn byd o ddewisiadau di-ben-draw, rydym am i bobl barhau i ddewis y BBC. Yn anad dim, rydym am fod wedi dangos bod gan ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus – a gefnogir gan werthoedd gwasanaeth cyhoeddus cryf a chenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus clir – hyd yn oed mwy i'w gynnig i Brydain a'r byd yn y ganrif nesaf. Mwy, hyd yn oed, na thros ei gan mlynedd gyntaf.



**Tony Hall**

Cyfarwyddwr Cyffredinol



BBC Studios sy'n cynhyrchu rhaglen boblogaidd *Countryfile*.

# Trefniadau llywodraethu newydd

Yn dilyn adolygiad dan arweiniad y Llywodraeth, cafodd y BBC Siarter Frenhinol newydd ar ddiwedd 2016, sy'n rhedeg am 11 mlynedd o 1 Ionawr 2017.



Mae'r ffordd y caiff y BBC ei lywodraethu wedi newid dan y Siarter Frenhinol newydd

Uchod: Y Cadeirydd, Syr David Clementi a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, Tony Hall

## Mae'r ffordd y caiff y BBC ei lywodraethu a'i ariannu wedi'i sefydlu gan y Siarter Frenhinol.

Ar ddiwedd 2016 – yn dilyn adolygiad eang dan arweiniad Llywodraeth y DU – cafodd y Gorfforaeth Siarter newydd, sydd bellach yn rhedeg o 1 Ionawr 2017 i 31 Rhagfyr 2027. Mae'r Siarter, a'r Cytundeb Fframwaith ategol, yn nodi cyfansoddiad y BBC.

Un o'r newidiadau mwyaf yn y Siarter newydd yw'r broses o weithredu trefniadau llywodraethu a rheoleiddio newydd ar gyfer y BBC. Daeth y trefniadau hyn yn weithredol yn ffurfiol ar 3 Ebrill 2017.

Ym maes llywodraethu, disodlwyd hen strwythur Bwrdd Gweithredol ac Ymddiriedolaeth y BBC gan Fwrdd unigol y BBC.

Mae'r trefniadau rheoleiddio ar gyfer y Gorfforaeth, a arferid cael eu rhannu rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac Ofcom, bellach yn nwylo Ofcom yn llwyr, fel sy'n digwydd ar gyfer darlledwyr eraill y DU.

## Y Bwrdd

Mae Bwrdd newydd, unedol y BBC dan arweiniad Cadeirydd anweithredol, Syr David Clementi, ac mae'n cynnwys mwyafrif o aelodau anweithredol ynghyd ag aelodau gweithredol yn cynnwys Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Olygydd y BBC, Tony Hall. O'r deg aelod anweithredol, caiff pedwar eu penodi'n benodol yn aelodau ar gyfer pedair gwlad y DU.

**+** Darllenwch fwy am aelodau'r Bwrdd ar dudalennau 64 a 65

“Mae'r Bwrdd newydd hwn yn cynrychioli oes newydd yn nhrefniadau llywodraethu'r BBC. Am y tro cyntaf, mae gan y BBC un corff llywodraethu sydd â chyfrifoldeb clir am y BBC cyfan.”

Syr David Clementi  
Cadeirydd

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus fel y nodir yn y Siarter, ac mae'n gwneud hyn drwy: bennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer y BBC; sefydlu'r cylch gwaith creadigol; pennu cyllideb y BBC; a phennu'r fframwaith ar gyfer asesu perfformiad. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am holl weithgareddau'r BBC – yn cynnwys y gwasanaethau a ariennir yn gyhoeddus yn y DU a ledled y byd, yn ogystal â gweithgarwch masnachol y Gorfforaeth.

#### Pwyllgor Gweithredol

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, Tony Hall, yn cadeirio Pwyllgor Gweithredol, sy'n gyfrifol am redeg y BBC o ddydd i ddydd. Mae naw cyfarwyddwr, sy'n rheoli meysydd gweithredol mawr o'r Gorfforaeth, hefyd yn eistedd ar y pwyllgor hwn.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC yn unol â'r strategaeth a'r fframwaith dirprwyo y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd, ac am bob agwedd ar reolaeth weithredol.

#### Rheoleiddio allanol

Y Swyddfa Gyfathrebiadau ('Ofcom') yw rheoleidiwr y BBC. Ofcom yw'r awdurdod rheoleiddio a chystadleuaeth ar gyfer diwydiannau darlledu, telathrebu a phost y DU.

Cyfrifoldeb canolog Ofgem yw rheoleiddio'r BBC. Gwna hyn drwy sefydlu Fframwaith Gweithredu a thrwy bennu trwydded ar gyfer y BBC sy'n cynnwys yr amodau rheoleiddio a bennwyd ganddo ar gyfer y BBC. Mae Ofcom hefyd yn asesu perfformiad, yn sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol ac yn rheoleiddio'r rhyngweithio rhwng gweithgarwch gwasanaeth cyhoeddus a masnachol y BBC. Mae Ofcom hefyd yn rheoleiddio cynnwys ac allbwn y BBC yn erbyn ei God Darlledu.

Ceir rhagor o fanylion am Ofcom a'i gyfrifoldebau ar ei wefan.

#### Y trefniadau archwilio

Penodwyd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Syr Amyas Morse CBE, yn archwilydd allanol y BBC; caiff ei gefnogi yn ei rôl gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG). Mae Syr Amyas a'r SAG yn annibynnol ar lywodraeth. Fel rhan o'r trefniadau llywodraethu newydd, mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn archwilio, ardstystio ac adrodd ar gyfrifon grŵp y BBC a chaiff ei benodi'n archwilydd is-gwmnïau perthnasol y BBC oni fydd ef a'r BBC yn cytuno fel arall. Ceir rhagor o fanylion am y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'u cyfrifoldebau ar wefan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.


Y Ganolfan Ddarlledu Newydd, Llundain






# Cyflawni ein dibenion

Mae dibenion cyhoeddus y BBC yn disgrifio'r gwerth cyhoeddus y mae'r BBC am ei sicrhau wrth gyflawni ei genhadaeth i hysbysu, addysgu a diddanu.

 I ddarllen y dibenion cyhoeddus yn llawn, ewch i: [bbc.co.uk/corporate2/insidethebbc/whoweare/bbc\\_royal\\_charter](http://bbc.co.uk/corporate2/insidethebbc/whoweare/bbc_royal_charter)

1


Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch

 Darllenwch fwy ar dudalennau 15 a 30

*Damilola, Our Loved Boy a enillodd ddwy wobwr BAFTA*


2

Cefnogi dysgu i bobl o bob oedran

 Darllenwch fwy ar dudalennau 16 a 59


3

Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau

 Darllenwch fwy ar dudalennau 17 a 22


4

Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y DU

 Darllenwch fwy ar dudalennau 18 a 60

5

Adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

 Darllenwch fwy ar dudalennau 19 a 32

# Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch

**Bu'n 12 mis eithriadol o ran gwleidyddiaeth ddomestig a byd-eang, ac mae'r rôl sydd gan BBC Newyddion – i hysbysu cynulleidfaoedd â newyddion annibynnol a diduedd yr ymddiriedir ynddo, gan ychwanegu cyd-destun, dadansoddiad a mewnwleidiad, gan ddwyn pobl sydd mewn grym i gyfrif, a rhoi ymdeimlad o le i bobl yn eu cymuned – wedi bod yn hollbwysig i'r DU ac yn fyd-eang.**

## Ar gyfer ein cynulleidfaoedd

BBC Newyddion yw'r darparwr newyddion mwyaf yn y DU o hyd. Gwnaethom gyrraedd tri chwarter yr oedolion yn y DU bob wythnos yn 2016/17; mwy nag unrhyw ddarparwr newyddion arall. Ar y teledu, gwyliodd gwyliwr newyddion teledu cyffredin y BBC fwy na dwy awr a hanner o BBC Newyddion bob wythnos, ac ar y radio, gwrandawr gwrandawr cyffredin BBC Newyddion a chynnwys materion cyfoes am bron i bump awr a hanner yr wythnos, gyda rhaglen *Today* BBC Radio 4 yn cyhoeddi ei ffigurau cynulleidfa uchaf erioed. Denodd BBC Newyddion

ar-lein ychydig yn llai na 30 miliwn o borwyr unigryw wythnosol yn y DU ar gyfartaledd.

O gymharu â sefydliadau newyddion eraill, y BBC yw'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynddi fwyaf yn y DU o bell ffordd o hyd. Dywedodd 57% o bobl mai'r BBC yw'r un ffynhonnell newyddion y byddent yn fwyaf tebygol o droi ati ar gyfer newyddion y maent yn ymddiriedir ynddo ac am ddarllediadau newyddion cywir, gyda'r darparwr agosaf ar 10%. A'r BBC yw'r ffynhonnell newyddion y mae pobl yn dweud eu bod yn troi ati ar gyfer darllediadau newyddion diduedd, gyda 50% o gyhoedd y DU yn dweud mai'r BBC yw'r un ffynhonnell y byddent yn troi ati ar gyfer newyddion diduedd, sydd ymhell ar y blaen i'r holl ddarparwyr newyddion eraill.

## Ar gyfer cymdeithas

Mae cynulleidfaoedd yn troi at y BBC dro ar ôl tro ar gyfer sylw a roddir i ddigwyddiadau newyddion mawr pan fydd gwerth BBC Newyddion i gymdeithas y DU fwyaf amlwg. Yn ystod y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd, y BBC oedd y darparwr newyddion a ddefnyddiwyd fwyaf ac yr ymddiriedwyd fwyaf ynddo drwy gydol yr ymgyrch. Dilynodd 87% o bobl yn y DU newyddion yn ofalus ynghylch canlyniad y bleidlais, gan olygu mai'r stori hon a ddilynwyd fwyaf ers dechrau cofnodi wyth mlynedd yn ôl. Ymwelodd 53 miliwn o borwyr unigryw yn fyd-eang â BBC Newyddion ar-lein ar y diwrnod y cyhoeddwyd y canlyniad, y ffigur mwyaf erioed, gyda 26 miliwn o bobl yn gwylio'r darllediadau ar y teledu ar 23 a 24 Mehefin. Hefyd, ymgysylltodd un rhan o dair o'r oedolion yn y DU â'r sylw a roddodd BBC Newyddion i'r canlyniadau ar y cyfryngau cymdeithasol.

Yn fyd-eang, helpodd y sylw a roddodd y BBC i etholiad Arlywyddol yr UD bron i ddwy ran o dair o gynulleidfaoedd y DU i ddeall beth oedd y canlyniad yn ei olygu i'r UD, y DU a'r byd – nifer llawer uwch na'r darparwyr eraill – a daeth rhwydwaith y BBC o ohebwyr â darllediadau a dadansoddiadau o bob cwr o'r byd; yn cynnwys yr ymosodiadau terfysgol yn Nice a ledled Ewrop, a'r gwrthdaro parhaus yn Syria.

Mae BBC Newyddion yn parhau i fireinio ei allbwn er mwyn denu cynulleidfaoedd newydd. Mae fformatau newydd fel BBC Stories yn helpu i gyrraedd cynulleidfa ehangach. Gwyliwyd ffilm a ddangosodd ddyfais newydd chwyldroadol a alluogodd merch ifanc â chyflwr Parkinson i ddechrau darlunio eto fwy na 60 miliwn o weithiau ar Facebook yn unig.

Mae allbwn materion cyfoes y BBC yn parhau i bennu'r agenda newyddion ac yn dylanwadu ar drafodaeth genedlaethol gyda'i bwyslais ar newyddiaduraeth wreiddiol o'r radd flaenaf. Cyrhaeddodd ymchwiliad *Panorama* i Bapurau Panama yn *Tax Havens of the Rich and Powerful Exposed* 4.8 miliwn o wylwyr teledu.

## Ar gyfer y DU

Mae cenhadaeth y BBC i ddod â newyddion diduedd a chywir i gynulleidfaoedd yn atgyferthu'r DU ac rydym yn gweithio i sicrhau'r effaith fwyaf.

Fel rhan o brosiect Bwletin Ysgol y BBC, gweithiodd BBC Newyddion gyda 900 o ysgolion a thua 30,000 o fyfyrwyr. Drwy fentora a hyfforddiant digidol, mae'r rhaglen yn gweithio gyda'r bobl ifanc hyn i archwilio themâu cywirdeb a didueddrwydd mewn darllediadau newyddion, yn ogystal â helpu i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau. Hefyd, mae Bwletin Ysgol y BBC yn helpu'r rhai sy'n ystyried gyrfa yn y cyfryngau.

Mae'r BBC hefyd wedi cyhoeddi cynlluniau i fuddsoddi tua £8 miliwn y flwyddyn mewn partneriaethau newyddion lleol er mwyn gwella'r ddarpariaeth o newyddiaduraeth leol yn y DU. Mae'r cynigion yn cynnwys recriwtio 150 o ohebwyr democratiaeth leol; cyfuno cynnwys sain a fideo lleol y BBC i'w ddefnyddio gan sefydliadau newyddion lleol a rhanbarthol ledled y DU; a chreu canolfan newyddiaduraeth data leol a rennir yn Birmingham.

Mae'r BBC wedi lansio nifer o fesurau mewn ymateb i bryderon newydd am ddibynadwyedd a chywirdeb newyddion yn gyffredinol. Rydym yn gweithio gyda llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a sefydliadau newyddion eraill i fynd i'r afael â'r heriau.



# 76%



o oedolion yn y DU wedi defnyddio BBC Newyddion bob wythnos yn 2016/17.

## 2 Cefnogi dysgu i bobl o bob oedran

**Mae dysgu yn ei ystyr ehangaf yn hanfodol i les unrhyw wlad, ac adlewyrchwyd hyn yn y pwys y mae'r cyhoedd yn y DU yn ei roi ar ddiben addysgol y BBC a'i ffocws newydd ar flaenoriaethau strategol y BBC.**

### Ar gyfer ein cynulleidfaoedd

Ar deledu, radio ac ar-lein, mae'r BBC yn parhau i helpu ei gynulleidfaoedd i ddysgu am amrywiaeth syfrdanol o bynciau drwy gynnwys ffeithiol o'r radd flaenaf. Mae *The Big Painting Challenge*, *The Great British Sewing Bee* a *The Great Pottery Throw Down* i gyd wedi ysgogi awydd gwylwyr i ymddiddori mewn pethau newydd a meithrin sgiliau newydd. Yn gyffredinol, mae mwy na saith o bob deg (72%) yn cytuno eu bod wedi 'dysgu pethau newydd o raglenni neu gynnwys ar-lein ar y BBC'.

O *Alphablocks* a *Numberblocks*, *Nina and the Neurons* a *Do You Know?* ar CBeebies, i *Newsround*, *Blue Peter*, *Absolute Genius* a *Horrible Histories* ar CBBC, mae ein sianelau i blant yn cynnig ffyrdd hwyliog a difyr i'n cynulleidfa ifancaf ddysgu; gyda chyfoeth o adnoddau a gweithgareddau ar-lein yn helpu rhieni i gefnogi datblygiad sgiliau rhifedd, iaith a chymdeithasol plant drwy eu blynyddoedd cynnar.

### Ar gyfer cymdeithas

Mae BBC Bitesize yn parhau i fod yn adnodd a werthfawrogir yn fawr i filiynau o blant a phobl ifanc, gan eu helpu drwy eu haddysg ffurfiol gydag adnoddau ar-lein sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm. Mae'r cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog wedi cynyddu 10% flwyddyn ar ôl blwyddyn i i 2.1 miliwn o borwyr unigryw yn y DU, gan gyrraedd uchafswm o 3.3 miliwn yn ystod cyfnod arholiadau'r haf yn 2016. Yn 2016, lansiodd ap adolygu Bitesize newydd sydd eisoes wedi'i lawrlwytho fwy na 500,000 o weithiau. Mae Bitesize yn gwneud gwahaniaeth go iawn i ddysgwyr ifanc gydag 81% o ddefnyddwyr yn dweud ei fod wedi'u helpu i ddeall eu gwaith ysgol neu waith cartref yn well, 57% o ddefnyddwyr ysgol uwchradd yn dweud ei fod wedi'u helpu i gael graddau gwell yn yr ysgol, a 30% o'r rhai sydd wedi'i ddefnyddio i adolygu ar gyfer eu harholiadau TGAU neu gymwysterau cenedlaethol yn dweud bod pwnc na fyddent wedi llwyddo ynddo hebdo.

Cynyddodd y BBC ei gymorth hefyd i ysgolion ac athrawon dros y flwyddyn ddiwethaf, gan

ail-greu teledu ysgolion drwy *BBC Live Lessons* a lansio sianel YouTube newydd BBC Teach, sy'n helpu athrawon i ddod o hyd i fideo sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm i'w ddefnyddio mewn gwersi. Mae mwy na thri o bob pump oedolyn (62%) yn cytuno bod 'y BBC yn helpu plant/pobl ifanc yn eu harddegau gyda'r hyn maent yn ei ddysgu yn yr ysgol/coleg', sy'n codi i 66% ar gyfer rhieni sydd â phlant ar yr aelwyd.

Cafodd pobl ifanc hefyd eu hannog i fod yn ddinasyddion da drwy ymgyrch #1MillionHours Radio 1 a 1Xtra, gyda chyfanswm o fwy nag 1.1 miliwn o oriau gwirfoddoli yn cael eu haddo.

Eleni, mae'r BBC wedi helpu sgiliau darllen a llythrennedd drwy arwain sgwrs genedlaethol am lyfrau a dathlu effeithiau cadarnhaol darllen ac ysgrifennu er pleser. Roedd *Comedy Classroom* y BBC, a ddarparwyd mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol, yn ffordd unigryw i athrawon ddefnyddio chwerthin mewn gwersi er mwyn hyrwyddo llythrennedd mewn ffordd hwyliog a difyr. Ymgysylltwyd â chynnwys yr ymgyrch #CaruDarllen, a gynluniodd i ymgysylltu â phobl ifanc ac annog sgwrsiau am lyfrau, 900,000 o weithiau ar ffurf hoffi, rhannu a sylwadau ac ati.

Ysbrydolodd *500 Words* ar Radio 2, sydd bellach yn ei wythfed flwyddyn, fwy na



Nod BBC Terrific Scientific yw ysbrydoli plant ysgol gynradd i deimlo gwefr gwyddoniaeth.

120,000 o blant i ysgrifennu straeon byrion a chreadigol. Drwy *Awesome Authors Live* ar CBBC, a gyflwynwyd gyda'r Royal Shakespeare Company a BookTrust, cafodd plant gwrdd â rhai o'u hoff awduron mewn digwyddiadau yn Birmingham ac mewn llyfrgelloedd ledled y DU. Dywedodd 92% o blant 6 i 12 oed a arolygwyd eu bod yn bwriadu gwneud rhywbeth newydd a dywedodd 88% eu bod am ddarllen mwy.

### Ar gyfer y DU

Eleni, mae'r BBC wedi gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o sefydliadau i gyflwyno ymgyrchoedd addysgol trawsnewidiol sydd o fudd i'r DU yn ehangach. micro:bit y BBC yw un o'n mentrau addysgol mwyaf uchelgeisiol ers y BBC Micro gwreiddiol yn y 1980au. Gan weithio gyda mwy na thri deg o bartneriaid, cafodd un filiwn o ddyfeisiau codio bach y gellir eu rhaglennu eu gweithgynhyrchu a'u dosbarthu i bob plentyn ym Mlwyddyn 7 (neu flwyddyn gyfatebol) ledled y DU, gan ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o arloeswyr digidol. Dywedodd naw o bob deg o ddisgyblion Blwyddyn 7 a arolygwyd a oedd wedi defnyddio'r micro:bit ei fod wedi'u helpu i ddangos y gall unrhyw un godio, a dywedodd 39% o ferched Blwyddyn 7 a oedd wedi'i ddefnyddio y byddent yn bendant yn dewis TGCh/cyfrifiadura o gymharu â 23% cyn i'r ymgyrch ddechrau. Ymysg athrawon, cytunodd 93% fod eu myfyrwyr wedi dysgu rhywbeth newydd.

Ein hymgyrch newydd i ysgolion yw BBC Terrific Scientific, menter feiddgar ac uchelgeisiol i ysbrydoli plant ysgol gynradd i deimlo gwefr gwyddoniaeth. Cyflwynir y fenter mewn partneriaeth â Wellcome a sefydliadau academaidd a gwyddonol eraill, ac mae'n cefnogi angen brys y DU i fwy o bobl ifanc ennill cymwysterau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg ('STEM').

Roedd dyfodol diwydiannau creadigol y DU yn ffocws unwaith eto i Academi Radio 1, a gynhaliwyd yng Nghaerwysg eleni yn y cyfnod cyn Big Weekend Radio 1. Helpodd gweithdai a sesiynau holi ac ateb fwy nag 8,000 o bobl ifanc a oedd yn bresennol. Dywedodd 98% o'r cyfranogwyr a arolygwyd eu bod wedi meithrin eu gwybodaeth drwy fod yno a nododd 75% eu bod wedi'u hysbrydoli i wneud rhywbeth gwahanol.



### 3 Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau

**Roedd 2016/17 yn flwyddyn gyfoethog am greadigrwydd yn y BBC, o Planet Earth II a ddenodd gynulleidfaoedd teledu oedd ymysg yr uchaf a welwyd, i ddarllediadau arloesol 360 gradd o'r Gemau Olympaidd, i'r stori hynod rymus am gam-drin domestig ar The Archers, yr archwiliad cymhellol o alar gyda Rio Ferdinand: Being Mum and Dad, y rhaglen arbennig a ddathlodd saith degawd o gerddoriaeth a diwylliant arloesol ar Radio 3, darllediadau o'r Gemau Invictus a rhaglenni comedi a drama heriol a chlodwiw fel Fleabag a Taboo.**

Yn ddigidol, BBC Three oedd un o'r sianelau darlledu cyntaf yn y byd i fynd ar-lein yn unig; gan arbrofi gyda ffurf, cynnwys a naws, er mwyn ysbrydoli ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd iau ar draws nifer o lwyfannau.

**+** Ceir rhagor o wybodaeth am BBC Three ar-lein ar dudalen 28

#### Ar gyfer ein cynulleidfaoedd

Rydym yn parhau i wynebu cystadleuaeth ddwys ac ymddygiad heriol gan gynulleidfaoedd, yn enwedig ymysg cynulleidfaoedd iau. Mae hynny wedi rhoi pwysau ar gyrraedd diwylliant, yn y DU a ledled y byd – enillodd *The Night Manager* ddeg gwobr yn cynnwys tri Golden Globe, ac enillodd *Exodus: Our Journey to Europe* chwe gwobr yn cynnwys y Gyfres Ddogfen Orau yng Ngwobrau Rhaglenni'r Gymdeithas Deledu Frenhinol. Gyda'i gilydd, enillodd y BBC I9 o wobrau teledu BAFTA ac I3 o wobrau'r Gymdeithas Deledu Frenhinol, a chafodd BBC Three chwe gwobr, sy'n anhygoel, yn cynnwys Sianel y Flwyddyn. Cafodd Radio'r BBC hefyd ei gydnabod, gyda I3 gwobr aur yn ARIAS yr Academi Radio (Gwobrau Sony gynt) ac enillodd Radio 2 yr orsaf radio genedlaethol orau.

O ran ansawdd, mae sgorau mynegai gwerthfawrogiad wedi parhau'n sefydlog ar gyfer teledu ar 80.3 ac ar gyfer radio ar 81. Caiff cynnwys y BBC ei gydnabod yn eang yng ngwobrau'r diwylliant, yn y DU a ledled y byd – enillodd *The Night Manager* ddeg gwobr yn cynnwys tri Golden Globe, ac enillodd *Exodus: Our Journey to Europe* chwe gwobr yn cynnwys y Gyfres Ddogfen Orau yng Ngwobrau Rhaglenni'r Gymdeithas Deledu Frenhinol. Gyda'i gilydd, enillodd y BBC I9 o wobrau teledu BAFTA ac I3 o wobrau'r Gymdeithas Deledu Frenhinol, a chafodd BBC Three chwe gwobr, sy'n anhygoel, yn cynnwys Sianel y Flwyddyn. Cafodd Radio'r BBC hefyd ei gydnabod, gyda I3 gwobr aur yn ARIAS yr Academi Radio (Gwobrau Sony gynt) ac enillodd Radio 2 yr orsaf radio genedlaethol orau.

#### Ar gyfer cymdeithas

Rydym wedi cynnal amrywiaeth ac ehangder unigryw ein gwasanaethau ar radio a theledu; gan ragori ar ein cwotâu rheoleiddio ar gyfer oriau mewn genres fel y celfyddydau, cerddoriaeth a chrefydd. Dangosodd ymchwil gan Ymddiriedolaeth y BBC fod tri o bob pum person (59%) yn cytuno bod gan y BBC lawer o syniadau ffres a newydd, a chytunodd tua hanner (49%) fod y BBC yn darparu rhaglenni nodedig a chynnwys ar-lein na fyddai unrhyw ddarlledwr arall yn ei wneud.

Roedd hefyd yn flwyddyn gref ar gyfer arloesedd o ran ffurf a thechnoleg, gyda seinwedd ymdrochol arloesol yn cael ei dangos yn y ddrama realiti rhithwir glodwiw *Turning Forest*. Cyflwynodd BBC Taster fformataw newydd i gynulleidfaoedd, fel RemArc, neu Reminiscence Archive, a gynlluniwyd i helpu i gymell atgofion ymysg pobl â dementia gan ddefnyddio deunydd BBC Archive fel ysgogiad.

Arbrofodd BBC Three gyda chynnwys ffurf fer newydd, gan gynnwys newyddiadau ymchwilol mewn penodau 15 munud o hyd o *Unsolved* a'r llinyn *Amazing Humans* a aeth yn feiral ar y cyfryngau cymdeithasol gydag un fideo yn unig yn cael ei gwyllo fwy na 95 miliwn o weithiau yn fyd-eang ar Facebook.

Yn y byd digidol, mae rhestrau chwarae cerddoriaeth ac ap BBC Music yn dechrau ail-greu'r ffordd y mae Radio'r BBC yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd. Mae Radio'r BBC hefyd wedi creu cyfleoedd newydd i wrandawyr ymgysylltu drwy fentrau fel proses ryngweithio amser real i gynulleidfaoedd Radio 5 live yn y cyfnod cyn refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, a gorsafodd radio dros dro fel BBC Music Jazz a Radio 2 Country.

#### Ar gyfer y DU

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio gyda 54 o gwmnïau cynhyrchu teledu annibynnol yn y DU nad oeddem wedi gweithio gyda nhw o'r blaen, ac wedi cyrraedd neu ragori ar y cwotâu ar gyfer oriau o allbwn o gynyrchiadau annibynnol ar bob sianel. O'r £1 biliwn a wariwyd yn allanol gan y BBC yn yr economi greadigol, gwariwyd £433 miliwn gyda'r sector cynhyrchu annibynnol, a channoedd o fillynau yn fwy gyda deiliaid hawliau, perfformwyr, talent, cyfarwyddwyr, adnoddau cynhyrchu a cherddorion.

Mae'r BBC wedi agor ei lwyfannau er mwyn cydweithredu a dangos cynnwys partneriaid, er mwyn cynnig y profiad gorau posibl i gynulleidfaoedd. Daeth *Shakespeare Day Live* â phartneriaid fel Shakespeare's Globe a Sefydliad Ffilm Prydain, yr RSC, Gŵyl y Gelli, y Royal Opera House a'r British Council ynghyd. Gweithiodd Radio'r BBC mewn partneriaeth â Spotify, Deezer, YouTube ac Apple ar ap BBC Music, ac mae BBC Introducing yn parhau i gydweithio â'r Academiâu Sgiliau Cenedlaethol a Radio Lleol y BBC er mwyn helpu i feithrin sgiliau cynhyrchu ymysg talent gerddorol ifanc newydd.

Mae'r BBC hefyd yn dal i fod yn ymrwymedig i ddatblygu talent orau'r DU drwy raglenni fel cynllun interniaeth *Where It Begins* Radio 1 a IExtra, sy'n cynnig lleoliadau gwaith â thâl wyth wythnos o hyd sydd wedi'u cynllunio i ddenu amrywiaeth eang o bobl i'r BBC. Un enghraifft arall yw'r cynllun hyfforddeiaeth *Make It Digital* ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed, gyda BBC Three yn canfod talent newydd fel Maxim Bady a Kayode Ewumi, a wnaeth, yn ei dro, helpu'r BBC i ennill pum gwobr Breakthrough Brits BAFTA – mwy nag unrhyw ddarlledwr arall.



Y ddrama glodwiw *Taboo*.

## 4 Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y DU

**Wrth i natur hunaniaeth genedlaethol ac amrywiaeth y boblogaeth fynd yn fwyfwy cymhleth, bydd cenhadaeth y BBC i gynrychioli'r DU gyfan ac i fod yn gynrychioliadol ohoni yn bwysicach fyth. Bydd cyflawni'r diben cyhoeddus allweddol hwn yn thema barhaus drwy gydol cyfnod y Siarter nesaf.**

Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi cynlluniau newydd uchelgeisiol i atgyfnerthu ein rhaglenni a'n gwasanaethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

### Ar gyfer ein cynulleidfaoedd

Mae cynnwys y BBC yn dal i fod yn hynod boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd ledled y gwledydd a'r rhanbarthau. Y cyrhaeddiad cyfartalog o ran gwyllo teledu'r BBC yw 79% yn yr Alban, 78% yng Ngogledd Iwerddon, 80% yn yr Alban ac 82% yng Nghymru. Mae bron hanner yr holl oedolion yn Lloegr (dros 19 miliwn) yn gwyllo o leiaf dri munud o fwletin newyddion teledu rhanbarthol y BBC bob wythnos ac mae bwletin teledu rhanbarthol y BBC gyda'r nos yn cyfrif am un rhan o dair o'r holl deledu a gaiff ei gwyllo ar y pryd. Y bennod gynnar o *Reporting Scotland* gyda'r nos yw rhaglen newyddion teledu fwyaf poblogaidd yr Alban o hyd, ac yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae *Wales Today* a *Newsline* yn dal i berfformio'n gryf.

Mae radio lleol yn Lloegr yn denu 6.4 miliwn o bobl bob wythnos. O'r rhain, mae bron i 1 filiwn o bobl nad ydynt yn gwrando ar unrhyw orsafoedd radio eraill, ac roedd chwarter ohonynt yn gwrando ar fwy na deg awr yr wythnos.

Rydym yn gwneud mwy er mwyn adlewyrchu'r DU gyfan i'w hunan. Lleolwyd dramâu rhwydwaith fel *The Replacement*, *The Fall* a *Hinterland* yn y gwledydd.

Yng Nghymru a ledled y DU, roedd achlysur nodi 50 mlynedd ers trychineb Aberfan ym mis Medi 1966 yn arbennig o deimladwy. Cafodd *The Green Hollow*, cerddi ffilm gan Owen Sheers a oedd yn cynnwys cyfraniadau gan y gymuned leol, y sgôr uchaf ers pum mlynedd o ran gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd o blith unrhyw raglen ar BBC One.

Aeth ein rhaglenni i'r afael â themâu heriol ynghyd ag adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU. Dilynodd *Transgender Love* ar BBC Scotland chwe unigolyn trawsrywiol yn yr Alban wrth iddynt geisio dod o hyd i gariad a

chynnal cydberthnasau. Un o uchafbwyntiau'r prosiectau cydweithredol oedd prosiect #towerlives ym mis Ebrill, a roddodd lais i straeon pobl o ystad Butetown yng Nghaerdydd lle ceir amrywiaeth ddiwylliannol. Rhoddodd Asian Network Live lwyfan i amrywiaeth o artistiaid Asiaidd o Brydain ac artistiaid De Asiaidd byd-eang, gan gysylltu â chynulleidfa digwyddiad byw o fwy na 3,300 o bobl, yr oedd mwy na 90% ohonynt yn ddu, Asiaidd ac o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (BAME), ac roedd hefyd ar gael ar y Botwm Coch, iPlayer ac ar y radio.

Dathlodd tymor Black and British y BBC, a gyflwynwyd mewn partneriaid â Chronfa Dreftadaeth y Loteri, Historic England, yr Archifau Gwladol, Black Cultural Archives a'r BFI, rôl a chyflawniadau pobl dduon yn y DU ac archwiliodd ddiwylliant a hanes cyfoethog pobl dduon ym Mhrydain gyda rhaglenni beiddgar, bywiog a phryfoclyd ar y BBC. Dywedodd bron hanner (46%) y cynulleidfaoedd duon eu bod wedi dysgu rhywbeth newydd o'r tymor.

### Ar gyfer cymdeithas

Roedd y gorsafoedd radio cenedlaethol yn anhepgor wrth adrodd ar etholiadau datganoledig mis Mai 2016 ac eto yn ystod mis Mawrth 2017 yng Ngogledd Iwerddon. Cyrhaeddodd darllediadau teledu BBC Northern Ireland o'r canlyniadau etholiadol fwy na hanner y boblogaeth oedolion lleol. Chwaraeodd pob llwyfan ran allweddol yn helpu cynulleidfaoedd i wneud synnwyr o refferendwm yr Undeb Ewropeaidd a beth yr oedd yn ei olygu i'w gwlad.

Parhaodd y BBC â'i gefnogaeth unigryw i ieithoedd brodorol y DU ar deledu, radio ac ar-lein, a pharhaodd BBC Alba ac S4C i fod yn bartneriaid allweddol wrth gyflawni ein hymrwymiad.

### Ar gyfer y DU

Parhaodd y BBC i gyfrannu'n helaeth at yr economi greadigol ledled y DU, o fewn y BBC ac yn y sector annibynnol. Cynyddodd buddsoddiad y BBC yn yr Alban yn sylweddol, gyda gwariant rhwydwaith yn codi o £73 miliwn y flwyddyn flaenorol i fwy na £93 miliwn. Yng Nghymru, parhaodd y buddsoddiad hwn ar £63 miliwn ac yng Ngogledd Iwerddon, £30 miliwn oedd y gwariant ar gynnwys rhwydwaith.

Gwnaed cynnydd sylweddol yn y broses o gyflawni targedau amrywiaeth staff y BBC. Mae staff du, Asiaidd ac o gefndiroedd lleiafrifoedd



Dathlodd tymor Black and British rôl a chyflawniadau pobl dduon yn y DU ac archwilio diwylliant a hanes cyfoethog pobl dduon ym Mrydain.

ethnig (BAME) bellach yn cynrychioli 14.5% o'r gweithlu cyffredinol a 10.3% o'n timau arwain. Mae hyn yn golygu ein bod wedi cyflawni ein targedau ar gyfer 2017 a'n bod ar y trywydd cywir i gyflawni ein targed o 15% erbyn 2020. Cyfran y staff ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor yw 10.2%, gyda 9.6% mewn rolau arwain. Mae merched bellach yn cynrychioli 48.2% o'r gweithlu gyda 42.1% mewn rolau arwain o gymharu â'n targed o 50% ar gyfer 2020. Mae staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn cyfrif am 10.5% o'n holl weithlu ac 11.5% o fewn ein timau arwain, o gymharu â'n targed o 8% ar gyfer 2020. A chyflawnwyd y targed o sicrhau bod prentisiaid yn cyfrif am fwy nag 1% o weithlu'r BBC yn 2014; ddwy flynedd cyn y disgwyl. Mae'r ffigur hwnnw bellach wedi codi o gyfanswm 2014 o 177 i fwy na 230, ac mae uchelgais newydd bellach i gynnyg mwy na 400 o brentisiaethau erbyn 2018.

**+** Darllenwch fwy am amrywiaeth yn y BBC ar dudalen 60

Mae'r holl dargedau hyn yn rhan o ddiben cyhoeddus y BBC i ganfod a hyfforddi'r dalent fwyaf creadigol, pwyl bynnag a lle bynnag y maent. Drwy wneud hynny, y dyhead yw bydd y BBC yn creu gweithlu gwirioneddol amrywiol sy'n adlewyrchu dynameg newidiol poblogaeth y DU.

## 5 Adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

**Y BBC yw un o allforion diwylliannol mwyaf y DU. Yn dilyn buddsoddiad ychwanegol gan y Llywodraeth eleni, gwnaethom gyhoeddi'r ehangiad unigol mwyaf o'r World Service ers y 1940au. Bydd y buddsoddiad hwn yn darparu gwasanaethau mewn 12 o ieithoedd newydd, gwella allbwn yn y Dwyrain Canol, Affrica a Rwsia, a chefnogi trawsnewidiad digidol allbwn newyddion y BBC.**

### Ar gyfer ein cynulleidfaoedd

Cyrhaeddodd y BBC gynulleidfa fyd-eang wythnosol o 372 miliwn yn 2016/17 (348 miliwn yn 2015/16). Tyfodd cyrhaeddiad wythnosol y Grŵp World Service i 346 miliwn (o 320 miliwn yn 2015/16), yr oedd y World Service yn cyfrif am 269 miliwn ohono (i fyny o 246 miliwn yn 2015/16).

**+** Darllenwch fwy am berfformiad y World Service ar dudalennau 32 a 33

Cyrhaeddodd BBC Worldwide gynulleidfa wythnosol o 36 miliwn o fewn y flwyddyn, drwy allforio cynnwys o ansawdd uchel i ddarlledwyr ledled y byd, a chynnal ei wasanaethau brand y BBC ei hun fel BBC First a BBC AMERICA, partneriaeth ar y cyd ag AMC Networks.

### Ar gyfer cymdeithas

Yn fyd-eang, mae'r angen am newyddion dibynadwy y gellir ymddiried ynddo yn fwy nag erioed. Mae cymdeithasau yn gynyddol ar chwâl ac mae rhyddid y wasg mewn sawl gwlad yn parhau i fod dan fygythiad. Yn y cyd-destun hwn y caiff y BBC ei sgorio yn un o'r darparwyr newyddion rhyngwladol yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn gyson ac mae'r World Service yn parhau i fod yn ffynhonnell werthfawr o newyddion a gwybodaeth ar gyfer cynulleidfaoedd ledled y byd.

Mae gan BBC Newyddion hanes digyffelyb o roi sylw i ddigwyddiadau mawr byd-eang. Rydym wedi gohebu ar lawr gwlad o reng flaen Mosul, a helpodd raglen glodwii *Islamic State's Most Wanted* a ddarlledwyd ym mis Ebrill i ddangos i'r byd sut fywyd sydd gan bobl ifanc yn eu harddegau sy'n byw dan reolaeth y Wladwriaeth Islamaidd fel y'i gelwir yn Raqqa, Syria. Ym mis Gorffennaf, chwaraeodd BBC

Turkish rôl arweiniol yn gohebu ynghylch yr ymgais i wrthryfela yn erbyn Arlywydd Erdogan. gyda chynulleidfaoedd yn troi at y BBC i gael y darlun llawn, yn ogystal ag er mwyn cael dadansoddiad o'r gwaharddiad dros y misoedd canlynol. Mae'r World Service hefyd yn parhau i ymgysylltu â chynulleidfaoedd iau, benywaidd drwy 100 Women; cyfres aml fformat sy'n archwilio rôl merched yn yr 21ain ganrif. Mae'r fenter hon bellach yn ei thrydedd flwyddyn.

Yn ogystal â bod yn ddoesbarthwr mawr, mae BBC Worldwide yn hyrwyddo creadigrwydd Prydeinig drwy fuddsoddi mewn cynnwys o'r radd flaenaf o'r DU, ei fasnacheiddio a'i arddangos. Gwerthwyd *Planet Earth II* Syr David Attenborough i 168 o diriogaethau bellach. Y tro cyntaf iddi gael ei darlledu yn yr UD oedd y telediad heb ei sgrïptio mwyaf poblogaidd erioed ar BBC AMERICA a'r rhaglen natur fwyaf poblogaidd erioed ar deledu'r UD yn y pum mlynedd diwethaf. Gwylwyd casgliad o gynnwys *Planet Earth II* ar Tencent fy na 200 miliwn o weithiau yn Tsieina.

Mae BBC Media Action, elusen datblygu rhyngwladol y BBC, yn gweithio gyda'r cyfryngau er mwyn hysbysu pobl, cysylltu â nhw a'u grymuso ac er mwyn helpu i ddod â newid parhaus i fywydau unigolion. Y llynedd, cyrhaeddodd yr elusen fwy na 200 miliwn o bobl yn 28 o'r gwledydd tlotaf a mwyaf bregus yn wleidyddol yn y byd, a chefnogodd fwy na 100 o bartneriaethau hyfforddiant er mwyn atgyfnerthu ac arddangos rhinweddau cyfryngau rhydd ac annibynnol.

### Ar gyfer y DU

Mae'r BBC yn ffynhonnell balchder a dylanwad i'r DU o hyd, ac mae talwyr ffi'r drwydded yn cael budd o gryfder byd-eang y BBC. Mae BBC Worldwide yn dal i wneud elw ariannol cryf a chynaliadwy i'r BBC, sy'n golygu y gellir buddsoddi mwy mewn cynnwys. Yn 2016/17, crëwyd 68% o'r prif refeniw y tu allan i'r DU, gyda £210 miliwn yn cael ei ddychwelyd i'r BBC yn 2016/17.

Mae BBC Monitoring yn parhau i ddarparu gwasanaeth gwerthfawr i'r BBC, Llywodraeth y DU ac amrywiaeth o gwsmeriaid a chleientiaid masnachol eraill drwy gyfieithu a dadansoddi newyddion a gwybodaeth o ffynonellau

cyfryngau sydd ar gael yn rhydd ledled y byd gan gwmpasu dros 100 o ieithoedd gwahanol o 150 o wledydd gwahanol.

Rydym wedi parhau i gyflwyno arbenigedd ein newyddiadurwyr World Service dwyieithog i'n cynulleidfaoedd yn y DU, yn ogystal ag yn rhyngwladol. Mae newyddiadurwyr BBC World Service wedi darparu rhai o'r munudau darlledu mwyaf cofiadwy eleni, o'r adeg y wynebodd Feras Kilani ymosodiad bom ym Mosul i Selin Girit yn lleoliad yr ymosodiad terfysgol dros y flwyddyn Newydd yn Istanbul.



Mae BBC Media Action yn gweithio gyda'r cyfryngau i hysbysu, cysylltu a grymuso pobl yn y gwledydd tlotaf a mwyaf bregus yn wleidyddol.



# Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf

Dros gyfnod y Siarter nesaf, rydym wedi gosod nod cyffredinol i'n hunain i ail-greu'r BBC ar gyfer cenhedlaeth newydd. Mae'r crynodeb hwn o Gynllun Gwaith Blynyddol y BBC, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, yn amlinellu ein strategaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar-lein: [bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/reports/annual\\_plan\\_2017](http://bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/reports/annual_plan_2017)

## Bydd pum amcan strategol yn ein helpu i ganolbwyntio ein hymdrechion dros y flwyddyn nesaf

### Sicrhau bod pawb yn cael gwerth o'r BBC

Er bod cyrhaeddiad y BBC yn uchel iawn, mae gwahaniaeth mawr a chynyddol rhwng y cynulleidfaoedd sy'n gwneud y defnydd mwyaf ohonom a'r rhai sy'n gwneud y defnydd lleiaf. Dros y tair blynedd nesaf, ein nod yw unioni'r diffyg cydbwysedd hwn ac atal y duedd. Yn bennaf, mae hyn yn golygu apelio'n fwy effeithiol i bobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig a chynulleidfaoedd ledled gwledydd a rhanbarthau'r DU.

Mae strategaeth dosbarthu'r BBC yn allweddol er mwyn cyflawni'r amcan hwn, gan ddenu cynulleidfaoedd at raglenni llai cyfarwydd a pherlau gwasanaeth cyhoeddus, sy'n hanfodol i'n cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus ac yn un o seiliau ein natur nodedig. Bydd y polisi dosbarthu y byddwn yn ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni yn egluro'r amcanion hyn yn fanylach, a chaiff fframwaith ac egwyddorion y BBC eu defnyddio i'w darparu.

**+** [Darllenwch fwy ar dudalennau 22 i 45](#)

### Darparu rhaglenni a gwasanaethau o'r radd flaenaf

Mae'r BBC yn gweithredu mewn marchnad cyfryngau fyd-eang. Mae cynulleidfaoedd yn y DU yn cymharu'r hyn a wnawn â'r gorau y gall y byd ei gynnig. Mae brand y BBC yn cynrychioli cynnwys Prydeinig. Dyna yw ein prif ffocws, ar adeg lle ceir sawl risg i gryfder traddodiadol economi greadigol Prydain. Mae BBC Studios yn darparu llif hanfodol o dalent,

arbenigedd ac ymrwymiad i bob ffurf ar raglenni teledu, ledled y DU, i'r holl ddiwydiant.

**+** [Darllenwch fwy yn: \[BBCStudios.com\]\(http://BBCStudios.com\)](#)

### Ehangu cyrhaeddiad byd-eang y BBC

Gyda'r cyllid newydd ar gyfer y World Service wedi'i gytuno gyda'r Llywodraeth, nod y BBC yw ehangu ei gyrhaeddiad i 500 miliwn o ddefnyddwyr erbyn 2022, gan ychwanegu 12 o ieithoedd newydd i'w bortffolio presennol o wasanaethau.

Mae BBC Worldwide hefyd wedi llunio portffolio sianelau byd-eang llwyddiannus, gan greu elw i fuddsoddi mewn rhaglenni yn y DU ac ehangu brand y BBC yn fyd-eang mewn ffordd sy'n ategu'r World Service.

**+** [Darllenwch fwy ar dudalennau 32 a 50](#)

### Gwneud y BBC yn lle gwych i weithio ynddo

Mae sefydliad creadigol fel y BBC yn dibynnu ar dalentau, sgiliau ac ysgogiad ei bobl. Drwy raglen eang i ymgysylltu â staff, rydym wedi gwrandao ar beth sydd gan ein staff i'w ddweud am weithio yma. Rydym yn symleiddio ein ffyrdd o weithio, gan ddileu cymhlethdod a'i gwneud yn haws i ddeall beth sy'n digwydd. Credwn ei bod yn hanfodol sicrhau bod gan y BBC weithlu sy'n adlewyrchu'r DU heddiw ac rydym wedi pennu targedau gweithlu newydd ar gyfer 2020 er mwyn sicrhau bod ein cyflogeion mor amrywiol â phoblogaeth y DU.

**+** [Darllenwch fwy ar dudalennau 54 i 60](#)

### Rheoli'r BBC mewn ffordd sy'n rhoi sefydlogrwydd ariannol

Mae'r setliad ariannu pum mlynedd, y cytunwyd arno yn 2015, yn rhoi cyfres glir o bamedrau ariannol i'r BBC y bydd yn gweithredu oddi mewn iddynt hyd at 2021/22. O 2017/18, bydd angen i ni amsugno chwyddiant ar gyfradd o 2% y flwyddyn, sy'n cyfateb i £400 miliwn y flwyddyn erbyn 2021/22. Byddwn yn parhau i wthio'r agenda effeithlonrwydd yn galed, a'n nod fydd cynyddu ein hincwm masnachol hefyd.

Gwyddom beth yw ein nod, a bydd pob eitem fawr o wariant y BBC yn dilyn y dull gweithredu 'Cystadlu neu Gymharu', a gwyddom beth yw'r prif lwybrau i'w cymryd – effeithlonrwydd cynhyrchiol, arbedion cymysgu amserlenni, ailflaenoriaethu ac incwm masnachol.

**+** [Darllenwch fwy ar dudalennau 46 i 53](#)

## 12 blaenoriaeth strategol y BBC

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae Bwrdd y BBC wedi cytuno ar 12 blaenoriaeth ar gyfer y BBC cyfan y credwn eu bod yn hanfodol ar gyfer y broses ail-greu wrth i ni nesáu at y 2020au.

**Datblygu iPlayer a Live:** BBC iPlayer yw un o lwyddiannau mwyaf y BBC. Mae wedi arwain y farchnad ers blynyddoedd ac wedi trawsnewid y ffordd y mae cynulleidfaoedd yn gwyllo'r teledu. Mae'n cyrraedd chwe miliwn o oedolion bob wythnos. Ein nod yn yr hirdymor yw sicrhau mai ni yw'r prif wasanaeth teledu ar-lein yn wyneb cystadleuaeth frwd. Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, rydym yn anelu at ddyblu cyrhaeddiad iPlayer a chynyddu'r amser y mae pob person yn ei dreulio ar y gwasanaeth bedair gwaith.

## Darparu rhaglenni a gwasanaethau o'r radd flaenaf.

Happy Valley sydd wedi ennill gwobrau BAFTA



### Cyrraedd 20 miliwn o aelodau ac adolygu ein brandiau:

Un ffocws strategol pwysig ar gyfer 2017/18 yw personoli. Credwn y gallwn roi gwasanaeth gwell i'n cynulleidfaoedd os byddwn yn gwybod pwy ydynt a beth y gallai fod ganddynt ddi-ddordeb ynddo. Rydym am i bobl allu dod o hyd i gynnwys holl wasanaethau'r BBC mewn ffordd syml a didrafferth, gyda chymorth dulliau chwilio soffistigedig a deallus. Byddwn yn defnyddio data er mwyn sicrhau bod profiadau pobl ar-lein ac all-lein yn fwy perthnasol iddynt ac yn annog cyfranogiad gweithredol, gan wella ein cynhyrchion ar-lein a phrofiadau y mae angen mewngofnodi ar eu cyfer.

**Blaenoriaethu cynulleidfaoedd iau:** Mae angen i ni ganolbwyntio ar ein cynulleidfaoedd iau (0 i 34) a rhoi cynnwys iddynt y maent am ei wyllo, am wrando arno ac am ryngweithio ag ef a sicrhau y gallant ddod o hyd iddo a'i fwynhau mewn ffyrdd sy'n addas i'w bywydau. Mae angen i ni wneud hyn ar gyfer ein holl genres, gwasanaethau a llwyfannau, nid dim ond drwy'r gwasanaethau sy'n benodol ar gyfer pobl ifanc.

**Ail-greu a datblygu sain:** Heddiw, mae gennym rywfaint o'r radio llafar a cherddoriaeth gorau yn y byd, ynghyd ag amrywiaeth neilltuol o gyfoeth sain sydd ar gael i ni. Gyda'n cynnwys sain o'r radd flaenaf, byddwn yn ei ddatblygu o fod yn brofiad dal i fyny sy'n canolbwyntio ar ddarlledu yn bennaf i fod yn brofiad cwbl personol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr. Byddwn yn cynnig mwy o hysblygrwydd o ran fformat, mwy o gynnwys ffurf fer a phodlediadau ynghyd â'r arlwyf ffwf hir ac ar alw.

**Newyddion symudol a 'newyddion araf':** Heddiw, BBC Newyddion Ar-lein yw darparwr newyddion ar-lein pennaf y DU. Mae mwy nag 14 miliwn o oedolion yn defnyddio ap neu wefan BBC News bob wythnos. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant

BBC Stories, gan gynnig mwy o gynnwys symudol a chynnwys cymdeithasol sydd wedi'i anelu at grwpiau cynulleidfâ gwahanol ac yn gwella ein profiad newyddion byw, gan alluogi defnyddwyr i ddilyn y newyddion diweddaraf yn fwy gan newyddiadurwyr unrhyw le yn y byd. Byddwn yn sicrhau bod ein ffocws ar 'newyddion araf' yn helpu pobl i ddeall y 'pam' yn ogystal â'r 'beth'.

**Adfywio ein cenhadaeth addysg:** Credwn fod rhan addysg ein cenhadaeth a'n dibenion wedi bod yn llai gweladwy ac effeithiol na rhannau eraill. Ceir achos cymdeithasol a strategol cryf dros gynyddu ein heffaith yn y maes hwn. Un rhan graidd o'r genhadaeth honno yw ein harlwy i blant. Eleni, byddwn yn buddsoddi mwy mewn allbwn a gwasanaethau i blant. Yn 2017, byddwn yn dechrau cyflwyno'r strategaeth ddiwygiedig hon ar gyfer cynnwys a gwasanaethau plant, gan wario mwy ar ein cyllideb ryngweithiol ddigidol i blant. Ochr yn ochr â hyn, mae Terrific Scientific yn ymgyrch fawr dros 18 mis i ysbrydoli plant o oedran ysgol gynradd i deimlo gwefr gwyddoniaeth.

**Adlewyrchu amrywiaeth y DU yn well:** Mewn DU fwyfwy datganoledig, rydym yn ymrwymedig i adlewyrchu amrywiaeth y DU ym mhob gwlad a rhanbarth. Mae gan y BBC un o weithluoedd mwyaf amrywiol y DU eisoes, ac mae ein targedau yn fwy heriol na'r rhan fwyaf o sefydliadau FTSE 100.

Un rhan hanfodol o'n strategaeth yw ein hymrwymiad i brentisiaid nad ydynt yn raddedig a hyfforddeion graddedig ac rydym wedi pennu targed i sicrhau eu bod yn cyfrif am 2.3% o weithlu'r BBC. Yn ogystal â chyfleoedd prentisiaeth ar gyfer newydd-ddyfodiaid, ein nod yw ehangu ein darpariaeth drwy gynnig prentisiaethau lefel uchel i staff presennol, hyd at lefel Meistr. Byddwn yn canolbwyntio'n fawr ar ein hymrwymiad newydd i wledydd y DU eleni. Rydym yn disgwyl rhagori ar ein targedau cynhyrchu teledu unigol ar gyfer Cymru, yr

Alban a Gogledd Iwerddon, gan wario mwy yn gyfatebol na chanran pob gwlad o'r boblogaeth.

**Datblygu'r World Service:** Rydym yn gweld buddsoddiad sylweddol yn y World Service mewn rhannau o'r byd lle ceir diffyg democrataidd o ran newyddion diduedd. Bydd hyn yn gwella safle Prydain yn y byd ac yn hyrwyddo gwerthoedd Prydeinig.

**Dod yn bartner creadigol i Brydain:** Rydym am gynnig ein galluoedd technolegol a digidol i'n partneriaid, gan ddod â ni'n agosach at ein gilydd er budd y DU i sicrhau'r ddarpariaeth orau i'n cynulleidfaoedd. Mae partneriaeth Tomorrow's World a'n gwaith gyda Hull fel Dinas Diwylliant y DU 2017 yn dangos yr effaith gadarnhaol y gall y BBC ei chael.

**Datblygu BBC Studios a BBC Worldwide:** Rydym wedi lansio BBC Studios fel is-gwmni masnachol: carreg filltir yn y ffordd rydym yn cynhyrchu ac yn cyflenwi cynnwys ar gyfer y BBC. Mae'n gyfle i sicrhau refereniw ar gyfer Grŵp y BBC ochr yn ochr â chefnogi cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus y BBC drwy rannu ein syniadau creadigol â chynulleidfaoedd newydd ledled y byd. Bydd bywiogrwydd a lles BBC Worldwide yn ffactor hanfodol yn llwyddiant y BBC dros gyfnod y Siarter. Her BBC Worldwide yw sicrhau £1.2 biliwn o elw dros bum mlynedd gyntaf y Siarter nesaf: cynnydd o fwy na 15% o gymharu â'r pum mlynedd flaenorol.



# Trosolwg o berfformiad gwasanaethau rhwydwaith



Gwasanaethu pawb gydag amrywiaeth o gynnwys gwych wedi'i gyflwyno mewn ffyrdd newydd.

## Cyrraedd cynulleidfaoedd newydd

### Cyrhaeddiad o ran oedolion



Canran yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos.

95%

2015/16: 96%

### Cyfanswm yr amser a dreulir



Faint o amser y mae cynulleidfaoedd oedolion y DU yn ei dreulio gyda'r BBC bob wythnos.

18.0awr

2015/16: 18.3awr

### Argraff gyffredinol (cyfartaledd cymedrig)



Argraff gyffredinol cynulleidfaoedd o'r BBC.

7/10

2015/16: 7/10

BBC Three drama *Thirteen*



## Ein gwasanaethau

Naw gwasanaeth teledu ledled y DU, gan gynnwys gwasanaeth ar-lein yn unig BBC Three i bobl ifanc.

Gwasanaethau teledu cenedlaethol a rhanbarthol ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Deg rhwydwaith radio ledled y DU a dau wasanaeth radio cenedlaethol yr un yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

40 o orsafoedd radio lleol ledled Lloegr ac Ynysoedd y Sianel.

Teledu, radio a gwasanaethau ar-lein BBC World Service mewn 28 o ieithoedd, gydag 11 arall wedi'u cyhoeddi yn 2016.

Gwasanaethau ar-lein y BBC yn cynnwys Newyddion, Chwaraeon, Tywydd, CBBC, CBeebies, iPlayer ac iPlayer Radio, Botwm Coch y BBC a'n harchif eang drwy amrywiaeth o ddyfeisiau sy'n cysylltu â'r rhyngwrwyd yn cynnwys llechi, ffonau deallus a setiau teledu cysylltiedig – yn ogystal â chyfrifiaduron.

## Cynnwys clodwiw

# 19

Gwobr Teledu Academi Prydain  
Mai 2017



# 2

Wobr Ffilm Academi Prydain  
Chwefror 2017



# 8

Gwobr Emmy  
Medi 2016




# 13

Gwobr Rhaglen RTS  
Mawrth 2017



# 5

Gwobr Golden Globe  
Ionawr 2017



# 8

Gwobr Teledu Genedlaethol  
Ionawr 2017



# 7

Gwobr Darlledu Digidol  
Gorffennaf 2016



# 13

Gwobr Diwydiant Sain a Radio  
Hydref 2016

# 5

Gwobr Newyddiaduraeth Teledu RTS  
Mawrth 2017




# 13

Gwobr Plant Academi Prydain  
Tachwedd 2016

# Teledu

Portffolio'r BBC o sianelau teledu yw'r mwyaf poblogaidd yn y DU o hyd mewn amgylchedd cynyddol gystadleuol ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae cyfran BBC One o'r ffigurau gwyllo ar ei huchaf ers degawd a gwelwyd y mesurau uchaf erioed ar gyfer natur nodedig teledu yn 2016/17.



**Teledu'r BBC yw'r portffolio darlledu a gaiff ei wyllo fwyaf yn y DU o hyd, gan gyrraedd bron 79% o unigolion bob wythnos a denu 32% o'r holl wyllo drwy setiau teledu. Mewn amgylchedd hynod gostadleuol, cafwyd llwyddiannau nodedig: roedd cyfran BBC One o'r ffigurau gwyllo ar ei huchaf ers deg mlynedd; mae BBC Three wedi cael blwyddyn lawn o arloesi ar-lein, gan ennill Sianel y Flwyddyn RTS; lansiodd y BBC ei ddrama newydd fwyaf llwyddiannus ers 15 mlynedd, *The Moorside*, a gwelwyd y mesurau uchaf erioed ar gyfer natur nodedig teledu'r BBC, wedi'u llywio gan raglenni ffeithiol.**

Mae cystadleuaeth gynyddol am gynulleidfaedd yn effeithio ar bob darlledwr, yn arbennig am wylwyr iau y mae cyrchfannau ar-lein yn cyfrif am gyfran uwch o'u hamser cyfryngau. Mae penderfyniad y BBC i symud BBC Three ar-lein wedi effeithio ar fesurau darlledu ('BARB') cyrhaeddiad y BBC a'r amser a dreulir ymysg y rhai rhwng 16 a 34 oed, ond mae angen ystyried hyn yng nghyd-destun twf ar-lein ein harlwy cynnwys fideo. Cynyddodd cyrhaeddiad wythnosol BBC iPlayer (porwyr unigryw) 12% o flwyddyn i flwyddyn, gyda dramâu fel *Taboo* ac *Apple Tree Yard* yn helpu i lywio perfformiad brig rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2017. Mae BBC iPlayer yn rhan bwysig o'n portffolio, gan gyflwyno cynulleidfaedd iau i amrywiaeth eang o gynnwys y BBC (mae 45% o ddefnyddwyr rhwng 16 a 34 oed).

Mae'r ffyrdd y mae ein cynulleidfaedd yn dod o hyd i gynnwys a'i wyllo yn esblygu. Er enghraifft, mae cyfraddau gwyllo ar sail cyd-darlledu drwy BBC iPlayer yn cynyddu (yn enwedig ar gyfer chwaraeon) gyda 18% o geisiadau BBC iPlayer yn rhai cyd-darlledu – gan godi i 48% yn ystod wythnosau'r

Gemau Olympaidd. Mae BBC Three wedi bod yn llwyddiannus ar lwyfannau'r BBC – gyda chynnwys fel *Thirteen*, *Fleabag*, *Clique* a *Murdered by My Father* – ac mewn manau cymdeithasol gyda sioeau llwyddiannus feiral fel *Amazing Humans* a *Things Not to Say*.

Parhaodd ein cyfran gyffredinol o'r gynulleidfa ar gyfer y BBC yn sefydlog o flwyddyn i flwyddyn ar 32%, gyda pherfformiad cryf gan BBC One, Two a Four gyda'i gilydd yn gwneud iawn am y gyfran linellol a gollwyd o ran BBC Three. Cafodd *The Great British Bake Off* flwyddyn olaf hynod o lwyddiannus gyda'r BBC yn gorffen ar uchafbwynt gyda 13.6 miliwn o wylwyr, gan gynnwys 3.4 miliwn rhwng 16 a 34 oed ac un filiwn o wylwyr du a lleiafrifoedd ethnig. Roedd *Strictly Come Dancing* yn fwy nag erioed a chyrraeddodd *Planet Earth II* yn ei chyfanrwydd 30.3 miliwn o wylwyr a chafodd 20 miliwn o geisiadau ar BBC iPlayer, sy'n golygu mai hon oedd y rhaglen hanes naturiol a berfformiodd orau ers o leiaf 15 mlynedd. Parhaodd dramâu i ddenu cynulleidfaedd mawr a chysylltiedig yn 2016/17, gyda thair drama ar BBC One yn denu mwy na 10 miliwn o wylwyr: *Sherlock*, *Call the Midwife* a *The Moorside*. Ar BBC Two, parhaodd *Line of Duty*, ar ei thrydedd gyfres, i gynyddu ei chynulleidfa a chafodd y sgôr gwerthfawrogiad uchaf o'r flwyddyn o blith yr holl sianelau teledu mawr.

Fodd bynnag, ein darllediadau o Gemau Olympaidd Rio a ddenodd y cynulleidfaedd mwyaf, gyda 45.4 miliwn o bobl yn troi at ddarllediadau teledu'r BBC am o leiaf 15 munud. Mae hynny'n cyfrif am 76% o'r boblogaeth sy'n berchen ar deledu. Gyda'i gilydd, gwylloidd 51.2 miliwn o bobl yr haf o chwaraeon gan gynnwys ymgyrch arwrol tîm pêl-droed Cymru i gyrraedd rownd gynderfynol Ewro 2016 ac ail fuddugoliaeth Andy Murray yn Wimbledon. Cafwyd uchafbwyntiau dyddiol, wythnosol a misol ar gyfer ap a gwefan BBC Sport wrth i fwy na 100 miliwn o borwyr byd-eang ymweld â'r wefan ac ymwelodd un filiwn o bobl â gwefan Get Inspired y BBC er mwyn dysgu sut i fod yn actif. Denodd rhaglenni newydd gynulleidfaedd ar ein holl sianelau. Ar BBC One, lansiodd comisiwn adloniant newydd *Michael McIntyre's Big Show* ar nosweithiau Sadwrn gan ddatblygu i fod yn boblogaidd ymysg gwylwyr iau.








*Murdered by My Father* a enillodd wobwr BAFTA.

*Upstart Crow* oedd y lansiad mwyaf ar gyfer cyfres gomedi newydd yn 2016 ar BBC Two. Roedd *Fleabag* yn boblogaidd ymysg cynulleidfaedd a beirniaid ar BBC Three, gan daro deuddeg gyda chynulleidfaedd iau a hŷn.

Nododd 2016 400 mlynedd ers marw Shakespeare a chyflwynodd y BBC dymor o raglenni i'r bardd a welwyd gan tua 40% o'r boblogaeth. Rhoddodd y comedi *Upstart Crow* ynghyd â *The Hollow Crown: The War of the Roses* – cyfres o addasiadau o Richard III, Henry IV rhannau un a dau – fwynhad mawr; gan sicrhau sgorau mynegai gwerthfawrogiad cynulleidfaedd uwch na'r cyffredin ar gyfer eu genres.

Roedd *Exodus*, y gyfres ddogfen arloesol a enillodd wobwr BAFTA, a bortreadodd yr argyfwng ffoaduriaid yn Ewrop gyda mynediad unigryw i un o faterion mwyaf enbyd ein hoies, yn arbennig o boblogaidd ymysg cynulleidfaedd o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME). Roedd *The Real Marigold On Tour* yn boblogaidd iawn, a hi oedd rhaglen ffeithiol fwyaf poblogaidd y flwyddyn ar BBC Two, a dychweliad *Robot Wars* oedd y rhaglen fwyaf poblogaidd a oedd wedi'i hanelu at bobl ifanc gyda 33% o'r gynulleidfa rhwng 16 a 34 oed. CBeebies a CBBC yw'r sianelau teledu mwyaf poblogaidd i blant ymysg eu cynulleidfa darged o hyd. Er gwaethaf y gystadleuaeth gynyddol am amser cyfryngau plant a'r gostyngiad yn yr amser a dreulir yn gwyllo pob sianel linellol, mae CBeebies yn cynnal ei chyrrhaeddiad a'i chyfran ymysg ei chynulleidfa darged, a chafodd CBBC ei hailfrandio yn llwyddiannus ar y sgrin. Ymysg yr uchafbwyntiau o flwyddyn o lwyddiannau creadigol mae ymgyrch CBeebies

## Perfformiad teledu fesul gwasanaeth

Teledu rhwydwaith	Cynnwys Gwnaethom wario cyfanswm o £1,667.4 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2016/17	Cyrhaeddiad Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	Amser a dreuliodd yn gwyllo sianel bob wythnos Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100	Cost fesul awr defnyddiwr Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol
	£M	%	O:M		c
 BBC One BBC One yw ein prif wasanaeth a sianel deledu fwyaf poblogaidd y DU. Mae'n uno ac yn ysbrydoli'r genedl gyda rhaglenni o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o genres yn cynnwys newyddion a materion cyfoes, drama, comedi, adloniant a ffeithiol.	£1,115.4m 2015/16: £1,045.8m†	71.5% 2015/16: 71.8%	07:33 2015/16: 07:34	79.7 2015/16: 80.0	6.7c 2015/16: 6.3c
 BBC TWO Mae BBC Two yn sianel genre cymysg sydd â rhaglenni treiddgar o sylwedd. Mae'n cynnwys y swm a'r amrywiaeth fwyaf o raglenni sy'n meithrin gwybodaeth ar y BBC, ynghyd â rhaglenni comedi, drama a chelfyddydol nodedig.	£403.3m 2015/16: £396.5m†	46.2% 2015/16: 46.1%	03:08 2015/16: 03:06	82.0 2015/16: 81.9	9.0c 2015/16: 9.0c
 BBC FOUR Nod BBC Four yw sicrhau mai hi yw'r sianel sy'n cynnig y cyfoeth deallusol a diwylliannol gorau ym Mhrydain, gan gynnig amrywiaeth uchelgeisiol o raglenni celfyddydol, cerddorol, diwylliannol a ffeithiol o'r DU a thu hwnt.	£50.5m 2015/16: £44.2m	13.5% 2015/16: 12.8%	01:46 2015/16: 01:43	82.6 2015/16: 83.4	6.9c 2015/16: 6.5c
 BBC CBBC Mae sianel CBBC yn cynnig amserlen gymysg nodedig i blant rhwng 6 a 12 oed, gan ddarparu rhaglenni o'r DU yn bennaf mewn amgylchedd ysgogol, creadigol a phleuserus.	£69.5m 2015/16: £70.6m	4.3%* 2015/16: 4.6%	02:30 2015/16: 02:31	dd/g 2015/16: dd/g	20.9c 2015/16: 19.8c
 CBeebies Mae CBeebies yn cynnig cyfuniad o raglenni o ansawdd uchel, wedi'u cynhyrchu yn y DU yn bennaf, sydd wedi'u cynllunio i annog dysgu drwy chwarae mewn amgylchedd cyson ddiogel i blant o dan chwech oed.	£28.7m 2015/16: £29.1m	7.5%** 2015/16: 7.9%	04:10 2015/16: 04:21	dd/g 2015/16: dd/g	3.0c 2015/16: 2.7c

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol ar gyfer pob sianel a gwasanaeth a chynulleidfaoedd mewn cartrefi sy'n berchen ar set deledu 4+ oed (teledu). Ffynonellau: BARB (cyrhaeddiad teledu a'r amser a dreuliodd – mae pob sianel yn cynnwys ei sianel cyd-darlledu HD lle y bo'n berthnasol); Mynegai Gwerthfawrogiad: panel Pulse o 20,000 o oedolion yn y DU 16+ gan GfK. dd/g Nid oes data yn bodoli ar gyfer y mesur hwn ar hyn o bryd. Ers cyhoeddi Adroddiad Blynyddol 2015/16, mae BARB wedi newid ei fethodoleg cyrhaeddiad sy'n gwneud gwahaniaeth bach i ffigurau cyrhaeddiad 2015/16 pan gânt eu rhedeg nawr. Yma cyflwynwn ffigurau 2015/16 fel y gwnaethant ymddangos yn Adroddiad Blynyddol 2015/16

D.S. Dim ond achosion o wyllo set deledu a fesurir gan ddata BARB ar hyn o bryd, sy'n golygu na chaiff achosion o wyllo iPlayer ar ddyfeisiau eraill eu cynnwys yn unrhyw un o'r ffigurau uchod. Mae'r defnydd o iPlayer yn tyfu, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau sy'n targedu plant a phobl ifanc fel CBBC

\* CBBC: ymysg ei chynulleidfaoedd darged o blant rhwng 6 a 12 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 19.8% a'r amser a dreuliodd fesul gwylwr oedd 02:52 (yn seiliedig ar gyrhaeddiad o 15+ munud). Yn seiliedig ar gyrhaeddiad o 3+ munud, cafwyd cyrhaeddiad o 24.3% ymysg blant rhwng 6 a 12 oed a'r amser a dreuliodd fesul gwylwr oedd 02:20

\*\* CBeebies: ymysg ei chynulleidfaoedd darged o blant rhwng 0 a 6 oed (wedi'i mesur fel blant rhwng 4 a 6 oed a gwragedd tŷ â phlant rhwng 0 a 3 oed), cafwyd cyrhaeddiad o 39.6% a'r amser a dreuliodd oedd 04:47 (yn seiliedig ar gyrhaeddiad o 15+ munud). Yn seiliedig ar gyrhaeddiad o 3+ munud, cafwyd cyrhaeddiad o 45.5% o blant rhwng 0 a 6 oed a'r amser a dreuliodd fesul gwylwr oedd 04:10

† Rhoddir manylion llawn yr aildatganiad uchod yn nodyn B3



Exodus: Our Journey To Europe a enillodd sawl gwobr.

i gyflwyno Shakespeare i blant cyn oedran ysgol gydag *A Midsummer Night's Dream* a ffenomenon *Go Jetties* wrth iddo gyflwyno ein cynulleidfa ieuengaf i bob cwr o'r byd. Ar CBBC, cafodd cynulleidfaoedd ifanc eu cyfareddu gan ddrama newydd *The Worst Witch* a pharhaodd plant i ddsygu drwy *Newsround* a'r llinyn ddogfen, a oedd yn aml yn dreiddiol, *My Life*. Mae lansiad llwyddiannus ap iPlayer Kids, gyda mwy nag 1.3 miliwn o lawrlwythiadau, yn sicrhau bod ein cynnwys i blant yn cyrraedd y gynulleidfa pryd bynnag a ble bynnag sy'n gyfleus. Cafodd y flwyddyn hon o greadigrwydd ei chynabod gyda 10 o wobrau BAFTA Plant ar gyfer ein sianelau teledu, gan gynnwys Sianel y Flwyddyn ar gyfer CBeebies, a churodd CBBC sianelau nad ydynt ar gyfer Plant i ennill y Sianel Arbenigol Orau yn y Gwobrau Darlledu Digidol.

Yn 2016/17 hefyd y gwahanwyd BBC Studios oddi wrth is-adran Cynnwys y BBC a chafwyd sêl bendith Ymddiriedolaeth y BBC i lansio fel is-gwmni masnachol ym mis Ebrill 2017. Hefyd, rhoddodd y BBC y comisiynau teledu rhwydwaith cyntaf allan i broses dendro gystadleuol yn unol â strategaeth 'Cystadlu neu Gymharu' y BBC. Mae'r BBC wedi ymrwymo i roi'r holl raglenni teledu perthnasol (drama, adloniant, comedi a ffeithiol mewnol) allan i broses dendro gystadleuol erbyn diwedd cyfnod y Siarter bresennol. Bydd y BBC hefyd yn dileu'r warant fewnol ar gyfer rhaglenni plant, chwaraeon a materion cyfoes nad ydynt yn gysylltiedig â newyddion erbyn 31 Rhagfyr 2019.



# Radio

Er gwaethaf cystadleuaeth fyd-eang ym maes sain, erys Radio'r BBC yn rhan annatod o fywyd bob dydd ym Mhrydain – gan hysbysu, addysgu a diddanu 34.7 miliwn o bobl bob wythnos gydag amrywiaeth heb ei hail o gynnwys llafar a cherddoriaeth.

**Mae gorsafodd Radio'r BBC, gyda'u harlwy wedi'i deilwra i gynulleidfaoedd, yn cyfoethogi bywydau milynau gyda chynnwys o'r radd flaenaf, eiliadau cofiadwy, cyflwynwyr arbenigol a phresenoldeb digidol gwell.**

Parhaodd BBC Radio 1 i hyrwyddo cerddoriaeth o'r DU i gynulleidfa ifanc, gyda 61% o'r holl ychwanegiadau i'w rhestr chwarae yn artistiaid o'r DU yn 2016. Gwirfoddolodd gwrandawyr Radio 1 a IExtra fwy na #1MillionHours i elusennau yn y DU. Mae fideos Radio 1 wedi cael eu gwyllo 1.4 biliwn o weithiau ar YouTube a chafodd Teen Heroes ysbrydoledig yr orsaf eu croesawu i Balas Kensington gan Ddug a Duges Caergrawnt. Galluogodd sesiynau allgymorth IExtra Live bobl ifanc yn Lerpwl i ddysgu am y diwydiant cerddoriaeth gan DJs yr orsaf, a chynrychiolodd BBC Asian Network Live y gerddoriaeth Asiaidd orau a gaiff ei hyrwyddo gan yr orsaf.

Cafodd BBC Radio 2 123,436 o gynigion ar gyfer ei chystadleuaeth stori fer 500 Words ar gyfer plant, sef y nifer uchaf erioed, a gwyliodd dwy filiwn o bobl *Sounds of the 80s* ar y Botwm Coch yn 2016. Parhaodd ei hymroddiad i roi llwyfan i amrywiaeth eang o gerddoriaeth arbenigol, gyda rhaglenni rheolaidd yn cynnwys jazz, 'blues', canu gwlad a gwerin, a dathlodd yr orsaf Fis Hanes Pobl Dduon gyda stori milwyr o'r Caribî yn y Rhyfel Byd Cyntaf a chofiodd Syr Terry Wogan mewn gwasanaeth coffa byw o Abaty Westminster.

I ddatlu 70 mlynedd ers ei sefydlu, nododd BBC Radio 3 saith degawd o gerddoriaeth a diwylliant arloesol gyda chomisïynau arbennig, gan gynnwys cyfansoddwr preswyl Sound and Music, darlledu drama na chafodd ei chanfod o'r blaen gan Joe Orton, comisiwn newydd gan Matthew Herbert, a 'Pass the baton' yn benodol ar gyfer perfformiadau gan gerddorfeidd a chorau'r BBC ledled y DU. Cyflwynodd Proms y BBC wyth wythnos o gerddoriaeth o'r radd flaenaf gan gynnwys dathliad o'r soddgrwth a sefydlu cyfres 'Proms

at...' gan fynd â'r wyl i faes parcio yn Peckam ymysg pedwar lleoliad newydd yn Llundain.

Cofnododd BBC Radio 4 a *Today* y nifer uchaf erioed o gynulleidfaoedd ar yr awyr. Cafodd stori *The Archers* am drais domestig gryn sylw ac archwiliodd Kwame Anthony Appiah achosion o gamadnabyddiaeth yn ei BBC Reith Lectures. Cyflwynodd Janet Suzman ddramateiddiad o *Primo Levi's Periodic Table* a dathlodd Melvyn Bragg hanes gogledd Lloegr. Darllenodd Jeremy Irons gasgliad cyfan barddoniaeth Saesneg T.S. Eliot a dadansoddodd cyfres o raglenni dogfen *The New World* ar ddechrau 2017. Cymerodd John Finnemore yr awenau yn Radio 4 fel Arglwydd Anhrefn, wedi'i ysbrydoli gan Twelfth Night.

Cyflwynodd BBC Radio 4 Extra dymor o sioeau cerdd clasurol o'r archifau radio, a chymerodd Angela Barnes yr awenau fel cyflwynydd y sioe sgets ddychanol *Newsjack*.

Cyflwynodd Radio 5 live y straeon newyddion mwyaf i'w chynulleidfaoedd, a chysylltodd 4,000 o wrandawyr â'r orsaf y diwrnod cyn y bleidlais ar Brexit. Lansiodd gystadleuaeth *Young Commentator of the Year* ledled y DU, ac ymunodd Emma Barnett a Nihal Arthanayake fel cyflwynwyr yn ystod y dydd, a dychwelodd Colin Murray i gyflwyno sioe banel chwaraeon *Fighting Talk*.

Cynigiodd Radio 5 live a 5 live sports extra ddarllediadau byw o Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Rio 2016, ynghyd â darllediadau o Ewro 2016 ac uchafbwyntiau rheolaidd fel Wimbledon.

BBC Radio 6 Music yw'r orsaf ddigidol fwyaf poblogaidd o hyd. Darlledwyd Gŵyl 6 Music yn fyw o Glasgow ac anogodd tymor 'Art is Everywhere' y gwrandawyr i greu celf wedi'i ysbrydoli gan yr hyn a glywsant ar yr awyr. Cefnogodd yr orsaf ymgyrch #CaruDarllen BBC Learning gyda darllediadau byw o lyfrgelloedd yn Rochdale ac Orkney.

Lansiodd BBC iPlayer Radio dudalennau hafan gwell ar gyfer gorsafodd, a denodd Radio'r BBC a BBC Music y cynulleidfaoedd mwyaf erioed ar-lein ar gyfer Radio 4 a digwyddiadau cerddoriaeth mawr, gan gynnwys Glastonbury a Proms y BBC.











Cwblhaodd Radio'r BBC ei Fframwaith Comisiynu newydd, gan gynnig 60% o oriau cymwys i'r sector annibynnol gystadlu amdanynt ac ailstrwythurwyd yr is-adran er mwyn gwahanu prosesau comisiynu a chynhyrchu rhaglenni. Cadarnhawyd y slotiau rhaglenni cyntaf i gael eu comisiynu dan y fframwaith newydd.

Mae blwyddyn BBC Music wedi cynnwys amrywiaeth gyfoethog o bartneriaethau, mentrau a rhaglenni ar deledu, radio ac ar-lein. Cyrhaeddodd y sylw eang a roddodd y BBC i Glastonbury 18.9 miliwn o bobl ar y teledu. Roedd My Generation BBC Music yn dymor o raglenni i ddatlu degawdau o gerddoriaeth bop, a darlledwyd seremoni gwobr anrhydeddus y Mercury Prize, a enillwyd gan yr artist 'greim' Skepta, yn fyw ar BBC Four a BBC Radio 6 Music. Ar Ddiwrnod Cerddoriaeth y BBC, bu pobl ledled y DU yn gwneud cyfraniadau cerddorol i'w cymuned, ac ymysg uchafbwyntiau BBC Music ar y teledu roedd Gwobrau BBC Music, *Robbie Rocks Big Ben*, *Michael Bublé at the BBC* a *David Bowie: the Last Five Years*.



Darlledwyd Proms y BBC yn fyw ar BBC Radio 3.

## Perfformiad radio fesul gwasanaeth

Radio rhwydwaith	Cynnwys Gwnaethom wario cyfanswm o £288.2 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2016/17	Cyrhaeddiad Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	Amser a dreuliodd yn gwrrando ar sianel bob wythnos Y cyfnod o amser a dreuliodd gwrandawyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100	Cost fesul awr defnyddiwr Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol
	£M	%	O:M		c
 <b>1</b> Mae BBC Radio 1 yn darlledu cymysgedd nodedig o gerddoriaeth newydd ac adloniaeth i bobl ifanc rhwng 15 a 29 oed ac yn cynnig newyddion, rhaglenni dogfen ac ymgyrchoedd cynghori wedi'u teulwra i oedolion ifanc.	<b>£35.9m</b> 2015/16: £36.2m	<b>17.5%*</b> 2015/16: 19.3%	<b>06:16</b> 2015/16: 06:11	<b>78.8</b> 2015/16: 78.9	<b>1.2c</b> 2015/16: 1.1c
 <b>1Xtra</b> Mae BBC 1Xtra yn chwarae'r gerddoriaeth ddu gyfoes orau gyda phwyslais cryf ar gyflwyno cerddoriaeth fyw o ansawdd uchel a chefnogi artistiaid newydd.	<b>£6.6m</b> 2015/16: £4.6m	<b>1.8%**</b> 2015/16: 1.9%	<b>04:45</b> 2015/16: 04:56	<b>82.5</b> 2015/16: 82.4	<b>2.8c</b> 2015/16: 1.7c
 <b>2</b> Mae BBC Radio 2 yn darlledu cymysgedd unigryw o gerddoriaeth a rhaglenni llafar sy'n cwmpasu cymysgedd eang o allbwn pop a roc byw, comedi, rhaglenni dogfen a chrefyddol amrywiol, ac yn cynnal ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol i dros 14 miliwn o wrandawyr.	<b>£51.2m</b> 2015/16: £44.6m	<b>28.0%†</b> 2015/16: 28.5%	<b>11:54</b> 2015/16: 11:53	<b>82.0</b> 2015/16: 82.2	<b>0.5c</b> 2015/16: 0.5c
 <b>3</b> Mae BBC Radio 3 yn canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol, gan ddarparu sbectrwem eang o jazz, cerddoriaeth y byd, rhaglenni celfyddydol, crefydd a drama. Ceir pwyslais cryf ar berfformiadau cerddorol ledled y DU.	<b>£37.4m</b> 2015/16: £37.7m	<b>3.7%</b> 2015/16: 3.8%	<b>06:15</b> 2015/16: 06:21	<b>82.7</b> 2015/16: 82.0	<b>5.7c</b> 2015/16: 5.5c
 <b>4</b> Mae BBC Radio 4 yn orsaf radio sy'n cynnig gwasanaeth llafar cymysg, gyda newyddion a materion cyfoes treiddgar ac ystod eang o raglenni llafar eraill gan gynnwys drama, darlenniadau, comedi, rhaglenni ffeithiol a rhaglenni cylchgrawn.	<b>£87.9m</b> 2015/16: £88.6m	<b>20.9%</b> 2015/16: 20.0%	<b>11:12</b> 2015/16: 11:30	<b>80.8</b> 2015/16: 80.6	<b>1.3c</b> 2015/16: 1.4c
 <b>4extra</b> Cafodd yr orsaf, a lanswyd yn wreiddiol yn 2002 fel BBC 7, ei hail-lansio ym mis Ebrill 2011 fel BBC Radio 4 extra. Y rhwydwaith digidol yn unig yw'r prif gyfrwng ar gyfer archif y BBC o adloniaeth llafar, gan gynnwys comedi, drama a darlenniadau.	<b>£3.0m</b> 2015/16: £3.1m	<b>3.8%</b> 2015/16: 3.7%	<b>05:56</b> 2015/16: 05:48	<b>78.6</b> 2015/16: 77.4	<b>0.5c</b> 2015/16: 0.5c
 <b>5 live</b> Mae BBC Radio 5 live yn darlledu newyddion a chwaraeon byw yn barhaus, gan gyflwyno straeon newyddion a digwyddiadau chwaraeon mawr i'w gwrandawyr wrth iddynt ddiwydd, a darparu cyd-destun drwy ddadansoddiadau a thrafodaeth eang.	<b>£45.5m</b> 2015/16: £45.5m	<b>10.4%</b> 2015/16: 10.3%	<b>06:41</b> 2015/16: 06:35	<b>79.9</b> 2015/16: 78.8	<b>2.3c</b> 2015/16: 2.4c
 <b>5 live sports extra</b> Mae BBC Radio 5 live sports extra yn cynnig dewis ehangach o chwaraeon byw i wrandawyr drwy ymestyn y darllediadau byw o ddiwyddiadau chwaraeon amrywiol.	<b>£2.7m</b> 2015/16: £2.5m	<b>2.3%</b> 2015/16: 2.7%	<b>02:52</b> 2015/16: 03:19	<b>85.3</b> 2015/16: 85.4	<b>1.5c</b> 2015/16: 1.0c
 <b>6 music</b> Mae BBC 6 Music yn orsaf radio ddigidol sy'n diddaru'r rhai sy'n mwynhau cerddoriaeth boblogaidd gyda gwasanaeth sy'n dathlu ysbryd amgen cerddoriaeth boblogaidd o'r 60au hyd heddiw, ynghyd â newyddion a rhaglenni dogfen am gerddoriaeth.	<b>£10.9m</b> 2015/16: £7.9m	<b>4.3%</b> 2015/16: 4.0%	<b>09:39</b> 2015/16: 09:09	<b>81.1</b> 2015/16: 82.4	<b>0.9c</b> 2015/16: 0.7c
 <b>Asian Network</b> Mae BBC Asian Network yn cynnig allbwn llafar a cherddoriaeth sy'n apelio at Asiaid Prydeinig, gyda ffocws cryf ar newyddion a materion cyfoes. Mae'n darlledu yn Saesneg yn bennaf, ond mae'n cynnig rhai rhaglenni mewn ieithoedd eraill.	<b>£7.1m</b> 2015/16: £6.6m	<b>1.2%‡</b> 2015/16: 1.1%	<b>06:11</b> 2015/16: 05:52	<b>80.3</b> 2015/16: 80.1	<b>3.4c</b> 2015/16: 3.5c

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud ar gyfer pob gorsaf a chynulleidfaoedd 15+ oed

Ffynonellau: RAJAR (Cyrhaeddiad radio a'r amser a dreuliodd). Mynegai Gwerthfawrogiad: panel Pulse o 20,000 o oedolion 16+ oed yn y DU gan GfK

Heb gynnwys y rhaglen *Coming up on 5 live sports extra*

\* Radio 1: ymysg ei grŵp targed o bobl ifanc rhwng 15 a 29 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 34.1% a'r amser a dreuliodd oedd 06:10

\*\* 1Xtra: ymysg pobl ifanc rhwng 15 a 24 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 5.6% a'r amser a dreuliodd oedd 04:25

† Radio 2: ymysg ei grŵp targed o bobl 35+ oed, cafwyd cyrhaeddiad o 34.3% a'r amser a dreuliodd oedd 12:50

‡ Asian Network: ymysg ei grŵp targed o Asiaid o dan 35 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 14.9% a'r amser a dreuliodd oedd 04:24

Diffiniadau ethnigrwydd yn RAJAR o flwyddyn ariannol 2014/15: Asiaidd = Gwyn ac Asiaidd, Indiaidd, Pacistaniaidd,

Bangladeshaid, Unrhyw Gefndir Asiaidd Arall

# Ar-lein

Yn 2016/17, defnyddiwyd BBC Ar-lein gan 51.5% o oedolion yn y DU, sy'n wastad â'r 51.4% a welwyd yn 2015/16. Mae BBC Ar-lein ymysg y pum safle mwyaf poblogaidd yn y DU o hyd a hwn yw'r unig wasanaeth Prydeinig i fod ymysg y pump uchaf hynny – mae'r lleill i gyd wedi'u lleoli yn yr UD. Mae'r defnydd o ddyfeisiau symudol wedi parhau i reoli. Dyma'r cyfrwng mwyaf o ran traffig i BBC Ar-lein – gyda chyfartaledd o 43% drwy gydol y flwyddyn a chan gyrraedd uchafbwynt o 47% yn ystod wythnos Refferendwm yr UE.

## 2.3m



o borwyr unigryw a olygodd mai'r gêm bêl-droed rhwng Cymru a Lloegr yn Ewro 2016 oedd y digwyddiad ffrydio fideo byw mwyaf erioed ar BBC Ar-lein

**BBC News oedd y ffynhonnell yr ymddiriedir ynddi fwyaf i gael y straeon mwyaf ar-lein. Y diwrnod ar ôl Refferendwm yr UE, ymwelodd 24.7 miliwn o borwyr â BBC Newyddion ar-lein yn y DU. Ac yn fyd-eang, y diwrnod ar ôl Etholiad Arlywyddol yr UD oedd yr ail ddiwrnod mwyaf ar gyfer BBC News gyda 51.2 miliwn o borwyr.**

Parhaodd BBC Sport i fod yn gartref chwaraeon ar-lein yn 2016 – gyda'r sylw y gwnaethom ei roi i Ewro 2016, Gemau Olympaidd Rio 2016, Wimbledon ac Uwchgynghrair Lloegr yn sicrhau y gallai cefnogwyr ddilyn y campau ble bynnag y bôn.

Gyda 2.3 miliwn o borwyr unigryw, y gêm bêl-droed rhwng Cymru a Lloegr

yn Ewro 2016 oedd y digwyddiad ffrydio fideo byw mwyaf erioed ar BBC Ar-lein. Y llynedd, buom yn gweithio'n agos gyda phartneriaid chwaraeon Prydeinig i sicrhau bod chwaraeon eraill o'r DU ar gael drwy wefan BBC Sport i nifer o gefnogwyr brwd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom barhau i ddarparu gwasanaethau mwy personol i wylwyr a gwrandawyr – gyda bron bedair miliwn o ddefnyddwyr yn mewngofnodi bob mis bellach.

Yn mis Chwefror, cyflwynwyd 'Pin and Pair', sy'n galluogi gwylwyr i fewngofnodi drwy setiau teledu cysylltiedig i ddechrau cael budd o nodweddion personol fel y gallu i barhau i wyllo pennod neu gyfres a ddechreuwyd ar ddyfais arall.


Yn ddiweddarach eleni byddwn yn sicrhau na fydd neb yn colli allan ar y profiadau personol hyn gan y byddwn yn gofyn i bob gwylwr a gwrandawr fewngofnodi i BBC iPlayer, BBC iPlayer Radio a rhai o'n hapiâu symudol er mwyn gallu mwynhau profiad wedi'i deilwra'n well gan y BBC. Mewn marchnad gynyddol heriol ac yn wyneb cystadleuaeth frwd gan gystadleuwyr yn yr UD, BBC iPlayer yw un o wasanaethau fideo

ar alw mwyaf poblogaidd y DU o hyd. Mewn marchnad mor gystadleuol, gwyddom fod angen i ni fuddsoddi a datblygu BBC iPlayer er mwyn iddo barhau i arwain y farchnad.

Cynyddodd ceisiadau am raglenni ar BBC iPlayer 9% o flwyddyn i flwyddyn. Dechreuodd 2017 gyda'r nifer fwyaf erioed o gynulleidfaoedd ar BBC iPlayer – wrth i *Sherlock* ddychwelyd, ac wrth i ddramâu clodwiw *Apple Tree Yard* a *Taboo* gyrraedd ein sgriniau. A pharhaodd y defnydd o setiau teledu cysylltiedig i reoli, gyda 45% o geisiadau am raglenni ar iPlayer yn dod drwy setiau teledu cysylltiedig.

Cafodd BBC Three flwyddyn gyntaf lwyddiannus ar ôl symud ar-lein gyda nifer y bobl ifanc a fwynhaodd y cynnwys bob wythnos ar ei ffurf newydd yn cynyddu dros y flwyddyn. Ar gyfer cynnwys byrrach, mae BBC Three wedi bod yn arbennig o lwyddiannus ar Facebook. Mae hyn yn sgil nifer o lwyddiannau feiral, gan gynnwys ein cyfres wythnosol *Amazing Humans* a *Things Not to Say To*, sy'n dameidiau bach o gynnwys y gellir eu rhannu sydd â diben cyhoeddu gwirioneddol.

Ymgysylltodd 6.9 miliwn o ddefnyddwyr ledled y byd â chynnwys y BBC ar Facebook bob wythnos ym mis Mawrth 2017, cynnydd o gymharu â 266,000 yn y mis y cafodd ei lansio ym mis Chwefror 2016. Ar YouTube, gwylwyd cynnwys BBC Three 10.7 miliwn o weithiau ym mis Mawrth 2017 (2.4 miliwn yn y DU) o gymharu ag 1.3 miliwn pan gafodd ei lansio (857,000 yn y DU).



Gwelwyd cynnydd o 9% yn y ceisiadau am raglenni ar BBC iPlayer o flwyddyn i flwyddyn.



Perfformiad ar-lein fesul gwasanaeth

	<b>Cynnwys</b> Gwnaethom wario cyfanswm o £185.5 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2016/17	<b>Cyrhaeddiad</b> Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	<b>Yr amser a dreuliodd yn gwyllo gwasanaeth bob wythnos</b> Y cyfnod o amser a dreuliodd defnyddwyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	<b>Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth</b> Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100	<b>Cost fesul awr defnyddiwr</b> Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol
	£M	%	H:M		C
<p>Mae BBC Ar-lein yn cynnwys portffolio'r BBC o gynhyrchion ar-lein ar gyfrifiaduron bwrdd gwaith, teledu cysylltiedig, dyfeisiau symudol a thabledi, yn cynnwys newyddion, chwaraeon a'r tywydd; ein gwasanaethau i blant sef CBBC a CBeebies; a Gwybodaeth a Dysgu – yn ogystal â gwasanaethau teledu a radio a ddarperir ar IP, gyda rhaglenni byw ac ar alw ar gael ar BBC iPlayer.</p>	<b>£185.5m</b> 2015/16: £152.3m*	<b>63.3%</b> 2015/16: 63.1%	<b>dd/g</b> 2015/16: dd/g	<b>dd/g</b> 2015/16: dd/g	<b>11.2c</b> 2015/16: 9.4c
	<b>Cyrhaeddiad</b> % o'r rhai rhwng 16 a 34 oed sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos				
	Ebr-Meh 2016	Gorff-Medi 2016	Hyd-Rhag 2016	Ion-Maw 2017	
	%	%	%	%	
<p>Mae BBC Three yn arloesi yn barhaus i annog cynulleidfaoedd rhwng 16 oed a'u tridegau i feddlw ac i'w difyrro gyda rhaglenni comedi, drama a ffeithiol gwreiddiol sy'n dathlu talent Brydeinig newydd.</p>	<b>3.5%</b>	<b>4.7%</b>	<b>5.3%</b>	<b>8.1%</b>	

Diffiniad o gyrhaeddiad: 3+ munud ar gyfer BBC Ar-lein/y Botwm Coch, ac oedolion 16+ oed. Ffynhonnell: Arolwg Cross Media Insight gan GfK, 16+. dd/g Nid oes data yn bodoli ar gyfer y mesur hwn ar hyn o bryd  
 BBC Three: data wedi'u modelu gan y BBC gan ddefnyddio mewnbwn o: Facebook, comScore, BARB, Arolwg Cross-Media Insight gan GfK. Pobl 16 i 34 oed yn y DU  
 Mae BBC Three bellach wedi'i gynnwys mewn costau cynnwys ond nid yw cyrhaeddiad BBC Three ar deledu'r BBC a llwyfannau trydydd parti wedi'i gaffael yn llawn eto yn y costau fesul defnyddiwr a gyrhaeddir  
 \* Rhoddir manylion llawn yr aildatganiach uchod yn nodyn B3

Ers mis Tachwedd, mae BBC Three wedi cael un filiwn o borwyr unigryw â'i wefan ei hun bob wythnos ar gyfartaledd ac mae wedi creu llawer o gynnwys poblogaidd ar BBC iPlayer yn cynnwys *Thirteen* – gyda'r bennod gyntaf yn cael mwy na thair miliwn o geisiadau. Roedd y comedi *Fleabag* yn llwyddiant ysgubol hefyd ymysg beirniaid a chynulleidfaoedd ac enillodd amrywiaeth o wobrau.

Mae'r BBC yn parhau i arloesi gyda'r dechnoleg ddiweddaraf ac yn arbrofi gyda syniadau a chynnwys newydd. Gwnaethom lansio 'skill' BBC Newyddion ar lwyfan llais Alexa Amazon, ac archwilio'r posibilrwydd o adrodd straeon realiti rhithwir gyda nifer o raglenni peilot, yn cynnwys *The Turning Forest*, a gafodd ei darlledu am y tro cyntaf yng ngŵyl ffilmiau Tribeca. Gwnaethom hefyd dreialu'r broses o ffrydio cynnwys Ultra HD ar y gwasanaeth – gyda phedwar munud syfrdanol o ffilm *Planet Earth II* ar gael mewn Ultra HD a Hybrid Log-Gamma ('HLG') ar setiau teledu cydnaws cysylltiedig – yr ansawdd uchaf a ddarledwyd ar y BBC erioed.

Parhaodd Make it Digital i weithio gyda phartneriaid er mwyn ysbrydoli ein holl gynulleidfaoedd i fod yn greadigol yn y byd digidol. Cafwyd mwy na 1.3 miliwn o adroddiadau tywydd gan 'Weather Watchers'



Aeth pennod o *Amazing Humans* BBC Three am y dawnsiwr bale, Gabi Shull, yn feiral ar Facebook a chael ei gwyllo fwy na 95 miliwn o weithiau ledled y byd.

a buom yn gweithio gyda llyfrgelloedd ledled y DU er mwyn ennyn hyder digidol ymysg cynulleidfaoedd hŷn. Ymgysylltodd pobl ifanc yn llawn brwdfrydedd â'r BBC micro:bit. Cymerodd miloedd o blant ysgol ran yn Build it Scotland, gydag un gweithgaredd yn cynnwys proses ddigidol o greu eu tîrnod lleol mewn 3D. A helpodd y Cwis Gyrfaoedd i gyfeirio pobl ifanc at y gyrfaoedd digidol cywir iddyn nhw.

# Newyddion yn y DU

BBC Newyddion yw'r darparwr newyddion mwyaf yn y DU o hyd a'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynnddi fwyaf yn y DU o bell ffordd, gyda chynulleidfaoedd yn troi at y BBC dro ar ôl tro am y sylw a roddir i ddigwyddiadau newyddion mawr.

**Yn ystod Refferendwm yr UE, swyddogaeth y BBC oedd archwilio honiadau croes Gadael ac Aros, heb ofn na ffafriaeth, ac egluro'r materion a'r goblygiadau i Brydain mor llawn â phosibl. Dengys ymchwil mai ni roddodd y ddarpariaeth uchaf ei pharch a gyrhaeddodd y nifer fwyaf o bobl. Yn ystod wythnos y canlyniadau, trodd 93% o oedolion y DU at ddarllediadau BBC Newyddion.**

Hyd yn oed cyn i'r term 'Newyddion Ffug' ddog yn gyffredin, roedd gan BBC Newyddion yr adnoddau i ddelio ag anwiredd, gorliwio a thwyll. Mae ein prif wasanaeth gwirio ffeithiau Reality Check yn gweithredu ar deledu, ar-lein a chyfryngau cymdeithasol. Drwy gydol ymgyrch y Refferendwm ac Etholiad Arlywyddol yr UD, heriodd honiadau gan ffigyrau cyhoeddus a'u pwyso a'u mesur yn erbyn y dystiolaeth. Ni all BBC Newyddion olygu'r rhyngwyd, ond nid oes rhaid i ni gamu o'r neilltu – pan fyddwn yn gweld straeon sy'n camarwain yn fwriadol gan ymhoni bod yn newyddion, bydd Reality Check yn dweud hynny.

Mae BBC Newyddion wedi ceisio gwrandao ar y DU a'i deall. Arweiniwyd y drafodaeth gyhoeddus gan ein darllediadau clodwiw ar garchardai a'r gyfres arbennig o adroddiadau ar y GIG. Yn y cyfamser, cyflwynodd 5 live news

yr amrywiaeth lawn o farn y cyhoedd mewn cymunedau i'n darllediadau mewn cynnwys radio a oedd yn aml yn ddifyr, weithiau'n deimladwy a bob amser yn ein hannog i feddwl. Cynhaliodd y 38 o orsafoedd radio lleol raglenni arbennig i drafod Refferendwm yr UE, ac mae'r 11 o raglenni materion cyfoes *Inside Out* ar BBC One wedi cyflwyno straeon sy'n cwmpasu rhanbarthau Lloegr.

Bu'n flwyddyn eithriadol i faterion cyfoes ffurf hir, treiddgar, sy'n gosod yr agenda. Cafodd Brexit ei ddadelfennu gan dair rhaglen ddogfen Laura Kuenssberg. Torrwyd y stori am Bapurau Panama gan *Panorama*, datgelodd achosion o gam-drin mewn cartrefi gofal yn ne-orllewin Lloegr, a datgelodd y cynllwyniwr y tu ôl i'r ymosodiad terfysgol ar draeth yn Nhiwnisia. Ond efallai mai ar BBC Three y gwelwyd y newid pwysicaf yn rhaglenni materion cyfoes y BBC gyda'r gyfres afaelgar *Unsolved, Obesity: The Post Mortem* a dorrodd dir newydd, ac ymchwiliad digyfaddawd Stacey Dooley o rywioli plant yn Japan.







Mae'n hawdd cymryd materion cyfoes ar y radio yn ganiataol, am ei fod yn gosod y safon ar gyfer adrodd straeon yn ddeallus a newyddiaduraeth ymchwilol. Dyma ddwy raglen neilltuol: *50 Things That Made the Modern Economy* ac *Intrigue: Murder at the Lucky Holiday Hotel*.

Cafodd ap BBC News yn y DU 7.5 miliwn o borwyr unigryw bob mis. Mae BBC Stories yn cynnig straeon personol am fywydau go iawn. A gwnaethom lansio Slow News: ymgyrch i fynd dan groen y penawdau a newyddion sy'n digwydd ar y pryd er mwyn deall y 'pam' yn ogystal â'r 'beth' sy'n gysylltiedig â'r newyddion. Mae hyn wedi golygu gwella newyddiaduraeth data, sefydlu uned wybodaeth World Service, creu rhwydwaith o arbenigwyr a chomisynu dadansoddiadau ystyrlon a manwl o'r grymoedd sy'n ysgogi digwyddiadau yn y DU a thramor.

Ac, wrth gwrs, mae darllediadau newyddion rhyngwladol yn dal i roi BBC Newyddion ar wahân. Mae ein henw da am ddarllediadau newyddion dewr, cywir a diduedd o rai o'r materion mwyaf dadleuol o lefydd peryclaf y byd yn seiliedig ar waith caled. Rydym yn falch o'n gohebwyd sy'n gweithio mewn llefydd o'r fath ac yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w cadw'n ddiogel.

Mewn oes ganlyniadol, pan gaiff y newyddion ei hun ei herio, nod y BBC yw cynnig newyddion y gallwch ymddiried ynnddi – newyddion sy'n ddibynadwy, yn annibynnol ac sydd i bawb ohonom.

## Perfformiad newyddion fesul gwasanaeth

	 Cynnwys	 Cyrhaeddiad	 Amser a dreuliyd	 Cost	
	Gwnaethom wario cyfanswm o £49.6 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2016/17	Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	yn gwyllo sianel bob wythnos Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	Cost darparu pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol	
	£M	%	O : M	£	
	Mae sianel BBC News yn wasanaeth newyddion diduedd ac annibynnol 24 awr y dydd sy'n cynnig y newyddion diweddaraf, dadansoddiadau a dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd. Mae'n rhoi sylw cyflym a chynhwysfawr i ddigwyddiadau lleol, rhai yn y DU a rhai rhyngwladol wrth iddynt ddigwydd.	<b>£47.8m</b> 2015/16: £46.6m	<b>9.9%</b> 2015/16: 10.3%	<b>02:46</b> 2015/16: 02:41	<b>5.7c</b> 2015/16: 5.5c
	BBC Parliament yw unig sianel y DU sy'n ymroddedig i wleidyddiaeth. Mae'n dangos dadleuon a phwyllgorau o San Steffan, Holyrood, Stormont, Bae Caerdydd a Strasbourg yn ogystal â rhaglenni gwleidyddol o bob cwr o'r DU.	<b>£1.8m</b> 2015/16: £1.9m	<b>0.6%</b> 2015/16: 0.6%	<b>01:52</b> 2015/16: 02:12	<b>4.9c</b> 2015/16: 7.0c


Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud ar gyfer pob sianel a gwasanaeth a chynulleidfaoedd mewn cartrefi sy'n berchen ar set deledu 4+ oed (teledu). Ffynonellau: cyrhaeddiad ac amser a dreuliyd BARB (teledu)  
Byddai cyrhaeddiad tri munud ar gyfer sianel BBC News a BBC Parliament – yn unol â safonau'r diwydiant – yn 14.2% ac 1.4% yn y drefn honno (15.8% ac 1.6% ymysg y boblogaeth 16+ oed)

Enillodd sianel BBC News wobwr Sianel Newyddion y Flwyddyn gan y Gymdeithas Deledu Frenhinol.



93%

Trodd 93% o oedolion at ddarllediadau ar BBC News yn ystod wythnos canlyniadau Refferendwm yr UE.



Cafodd ap BBC News yn y DU 7.5 miliwn o borwyr unigryw bob mis.



Enillodd rhaglen *Victoria Derbyshire* Wobr Teledu BAFTA am y sylw a roddodd i'r achosion o gam-drin ymysg chwaraewyr pêl-droed.



Enillodd *Teenage Prison Abuse Exposed* Panorama Wobr Teledu BAFTA am y rhaglen materion cyfoes orau – o restr fer lle roedd pob un o'r enwebiadau ar gyfer rhaglenni'r BBC.



# Newyddion ledled y byd

Mewn blwyddyn llawn newyddion cythryblus, roedd y dasg o egluro'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd yn fwy heriol ac angenrheidiol nag erioed.

**Ym mis Tachwedd, gwnaethom gyhoeddi manylion llawn ein hehngiad mwyaf ers y 1940au, diolch i'r hwb ariannol o £289 miliwn gan Lywodraeth y DU, sy'n cyfateb i £85 miliwn y flwyddyn hyd at 2020.**

Byddwn yn lansio gwasanaethau mewn Afaan Oromo, Amharieg, Gwjarati, Igbo, Corëeg, Marati, Pidgin, Pwnjabeg, Serbeg, Telwgu, Tigrinia, ac Iorwba - yn ogystal â gwella ein gwasanaethau presennol yn Rwsia, Affrica ac o amgylch y byd Arabaidd.

Gwnaethom ddechrau'r ehngiad hwn drwy lansio ein gwefan lawn mewn Thai, wedi'i huwchraddio o'r gwasanaeth dros dro yn unig ar Facebook a sefydlwyd ar ôl y gwrthryfel milwrol yn y wlad.





Parhaodd gwasanaethau newyddion rhyngwladol y BBC i ddenu'r cynulleidfaoedd uchaf erioed ledled y byd, gyda'r ffigurau diweddaraf – y Mesur Cynulleidfa Fyd-eang – yn dangos cynulleidfa wythnosol o 345.5 miliwn, cynnydd o 7.9% ers y llynedd.

Mae'r cynnydd wedi'i weld ar bob llwyfan wrth i bobl barhau i droi at BBC Newyddion. Er enghraifft, yn Iran, mae gan BBC World Service gynulleidfa wythnosol o 1.4 miliwn ar ap negeseuon wedi'u hamgryptio Telegram. Mae nifer y bobl sy'n cynrchu World Service Saesneg drwy gynnwys sain dros y rhyngwyd wedi cynyddu 152%.

Mae cyfanswm cynulleidfa fyd-eang wythnosol y BBC, yn cynnwys yr holl gynnwys rhyngwladol, bellach yn 372.4 miliwn, sy'n golygu ein bod yn agosach fyth at darged y Cyfarwyddwr Cyffredinol o 500 miliwn o gynulleidfa fyd-eang erbyn canmlwyddiant y BBC.

Rydym wedi parhau i gyflwyno arbenigedd ein newyddiadurwyr World Service dwyieithog i'n cynulleidfaoedd yn y DU, yn ogystal ag yn rhyngwladol. Mae newyddiadurwyr BBC World Service wedi darparu rhai o'r munudau darlledu mwyaf cofiadwy eleni, o'r adeg y

## Cynulleidfa wythnosol fesul gwasanaeth

	 2016/17	 2015/16	 Newid o flwyddyn i flwyddyn
	M	M	%
Global BBC (Grŵp BBC World Service a BBC Worldwide)	372.4	347.7	7.1
Grŵp BBC World Service (Cyfanswm cynulleidfa Global News)*	345.5	320.3	7.9
BBC World Service	268.7	246.3	9.1
Teledu BBC World Service	110.2	90.6	21.6
Radio BBC World Service	154.5	144.6	6.9
BBC World Service ar-lein*	38.5	41.6	-7.5
Sianel BBC World News	99.2	83.5	18.8
bbc.com a'r cyfryngau cymdeithasol*	33.6	39.2	-14.3

^ Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys unrhyw gynnwys gan BBC Worldwide  
 \* Mae'r dull o gyfrifo cyfanswm y gynulleidfa ar-lein wedi newid ers 2016. Mae gwaith ymchwil newydd wedi arwain at ddealltwriaeth well o'r rhai sy'n defnyddio gwefannau a chyfryngau cymdeithasol y BBC  
 Caiff sianel BBC World News a bbc.com eu hariannu'n fasnachol







Mae'r Mesur Cynulleidfa Fyd-eang yn ddiweddiariad blynyddol o faint o bobl sy'n defnyddio'r BBC bob wythnos ar gyfer pob gwasanaeth ym mhob gwlad ar bob llwyfan (Teledu, Radio, gwefan a chyfryngau cymdeithasol). Mae dad-ddyblygu yn allweddol i hyn h.y. sicrhau na chaiff person sy'n defnyddio sawl gwasanaeth neu lwyfan gan y BBC neu ar ddyfeisiau lluosog ei gyfrif fwy nag unwaith yn y cyfanswmiau lefel uchaf. Er enghraifft, mae'r gynulleidfa Teledu, radio ac ar-lein ar gyfer BBC World Service yn llai na chyfanswm ei rhannau er mwyn sicrhau nad ydym yn cyfrif pobl fwy nag unwaith wrth edrych ar gyfanswm cynulleidfa World Service

wynebodd Feras Kilani ymosodiad bom ym Mosul i Selin Girit yn lleoliad yr ymosodiad terfysgol dros y Flwyddyn Newydd yn Istanbul. Rydym wedi lansio rhaglenni newydd ar World Service Saesneg, yn ogystal â dathlu hanner can mlwyddiant *Outlook* sydd mor boblogaidd. Mae ein rhaglen drafod fisol newydd ar y radio, *World Questions*, wedi teithio ledled y byd, yn rhoi'r cyfle i bobl ddwyn eu harweinwyr i gyfrif. Mae rhaglenni celfyddydau a gwyddoniaeth newydd a phodlediadau World Service wedi cyfoethogi'r tonfeddi.

Cynhaliodd ein tymor #100Women a gynhelir bob blwyddyn bellach, sy'n rhoi lleisiau a straeon merched wrth wraidd ein hallbwn, ei wyl fyw gyntaf erioed yn Ninas Meccico.

Rydym yn trawsnewid ein hunain ar gyfer yr 21ain ganrif, ond mae ein cenhadaeth yn ddigyfnewid; cyflwyno newyddion a gwybodaeth yr ymddiriedir ynddynt i filiynau ledled y byd.

## Cyrhaeddiad BBC World Service ar bob llwyfan fesul gwasanaeth iaith

	 2016/17	 2015/16	 Newid o flwyddyn i flwyddyn		 2016/17	 2015/16	 Newid o flwyddyn i flwyddyn
	M	M	%		M	M	%
Afrique	10.5	14.8	-29.1	Perseg	18.0	17.9	0.5
Arabeg	42.9	36.7	16.9	Rwsieg	3.9	4.4	-11.6
Azeri	0.1	0.1	10.8**	Sinhala	0.9	0.9	0.6**
Bengaleg	16.5	6.2	168.7	Somalieg	3.6	3.6	-0.3**
Brasil	6.3	7.4	-13.9	Swahili	16.1	17.2	-6.8
Byrmaneg	6.0	6.0	0.8**	Tamil	9.5	9.6	-0.2
Dysgu Saesneg	1.9	2.1	-8.2	Tsieina y DU	0.1	0.0	121.6
Fietnameg	0.9	1.5	-38.4	Tsieinëeg	0.8	0.8	-2.2
Hawsa	23.6	23.3	1.5	Twrcceg	1.5	1.7	-15.4
Hindi	12.5	6.3	99.3	Thai	1.6	1.2	31.6
Indoneseg	3.9	4.7	-17.1	Wcreineg	3.6	2.9	21.8
Kyrgyz	3.0	3.0	0.0	World Service Saesneg	75.2	65.8	14.4
Mundo	6.8	6.9	-0.8	Wrdw	11.6	11.9	-2.5
Nepali	5.2	5.3	-1.3	Wsbeg	0.7	0.6	10.6
Pashto	6.7	6.6	1.0	Y Llynnoedd Mawr	1.4	3.2	-57.8

Mae'r Mesur Cynulleidfa Fyd-eang yn ddiweddariad blynyddol o faint o bobl sy'n defnyddio'r BBC bob wythnos ar gyfer pob gwasanaeth ym mhob gwlad ar bob llwyfan (Teledu, Radio, gwefan a chyfryngau cymdeithasol). Mae dad-ddyblygu yn allweddol i hyn h.y. sicrhau na chaiff person sy'n defnyddio sawl gwasanaeth neu lwyfan gan y BBC neu ar ddyfeisiau lluosog ei gyfrif fwy nag unwaith yn y cyfanswmiau lefel uchaf. Er enghraifft, mae'r gynulleidfa teledu, radio ac ar-lein ar gyfer BBC World Service yn llai na chyfanswm ei rhannau er mwyn sicrhau nad ydym yn cyfrif pobl fwy nag unwaith wrth edrych ar gyfanswm cynulleidfa World Service

Mae'r dull o gyfrifo cyfanswm y gynulleidfa ar-lein wedi newid ers 2016. Mae gwaith ymchwil newydd wedi arwain at ddealltwriaeth well o'r rhai sy'n defnyddio gwefannau a chyfryngau cymdeithasol y BBC

\*\* Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i un degolyn ac felly, efallai na chaiff cynnydd/gostyngiad canrannol yng nghyrrhaeddiad gwasanaethau llai ei adlewyrchu yn y niferoedd gwirioneddol



Peter Okwoche yn adrodd o Uganda ar gyfer Focus on Africa.


# Perfformiad fesul cyrhaeddiad

## Teledu

Cyrhaeddiad wythnosol	Holl deledu'r BBC	Holl deledu ITV	Holl deledu Channel 4	Holl deledu Channel 5	Holl deledu Sky
	%	%	%	%	%
Teledu rhwydwaith y BBC o gymharu â'r prif grwpiau masnachol	<b>78.8%</b>	<b>67.7%</b>	<b>58.9%*</b>	<b>41.9%</b>	<b>40.1%</b>
	2015/16: 80.3%	2015/16: 68.4%	2015/16: 60.7%	2015/16: 42.4%	2015/16: 40.5%

Ffynhonnell: BARB 4+ mewn cartrefi sy'n berchen ar set deledu, 15+ munud o gyrhaeddiad olynol  
 \* Heb gynnwys S4C

## Cyrhaeddiad teledu wythnosol %



Ffynhonnell: BARB 4+ mewn cartrefi sy'n berchen ar set deledu, 15+ munud o gyrhaeddiad olynol  
 Nid yw ffigurau portffolio ITV a Channel 4 yn cyfateb i ffigurau 2012/13 yn yr Adroddiad Blynyddol o ganlyniad i newid i fethodoleg cyrhaeddiad TechEdge a weithredwyd ar ddiwedd 2013

## Cyfran setiau teledu

Portffolio	Portffolio'r BBC	Portffolio ITV	Portffolio Channel 4	Portffolio Channel 5	Portffolio Sky
	%	%	%	%	%
Cyfran	<b>32.2%</b>	<b>21.5%</b>	<b>10.3%</b>	<b>6.3%</b>	<b>8.3%</b>
	2015/16: 32.3%	2015/16: 21.3%	2015/16: 10.7%	2015/16: 6.1%	2015/16: 8.4%

Ffynhonnell: BARB. Yn seiliedig ar unigolion 4+, nid yw portffolio Channel 4 yn cynnwys S4C

## Radio





Cyrhaeddiad wythnosol	Holl radio'r BBC	Holl radio masnachol	Holl radio rhwydwaith y BBC	Holl radio masnachol ledled y DU	Holl radio lleol y BBC	Holl radio masnachol lleol
	%	%	%	%	%	%
Radio'r BBC o gymharu â gorsafoedd masnachol	<b>64.3%</b>	<b>64.7%</b>	<b>59.1%</b>	<b>35.3%</b>	<b>15.7%</b>	<b>50.0%</b>
	2015/16: 65.2%	2015/16: 64.7%	2015/16: 59.7%	2015/16: 33.9%	2015/16: 16.2%	2015/16: 50.8%

Ffynhonnell: RAJAR, 15+, cyrhaeddiad o 15 munud



# Perfformiad fesul genre

## Oriau rhwydwaith o allbwn fesul genre

				
Newyddion a'r tywydd	3,313 awr 2015/16: 3,385 awr	886 awr 2015/16: 819 awr	6 awr 2015/16: 6 awr	11,517 awr 2015/16: 11,543 awr
Materion cyfoes	209 awr 2015/16: 184 awr	423 awr 2015/16: 343 awr	112 awr 2015/16: 113 awr	1,640 awr 2015/16: 1,645 awr
Ffeithiol	2,188 awr 2015/16: 2,264 awr	3,374 awr 2015/16: 3,382 awr	1,220 awr 2015/16: 1,311 awr	3,458 awr 2015/16: 3,476 awr
Cerddoriaeth a'r celfyddydau	61 awr 2015/16: 51 awr	285 awr 2015/16: 282 awr	1,435 awr 2015/16: 1,425 awr	42,793 awr 2015/16: 42,236 awr
Crefydd	88 awr 2015/16: 92 awr	73 awr 2015/16: 50 awr	20 awr 2015/16: 24 awr	574 awr 2015/16: 573 awr
Drama	541 awr 2015/16: 576 awr	217 awr 2015/16: 278 awr	97 awr 2015/16: 106 awr	4,550 awr 2015/16: 4,632 awr
Ffilm	290 awr 2015/16: 359 awr	694 awr 2015/16: 788 awr	73 awr 2015/16: 101 awr	dd/g 2015/16: dd/g
Adloniant	548 awr 2015/16: 575 awr	409 awr 2015/16: 317 awr	44 awr 2015/16: 27 awr	6,815 awr 2015/16: 7,385 awr
Comedi	177 awr 2015/16: 177 awr	249 awr 2015/16: 294 awr	11 awr 2015/16: 28 awr	dd/g* 2015/16: dd/g
Ysgolion/addysg ffurfiol	dd/g 2015/16: dd/g	dd/g 2015/16: 95 awr	4 awr 2015/16: dd/g	112 awr 2015/16: 104 awr
Chwaraeon	824 awr 2015/16: 604 awr	950 awr 2015/16: 1,034 awr	208 awr 2015/16: 2 awr	5,117 awr 2015/16: 5,483 awr

Daeth BBC Three yn sianel ar-lein yn unig ar 16 Chwefror 2016. Felly, dim ond tan 15 Chwefror 2016 y caiff yr oriau allbwn ar deledu llinellol rhwydwaith eu dangos ac nid ydynt yn cynnwys rhaglenni ar-lein. Nid yw'r gymhariaeth â 2014/15 yn gymhariaeth deg. Caiff yr holl gynnwys ffurf hir gan BBC Three ei ddarlledu naill ai ar BBC One neu BBC Two a chaiff ei gynnwys yn y ffigurau ar gyfer y sianelau hynny

\* Datgelir oriau comedi radio o fewn y genre Adloniant

## Oriau rhwydwaith o allbwn fesul genre

				
Plant	2 awr 2015/16: 2 awr	7 awr 2015/16: 8 awr	4,751 awr 2015/16: 4,090 awr	4,386 awr 2015/16: 4,393 awr

Mae Addysg (ffurfiol) yn cynnwys addysg i blant, Y Brifysgol Agored a BBC Learning Zone

Symudodd rhaglenni CBBC a CBeebies o BBC One a BBC Two i ddarlledu ar eu sianelau digidol yn unig o fis Rhagfyr 2012

# Trosolwg o berfformiad y BBC ledled y DU

Cymru yn erbyn Gwlad Belg, gêm gogynderfynol Pencampwriaeth Ewro 2016.

Mae'r BBC yn ymrwymedig i wasanaethu ei gynulleidfa oedd ledled y DU, gan ddarparu cynnwys nodedig a pherthnasol o ansawdd uchel i dalwyr ffi'r drwydded, a helpu i gynnal cyrhaeddiad a chynnig cyfrwng effeithiol i adlewyrchu'r amrywiaeth o ddiwylliannau a chymunedau.

## Gwasanaethau penodedig

Mae'r BBC hefyd yn darparu amrywiaeth o allbwn penodol, traws-genre ar gyfer Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr ar deledu, radio ac ar-lein. Mae pob ardal yn creu rhaglenni teledu a radio ar gyfer ei gynulleidfa leol ac ar gyfer y rhwydwaith.

Mae gennym ganolfannau cynhyrchu mawr yn Glasgow, Caerdydd, Belfast, Salford, Bryste, Birmingham a Llundain.

## Cyflenwadau rhwydwaith

Caiff dros hanner teledu rhwydwaith ei gynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gyda 50.6% o'r tu allan i Llundain a mwy na 19% o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Y gwariant ar raglenni teledu rhwydwaith yn ôl rhanbarth fel canran o wariant cymwys**

	2016	2015
<b>Llundain</b>	<b>49.4%</b>	51.9%
Yr Alban	10.3%	7.7%
Cymru	5.8%	7.1%
Gogledd Iwerddon	3.1%	1.8%
<b>Cyfanswm y gwledydd</b>	<b>19.2%</b>	16.6%
Canolbarth Lloegr	1.5%	1.8%
Gogledd Lloegr	19.7%	17.4%
De Lloegr	7.6%	9.3%
Aml-ranbarth*	2.6%	3%
<b>Cyfanswm y rhanbarthau heb gynnwys Llundain</b>	<b>31.4%</b>	31.6%
<b>Cyfanswm y gwledydd a'r rhanbarthau</b>	<b>50.6%</b>	48.1%
<b>Cyfanswm cyfan</b>	<b>100%</b>	100%


**Oriau o allbwn Radio Lleol\*\* a radio'r gwledydd y BBC**

	2016	2015
<b>Lloegr (heb gynnwys Llundain)</b>	<b>225,020</b>	226,367
Llundain	7,977	8,014
Yr Alban	11,977	12,133
Cymru	14,594	13,842
Gogledd Iwerddon	8,560	8,616
<b>Cyfanswm</b>	<b>268,128</b>	268,972

Gwariant ar deledu rhwydwaith yn seiliedig ar ddiffiniadau Ofcom yn ôl blwyddyn galendr

\* Mae aml-ranbarth yn cwmpasu rhaglenni a wnaed y tu allan i Llundain ond na ellir eu priodoli i unrhyw un rhanbarth na gwlad

\*\* Dim ond rhaglenni gwreiddiol gan y BBC y mae oriau allbwn Radio Lleol y BBC a radio'r gwledydd yn eu cynnwys ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw rhaglenni a gaiff eu haildarlledu





# Y BBC yng Nghymru

Mewn blwyddyn a welodd Refferendwm yr UE, Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a llwyddiant Cymru ym Mhencampwriaeth Ewro 2016 nas gwelwyd ei debyg o'r blaen, perfformiodd y BBC yn gryf yng Nghymru, gyda 97% o oedolion yng Nghymru yn defnyddio'r BBC bob wythnos.

**Cyflawnodd *The Green Hollow* – a ddarlledwyd ar BBC One Wales a BBC Four er mwyn nodi hanner can mlynedd ers trychineb Aberfan – y sgôr gwerthfawrogiad cynulleidfa uchaf o blith unrhyw raglen deledu a ddangoswyd ar BBC One dros y pum mlynedd diwethaf.**

Parhaodd perfformiad teledu a radio'r BBC yng Nghymru i fod yn uwch na gwledydd eraill y DU, yn sgil perfformiad cryf BBC One Wales, Radio 1 a Radio 2.

Parhaodd rhaglenni teledu lleol a gynhyrchwyd ar gyfer BBC One Wales a BBC Two Wales i gyfrannu at y llwyddiant hwn, gan ddenu 840,000 o wylwyr bob wythnos (tua 30% o gynulleidfa oedd yng Nghymru).

Cyhoeddodd y BBC fuddsoddiad mawr mewn allbwn teledu Saesneg ar gyfer Cymru, gydag £8.5 miliwn ychwanegol bob blwyddyn erbyn 2019. Bydd yn darparu mwy na 130 awr o raglenni ychwanegol bob blwyddyn ar BBC One Wales, BBC Two Wales a BBC iPlayer mewn meysydd fel comedi, drama ac adloniant, a bydd yn galluogi BBC Cymru i gyrraedd cynulleidfa oedd iau a datblygu ei wasanaethau newyddion ar-lein ac ar ddyfeisiau symudol.

Newyddion a chwaraeon a oedd yn rheoli rhaglenni lleol yn Gymraeg ac yn Saesneg – gan adlewyrchu blwyddyn wleidyddol arwyddocaol a llwyddiant hanesyddol y tîm pêl-droed cenedlaethol yn Ewro 2016. Roedd y sylw a roddwyd i etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys rhaglenni canlyniadau dros nos cynhwysfawr ar BBC One Wales ac S4C, a darlledwyd rhaglen gynulleidfa arbennig *Ask The Leader* dros un wythnos ar BBC One Wales yn y cyfnod cyn yr etholiad.

Adlewyrchwyd cyffro Ewro 2016 ar BBC Cymru a'r gwasanaethau rhwydwaith, gyda phump o gemau Cymru yn cael eu darlledu'n fyw ar y BBC ac S4C. Y fuddugoliaeth dros Wlad Belg yn y gêm gogynderfynol ddenodd y gynulleidfa deledu fwyaf a gofnodwyd erioed ar gyfer digwyddiad chwaraeon yng Nghymru, gyda chynulleidfa frig o 1.27 miliwn



Nododd *The Green Hollow* 50 mlynedd ers trychineb Aberfan.

yng Nghymru. Hon hefyd oedd y drydedd cynulleidfa deledu fwyaf yng Nghymru y ganrif hon, gyda dim ond seremonïau agoriadol a chau Gemau Olympaidd 2012 yn rhagori arni.

Yn y celfyddydau, ymunodd BBC Cymru â Chyngor Celfyddydau Cymru ym mis Ebrill 2016 i lansio penwythnos Cer i Greu, er mwyn annog pobl o bob oedran i ganfod ac archwilio eu talentau creadigol drwy amrywiaeth eang o ddiwyddiadau am ddim a sesiynau 'blasu'. Cynhaliodd y fenter beilot fwy na 120 o ddiwyddiadau ledled Cymru, gan gynnwys mwy nag 80 o sefydliadau.

Yn ystod y flwyddyn hefyd, gwelwyd twf sylweddol yn y defnydd o ddyfeisiau symudol a chyfryngau cymdeithasol yng Nghymru. Hefyd, archwiliodd *Elis in Euroland* a phrosiect *Tower* a leolwyd yn ardal Butetown yng Nghaerdydd y cyfleoedd a ddarparwyd gan lwyfannau cymdeithasol i gyrraedd cynulleidfa oedd iau.

Yn meysydd drama, ffeithiol a cherddoriaeth, cynrychiolodd gwariant ar gynhyrchu teledu rhwydwaith yng Nghymru 5.8% o gyfanswm buddsoddiad y BBC yn 2016, gan gynnwys 30 mlynedd o *Casualty*, ailgread gorfoleddus Russell T Davies o *A Midsummer Night's Dream*, dychweliad *Sherlock* ac *Ordinary Lies* gan Danny Brocklehurst i BBC One. Darlledwyd *Class*, y sioe yn deillio o *Doctor Who*, a gynhyrchwyd








yng Nghymru hefyd, am y tro cyntaf ar BBC Three. Cyflwynodd BBC Radio Wales a Radio Cymru ddarllediadau eang o Etholiad y Cynulliad Cenedlaethol, Refferendwm yr UE ac anturiaethau Cymru yn Ewro 2016. Yn y flwyddyn a nododd 40 mlynedd ers ei sefydlu, lansiodd BBC Radio Cymru orsaf dros dro beilot – Radio Cymru Mwy – er mwyn asesu awydd y gynulleidfa am raglen frecwest amgen.

Nodwyd hanner can mlynedd ers trychineb Aberfan gydag amrywiaeth o raglenni arbennig ar y teledu a'r radio, gan gynnwys adroddiad dadlennol Huw Edwards o'r camweddau a wynebodd y gymuned yn y cyfnod ar ôl y trychineb.

Parhaodd rhaglenni'r BBC ar gyfer S4C i chwarae rhan bwysig yn amserlen y sianel, gyda'r ddrama boblogaidd *Pobol y Cwm* a *Newyddion 9* yn gonglfeini yn amserlen y sianel gyda'r nos. Hefyd, parhaodd rhaglenni S4C i berfformio'n gryf ar BBC iPlayer gydag 88,000 o geisiadau i wylwyr cynnwys bob wythnos ar gyfartaledd.

Ochr yn ochr â'r llwyddiant hwn, parhaodd BBC Cymru Fyw – y gwasanaeth ar-lein a symudol Cymraeg – i ddatblygu ei sylfaen defnyddwyr, gan ddenu 53,000 o borwyr unigryw bob wythnos.

## Perfformiad fesul gwasanaeth

						
<b>Gwasanaethau penoddedig</b>	<b>Cynnwys</b> Gwnaethom wario cyfanswm o £27.8 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2016/17	<b>Cyrhaeddiad</b> Poblogaeth Cymru sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	<b>Cyfanswm yr amser a dreuliyd yn gwyllo neu'n gwrandao ar wasanaeth bob wythnos</b> Y cyfnod o amser a dreuliodd gwrandawyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	<b>Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth</b> Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100	<b>Costau fesul awr defnyddiwr</b> Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol	
	£M	%	O:M		c	
	Mae BBC Radio Wales yn wasanaeth llafar i oedolion, sy'n cynnig amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru.	<b>£14.2m</b> 2015/16: £15.1m	<b>13.9%</b> 2015/16: 14.8%	<b>08:19</b> 2015/16: 08:15	<b>82.7</b> 2015/16: 82.5	<b>9.1c</b> 2015/16: 9.0c
	Mae BBC Radio Cymru yn wasanaeth radio llafar a cherddoriaeth i siaradwyr Cymraeg, sy'n cynnig amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru.	<b>£13.6m</b> 2015/16: £14.2m	<b>4.2%*</b> 2015/16: 4.3%	<b>10:42</b> 2015/16: 10:47	<b>78.8</b> 2015/16: 77.0	<b>22.6c</b> 2015/16: 22.3c

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud ar gyfer pob gwasanaeth a chynulleidfaoedd 15+ oed

Ffynonellau: cyrhaeddiad ac amser a dreuliyd RAJAR; Mynegai Gwerthfawrogiad: panel Pulse o 20,000 o oedolion 16+ oed yn y DU gan GfK. Data yn seiliedig ar ei Ardal Arolygu Gyfan.

\* Mae BBC Radio Cymru yn cyrraedd 16.7% o'r boblogaeth o siaradwyr Cymraeg 15+ oed bob wythnos, sy'n defnyddio'r gwasanaeth am 12:23 yr wythnos ar gyfartaledd. Mae gwrandawyr Cymraeg yn rhoi sgôr Mynegai Gwerthfawrogiad gyfartalog o 78.8 iddo. Data RAJAR (cyrhaeddiad ac amser fesul gwrandawr) yn seiliedig ar 'Deall Cymraeg'; Data Mynegai Gwerthfawrogiad yn seiliedig ar 'Siarad Cymraeg yn Rhugl a Siarad Cymraeg ond nid yn Rhugl'

## Cyrraedd ein cynulleidfaoedd

Cyrhaeddiad o ran oedolion: canran yr oedolion sy'n defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos

**97%**

2015: 97%



## Argraff gyffredinol o'r BBC

**7/10**

2015/16: 7/10



**21%**

*lolo's Great Welsh Parks* – mae'r gyfres bedair rhan hon a wnaeth ddychwelyd am ail gyfres yn parhau i ddenu cynulleidfa gref ar gyfer BBC Cymru gyda chynulleidfa gyfartalog o fwy na chwarter miliwn a chyfran gref o 21%.



## Perfformiad fesul llwyfan

Cyrhaeddiad wythnosol gwasanaethau newyddion penoddedig Cymreig ar y teledu

**47%**

2015/16: 48%

Cyrhaeddiad wythnosol Radio'r BBC

**71%**

2015/16: 72%

Cyrhaeddiad wythnosol Teledu'r BBC

**82%**

2015/16: 83%

Cyrhaeddiad wythnosol BBC Ar-lein a'r Botwm Coch

**64%**

2015: 63%



**4m**

Gan edrych ar ein holl gynnwys ar-lein (Cymraeg a Saesneg), cynyddodd y defnydd wythnosol cyfartalog o gynnwys ar-lein BBC Cymru ar gyfer 2016/17 i 4 miliwn o borwyr unigryw – y lefel uchaf eto.



+ Darllenwch fwy am berfformiad fesul gwasanaeth yng Nghymru ar dudalen 93

Ffynonellau: Arolwg Cross-media Insight gan GfK. Kantar Media, BARB, RAJAR

# Y BBC yn yr Alban

Mewn blwyddyn lle cynhaliwyd Etholiad Senedd yr Alban, pleidlais Refferendwm y DU ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd ac Etholiad Arlywyddol yr UD, rhoddodd BBC Scotland News sylw cynhwysfawr i bob un ohonynt, ar deledu, radio ac ar-lein.

**Parhaodd bwletinâu *Reporting Scotland* i gyrraedd hanner yr holl oedolion (16+) bob wythnos yn yr Alban, gyda'r rhaglen fin nos yn cynnal ei chynulleidfa gyfartalog o bron hanner miliwn o wylwyr bob noson. Cafodd arlwy materion cyfoes BBC Scotland ei diwygio drwy gyflwyno *Timeline* wythnosol, ar BBC Two Scotland, a gyflwynwyd gan Glenn Campbell a Shereen Nanjiani. A denodd ymchwiliad BBC Scotland, *The Great Military Charity Scandal*, gynulleidfa o 461,000 gan arwain at ymchwiliad gan y Comisiwn Elusennau.**

Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd y BBC y buddsoddiad unigol mwyaf mewn cynnwys darlledu yn yr Alban ers dros 20 mlynedd, gyda £19 miliwn i gael ei fuddsoddi, bob blwyddyn, mewn sianel deledu newydd ac mewn datblygiadau digidol, a thua £20 miliwn ychwanegol, bob blwyddyn, hyd at fis Mawrth 2019, i gael ei fuddsoddi mewn cynyrchu teledu rhwydwaith o'r Alban.

Mewn blwyddyn arbennig o gynhyrchiol ar gyfer drama, denodd y gyfres bedair rhan dywyll *One of Us*, a ddisgrifiwyd gan y London Evening Standard fel 'Tarantino-meets-Shakespeare', gynulleidfa gyfartalog yn y DU o fwy na phum miliwn a chyfran o 22%. Denodd y gyfres dair rhan *The Replacement*, a leolwyd yn Glasgow, 7.3 miliwn o wylwyr o'r DU a chyfran o 28% o'r gynulleidfa. Yng Nghaeredin y ffilmwyd cyfres dair rhan BBC *One Rillington Place*, a oedd yn seiliedig ar fywyd y llofrudd John Christie, a *Clique*, drama chwe rhan ddwys BBC Three i bobl ifanc yn eu harddegau am gyfeillgarwch yn cael ei brofi i'r eithaf. *River City* oedd yr opera sebon a werthfawrogyd fwyaf yn yr Alban o hyd.

Daeth rhaglenni dogfen ffeithiol hefyd i'r amlwg yn ystod y flwyddyn. Dychwelodd



Denodd *Still Game* gynulleidfa gyfartalog o 3.8 miliwn yn y DU a chyfran o 16% ar deledu rhwydwaith.

*The Mart*, a leolwyd ym marchnad da byw Thainstone ger Inverurie, am ail gyfres a denodd gynulleidfa gyfartalog o 439,000 yn yr Alba a chyfran o 22%. Dychwelodd y ffocws i dde yr Alban ar gyfer *The River*, a gofnododd fywyd ar hyd afon Tweed. A dathlodd *Landward* 40 mlynedd ar yr awyr gyda rhaglen arbennig, *Muck*, *Sweat and Steers*.

Cafwyd cyfres ddogfen eithriadol hefyd ar hanes cymdeithasol pêl-droed yn yr Alban (*Scotland's Game*); ein diod genedlaethol (*Scotch! The Story of Whisky*) a phlentyndod (*Growing up in Scotland: A Century of Childhood*).

Dychwelodd *Robot Wars*, a ffilmwyd yn Renfrew, i'r BBC ar ôl mwy na 12 mlynedd, ar BBC Two, a denodd *Still Game*, a ddychwelod ar ôl cyfnod o naw mlynedd, gynulleidfa gyfartalog o 3.8 miliwn yn y DU a chyfran o 16% ar deledu rhwydwaith (1.7 miliwn, cyfran o 58% yn yr Alban). *Mrs Brown's Boys* oedd rhaglen rhwydwaith y BBC a wylwyd fwyaf yn yr Alban ar Ddydd Nadolig am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Erbyn diwedd mis Mawrth, roedd clip o *Burnistoun*, a roddwyd ar y cyfryngau cymdeithasol ym mis Rhagfyr, wedi'i wlyo 85 miliwn o weithiau ac wedi'i rannu 1.54 miliwn o weithiau.

Roedd y darllediadau o gerddoriaeth fyw yn gyfoethog ac amrywiol, gyda T in the Park, Travis a Cherddorfa Symffoni BBC Scotland yn y Barrowlands a Celtic Connections ymysg yr uchafbwyntiau.

Sefydlodd y ddrama gyfres *Teacup Travels* ei hun fel un o'r rhaglenni mwyaf poblogaidd ar CBeebies a dychwelodd *Lifebabble* ar CBBC i gynig mwy o gyngor ar y materion anodd sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc.

Parhaodd BBC ALBA i apelio i gynulleidfaoedd Gaeleg a Saesneg, gydag amrywiaeth gyfoethog o raglenni genre cymysg. Cafodd y gyfres ddogfen nodedig gan BBC Scotland *Highlands – Scotland's Wild Heart* ei hail-leisio i'r iaith Gaeleg a'i darlledu fel *A'Ghaidhealtachd*.

I gyd-fynd ag Wythnos Ymwybyddiaeth Dementia ym mis Mai 2016, lansiodd Radio Scotland *Memories and Conversations*, tymor arwyddocaol pum wythnos o hyd yn archwilio dulliau newydd o fynd i'r afael â'r cyflwr. Ac am wyth diwrnod, hyd at Wyl Andreas, cyfunodd gwasanaeth digidol newydd dros dro, BBC Radio Scotland Music Extra, gynnwys cerddoriaeth wreiddiol ac o'r archif, gan ddangos y dalent Albanaid a rhwyngwladol orau.

Parhaodd cyrhaeddiad BBC Scotland Online i gynyddu, yn bennaf oherwydd traffig i BBC News Scotland Online a BBC Sport Scotland Online.

**+** Darllenwch fwy am berfformiad fesul gwasanaeth yn yr Alban ar dudalen 97

## 85m



Y nifer o weithiau y mae'r clip comedi 'Voice Recognition Elevator' o *Burnistoun*, a roddwyd ar y cyfryngau cymdeithasol, wedi'i wlyo.



## Perfformiad fesul gwasanaeth

<b>Gwasanaethau penoddedig</b>	<b>Cynnwys</b> Gwnaethom wario cyfanswm o £30.8 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2016/17	<b>Cyrhaeddiad</b> Poblogaeth yr Alban sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	<b>Amser a dreulwyd yn gwyllo neu'n gwrandao ar wasanaeth bob wythnos</b> Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr neu wrandawyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	<b>Mynegai</b> Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100	<b>Cost fesul awr defnyddiwr</b> Cost darparu pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol	
	£M	%	O:M		c	
	Mae BBC ALBA yn cynnig amrywiaeth nodedig o ddeunydd rhaglenni gwreiddiol i siaradwyr a dysgwyr Gaeleg sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi diwylliant, hunaniaeth a threftadaeth Gaeleg.	<b>£6.0m</b> 2015/16: £5.5m	<b>13.2%</b> 2015/16: 15.0%	<b>01:55</b> 2015/16: 01:59	<b>dd/g</b> 2015/16: dd/g	<b>9.6c</b> 2015/16: 7.8c
	Mae BBC Radio Scotland yn wasanaeth llafar yn bennaf i oedolion. Mae rhaglenni genre cymysg yn adlewyrchu amrywiaeth diwylliant yr Alban ac yn ymddrin â materion a digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n berthnasol i wrandawyr ledled y wlad.	<b>£21.1m</b> 2015/16: £22.9m	<b>20.3%</b> 2015/16: 21.0%	<b>07:18</b> 2015/16: 06:55	<b>75.8</b> 2015/16: 76.0	<b>6.0c</b> 2015/16: 6.6c
	Mae BBC Radio nan Gàidheal yn cynnig gwasanaeth radio llafar a cherddoriaeth cynhwysfawr i siaradwyr Gaeleg. Mae rhaglenni genre cymysg yn adlewyrchu amrywiaeth diwylliant yr Alban ac, o safbwynt Gaeleg a thrwy gyfrwng yr iaith Gaeleg, yn ymddrin â materion a digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n berthnasol i wrandawyr ledled y wlad.	<b>£3.7m</b> 2015/16: £3.9m	<b>68.4%</b> 2015/16: 69.0%	<b>08:40</b> 2015/16: 08:27	<b>dd/g</b> 2015/16: dd/g	<b>15.6c</b> 2015/16: 16.3c

BBC ALBA: Arolwg Barn TNS yn yr Alban. Sylfaen: pawb 16+ oed yn yr Alban. Mae BBC Alba yn cyrraedd 67.2% o'r boblogaeth o siaradwyr Gaeleg yn yr Alban sy'n defnyddio'r gwasanaeth am 05:23 yr wythnos ar gyfartaledd. Panel TRP. BBC Radio Scotland: Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ a chynulleidfaoedd 15+ oed. Ffynonellau: cyrhaeddiad ac amser a dreulwyd RAJAR; Mynegai Gwerthfawrogiad: panel Pulse o 20,000 o oedolion 16+ oed yn y DU gan GfK. Data yn seiliedig ar ei Ardal Arolygu Gyfan  
BBC Radio nan Gàidheal: Panel TRP; y boblogaeth 16+ sy'n siarad Gaeleg yn yr Alban  
dd/g Nid oes data yn bodoli ar gyfer y mesur hwn ar hyn o bryd

## Cyrraedd ein cynulleidfaoedd

Cyrhaeddiad o ran oedolion: canran yr oedolion sy'n defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos

**94%**

2015: 95%

## Argraff gyffredinol o'r BBC

**6/10**

2015/16: 6/10

## Ail

Dychwelodd cyfres gomedi boblogaidd yr Alban *Still Game* yn llwyddiannus, a'r bennod a berfformiodd orau oedd y rhaglen a wylwyd fwyaf yn y degawd diwethaf yn yr Alban namyn un (ar ôl seremoni cau Gemau Olympaidd 2012).

## Perfformiad fesul llwyfan

Cyrhaeddiad wythnosol gwasanaethau newyddion penoddedig yr Alban ar y teledu

**50%**

2015/16: 51%

Cyrhaeddiad wythnosol Radio'r BBC

**56%**

2015/16: 59%

Cyrhaeddiad wythnosol Teledu'r BBC

**80%**

2015/16: 83%

Cyrhaeddiad wythnosol BBC Ar-lein a'r Botwm Coch

**59%**

2015: 61%

## Im

Cyrhaeddodd *Highlands: Scotland's Wild Heart*, y gyfres ddogfen nodedig bedair rhan, a leisiwyd gan Ewan McGregor, fwy na miliwn o wylwyr yn yr Alban.

# Y BBC yng Ngogledd Iwerddon

Cawsom flwyddyn gofiadwy o ddarlledu eto yn 2016/17. Adlewyrchodd ein hallbwn ddatblygiadau gwleidyddol yn Stormont a thu hwnt, cyflawniadau diwylliannol a chwaraeon a digwyddiadau i goffáu adegau mewn hanes.

**Gwnaethom ddyfnhau ein cysylltiadau a'n partneriaethau creadigol a chynyddu ein presenoldeb ar rwydweithiau'r BBC ledled y DU. Parhaodd y gwasanaethau lleol i fod yn boblogaidd, a gwnaethom gysylltu â chynulleidfaoedd ledled y rhanbarth drwy gyfres o ddigwyddiadau gan y BBC. Gwnaethom hefyd gyhoeddi pecyn £11 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol ar gyfer BBC Northern Ireland dros y tair blynedd nesaf. Bydd yn ategu cyrhaeddiad, amrywiaeth ac uchelgais ein gwasanaethau ac yn helpu i sicrhau eu dyfodol mewn byd newidiol.**

Roedd ein hallbwn newyddion a materion cyfoes yn cynnwys darllediadau o ddau etholiad y Cynulliad a Refferendwm yr UE. Gwnaethom adrodd ar faterion yn effeithio ar y sefydliadau datganoledig a'u gweithrediad yn y dyfodol, gan roi gwybodaeth, dadansoddiad a fforwm trafod pwysig i gynulleidfaoedd. A gwnaethom ddefnydd effeithiol o'n gohebwyr arbenigol a rhanbarthol wrth roi sylw i straeon am sectorau a llyfdd gwahanol. Adlewyrchodd *BBC Newslines* natur ddynamig yr agenda newyddion leol, sy'n newid yn gyflym weithiau, a pharhaodd *Spotlight* i ddenu cynulleidfaoedd mawr a llawer o ganmoliaeth am ei hymchwiliadau. Gwnaethom hefyd adlewyrchu diddordeb lleol yn y Gemau Olympaidd ac Ewro 2016 ac ymweliad y Frenhines â Gogledd Iwerddon fel rhan o'i dathliadau pen-blwydd yn 90 oed.

BBC Radio Ulster/Foyle oedd yr orsaf radio y gwrandawyd arni fwyaf yng Ngogledd Iwerddon o hyd. Mae ei llwyddiant yn seiliedig ar apêl parhaus y llinynau rhaglen gwahanol, gan gynnwys *Talkback*, *On Your Behalf*



*My Mother and Other Strangers* – drama teledu rhwydwaith y BBC o Ogledd Iwerddon.

*Your Place and Mine* – y cyrhaeddodd pob un ohonynt gerrig milltir pwysig yn ystod y flwyddyn. Parhaodd rhaglen Stephen Nolan yn yr wythnos i ysgogi trafodaeth am wleidyddiaeth ymysg sawl peth arall, a gwnaethom ddatlu materion diwylliannol a chymunedol gyda darllediadau o ddatliadau Calan Gaeaf yn Derry-Londonderry, 50 mlynedd ers sefydlu Cerddorfa Ulster a digwyddiadau yn gysylltiedig â Diwrnod Cerddoriaeth y BBC. Gwnaethom hefyd dynnu sylw at fuddiannau darllen mewn cyfres uchelgeisiol o raglenni a digwyddiadau fel rhan o Wythnos Llyfrau gyda Libraries NI; rhoi llwyfan i dalent a lleisiau newydd; a chael cydnabyddiaeth gan y diwydiant cyfan gyda gwobrau am amrywiaeth o raglenni, cyflwynwyr a'r tîm yn BBC Radio Foyle.

Gwnaethom gyflwyno sawl cyfres ddrama ar gyfer teledu rhwydwaith y BBC, gan gynnwys *Line of Duty* a *My Mother and Other Strangers*. Mae cryn dipyn o'r diolch am ein cyflawniadau yn y maes hwn yn mynd i bartneriaeth sefydledig ac effeithiol iawn ag NI Screen. Bydd atgyferthu'r enillion hyn a sicrhau cynrychiolaeth a phortread diwylliannol hyd yn oed yn well mewn genres rhaglenni gwahanol yn flaenoriaethau allweddol o hyd dros y cyfnod nesaf. Mae BBC Northern

Ireland yn adlewyrchu bywyd cymunedol yn ei wahanol agweddau ac amrywiaeth. Roedd ei amserlen yn cynnwys rhaglenni a gomisiynwyd yn arbennig am ddigwyddiadau canmlwyddiant 1916, sioe *BBC Proms in the Park* a'r *Belfast Tattoo* ac allbwn arall am ein treftadaeth ieithyddol a'n traddodiadau. Dychwelodd *True North* gyda rhaglenni dogfen dadlennol am bobl, eu bywydau a phrofiadau a chafodd cynulleidfaoedd eu difyrru gyda digon o chwerthin yn *The Blame Game* a dychweliad *Give My Head Peace* yr edrychwyd ymlaen yn fawr ati.

Rydym hefyd wedi arloesi wrth ddatblygu a chymhwyso technolegau newydd, gan gaffael arbenigedd gyda buddiannau ar gyfer y BBC cyfan. Mae BBC Rewind wedi dechrau datgloi potensial ein harchifau teledu a radio ac rydym wedi gwella amrywiaeth ac effaith cynnwys lleol y BBC ar lwyfannau digidol. Rydym hefyd wedi ehangu darpariaeth dysgu'r BBC sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys sawl menter sy'n canolbwyntio ar y bwch cyrhaeddiad.








+ Darllenwch fwy am berfformiad fesul gwasanaeth yng Ngogledd Iwerddon ar dudalen 101

## 55%



o'r boblogaeth o oedolion yng Ngogledd Iwerddon wedi gwyllo darllediadau teledu'r BBC o ganlyniadau etholiad y Cynulliad ym mis Mawrth 2017.

## Perfformiad fesul gwasanaeth

					
<b>Gwasanaethau penodedig</b>	<b>Cynnwys</b> Gwnaethom wario cyfanswm o £17.5 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2016/17	<b>Cyrhaeddiad</b> Poblogaeth Gogledd Iwerddon sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	<b>Amser a dreuliyd yn gwilio neu'n gwrandao ar wasanaeth bob wythnos</b> Y cyfnod o amser a dreuliodd gwrandawyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	<b>Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth</b> Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100	<b>Cost fesul awr defnyddiwr</b> Faint mae'n ei gostio i ddarparu pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol
	£M	%	O:M		C
 Mae BBC Radio Ulster yn wasanaeth llafar yn bennaf, sy'n cwmpasu amrywiaeth o raglenni sy'n adlewyrchu newyddion, digwyddiadau a phob agwedd ar fywyd cymunedol yn ei ehangder.	<b>£17.5m</b> 2015/16: £17.7m	<b>34.3%</b> 2015/16: 36.2%	<b>11:19</b> 2015/16: 10:47	<b>74.9</b> 2015/16: 74.2	<b>5.9c</b> 2015/16: 5.7c
 Mae BBC Radio Foyle yn wasanaeth llafar yn bennaf i gynulleidfa oedd yng ngogledd-orllewin Gogledd Iwerddon. Mae'n cynnig cymysgedd o newyddion a rhaglenni eraill sy'n ategu ac yn cyfrannu at wasanaeth BBC Radio Ulster ar draws y rhanbarth.					

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud ar gyfer cynulleidfa oedd 15+ oed.

Ffynonellau: cyrhaeddiad ac amser a dreuliyd RAJAR; Mynegai Gwerthfawrogiad: panel Pulse o 20,000 o oedolion 16+ oed yn y DU gan GfK. Data yn seiliedig ar ei Ardal Arolygu Gyfan.

### Cyrraedd ein cynulleidfa oedd

Cyrhaeddiad o ran oedolion: canran yr oedolion sy'n defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos

# 94%

2015: 96%



### Argraff gyffredinol o'r BBC

# 6/10

2015/16: 6/10



# 1.6m

Gwylwyd *Wild Ireland: The Edge of the World* ar BBC Two gan gynulleidfa o 1.6 miliwn ledled y DU a chafodd sgorau gwerthfawrogiad uchel.



### Perfformiad fesul llwyfan

Cyrhaeddiad wythnosol gwasanaethau newyddion penodedig Gogledd Iwerddon ar y teledu

# 52%

2015/16: 53%

Cyrhaeddiad wythnosol Radio'r BBC

# 59%

2015/16: 60%

Cyrhaeddiad wythnosol Teledu'r BBC

# 78%

2015/16: 80%

Cyrhaeddiad wythnosol BBC Ar-lein a'r Botwm Coch

# 55%

2015: 56%



# 25%

Yn 2016, cyrhaeddodd cynnwys hanes teledu BBC Northern Ireland, yn coffáu canmlwyddiant ers Brwydr y Somme a Gwrthryfel y Pasg 25% o wylwyr yng Ngogledd Iwerddon.



Ffynonellau: Arolwg Cross-media Insight gan GfK. Kantar Media, BARB, RAJAR



# Y BBC yn Lloegr

Mae safle'r BBC yn MediaCityUK yn Salford bellach yn bump oed ac mae'n mynd o nerth i nerth fel cartref cyffrous arloesedd ac allbwn.

**Ar ddechrau 2017, defnyddiwyd stiwdios Salford i ffilmio rowndiau clyweliadau rhaglen chwilio am dalent BBC One *Let It Shine*. Ymysg y rhaglenni eraill a gynhyrchir allan o Salford mae *A Question of Sport*, *Match of the Day*, *Blue Peter*, *Football Focus*, *BBC Breakfast* a *You and Yours*. Mae safle Salford hefyd yn gartref i BBC Sport a BBC Children gan gynnwys dwy sianel y BBC i blant. Mae mwy na 750 o staff sy'n gweithio ar allbwn digidol bellach wedi'u lleoli yn Salford, gan ddarparu iPlayer, hafan y BBC a gwefan BBC Sport, yn ogystal â dylunio a datblygu gwasanaethau digidol newydd y BBC.**

Mewn rhannau eraill o Loegr, roedd drama yn boblogaidd iawn. Ymysg yr uchafbwyntiau roedd *To Walk Invisible* gan Sally Wainwright, a edrychodd ar fywydau'r chwirydd Brontë, ac ail gyfres o *Poldark* sy'n boblogaidd yn fyd-eang, ac sydd wedi rhoi cymaint o hwb i'r diwydiant twristiaeth yng Ngherny.

Cyrhaeddodd *The Moorside*, a leolwyd yn Swydd Efrog, a adroddodd hanes llathruddiad Shannon Matthews, 12.7 miliwn o bobl yn y DU dros ddwy bennod. Perfformiodd y rhaglen yn arbennig o dda yng ngogledd Lloegr ac, yn ôl y disgwyl efallai, perfformiodd yn eithriadol o dda yn Swydd Efrog lle cyrhaeddodd bron 30% o bobl.

Un o'r llwyddiannau drama eraill oedd trydedd gyfres *Peaky Blinders*. Perfformiodd y rhaglen yn arbennig o gryf yn ngorllewin canolbarth Lloegr, ble y caiff ei lleoli a ble y gwnaed rhywfaint o'r gwaith ffilmio. Cafodd y BBC yng nghanolbarth Lloegr flwyddyn wych gyda'r Pentref Drama a leolir yn Birmingham yn cynhyrchu'r opera sebon boblogaidd yn ystod y dydd *Doctors* a *Father Brown* sy'n boblogaidd yn fyd-eang.

Trawsnewidiwyd safle canolog y BBC yn Birmingham, y Mailbox, dros y blynyddoedd diwethaf yn dilyn penderfyniad bwriadol i fuddsoddi yn y safle. Bellach, mae mwy na 700 o staff y BBC wedi'u lleoli yn y Mailbox, gyda swyddogaethau fel Adnoddau Dynol ac



Nihal Arthanayake, un o gyflwynwyr BBC 5 live.

Academi'r BBC yn symud i mewn dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ddiweddarach eleni, bydd BBC Three yn adleoli i'r Mailbox. Bydd adrannau comisiynu, cyhoeddi a chynhyrchu cynnwys ffurf fer y sianel, i raddau, ynghyd â'r tîm cyfryngau cymdeithasol sy'n ei chefnogi, yn dechrau symud i Birmingham yn yr hydref.

Mae'r Mailbox hefyd yn gartref i *The Archers* ar Radio 4, gwasanaethau rhanbarthol a lleol ar gyfer Gorrlewin Canolbarth Lloegr, rhywfaint o raglenni Asian Network, BBC Digital England a phencadlys BBC English Regions.

BBC Radio 5 live yw'r unig orsaf radio ar gyfer y DU gyfan sydd wedi'i lleoli y tu allan i Lundain, a hithau bellach wedi hen sefydlu yn Salford. Ledled Lloegr, mae 37 o orsafoedd radio lleol y BBC yn parhau i wasanaethu, gan adlewyrchu a hyrwyddo eu hardaloedd, tra'n dwyn pobl sydd mewn pŵer i gyfrif a rhoi llwyfan i newyddiaduraeth leol wreiddiol. Gyda'i gilydd, ein rhaglenni newyddion teledu rhanbarthol am 18:30 ar BBC One yw'r allbwn newyddion a gaiff ei wyllo fwyaf yn Lloegr. Mae ein timau rhanbarthol wedi creu llu o gynnwys gwych eleni. Yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, dilynodd *The Gift of Hearing* Jo Milne, sy'n fyddar, wrth iddi weithio ar brosiect i roi mewnbliadau i blant byddar yn Bangladesh. Dychwelodd *Inside Out*, yr unig raglen materion cyfoes ar y teledu

sy'n benodol ar gyfer Lloegr, gyda mwy o newyddiaduraeth wreiddiol, gan gynnwys ymchwiliad i brisiau mewn archfarchnadoedd.

Mae'r BBC ym Mryste yn parhau i fod yn ganolfan gynhyrchu bwysig. Mae timau sy'n creu rhaglenni teledu rhwydwaith poblogaidd fel *Countryfile*, *Gardeners' World*, *Antiques Roadshow*, *Flog It* a *DIY SOS* wedi'u lleoli yn safle'r BBC ym Mryste. Mae Uned Hanes Naturiol fyd-enwog y BBC hefyd wedi'i lleoli ym Mryste. Cafodd *Planet Earth II* ei sgrinio'n arbennig yn y ddinas, gyda Syr David Attenborough ac aelodau o'r cyhoedd yn bresennol. Mae Bryste hefyd yn parhau i fod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer cynhyrchu radio rhwydwaith.

Yn olaf, mae'r BBC wedi addo "canolbwyntio'n ddigydwybod ar Hull" yn 2017 er mwyn nodi tro'r ddinas yn nwyrain Swydd Efrog fel Dinas Diwylliant y DU. Mae llawer o'n rhaglenni wedi bod i Hull i ddarparu o'r ddinas ac i wneud rhaglenni yno, gan gynnwys y *Jeremy Vine show* ar Radio 2 a *Songs of Praise*. Ar Nos Galan, Hull oedd y ddinas gyntaf erioed i gael golygu rhaglen *Today*. Mae ein gwasanaethau rhanbarthol a lleol wedi bod yn rhoi sylw eang i'r digwyddiadau ac mae mwy i ddod drwy gydol 2017.

## Perfformiad fesul gwasanaeth

<b>Gwasanaethau penodedig</b>	<b>Cynnwys</b> Gwnaethom wario cyfanswm o £112.9 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2016/17	<b>Cyrhaeddiad</b> Poblogaeth Lloegr sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	<b>Amser a dreuliyd yn gwyllo neu'n gwrandao wasanaeth bob wythnos</b> Y cyfnod o amser a dreuliodd gwrandawyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	<b>Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth</b> Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100	<b>Cost fesul awr defnyddiwr</b> Cost cyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol
	£M	%	O:M		C
<b>BBC LOCAL RADIO</b> Mae Radio Lleol y BBC yn darparu gwasanaeth llafar yn bennaf sy'n cynnig newyddion, gwybodaeth a thrafodaethau, gyda phwyslais cryf ar ryngweithedd.	<b>£112.9m</b> 2015/16: £119.8m	<b>14.6%</b> 2015/16: 15.0%	<b>08:36</b> 2015/16: 08:51	<b>82.7</b> 2015/16: 82.4	<b>4.0c</b> 2015/16: 3.9c

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud ar gyfer cynulleidfaoedd 15+ oed  
Ffynonellau: cyrhaeddiad ac amser a dreuliyd RAJAR; Mynegai Gwerthfawrogiad: panel Pulse o 20,000 o oedolion 16+ oed yn y DU gan GfK  
Data yn seiliedig ar ei Ardal Arolygu Gyfan

## Cyrhaedd ein cynulleidfaoedd

Cyrhaeddiad o ran oedolion: canran yr oedolion sy'n defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos

**94%**

2015: 96%

## Argraff gyffredinol o'r BBC

**7/10**

2015/16: 7/10

## Perfformiad fesul llwyfan

Cyrhaeddiad wythnosol gwasanaethau newyddion penodedig Lloegr ar y teledu

**43%**

2015/16: 45%

Cyrhaeddiad wythnosol Teledu'r BBC

**79%**

2015/16: 80%

Cyrhaeddiad wythnosol Radio'r BBC

**65%**

2015/16: 65%

Cyrhaeddiad wythnosol BBC Ar-lein a'r Botwm Coch

**64%**

2015: 63%

## Cyrhaeddiad fesul rhanbarth

Gogledd Lloegr

**94%**

2015: 96%

Canolbarth Lloegr

**95%**

2015: 96%

De Lloegr

**97%**

2015: 97%

Llundain

**93%**

2015: 94%

## Argraff gyffredinol fesul rhanbarth

Gogledd Lloegr

**7/10**

2015/16: 7/10

Canolbarth Lloegr

**7/10**

2015/16: 7/10

De Lloegr

**7/10**

2015/16: 7/10

Llundain

**7/10**

2015/16: 7/10

Ffynonellau: Arolwg Cross-media Insight gan GfK. Kantar Media, BARB, RAJAR

# Cyllid a gweithrediadau

Mae'r BBC wedi cyrraedd targedau effeithlonrwydd heriol yn ystod blwyddyn olaf rhaglen arbedion Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf ond rydym yn wynebu heriau newydd wrth i ni weithredu gofynion y Siarter Frenhinol newydd gan gynnal cynnwys Prydeinig gwych ar yr un pryd. Ein blaenoriaeth yw buddsoddi cymaint o arian â phosibl mewn cynnwys a gwasanaethau i dalwyr ffi'r drwydded drwy leihau ein costau rhedeg i'r eithaf a gwneud y BBC yn symlach ac yn fwy darbodus.

t.47

## Adolygiad y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol

Mae'r BBC yn trawsnewid i ateb heriau cyfnod y Siarter nesaf, gan addasu i fframweithiau llywodraethu a rheoleiddio newydd

+ Darllenwch fwy ar dudalennau 47 a 48

BBC One drama SS-GB

t.50

## Gweithgarwch masnachol

Mae'r is-gwmnïau sydd dan berchenogaeth lawn y BBC yn cynyddu swm yr arian y maent yn ei gyflwyno'n ôl i'r BBC i'w fuddsoddi mewn cynnwys

+ Darllenwch fwy ar dudalennau 50 a 51

t.52

## Sicrhau arbedion effeithlonrwydd

Mae ein record gadarn o sicrhau arbedion uchelgeisiol wedi parhau drwy raglen effeithlonrwydd Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf

+ Darllenwch fwy ar dudalen 52



# Adolygiad Cyllid gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol



“Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn flwyddyn o drawsnewid.”



Anne Bulford,  
Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol

## 95%

o wariant rheoladwy'r BBC y flwyddyn hon wedi'i wario ar gynnwys a chyflawni, gyda dim ond 5% yn cael ei wario ar redeg y sefydliad.

**Yn ystod y flwyddyn cefais y fraint o gael fy mhenodi'n Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, rôl a grëwyd fel rhan o strwythur uwch dîm arwain newydd. Yn ogystal â pharhau i arwain meysydd cyllid, gweithrediadau, adnoddau dynol, cyfreithiol, a dylunio a pheirianneg, rwyf wedi derbyn cyfrifoldebau ychwanegol am ein timau marchnata a chynulleidfaoedd a grŵp canolog newydd sy'n ymwneud â hawliau masnachol a materion busnes.**

Mae'r timau cymorth proffesiynol ym mhob rhan o'r BBC yn cydweithio i sicrhau ein bod yn darparu cynnwys ac yn cyrraedd cynulleidfaoedd yn y ffordd fwyaf effeithiol, gan ddefnyddio ystod eang o sgiliau a phrofiad.

Y flwyddyn hon, rydym wedi canolbwyntio ar foderneddio a symleiddio gweithgareddau er mwyn gwella gwasanaethau a sicrhau ein bod yn gwario cymaint o arian ffi'r drwydded â phosibl ar y cynnwys a'r gwasanaethau sy'n golygu mwyaf i'n cynulleidfaoedd. O drawsnewid y ddarpariaeth adnoddau dynol a newid darparwr ein gwasanaethau cyllid a chyfrifyddu allanol, i gydgontractio gwasanaethau archwilio mewnol, datblygu strategaeth eiddo newydd ar gyfer Llundain, cwblhau ymarferion caffael cymhleth yn llwyddiannus a darparu Gwasanaethau Creadigol yn fewnol; rydym wedi trawsnewid gallu'r BBC.

### Sicrhau arbedion effeithlonrwydd

Mae ein record gadarn o sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn parhau. Daeth rhaglen

DQF i ben yn 2016/17 ac mae'n bleser gennyf nodi ein bod wedi rhagori ar y targed £700 miliwn. Cafodd £81 miliwn o arbedion blynyddol eu sicrhau yn ystod y flwyddyn, sy'n golygu bod cyfanswm arbedion DQF yn cyfateb i £722 miliwn erbyn 31 Mawrth 2017 (y mae £712 miliwn ohonynt yn arbedion cynaliadwy). Er gwaethaf hyn, ni allwn sefyll yn yr unfan. Er mwyn ateb ein heriau ariannol yn y dyfodol, mae angen i ni ddod o hyd i £800 miliwn yn rhagor o arbedion y flwyddyn erbyn 2021/22. Rydym eisoes wedi dechrau cyflawni'r targed hwn, gan sicrhau £91 miliwn o arbedion blynyddol yn ystod 2016/17 (yn ogystal â'r £81 miliwn a arbedwyd drwy DQF).

Rydym wedi ail-lunio strwythurau busnes ac nawr mae gennym BBC sydd â llai o haenau ac is-adrannau. Rydym yn darparu'r dechnoleg sydd ei hangen i greu gweithlu modern ac effeithlon, gan gynnwys ailgaffael rhai o'n gwasanaethau technoleg. Mae hyn wedi arwain at BBC sy'n cael ei reoli'n dda o safbwynt ariannol ac sy'n llai biwrocrataidd – BBC sy'n fwy syml, gydag arweinwyr mwy gweladwy a hygyrch. Yn ei hadroddiad diwethaf ar ein trefniadau cynllunio'r gweithlu, gwnaeth SAG rai argymhellion pwysig ynghylch gwelliannau i'r dyfodol, ond cydnabu hefyd y camau rydym wedi'u cymryd i symleiddio'r BBC; cynyddu amrywiaeth ein gweithlu; a lleihau costau'r gyflogres 6% mewn termau real (gan gynnwys bron haneru nifer yr uwch reolwyr), yn ogystal â gwella trefniadau rheoli ac adrodd.

Mae torri costau eiddo yn elfen allweddol o gynllun effeithlonrwydd y BBC. Lluniwyd

## CYLLID A PHOBL

cytundeb ariannol newydd yn ystod y flwyddyn sy'n lleihau costau arian parod parhaus y Ganolfan Ddarlledu, yn Llundain, yn sylweddol. Mae'r cytundeb hwn hefyd yn sicrhau perchenogaeth a meddiannaeth hirdymor y BBC o'r Ganolfan Ddarlledu ar ôl y brydles gyfredol, gan hwyluso perchenogaeth lawn y BBC o'r adeilad yn 2045. Mae cost arian parod meddiannu'r adeilad wedi gostwng £10 miliwn y flwyddyn o gymharu â'r gost arian parod sylfaenol. Disgwylir i'r arbedion hyn gynyddu bob blwyddyn i £34 miliwn y flwyddyn erbyn 2033 (yn erbyn ein cost arian parod sylfaenol). Mae'r profill hwn o daliadau arian parod blynyddol wedi cael ei ymestyn o 2033 tan 2045, er mwyn ailbroffilio'r ymrwymadau sy'n bodoli eisoes a phrynu'r budd refersiynol yn y rhydd-ddaliad dros y cyfnod olaf hwn.

Cafodd y rhaglen ailgaffael technoleg ei chwblhau yn ystod y flwyddyn, a fydd yn sicrhau dros £30 miliwn o arbedion blynyddol yn y dyfodol, ar ben y £45 miliwn o arbedion DQF blynyddol sydd wedi'u sicrhau eisoes gan y rhaglen ailgaffael technoleg. Rydym wedi trawsnewid y ffordd rydym yn darparu ac yn rheoli technoleg, gan ddarparu mwy o hyblygrwydd a mynediad i dechnoleg newydd wrth iddi ddod i'r amlwg.

Yn 2016/17 gwnaethom sicrhau dros £60 miliwn o arbedion ar ein gwariant allanol ar nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys meysydd fel gwasanaethau cynhyrchu, teithio a chyfarpar darlledu. Roedd hyn £8 miliwn yn fwy na tharged a oedd eisoes yn heriol, ac fe'u sicrhawyd drwy achub ar gynifer o gyfleoedd â phosibl i ysgogi mwy o gystadleuaeth. Gwnaethom hefyd gynnal arolwg ymysg ein 100 prif gyflenwr (sy'n cyfrif am tua 84% o'n gwariant allanol), a chawsom adborth cyson ffafriol ar ein prosesau prynu a'r ffordd rydym yn rheoli ein contractau allweddol.

Mae 'Cystadlu neu Gymharu' yn parhau i fod yn rhan annatod o'n hymdrechion i sicrhau arbedion effeithlonrwydd parhaus. Mae'r fframwaith yn sicrhau y caiff popeth a wnawn ei herio yn y farchnad neu ei feincnodi yn ei herbyn, gan sicrhau gwerth am arian tra'n cynnal ansawdd. Yn ystod 2016/17, daeth adolygiad mewnol i'r casgliad bod 90% o wariant rheoladwy'r BBC bellach yn bodloni meini prawf 'Cystadlu neu Gymharu'.

Rydym hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar leihau ein costau rhedeg er mwyn sicrhau ein bod yn buddsoddi cymaint o arian â phosibl mewn cynnwys ar gyfer talwyr ffi'r drwydded. Roedd 95% o wariant rheoladwy'r BBC y flwyddyn hon yn canolbwyntio ar gynnwys a chyflawni, gyda 5% yn cael ei wario ar redeg y sefydliad. Mae hyn dipyn yn is na chyfartaledd y sector cyhoeddus, sef 11%, a chyfartaledd y diwydiannau a reoleiddir, sef 9%.

Ers diwedd y flwyddyn, mae'r prisiad actiwaraidd o'r Cynllun Pensiwn fel yr oedd ar 1 Ebrill 2016 wedi'i gwblhau. Dangosodd y prisiad hwn ddiffyg ariannu o £1,775 miliwn

(o gymharu â £2,054 miliwn ar 1 Ebrill 2013). Mae'r BBC ac Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn wedi cytuno ar gynllun ad-dalu newydd, gydag ad-daliadau yn ddyledus tan 31 Rhagfyr 2028. Ystyrir bod y cynllun ad-dalu yn gynllun fforddiadwy i ymdrin â'r diffyg, heb roi gwasanaethau i gynulleidfaoedd yn y fantol na pheryglu buddiannau aelodau'r cynllun pensiwn.

### Newidiadau i drefniadau llywodraethu a rheoleiddio

Mae'r flwyddyn ariannol hon wedi bod yn flwyddyn o drawsnewid ym maes llywodraethu a rheoleiddio fel yr eglurir mewn rhan arall o'r adroddiad hwn. Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ('SAG') fydd ein harchwilydd ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18.

Mae ffi'r drwydded wedi'i sicrhau ar gyfer cyfnod y Siarter a bydd yn cynyddu'n unol â chwyddiant tan 2021/22, am y tro cyntaf mewn degawd bron. O 1 Medi 2016, cafodd y ddeddfwriaeth trwyddedu teledu ei diweddarau i gynnwys gwylio neu lawrlwytho rhaglenni teledu'r BBC ar alw drwy iPlayer. Mae hyn wedi cyfrannu at y cynnydd blynyddol mewn incwm o ffi'r drwydded yn 2016/17.

Llwyddwyd hefyd i sicrhau rhagor o gyllid gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad i'w fuddsoddi yn BBC World Service. Rydym wedi cael bron £290 miliwn o gyllid newydd dros y pedair blynedd nesaf, sef y cynnydd mwyaf yn y World Service ers y 1940au. O ganlyniad, bydd gan filiynau yn rhagor o bobl ledled y byd fynediad at newyddiaduraeth ddibynadwy, annibynnol y BBC.

### Edrych ymlaen

Ar 1 Ebrill 2017, cafodd BBC Studios ei lansio fel is-gwmni masnachol o dan berchenogaeth lawn y BBC. Mae hwn yn gyfle i gyflwyno syniadau creadigol i gynulleidfaoedd newydd ledled y byd, oherwydd – am y tro cyntaf – bydd BBC Studios yn gallu gwneud rhaglenni creadigol, beiddgar, Prydeinig ar gyfer darlledwyr eraill, yn ogystal â chwarae rôl hollbwysig yn nyfodol y BBC drwy ddarparu rhaglenni o ansawdd a chreu eiddo deallusol gwerthfawr.

Mae'r DU yn newid, a hynny'n gyflym. Mae arferion cyfryngau ein cynulleidfaoedd yn wahanol iawn o gymharu â phum mlynedd yn ôl. Mae cynulleidfaoedd iau yn defnyddio llai o'r BBC yn sgil mwy o gystadleuaeth am eu hamser gan ddarparwyr cyfryngau eraill, yn enwedig ar-lein, a mathau eraill o adloniant. Mae angen i ni ganolbwyntio ar ail-greu'r BBC ar gyfer cenhedlaeth newydd ynghyd â rhoi profiad mwy personol, mwy digidol – er mwyn bod yn fwy perthnasol ac yn fwy cyfleus i fywydau ein cynulleidfaoedd.

Mae angen i ni hefyd fanteisio ar gryfderau creadigol pob rhan o'r DU er mwyn cynrychioli amrywiaeth ein gwledydd a'n rhanbarthau. Yn sgil penodi Cyfarwyddwr newydd ar gyfer y Gwledydd a'r Rhanbarthau yn ystod y flwyddyn, mae gennyng ddealltwriaeth

well o natur yr heriau sy'n wynebu'r BBC wrth wasanaethu ein cynulleidfaoedd hyd yn oed yn well yn y rhannau hyn o'r DU. Mae mwy o bwerau datganoledig, ymdeimlad cynyddol o hunaniaeth genedlaethol, a disgwyliadau uwch o safbwynt darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi arwain at fuddsoddi mwy o arian yn y gwledydd:

- yn yr Alban, rydym yn buddsoddi £19 miliwn mewn lansiad sanel deledu benodedig, newydd, sef BBC Scotland. Rydym hefyd yn cynyddu'r allbwn teledu rhwydwaith a gynhyrchir yn yr Alban sy'n golygu y byddwn yn gwario £20 miliwn y flwyddyn yn fwy, dros y tair blynedd nesaf, o gymharu â 2015.
- yng Nghymru, erbyn 2019 rydym wedi ymrwymo i wario £8.5 miliwn yn rhagor ar allbwn teledu bob blwyddyn. Erbyn i BBC Cymru symud i'w gartref newydd yng nghanol dinas Caerdydd, byddwn wedi cynyddu ein buddsoddiad mewn rhaglenni iaith Saesneg 50% i bob pwrpas. Bydd hyn yn dyblu ein buddsoddiad mewn genres fel drama, comedi ac adloniant. O ran newyddion a materion cyfoes, bydd yn ein helpu i symud yn gyflymach ar-lein a chyrraedd cynulleidfaoedd iau, yn ogystal â darparu gwasanaeth gohebu mwy arbenigol.
- yng Ngogledd Iwerddon, caiff £11 miliwn o arian ychwanegol ei fuddsoddi dros y tair blynedd nesaf. Bydd hyn yn trawsnewid ein hallbwn digidol – ar gyfer newyddion a chwaraeon a mwy. Mae'n golygu mwy o gynnwys drama, ffeithiol a chomedi.
- mae cynlluniau buddsoddi ar gyfer Lloegr yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Mae angen i dimau technegol a golygyddol gydweithio â'i gilydd mewn ffordd fwy cydlynol, mae angen i ni ddyrannu cyllidebau mewn ffordd fwy ystwyth, ac mae angen i ni ymateb yn well i newidiadau cyflym o fewn ein diwydiant. Er mwyn mynd ati o ddifrif i ail-greu'r BBC ar gyfer cenhedlaeth newydd, mae'n rhaid i ni fod yn llawer mwy entrepreneuriaidd a byddaf yn canolbwyntio'n benodol ar hyn yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae'r Siarter yn ailddatgan ein cenhadaeth graidd, yn cadarnhau ein maint a'n cwmpas, ac yn rhoi'r sylfaen gadarn sydd ei hangen arnom i fuddsoddi mewn BBC cadarn o'r radd flaenaf. Mae setliad ariannol y BBC yn rhoi mwy o eglurder i ni ynghylch ein hincwm yn y dyfodol ac yn ein galluogi i gynllunio ar gyfer y dewisiadau anodd rydym yn gwybod y bydd yn rhaid i ni eu gwneud.



### Anne Bulford

Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol  
22 Mehefin 2017

# Trosolwg ariannol

## Sut rydym yn defnyddio ffi'r drwydded

Mae'r ffordd y caiff y BBC ei ariannu yn gosod cyfrifoldebau sylweddol arno fel sefydliad:

- rhoi gwerth am arian drwy ganolbwyntio gwariant ar y rhaglenni a'r gwasanaethau y mae'r cyhoedd am eu cael fwyaf gan y BBC
- sicrhau bod yr allbwn yn cael ei gyflwyno mewn ffordd mor gosteifeithlon â phosibl
- sicrhau trefniadau effeithiol ac effeithlon ar gyfer casglu ffi'r drwydded
- sicrhau'r incwm mwyaf o ffynonellau eraill, yn enwedig BBC Worldwide, cwmni masnachol y BBC ar gyfer hyrwyddo cynnwys y BBC, mewn ffordd sy'n gyson â thelerau ei Siarter a rhwymedigaethau eraill


### Canlyniadau ar gyfer y flwyddyn

Gall gwariant blyneddol amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar amseriad digwyddiadau chwaraeon mawr

a buddsoddiad mewn rhaglenni newid, gan gynnwys ailstrwythuro. Yn gyffredinol, amcan ariannol y BBC yw rheoli canlyniad incwm a gwariant mantedig dros amser, gan sicrhau bod cronfeydd arian parod wrth gefn a chyfleusterau benthyca digonol ar gael i reoli gwahaniaethau amseru a darparu arian wrth gefn. Mae ein canlyniadau ar gyfer y flwyddyn hon yn dangos diffyg cyfrifyddu, ar lefel grŵp, o £129 miliwn (2016: gwarged o £74 miliwn). Mae'r newid blyneddol hwn i'w briodoli'n rhannol i effaith gylchol digwyddiadau chwaraeon un-tro mawr a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, fel y Gemau Olympaidd a Phencampwriaeth Ewro 2016 UEFA, a buddsoddiad mewn newid. Yn ogystal, codwyd nifer o daliadau cyfrifyddu i incwm a gwariant, heb unrhyw effaith ar arian parod. Mae'r rhain yn cynnwys newid i amcangyfrif cyfrifyddu mewn perthynas ag amorteiddio hawliau dosbarthu a symudiadau gwerth teg ar drefniadau cyllido ar gyfer rhai o adeiladau'r BBC. Fel y cynlluniwyd, defnyddiodd y BBC cronfeydd arian parod wrth gefn a gronwyd

## Sut y caiff ffi'r drwydded fisol ei gwario 2016/17

£12.13 fesul cartref



yn flaenorol i'n galluogi i reoli'r cyfnod hwn o newid ac amseriad cyfraniadau i ymdrin â'r diffyg pensiwn. Gostyngodd balans arian parod y BBC ar ddiwedd y flwyddyn i £256 miliwn o'r £335 miliwn a ddaliwyd ar 1 Ebrill 2016.

### Datganiad incwm cyfunol cryno

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

Dosbarthiad y datganiad incwm	Beth ydyw?	2017 £m	2016 £m	Beth ddigwyddodd?
Incwm o ffi'r drwydded	Cyfanswm ffioedd trwyddedau a gasglwyd	<b>3,787</b>	3,743	Arhosodd ffi'r drwydded yr un peth ar £145.50 yn 2016/17. Cynnydd o 1.2% o ganlyniad i dwf yn nifer y cartrefi, cau'r ddihangfa rhag talu sy'n gysylltiedig ag iPlayer, ymgyrch farchnata wedi'i thargedu a gwelliannau i'r trefniadau casglu.
Incwm a referniw arall	Incwm masnachol (BBC Worldwide yn bennaf)	<b>1,167</b>	1,084	Cynnydd o ganlyniad i incwm grant y World Service, twf mewn breindaliadau ac incwm o renti, ynghyd ag enillion cyfnewid ffafriol.
<b>Cyfanswm incwm</b>		<b>4,954</b>	4,827	
Costau gweithredu	Cost cynhyrchu'r holl gynnwys a rhedeg y BBC, gan gynnwys symiau a ddarparwyd er mwyn ariannu mentrau effeithlonrwydd yn y dyfodol	<b>(4,943)</b>	(4,790)	Cynnydd o ganlyniad i ddigwyddiadau chwaraeon mawr fel y Gemau Olympaidd a Phencampwriaeth Ewro 2016 UEFA, a newid i'r amcangyfrif cyfrifyddu mewn perthynas ag amorteiddio hawliau dosbarthu.
Costau ailstrwythuro	Symiau a ddarparwyd er mwyn ariannu mentrau effeithlonrwydd yn y dyfodol	<b>(50)</b>	(21)	Datblygu cynlluniau arbed ymhellach.
Cyfran o ganlyniadau partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau	Ein cyfran o elw'r busnesau lle rydym yn rheoli 50% neu lai	<b>46</b>	40	Cynnydd yn sgil canlyniadau gwell ar gyfer buddsoddiadau a ddelir gan BBC Worldwide.
Ennill o werthu gweithrediadau a gwaredu asedau sefydlog	Elw o waredu gweithrediadau ac asedau sefydlog	<b>8</b>	97	Yn 2015/16, cofnodwyd enillion yn sgil gwerthu tir rhydd-ddaliadol yn safle Media Village yng ngorllewin Llundain.
Costau ariannu net	Y llog net ar asedau a rhwymedigaethau pensiwn y BBC, llog ar fenthyciadau a symudiadau gwerth teg ar ddeilliadau	<b>(134)</b>	(79)	Cynnydd o ganlyniad i gollodion y gyfradd gyfnewid ar fenthyciadau a symudiadau gwerth teg ar offerynnau ariannol, sy'n eitemau anariannol.
Tâl trethiant	Rhwymedigaeth dreth net y BBC ar ei elw trethadwy	<b>(10)</b>	-	Codir tâl treth ar weithgareddau masnachol. Defnyddiwyd gorddarpariaeth mewn blyneddol blaenorol i leihau'r tâl treth yn 2015/16.
<b>(Diffyg)/gwarged y Grŵp ar gyfer y flwyddyn</b>		<b>(129)</b>	74	

I gael rhagor o fanylion, darllenwch y datganiadau ariannol manwl ar dudalen 124.



Ar y cyfan, rydym wedi cynnal rheolaeth ariannol gadarn gyda chronfeydd arian parod wrth gefn da ac wedi parhau i gyflawni yn erbyn ein targedau ariannol. Rydym wedi parhau i reoli'r heriau ariannol sy'n ein hwynebu yn llwyddiannus, gan roi sylfaen gadarn i gyflawni ein hymrwymadau yn y dyfodol a'n huchelgeisiau strategol.

### Incwm

Cynyddodd cyfanswm incwm ffi'r drwydded 1.2% neu £44 miliwn o £3,743 miliwn i £3,787 miliwn. Roedd cyfuniad o ffactorau yn gyfrifol am y cynnydd hwn, gan gynnwys cau'r ddihangfa rhag talu oedd yn gysylltiedig ag iPlayer (a gefnogwyd gan ymgyrch farchnata wedi'i thargedu), twf yn nifer y cartrefi a gwelliannau i'r trefniadau casglu.

### Casglu ffi'r drwydded

Mae systemau rheoli ariannol effeithiol yn rhan allweddol o gydberthynas unigryw'r BBC â'i gynulleidfaoedd. Mae hyn yn cynnwys gwario ffi'r drwydded yn effeithlon a chasglu ffi'r drwydded deledu gan bawb y mae'n ofynnol iddynt brynu un.

Dyma bedwaredd flwyddyn y contract newydd ar gyfer ffi'r drwydded a disgwylir arbed cyfanswm o £220 miliwn mewn costau dros ddeng mlynedd y contract, gan ryddhau mwy o arian i'w wario ar ein rhaglenni a'n gwasanaethau.

### Datganiad ffi'r drwydded

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r BBC yn paratoi datganiad refeniw ffi'r drwydded a gaiff ei archwilio gan SAG. Mae'r cofnod hwn yn nodi'r symiau a gasglwyd gennym yn ystod y flwyddyn ac a dalwyd i Lywodraeth EM. Ynghyd â'i gwaith archwilio, mae SAG yn edrych ar ein trefniadau casglu ac yn adrodd arnynt i'r Senedd. Ceir rhagor o wybodaeth am ddatganiad refeniw ffi'r drwydded ar ein gwefan: [bbc.co.uk/aboutthebbc](http://bbc.co.uk/aboutthebbc)

## Gweithgareddau masnachol ac incwm arall

Ategir ffi'r drwydded gan incwm a wneir o'r defnydd masnachol o gynnwys a seilwaith a ariennir gan ffi'r drwydded drwy dri is-gwmni masnachol – BBC Worldwide, BBC Global News a BBC Studioworks.

### Gweithgarwch masnachol:

	Prif werthiannau		Prif ganlyniad	
	2016/17 £m	2015/16 £m	2016/17 £m	2015/16 £m
BBC Worldwide	1,060	1,029	157	134
BBC Global News	110	101	2	0
BBC Studioworks	24	24	3	(2)

### BBC Worldwide

Mae BBC Worldwide yn bodoli i gefnogi cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus y BBC a sicrhau bod y Grŵp yn cael cymaint o incwm â phosibl ar ei ran. Dychwelodd £210 miliwn i'r BBC y flwyddyn hon, sy'n uwch na £200 miliwn am y drydedd flwyddyn yn olynol (2015/16: £222 miliwn).

Roedd 2016/17 yn flwyddyn gref arall i BBC Worldwide. Cyflawnodd £1,060 miliwn o brif werthiannau, sy'n gynydd o 3% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2015/16: £1,029 miliwn). Prif weithgarwch busnes BBC Worldwide yw allforio cynnwys premiwm (a brynir mewn punnoedd sterling), sy'n golygu bod y busnes wedi elwa ar amrywiadau mewn arian cyfred yn ystod y flwyddyn, ynghyd â thwf mewn gwasanaethau brand (gan gynnwys UKTV) a gwerthiannau i wasanaethau tanysgrifio fideo ar alw ('SVOD'). Roedd y prif elw o £157 miliwn £23 miliwn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol (2015/16: £134 miliwn), gan adlewyrchu enillion a wnaed yn sgil y gyfradd gyfnewid ffafriol a thwf mewn elw masnachu, er gwaethaf y cynnydd parhaus yng nghost cynnwys. Gwelwyd twf yn elw pedwar rhanbarth daearyddol y cwmni yn ystod y flwyddyn.

Roedd nifer o eitemau anariannol wedi effeithio ar elw gweithredu, gan gynnwys addasiadau amorteiddio ar gyfer asedau cynnwys.

Mae'r newidiadau sy'n digwydd ym marchnadoedd BBC Worldwide yn cyflymu ac mae'n manteisio ar ehangder ei weithrediadau yn ddaeryddol ac yn ôl llinell busnes fel busnes cynnwys premiwm byd-eang. Mae'r cwmni yn mynd ati'n weithredol i reoli ei weithgareddau tuag at yr ardaloedd twf mwyaf ac yn cadw trawsnewid fel ei thema ganolog. Parhaodd y cwmni i wneud cynnydd cadarn ym mhob un o dair elfen ei strategaeth: cynnwys premiwm; brandiau byd-eang; a thrawsnewid yn raddol i gynhyrchion a gwasanaethau digidol.

Parhaodd y cwmni i ganolbwyntio ar deitlau premiwm wrth fuddsoddi mewn cynnwys. Buddsoddodd £174 miliwn mewn cynnwys yn ystod y flwyddyn (2015/16: £162 miliwn), gyda buddsoddiad mewn cynnwys a gomisiynwyd gan y BBC yn cynyddu i £99 miliwn (2015/16: £93 miliwn), gan gefnogi rhaglenni ar y sgrin ar bob un o sianelau'r BBC. Parhaodd i feithrin cydberthnasau ym mhob rhan o'r sector

annibynnol, gan weithio gyda mwy na 250 o gynhyrchwyr annibynnol yn y DU a buddsoddi £146 miliwn (2015/16: £116 miliwn). Prynodd BBC Worldwide fuddrannau ecwiti mewn pum cwmni cynhyrchu annibynnol Prydeinig o'r radd flaenaf a arweinir gan dalent, gan gefnogi entrepreneuriaeth ym Mhrydain a chynhyrchu eiddo deallusol tra'n gwella dyfodol ei gyflenwad cynnwys ei hun ar yr un pryd.

Ymysg y brandiau sianel newydd, lansiwyd BBC Earth yn India yn ystod mis Mawrth 2017, ar y cyd â Sony. Mae'r cwmni yn parhau i fonitro'r dull gorau o weithredu ym mhob marchnad unigol ac yn sgil hyn, penderfynodd gau ei sianelau yn America Ladin ym mis Ebrill 2017.

Yn ogystal â pherfformiad gwych *Planet Earth II* ledled y byd a llwyddiant parhaus *Dancing with the Stars*, gwelodd y cwmni welliant ym mherfformiad *Top Gear* a *Doctor Who Christmas Special*, sef y teitl mwyaf poblogaidd ar gyfer BBC AMERICA dros y cyfnod.

Yn ystod y flwyddyn, lansiwyd ap TV Everywhere i gyd-fynd â sianel BBC Player ar lwyfannau newydd yn Asia. Yn ogystal, lansiodd y cwmni BritBox, sef gwasanaeth ffrydio fideo sy'n canolbwyntio ar deledu Prydeinig, yn yr UD mewn partneriaeth ag ITV plc gydag AMC Networks yn gyfranddaliwr lleiafrifol.


Ar ôl diwedd y flwyddyn, gwnaethom gyhoeddi cynlluniau i gau gwasanaeth lawrlwytho fideo BBC Store. Rydym yn parhau i geisio arloesi ym maes gwasanaethau digidol.

Mae BBC Worldwide yn canolbwyntio'n galed ar ei ddiwylliant, ac mae ei bobl yn parhau i greu argraff gyda'u gwreiddioldeb, eu haelioni a'u hymroddiad. Adlewyrchwyd hyn gan sgôr ymgysylltiad staff y cwmni, a gododd i 73% (2016: 70%) o gymharu â norm byd-eang o 58%. Parhaodd yr ymgyrch i sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy gydol y flwyddyn gyda gostyngiad cyffredinol o 3% yn y gweithlu, er gwaethaf effaith caffaeliadau yn ystod y flwyddyn.

Canolbwyntiwyd hefyd ar effeithlonrwydd cyfalaf – sefydlwyd partneriaeth newydd gydag Access Entertainment a Lookout Point i ffurfio Benchmark Television a fydd yn cynnig cyllid i gynhyrchwyr cyn sicrhau comisiwn; a chytunwyd ar gytundeb llechen newydd ag Anton, cwmni ffilm a theledu Ewropeaidd (ar gyfer hyd at £150 miliwn dros dair blynedd). Mae'r ddau hyn yn buddsoddi mewn drama breimiwm.

Bydd BBC Worldwide yn cyflymu ei strategaeth i berfformio ar y lefel uchaf bosibl ym mhob rhan o'i gynnwys a'i weithrediadau, er mwyn parhau i lwyddo.

## Ymweliadau â thudalennau newyddion byd-eang – pob llwyfan miliwn cyfartalog misol



### BBC Global News

Mae BBC Global News yn gweithredu dau wasanaeth newyddion rhyngwladol y BBC a ariennir yn fasnachol: BBC World News, y sianel deledu newyddion byd-eang 24 awr; a'r llwyfan digidol *bbc.com* (gan gynnwys gwefan *bbc.com*, ap newyddion ac ap chwaraeon). Cenhadaeth BBC Global News yw sicrhau mai ef yw'r darparwr newyddion rhyngwladol gorau, yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y byd, a chynyddu cynulleidfaoedd newyddion rhyngwladol y BBC a gweithredu fel busnes sy'n effeithlon yn fasnachol.

Yn 2016/17 parhaodd ôl troed byd-eang BBC World News i ehangu, gan dyfu 2% dros y flwyddyn ac mae bellach ar gael i 450 miliwn o gartrefi, sef y nifer fwyaf erioed (o gymharu â 441 miliwn yn 2015/16). Ysgogwyd y twf hwn gan enillion yn Affrica, Asia Pasifig, a'r Tu Allan i Gartref.

Parhaodd cynulleidfaoedd ar *bbc.com* i dyfu, gyda chynnydd cryf mewn marchnadoedd fel India a'r UD. Denodd *bbc.com* 97 miliwn o borwyr unigol y mis ar gyfartaledd, cynnydd o 9% ers 2015/16. Cyrhaeddodd cyfanswm yr ymweliadau â thudalennau ar bob llwyfan (gwefan, apiau, a setiau teledu cysylltiedig) y cyfartaledd misol uchaf erioed, sef bron 1.3 biliwn, cynnydd o 15% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ysgogwyd y perfformiad cryf hwn gan sylw'r BBC i ddau ddigwyddiad newyddion mawr – Refferendwm yr UE yn y DU ac Etholiad Arlywyddol yr UD. Ymwelodd mwy nag 21 miliwn o borwyr â *bbc.com* ar ddiwrnod canlyniad Refferendwm yr UE, gan greu record newydd ar gyfer traffig dyddiol ar *bbc.com*, ac ymwelodd 60 miliwn o borwyr â chynnwys ar etholiad yr UD yn ystod 2016, sy'n golygu mai dyna'r stori newyddion parhaus fwyaf ar *bbc.com* hyd yma. Parhaodd ap BBC News i berfformio'n dda gyda'r twf mewn ymweliadau â thudalennau yn chwalo disgwyliadau – cynnydd o 30% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Parhaodd BBC Global News i wella cynnig digidol y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd rhyngwladol. Ymysg y ddarpariaeth arloesol a lanswyd roedd 'Videos of the Day', sef profiad fideo fertigol newydd ac arloesol fel rhan o'r ap newyddion; a rhifyn newydd o *bbc.com*, sy'n cynnig cynnwys mwy penodol a pherthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghanada o blith arlwy fyd-eang y BBC.

Mae defnyddio cynnwys y BBC oddi ar y llwyfan yn chwarae rôl bwysig yn strategaeth dosbarthu cynnwys BBC Global News. Parhaodd BBC Global News â'i bartneriaethau llwyddiannus ag MSN, Yahoo!, AOL, ON, YouTube, LinkedIn, Flipboard, Line, Facebook, Apple a SmartNews, ac ymrwymodd i gyntdeb newydd â News Republic.

Lansiodd y BBC gynnwys ar wasanaeth ffrydio fideo Facebook, sef Facebook Live, gan ennill gwobr NewsWhip Whippy am y cynhyrchydd gorau ar Facebook Live. O ran y cyfryngau cymdeithasol, mae dros 42 miliwn o ddefnyddwyr Facebook yn fyd-eang wedi 'hoffi' BBC News ac mae gan BBC World News dros 20 miliwn o ddilynwyr ar Twitter.

Yn 2016/17, cafodd BBC Global News ei gydnabod am ragoriaeth ei newyddiaduraeth gan ennill nifer o wobrau, gan gynnwys Emmy am ei ddarllediadau o'r Argyfwng Ffoaduriaid yn Ewrop, a Gwobr David Bloom am ohebu o Golombia. Enillodd gwefan nodwedd Capital *bbc.com* wobwr Shorty am ei fideo ar-lein *Leading without limbs* ac enillodd y BBC sawl gwobr Webby, gan gynnwys gwobrau am wefannau nodwedd BBC Earth a BBC Culture a phrofiad ap fideo fertigol 'Videos of the Day'.

Cofnododd Global News elw gweithredu o £2 filiwn yn 2016/17, gwelliant o bron £2 filiwn o gymharu â 2015/16.

### BBC Studioworks (BBC Studios and Post Production gynt)

Mae BBC Studioworks yn is-gwmni masnachol o dan berchenogaeth lawn y BBC, sy'n gwasanaethu'r BBC a cheiliaid allanol. Ym mis Mai 2016, cafodd y cwmni ei aileniwi'n BBC Studioworks fel rhan o ymarfer ailfrandio a gynluniwyd i gefnogi strategaeth twf corfforaethol y cwmni. Cafwyd perfformiad ariannol cryf gan y cwmni yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017, roedd trosiant, elw gweithredu ac elw net oll wedi gwella. Mae'r elw gweithredu o £3.4 miliwn yn dynodi newid mawr o gymharu â'r golled o £2.3 miliwn a gofnodwyd y flwyddyn ddiwethaf, gan greu elw net o £2.8 miliwn (2016: colled o £2.1 miliwn). Ysgogwyd y twf hwn mewn elw gan strategaeth y cwmni

i symud oddi wrth weithrediadau nad oeddent yn rhai craidd; yn ogystal â mentrau datblygu busnes llwyddiannus; cymysgedd gwerthiannau cryfach; a threfniadau rheoli costau effeithiol.

Yn ystod y flwyddyn, croesawodd BBC Studioworks nifer o gleientiaid hen a newydd i'w stiwdios a'i gyfleusterau ôl-gynhyrchu. Cynhyrchwyd dros 30 o deitlau sioeau yn Elstree gan gynnwys y ddrama barhaus, *Eastenders*, pedwaredd gyfres ar ddeg BBC Studios o *Strictly Come Dancing*, *Let it Shine* gan BBC Studios, cyfres boblogaidd *Sky A League of their Own*, *Lip Sync Battle UK* ar Channel 5; yn ogystal â llu o sioeau cwis fel *Virtually Famous* ar E4, *Celebrity Juice* a *The Chase* ar ITV. Cyrhaeddodd sioe gwis BBC One *Pointless* garreg filltir bwysig yn 2017 gan gynhyrchu ei milfed rhaglen gyda BBC Studioworks.

Parhaodd BBC Studioworks i ddarparu gwasanaethau i *Eastenders* a gweithiodd y tîm ôl-gynhyrchu ar nifer o brosiectau gan gynnwys *Strictly Come Dancing*, *It Takes Two* a *Children in Need Appeal Show 2016* ar y BBC.

Mae BBC Studioworks hefyd wedi bod wrthi'n cwblhau gwaith i adnewyddu ei stiwdios a'i gyfleusterau ôl-gynhyrchu ar safle'r Ganolfan Deledu yng ngorllewin Llundain, gyda Stiwdios 1, 2 a 3 a chyfleusterau eraill yn y Ganolfan Deledu yn ailagor i gleientiaid ym mis Medi 2017. Mae hyn yn estyniad sylweddol i'r cwmni a bydd yn ategu'r cyfleusterau sydd gan y cwmni eisoes yn Elstree.

### BBC Studios

Ar ôl diwedd y flwyddyn, daeth BBC Studios – cangen cynhyrchu teledu'r BBC – yn is-gwmni masnachol o dan berchenogaeth lawn y BBC. Mae hwn yn gyfle i rannu syniadau creadigol â chynulleidfaoedd newydd ledled y byd, oherwydd – am y tro cyntaf – bydd BBC Studios yn gallu gwneud rhaglenni ar gyfer darlledwyr eraill. Bydd hefyd yn gyfle i gynyddu refereniw ar gyfer Grŵp y BBC.

### BBC World Service

Mae BBC World Service yn gweithredu dan drwydded sy'n nodi cylch gwaith a chwmpas ei wasanaethau, ei gyllideb flynyddol a'i brif ymrwymadau. Caiff perfformiad y gwasanaeth ei adolygu yn rheolaidd yn erbyn ei drwydded, yn yr un modd â gwasanaethau eraill y BBC. Mae'r drwydded gweithredu bresennol yn nodi targed o £245 miliwn y flwyddyn o leiaf ar gyfer cyfanswm gwariant arian parod. Y flwyddyn hon, roedd cyfanswm gwariant BBC World Service, £246 miliwn, yn uwch na'r targed ac yn gynydd o 2.4% mewn gwariant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn ystod y flwyddyn, cytunodd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad ('FCO') i fuddsoddi £289 miliwn o arian grant yn BBC World Service dros gyfnod o bedair blynedd hyd at fis Mawrth 2020. Derbyniwyd £34 miliwn o'r arian hwn yn ystod 2016/17. Y buddsoddiad hwn yw'r cynnydd unigol mwyaf yng nghyllideb World Service erioed gan unrhyw lywodraeth. Bydd yr arian hwn yn helpu i gwblhau'r gwaith o drawsnewid World Service o wasanaeth radio tonfedd fer yn bennaf i wasanaeth digidol yn gyntaf, yn ogystal â darparu mwy o gynnwys teledu, lansio cynnwys newyddion mewn 11 o ieithoedd newydd, a chynnydd sylweddol yn allbwn World Service yn Rwseg, yn Arabeg ac yn Saesneg. Pan fydd yn gwbl weithredol, bydd World Service wedi recriwtio tua 1,400 o rolau newydd mewn 51 o leoliadau gwahanol ledled y byd, gyda thair canolfan gynhyrchu fawr newydd yn cael eu sefydlu yn Delhi, Nairobi a Lagos.

## Sicrhau arbedion effeithlonrwydd

2016/17 oedd blwyddyn olaf rhaglen DQF y BBC. Cafodd £81 miliwn o arbedion blynyddol eu cyflawni yn ystod y flwyddyn, sy'n golygu bod cyfanswm arbedion DQF yn cyfateb i £722 miliwn (y mae £712 miliwn ohonynt yn arbedion cynaliadwy). Mae hyn yn uwch na'r targed o £700 miliwn ac fe'u hadolygwyd gan ein harchwilwyr, Ernst & Young LLP.

Yn ystod setliad diweddaraf ffi'r drwydded, cafodd y cysylltiad rhwng chwyddiant a ffi'r drwydded ei adfer o 1 Ebrill 2017, ond cafodd y BBC y cyfrifoldeb am ariannu trwyddedau cartrefi sydd â phobl dros 75 oed. Y setliad hwn yw prif ysgogydd cyfres anodd iawn o heriau ariannol, sy'n golygu bod yn rhaid i'r BBC ddod o hyd i gyfanswm o £800 miliwn o arbedion y flwyddyn erbyn 2021/22. Mae hyn yn cyfateb i darged arbedion cyfartalog o 4% y flwyddyn am bum mlynedd. Rydym eisoes wedi dechrau gweithio i ateb yr her hon – sicrhawyd £91 miliwn o arbedion blynyddol ychwanegol yn ystod 2016/17 (yn ogystal â'r £81 miliwn o arbedion blynyddol a sicrhawyd drwy DQF), drwy greu BBC symlach a mwy darbodus. Ymysg y camau a gymerwyd i wneud hyn roedd uno is-adrannau, parhau i leihau nifer yr uwch reolwyr, ac ailstrwythuro gwasanaethau cefn swyddfa a chymorth.

O gofio record lwyddiannus y BBC yn y gorffennol, bydd cyflawni targed i sicrhau £800 miliwn o arbedion ychwanegol y flwyddyn, ar ben y £712 miliwn o arbedion cylchol a sicrhawyd eisoes drwy DQF, yn hynod o heriol. Mae bil eiddo'r BBC eisoes wedi

gostwng tua £90 miliwn dros chwe blynedd, mae gwariant ar dechnoleg menter wedi gostwng 23% mewn tair blynedd, ac mae nifer yr uwch reolwyr wedi haneru bron mewn wyth mlynedd. Daeth astudiaeth ddiweddar gan PwC i'r casgliad bod y BBC eisoes ymysg y sefydliadau mwyaf effeithlon yn y sector cyhoeddus a'r diwydiannau a roeileddir o ran rheoli gorbenion. Yn 2016/17, roedd 95% o wariant rheoladwy'r BBC yn canolbwyntio ar gynnydd a chyflawni, gyda 5% yn cael ei wario ar redeg y sefydliad. Mae hyn dipyn yn is na chyfartaledd y sector cyhoeddus, sef 11%, a chyfartaledd y diwydiannau a roeileddir, sef 9%.

Mae 'Cystadlu neu Gymharu', dull y BBC o nodi arbedion effeithlonrwydd yn y sylfaen costau drwy gystadleuaeth neu feincnodi, yn elfen allweddol o ymdrechion y BBC i sicrhau arbedion effeithlonrwydd parhaus. Mae'r fframwaith yn sicrhau y caiff popeth y mae'r BBC yn ei wneud ei herio yn y farchnad neu ei feincnodi yn ei herbyn. Mae hyn yn gwella ansawdd ac yn lleihau costau. Daeth astudiaeth annibynnol a gynhaliwyd gan PwC yn ystod 2015/16 i'r casgliad bod 87% o wariant rheoladwy'r BBC yn bodloni meini prawf 'Cystadlu neu Gymharu', naill ai drwy gystadleuaeth uniongyrchol neu drwy gymharu a meincnodi manwl. Yn ystod 2016/17, daeth adolygiad mewnol i'r casgliad bod dros 90% o wariant rheoladwy'r BBC bellach yn bodloni'r meini prawf a ddefnyddir gan PwC.

Ers mis Medi 2016, mae tair cyfres sy'n dychwelyd a gomisiynir gan Gynnwys Teledu wedi dilyn proses dendro gystadleuol, gyda BBC Studios (o 1 Ebrill 2017) a chynhyrchwyr annibynnol yn cael eu gwahodd i gyflwyno cynigion. Er y bydd y BBC yn cadw'r hawliau eiddo deallusol ar gyfer y rhaglenni a roddir ar dendr, ac y byddant yn parhau i gael eu dangos ar deledu'r BBC, y broses dendro fydd yn penderfynu pa gyflenwr fydd yn gwneud y cyfresi hynny. Hyd yma, mae *Holby City*; *A Question of Sport*; a *Songs of Praise* wedi cael eu hagor i gystadleuaeth. Enillwyd y ddau dendr cyntaf gan BBC Studios a dyfarnwyd y tendr olaf i ddau gynhyrchydd annibynnol.

### Costau eiddo

Mae torri costau eiddo yn elfen allweddol o gynllun effeithlonrwydd y BBC. Lluniwyd cytundeb ariannol newydd yn ystod y flwyddyn sy'n lleihau costau arian parod parhaus y Ganolfan Ddarlledu, yn Llundain, yn sylweddol. Mae'r cytundeb hwn hefyd yn sicrhau perchenogaeth a meddiannaeth hirdymor y BBC o'r Ganolfan Ddarlledu ar ôl y brydles gyfredol, gan hwyluso perchenogaeth lawn y BBC o'r adeilad yn 2045. Mae cost arian parod meddiannu'r adeilad wedi gostwng £10 miliwn

y flwyddyn o gymharu â'r gost arian parod sylfaenol. Disgwylir i'r arbedion hyn gynyddu bob blwyddyn i £34 miliwn y flwyddyn erbyn 2033 (yn erbyn ein cost arian parod sylfaenol). Mae'r proffil hwn o daliadau arian parod blynyddol wedi cael ei ymestyn o 2033 tan 2045, er mwyn ailbroffilio'r ymrwymadau sy'n bodoli eisoes a phrynu'r budd refersiynol yn y rhydd-ddaliad dros y cyfnod olaf hwn.

Mae'r BBC wedi lleihau ei ôl troed o ran eiddo tua 40% ers 1998 ac erbyn hyn, mae cyfanswm yr arbedion eiddo a sicrhawyd ers 2011 yn cyfateb i tua £90 miliwn y flwyddyn. Mae'r BBC yn bwriadu gwacáu pedwar eiddo arall yn Llundain yn y dyfodol agos, gan sicrhau £7 miliwn o arbedion ychwanegol y flwyddyn.

### Technoleg

Rydym wedi ailgaffael y contract gwasanaethau technoleg craidd y ddiweddar, sy'n darparu gwasanaethau technoleg a TG hollbwysig i wneuthurwyr rhaglenni a staff. Bydd y contract newydd yn trawsnewid y ffordd y bydd y BBC yn darparu ac yn rheoli ei dechnoleg yn y dyfodol, er mwyn gwneud y sefydliad yn barod ar gyfer yr oes ddigidol. Ers 2004, mae'r rhan fwyaf o wasanaethau technoleg y BBC ar contract allanol wedi'u darparu gan un darparwr allanol, ond nid yw'r contract newydd yn gyfyngol, sy'n golygu y gall gwasanaethau gael eu darparu gan gyfuniad o drydydd partion a'n timau mewnol. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC a mynediad i dechnoleg newydd wrth iddi ddod i'r amlwg. Bydd yr ymarferion ailgaffael technoleg hyn yn arwain at arbedion hirdymor gwerth cannoedd o filiynau o bunnoedd dros oes y contractau, gan gynnwys arbedion o oddeutu £75 miliwn y flwyddyn.

### Ein pobl

Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ('SAG') ei hadolygiad gwerth am arian diweddaraf o'r BBC, gan edrych ar y ffordd y mae'n rheoli ac yn cynllunio ei weithlu. Cydnabu SAG fod y BBC, rhwng 2010/11 a 2015/16, wedi lleihau cost y gweithlu ar ei gyflogres 6% ac wedi lleihau maint y gweithlu ar ei gyflogres 4%. Mae hefyd wedi sicrhau gostyngiad o 40% yn nifer yr uwch reolwyr o 540 yn 2010/11 i 319 erbyn mis Rhagfyr 2016. Roedd adroddiad SAG hefyd yn cydnabod bod strwythur y BBC wedi cael ei symleiddio drwy gael llai o haenau rheoli a gwasanaethau cymorth proffesiynol symlach. Fel y casglodd SAG, mae'r newidiadau hyn wedi helpu'r BBC i wella gwerth am arian ac, ar y cyd, maent yn gyflawniad sylweddol. Gwnaeth SAG rai argymhellion i'r dyfodol y mae'r BBC wedi ymrwymo i'w rhoi ar waith.



## Canolbwyntio gwariant

Mae'r BBC yn canolbwyntio ei wariant ar gynhyrchu rhaglenni a chynnwys arall a'r modd y'u cyflwynir i gynulleidfaoedd a defnyddwyr, ynghyd â'r seilwaith hanfodol i gefnogi hyn. Gall gwariant o flwyddyn i flwyddyn amrywio'n sylweddol oherwydd y cylch o ddigwyddiadau chwaraeon mawr. Cynyddodd cyfanswm y gwariant ar gynnwys 3% i £2,734 miliwn (2015/16: £2,664 miliwn) yn ystod y flwyddyn hon, yn bennaf oherwydd y buddsoddiad ychwanegol yn ein darllediadau o'r Gemau Olympaidd a Phencampwriaeth Pêl-droed Ewrop. Roedd pob un o'r 26 trwydded gwasanaeth wedi gweithredu yn unol â'u paramedrau gweithredu yn ystod y flwyddyn.

### Ailddatgan

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y tybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo rhwymedigaethau ac asedau prydlesu cyllid eu diweddaru i fodloni IFRS. Effaith y newid hwn yn y dull cyfrifo ar ganlyniad y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 yw cynyddu'r gwarged ar gyfer y flwyddyn £14.4 miliwn.

### Costau pensiwn

Ar 31 Mawrth 2017, roedd y diffyg pensiwn cyfrifyddu (fel y'i diffinnir gan IAS 19) wedi cynyddu 14% i £1,149 miliwn o gymharu â £1,011 miliwn flwyddyn yn ôl. Roedd y cynnydd yn ystod y flwyddyn gyfredol o ganlyniad i golled net yn sgil newidiadau yn y tybiaethau prisio o £248 miliwn, taliad gweithredu blynyddol o £193 miliwn a chostau cyllid net o £32 miliwn, wedi'u gwrthbwyso gan gyfraniadau o £335 miliwn a dalwyd.

Dim ond 'cipolwg' ar ddyddiad penodol yw'r prisiad cyfrifyddu hwn, ac felly mae'n sensitif i amrywiadau byrdymor yn y farchnad. Nid yw'n cael unrhyw effaith ar y gost arian parod wirioneddol sy'n gysylltiedig â thalu'r diffyg yn y cynllun pensiwn, a gaiff ei adolygu fel rhan o brisiadau actiwaraidd teirblwydd.

Cwblhawyd y prisiad actiwaraidd teirblwydd diweddaraaf ym mis Mehefin 2017 a dangosodd ddiffyg ariannu o £1,769 miliwn ar 1 Ebrill 2016 (o gymharu â £2,054 miliwn ar 1 Ebrill 2013). Mae'r BBC ac Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn wedi cytuno ar gynllun ad-dalu newydd. Bydd y cynllun ad-dalu y cytunwyd arno yn weithredol tan 31 Rhagfyr 2028 ac ystyrir ei fod yn gynllun fforddiadwy i ymdrin â'r diffyg, heb roi gwasanaethau i gynulleidfaoedd yn y fantol na pheryglu buddiannau aelodau'r cynllun pensiwn. Mae'r BBC yn parhau i weithio gydag Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn i sicrhau bod y Cynllun yn rhoi diogelwch i aelodau a gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded.

### Arian parod

Roedd balans arian parod y BBC yn £256 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n ostyngiad o £79 miliwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2016: £335 miliwn). Mae'r arian a wnaed yn sgil gweithrediadau wedi cael ei wrthbwyso gan daliad o £220 miliwn a wnaed ym mis Mawrth 2017 i ymdrin â'r diffyg pensiwn. Mae sefyllfa ariannol gref bresennol y BBC, ynghyd â'i lwyddiant wrth roi'r cynlluniau arbed diweddar ar waith, yn golygu bod y Gorfforaeth mewn sefyllfa dda i gyflawni ei rhwymedigaethau yn y dyfodol (sy'n cynnwys ad-daliadau i ymdrin â'r diffyg pensiwn) a pharhau i ddarparu cynnwys o'r radd flaenaf i'w chynulleidfaoedd.

### Treth

Mae'r BBC yn dalwr treth ymrwymedig a darbodus ym mhob un o'r gwledydd y mae'n gweithredu ynddynt. Mae ei weithrediadau masnachol yn rhoi mesurau cynllunio treth priodol a dilys ar waith yn unol ag ysbryd a bwriad pob cyfraith a rheoliad.



*The Hollow Crown – The War of the Roses*

# Ein pobl



t.55

## Ein pobl

Rydym yn gwneud y BBC yn lle gwell fyth i weithio ynddo, gan werthfawrogi a pharchu cyfraniadau amrywiol a dathlu llwyddiannau

+ Darllenwch fwy ar dudalennau 55 i 59

Clara Amfo, DJ ar Radio 1 yn cyflwyno Teen Awards Radio 1.

t.60

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Po fwyaf amrywiol yw ein gweithlu, gorau oll y gallwn ymateb i'n cynulleidfaoedd yn eu holl amrywiaeth a'u hadlewyrchu

➔ Darllenwch fwy: [bbc.co.uk/diversity](http://bbc.co.uk/diversity)

t.61

## Gwaith elusenol

Rydym wedi bod yn darlledu ac yn cefnogi apeliadau elusenol ers 1923 ac mae ein hapeliadau wedi dod yn rhan hanfodol o'n cylch gwaith

➔ Darllenwch fwy: [bbc.co.uk/charityappeals](http://bbc.co.uk/charityappeals)

Mae ein diwylliant a'n pobl yn hollbwysig er mwyn parhau i ddarparu rhaglenni a gwasanaethau gwych i'n cynulleidfaoedd. Mae 93% o'n pobl yn dweud eu bod yn falch eu bod yn gweithio i'r BBC ac mae 91% yn barod i wneud ymdrech ychwanegol er mwyn helpu i ddarparu cynnwys ardderchog. Dros y flwyddyn, rydym wedi bod yn cydweithio i 'wneud y BBC yn lle gwell fyth i weithio ynddo' lle gall ein pobl ddefnyddio eu doniau creadigol i'r eithaf.

Ar yr un pryd rydym wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd a newidiadau sylweddol mewn perthynas â'r sefydliad. Ad-drefnwyd strwythur ein his-adrannau a chafodd Pwyllgor Gweithredol newydd ei ffurfio ym mis Medi 2016, yn barod ar gyfer y strwythur llywodraethu a rheoleiddio diwygiedig sy'n gysylltiedig â chyfnod 11 mlynedd y Siarter newydd. Rydym wedi gorffen cau'r rolau olaf sy'n gysylltiedig â rhaglen Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf ('DQF') ac rydym wedi cyrraedd ein targedau amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer 2017. Cafodd yr ymateb ffurfiol i adolygiad y Fonesig Janet Smith o'n diwylliant a'n harferion ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2016, gan nodi'r mesurau sydd eisoes ar waith a'r rheolaethau sydd ar waith i sicrhau y cânt eu cynnal; cwblhawyd y Rhaglen Trawsnewid Adnoddau Dynol yn ystod y flwyddyn hefyd, a fydd yn sicrhau 30% o arbedion parhaus ar gost gwasanaethau adnoddau dynol.

### Dylunio sefydliad effeithlon ac effeithiol

Drwy gydol y flwyddyn, wrth i'r broses ailstrwythuro fynd rhagddi, mae egwyddorion dylunio sefydliad wedi cael eu cymhwyso. Mae'r rhain wedi cynnwys lleihau nifer y rheolwyr a'r haenau rheoli i'r eithaf a chyfyngu ar nifer y rolau cymorth proffesiynol a gwariant arnynt fel y gellir cyfeirio cymaint â phosibl tuag at greu cynnwys a gwasanaethau. Ar bryd, caiff 95% o'n gwariant rheoladwy ei gyfeirio tuag at gynnwys a gwasanaethau.

Rydym yn ymrwymedig o hyd i leoli o leiaf 50% o gyflogion y tu allan i Lundain ac mae 53%

wedi'u lleoli y tu allan i'r M25 ar hyn o bryd. Mae rolau newydd yn dal i gael eu creu yn Birmingham ac mae cynlluniau ar waith i symud BBC Three yno o Lundain yn 2017. Bydd hyn yn golygu y bydd ein safle yn Birmingham yn llawn.

Rydym hefyd wedi bod yn defnyddio fframwaith llwybrau gyrfa gan gysylltu teitlau a disgrifiadau swyddi â theluoedd a chymunedau swyddi a helpu cyflogion i ddeall eu llwybrau datblygu gyrfa yn well.

Mae'r prif weithgareddau i aildylunio'r sefydliad yn ystod y flwyddyn wedi canolbwyntio ar ailgysoni ein his-adrannau:

- cafodd Teledu ei rannu'n ddwy is-adran ar wahân, sef Cynnwys a Stiwdios. Daeth yr is-adran olaf hon yn endid masnachol ar 1 Ebrill 2017. Gwelwyd nifer fawr o newidiadau mewn uwch rolau yn y ddwy is-adran
- ffurfiwyd is-adran Gwledydd a Rhanbarthau newydd, gan ddwyn Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ynghyd gyda'r prif ganolfannau yn Lloegr; sef y gogledd, y canolbarth a'r de-orllewin
- cafodd gweithgareddau Radio ac Addysg eu dwyn ynghyd mewn is-adran newydd
- mae meysydd cymorth proffesiynol wedi cael eu huno â Marchnata a Chynulleidfaoedd a'n gweithrediadau technoleg er mwyn creu is-adran newydd dan arweiniad y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys dwyn tair rhan wahanol o'r sefydliad ynghyd i greu'r is-adran Dylunio a Pheirianneg
- cafodd Pwyllgor Gweithredol newydd â deg

aelod ei sefydlu ym mis Medi 2016, gan ddwyn arweinydd yr is-adrannau newydd ynghyd

Cwblhaodd y tîm adnoddau dynol ei raglen drawsnewid hefyd, gan leihau cost gwasanaethau adnoddau dynol 30%, a chyflawni gweithgareddau cyrchu adnoddau a gweinyddu adnoddau dynol yn fewnol, gan greu Canolfan Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn Birmingham.

### Nifer a chymysgedd ein gweithlu

Dros flwyddyn, mae nifer o ffactorau yn effeithio ar faint a phroffil gweithlu cyffredinol y BBC. Mae'r rhain yn cynnwys y cymysgedd rhwng y cyflenwad o raglenni a chynnwys mewnol ac annibynnol; newidiadau i'n model gwasanaeth ar gontract mewnol/allanol; lansio mentrau newydd ar gyfer cynulleidfaoedd; a gostyngiadau staff sy'n deillio o raglenni arbed. Mae cynlluniau gweithlu ar waith i sicrhau'r cymysgedd gorau o adnoddau sefydlog a hyblyg ac rydym yn adolygu ac yn rheoli ein niferoedd staff yn barhaus er mwyn sicrhau gwerth am arian.

Gwelwyd cynnydd bach yn nifer y staff cyflogedig cyfartalog blynyddol ar gyfer 2016/17. Ym mis Mawrth 2017, roedd y cynnydd hwn yn cynnwys 179 o rolau newydd a recriwtiwyd fel rhan o'r buddsoddiad ychwanegol yn World Service 2020.

### Staff darlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU yn ôl gwlad (cyfwerth ag amser llawn) %

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2015
Lloegr (ac eithrio Llundain)	34	36	34
Llundain	47	45	46
Yr Alban	7	7	7
Cymru	8	8	8
Gogledd Iwerddon	4	4	4

Mae canrannau wedi'u talgrynnu i'r degolyn agosaf



## Cyfanswm nifer y staff cyfartalog (cyfwerth ag amser llawn)

	2016/7	2015/6	2014/5
Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU	19,357	19,269*	19,333*
BBC Worldwide	1,706	1,759	1,824
Busnesau masnachol eraill	208	237	247
Cyfanswm y grŵp	21,271	21,265	21,404

\* Ailddatganwyd gyda staff ar gontractau rhaglenni (cerddorffeydd a chantorion), gan gynyddu 349 yn 2015/16 a 359 yn 2014/15

Drwy gydol y flwyddyn, cafodd rolau eu cau drwy'r canlynol:

– cwblhau'r Rhaglen DQF ('Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf') bum mlynedd. Sicrhawyd

cyfanswm o £722 miliwn o arbedion a gwelwyd lleihad o fwy na 1,800 mewn rolau ar gyfer staff gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y rhaglen hon

– y rhaglen symleiddio a gyhoeddwyd yn 2015, a ymrwymodd i sicrhau £50 miliwn o arbedion a lleihad disgwylidig o 1,000 o rolau o fewn y grŵp. Mae 859 o swyddi wedi cael eu cau hyd yma a fydd yn arwain at arbed £44.2 miliwn. Bydd y gostyngiadau a'r arbedion terfynol yn rhagori ar y targedau ac fe'u cwblheir yn ystod hydref 2017

O dan fenter arbed newydd a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn, mae'n rhaid i bob is-dran nodi a sicrhau rhagor o arbedion ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae cynlluniau i gyflawni hyn yn cael eu datblygu.

Er bod nifer y staff wedi lleihau, mae angen buddsoddi mewn mathau gwahanol o

sgiliau a recriwtio'r sgiliau hynny o hyd er mwyn adeiladu BBC y dyfodol. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed buddsoddiadau allweddol yn y meysydd canlynol:

- Dylunio a Pheirianneg, gan gynnwys sgiliau digidol allweddol
- World Service: yn dilyn y cyhoeddiad ynghylch cyllid y Llywodraeth ym mis Tachwedd 2016 yn clustnodi £289 miliwn yn benodol, mae World Service News yn ehangu mewn 12 o wasanaethau iaith newydd mewn 50 o wledydd. Hyd yma, mae 179 o'r aelodau staff newydd wedi cael eu recriwtio yn y DU ac yn rhyngwladol a bydd ymgyrch recriwtio sylweddol yn parhau tan fis Ebrill 2019
- prentisiaid a hyfforddeion ychwanegol
- cynnydd sy'n gysylltiedig â chynhyrchu
- sicrhau bod gweithgareddau a arferai gael eu cyflawni mewn mannau eraill yn cael eu rhoi ar gontract mewnol, gan gynnwys Cyllid, Adnoddau Dynol, Technoleg a rolau creadigol Marchnata a Chynulleidfaoedd

## Gwariant ar Dalent:

	2016/2017		2015/16***		Amrywiant £000oedd
	Gwariant £000oedd	Nifer	Gwariant £000oedd	Nifer	
Llai na £40k	69,922	40,328	73,599	46,223	(3,677)
£40k – £100k	72,346	1,278	69,418	1,236	2,928
£100k – £150k	16,717	136	18,088	150	(1,515)
£150k – £500k	21,256	89	25,006	101	(3,597)
£500k – £1m	3,348	5	2,845	7*	503
£1m – £5m	3,959	2	3,794		165
Sefydliadau**	6,019	1,582	5,562	1,838	457
Cyfanswm	193,567	43,420	198,312	49,555	(4,736)

\* Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cyfunwyd nifer yr unigolion yn y categori £500,000+ er mwyn diogelu gwybodaeth bersonol yr unigolion hynny, yn unol ag arfer gorau o ran diogelu data

\*\* Ystyr sefydliadau yw grwpiau o unigolion o dan gontract fel un – er enghraifft cerddorffeydd allanol – felly nid yw'n bosibl rhestru nifer yr unigolion yn erbyn y gwariant hwn

\*\*\* Mae ffigurau 2015/16 wedi'u hailddatgan er mwyn sicrhau cysondeb â gwybodaeth a ddatgelir o dan erthygl 37(2) o Siarter Frenhinol 2016

Mae'r tablau hyn, uchod ac isod, yn seiliedig ar arian a dalwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17. Yn achos pedwar unigolyn, mae amseriad taliadau arian parod a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol yn camliwio mewn ffordd berthnasol eu band. Felly, rydym wedi adlewyrchu sylwedd y taliadau hyn yn deg yn y tabl. Yn achos dau o'r unigolion hyn, mae taliadau perthnasol a wnaed rhwng diwedd y flwyddyn ariannol a dyddiad yr adroddiad hwn, sy'n ymwneud â gwaith a wnaed yn 2016/17, wedi cael eu cynnwys. Yn achos y ddau unigolyn arall, mae taliadau mewn perthynas â chytundebau hirdymor wedi cael eu rhannu'n gyfartal dros gyfnod y contract

## Datgeliad cyflog uwch reolwyr a thalent:

Band	Uwch reolwyr	Talent	Staff eraill a chontractwyr	Cyfanswm
£150,000 – £199,999	71	39	21	131
£200,000 – £249,999	13	23	2	38
£250,000 – £299,999	2	10	–	12
£300,000 – £349,999	6	4	–	10
£350,000 – £399,999	1	6	–	7
£400,000 – £449,999	1	5	–	6
£450,000 – £499,999	1	2	–	3
£500,000 – £549,999	–	1	–	1
£550,000 – £599,999	–	1	–	1
£600,000 – £649,999	–	1	–	1
£700,000 – £749,999	–	1	–	1
£850,000 – £899,999	–	1	–	1
£1,750,000 – £1,799,999	–	1	–	1
£2,200,000 – £2,249,999	–	1	–	1
Cyfanswm	95	96	23	214

## Talent ar y sgrin

Ein nod yw sicrhau mai'r BBC yw'r lle y mae'r artistiaid gorau am weithio a darparu rhaglenni gwych. Ar draws radio, teledu a'n gwasanaethau digidol, mae ein cynulleidfaoedd yn disgwyl i ni gynnig yr amrywiaeth orau o dalentau poblogaidd, creadigol, diddorol, awdurdodol ac amrywiol ym maes darlledu ym Mhrydain.

Mae'r BBC yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyfyngu gwariant ar dalent ar y sgrin ac ar yr awyr i ddim mwy na 15% o'r gwariant mewnol cyffredinol ar gynnwys (gyda goddefiad o 1%). Cymeradwywyd y dull gweithredu hwn gan yr ymgynghorwyr annibynnol Oliver ac Ohlbaum fel ymateb priodol i amodau newidiol y farchnad.

Yn 2016/17, roedd cyfanswm y gwariant ar dalent, sef £194 miliwn, yn cyfrif am 11.5% o wariant mewnol y BBC ar gynnwys. Mae hyn yn cynnwys y World Service.

## Datgelu cyflog talent

Dan delerau ein Siarter Frenhinol, mae'n rhaid i ni gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth y BBC sy'n nodi enwau'r bobl hynny sy'n gweithio i'r BBC sy'n cael eu talu mwy na £150,000 o referniw ffi'r drwydded yn ystod blwyddyn ariannol, ar ffurf bandiau cyflog o £50,000. Rydym wedi datgelu enillion unrhyw gyflogai a gaiff ei gyfrif yn uwch reolwr ers tro ac mae'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd ar wefan y BBC.

Dyma'r tro cyntaf i ni gyhoeddi'r math hwn o wybodaeth yn y fformat y cytunwyd arno, gydag enwau llawn a bandiau cyflog.

 Mae atodiad y datgeliad cyflog talent llawn ar gael yn: [bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/accountability/bbc\\_talent\\_pay](http://bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/accountability/bbc_talent_pay)

Mae'r tabl ar waelod y dudalen flaenorol yn crynhoi'r dosbarthiad categorïau fesul band ar gyfer 2016/17.

### Taliadau diswyddo

Mae gwneud arbedion effeithlonrwydd drwy'r BBC cyfan yn cael effaith anochel ar swyddi. Rydym yn parhau i fod yn llwyr ymrwymedig i reoli colledion swyddi drwy adleoli ac ailhyfforddi lle bo'n bosibl a'n polisi taliadau diswyddo cyfredol yw:

- un mis o gyflog am bob blwyddyn o wasanaeth hyd at uchafswm o 12 mis o gyflog. Ar gyfer y cyflogaion hynny a ymunodd cyn mis Ionawr 2013, mae'r uchafswm yn fwy, sef 24 mis o gyflog
- cap o £150,000 ar daliadau dileu swyddi
- cyfnod rhybudd o hyd at chwe mis

Rydym yn aros ar hyn o bryd am eglurhad pellach ar gap arfaethedig y Llywodraeth ar daliadau dileu swyddi, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 4 Mai 2016.

Lle y telir tâl dileu swyddi:

- cyflwynir y cyfnod rhybudd a rhaid ei weithio yn llawn
- os bydd unigolion am adael yn gynt na diwedd eu cyfnod rhybudd rhaid iddynt ildio hawl i'r cyfnod rhybudd sy'n weddill ac ni chânt dâl amdano
- mewn achosion eithriadol, er enghraifft pan fydd angen diogelu cyfrinachedd gwybodaeth sensitif, gellir gofyn i unigolion weithio gartref neu fod yn barod i gyflawni dyletswyddau eraill yn ystod eu cyfnod rhybudd

Caiff pob taliad dileu swyddi dros £75,000 ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth yr Uwch Reolwyr. Yn ystod y flwyddyn, bu deg achos lle cafodd cyflogaion dâl yn lle rhybudd yn ogystal â thâl diswyddo. Roedd wyth o'r

rhain yn ymwneud â TUPE i mewn i'r BBC yng Ngogledd Iwerddon lle nad oedd rolau ar gael. Roedd un ohonynt dramor ac yn bodloni gofynion cyfreithiol lleol ac roedd un ohonynt yn ymwneud â chontract a dynnwyd yn ôl cyn i'r unigolyn ddechrau gweithio. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd un achos gyda chyfanswm taliadau o fwy na £150,000. Yn yr achos hwn, cafodd yr unigolyn lai na £150,000 ond roedd ffioedd cyfreithiol perthnasol ychwanegol. Mewn un achos, mae cyflogai wedi dychwelyd mewn rôl lawrydd y tu allan i'r polisi.

### Cydnabyddiaeth

Ein polisi o hyd yw rhoi cydnabyddiaeth sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r talentau allweddol sydd eu hangen i arwain ac i ddarparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus o'r radd flaenaf, tra'n cydnabod statws y BBC fel corfforaeth a ariennir gan y cyhoedd y mae'n rhaid iddi sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded.

Ym mis Awst 2016, rhoddwyd cytundeb cyflog o 1% ar waith ar gyfer pob aelod o staff ar raddau 2 i 11 gydag isafswm sylfaenol o £400. Ni fu unrhyw godiad cyflog awtomatig i uwch reolwyr a dyfarnwyd codiadau ar sail achosion unigol, gyda chap o 1% neu £1,000 p'un bynnag fo isaf.

### Uwch reolwyr

Drwy gydol y flwyddyn, gwnaethom barhau i ganolbwyntio ar leihau nifer yr uwch reolwyr lle bo hynny'n bosibl, yn unol â'n hymrwymadau yn strategaethau gwobrwyd 2009 a 2011. Y bil cyflogau ar gyfer uwch reolwyr (gan gynnwys aelodau'r Bwrdd Gweithredol) bellach yw £42.2 miliwn o gymharu â £78.5 miliwn yn 2009, a chyfanswm nifer yr uwch reolwyr, gan gynnwys aelodau'r Bwrdd, yw 312. Mae hyn yn cymharu â 640 yn 2009 ac mae'n ostyngiad o 51%. Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd 47 yn llai o uwch reolwyr ac, erbyn hyn, mae canran yr uwch reolwyr o gymharu â'r cyfanswm cyflogaion gwasanaeth cyhoeddus yn cyfateb i 1.6%. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn cwblhau adolygiad gradd o'r boblogaeth hon.

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth yr Uwch Reolwyr, a sefydlwyd yn wreiddiol ym mis Medi 2012 gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol, yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd ac yn cymeradwyo'r holl addasiadau cyflog ar gyfer uwch reolwyr ac unrhyw un arall sydd werth mwy na £75,000. Mae nifer bresennol yr uwch reolwyr yn ôl band cyflog fel a ganlyn:

### Nifer yr uwch reolwyr yn y DU yn ôl band cyflog:

Band	2016/17	2015/16
£50,000–£99,999	92	122
£100,000–£149,999	124	140
£150,000–£199,999	67	65
£200,000–£249,999	17	22
£250,000–£299,999	3	4
£300,000–£349,999	3	1
Cyfanswm*	306	354**

\* Nid yw'r cyfanswm yn cynnwys Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol

\*\* Aildatganwyd i ddileu dau o uwch reolwyr y Gronfa Bensiwn

Yn ystod 2016, gwnaethom ddechrau adolygiad er mwyn ceisio moderneiddio llawer o'n telerau ac amodau cyflogaeth, gan chwilio am gyfleoedd i'w gwneud yn symlach, yn decach ac yn fwy cyson. Mae'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal ar y cyd â'n cynrychiolwyr undebau a chaiff y canlyniadau eu cwblhau yn ystod 2017.

### Cefnogi ein pobl a chael y gorau ohonynt

Ym mis Chwefror 2016, cyhoeddodd y Fonesig Janet Smith ei hadroddiad yn adolygu diwyllianau ac arferion y BBC yn ystod blynyddoedd Jimmy Savile a Stuart Hall. Cafodd ein hymateb llawn ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2016 ac roedd yn nodi'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed mewn amrywiaeth o adroddiadau ac adolygiadau allanol. Ymysg y rhain roedd adolygiad 'Respect at Work' yn 2013, adolygiad GoodCorporation o Bolisiau/Prosesau Chwythu'r Chwiban ac Amddiffyn Plant yn 2015, ac adolygiad y Fonesig Janet Smith yn 2016.

Ar yr un pryd, cyhoeddwyd adolygiad ac archwiliad allanol arall o bolisiau a phrosesau'r BBC, a gynhaliwyd gan GoodCorporation, ac adroddiad ar y cynnydd a wnaed ers 2015.

Yn ein hymateb, amlinellwyd y gwaith rydym wedi'i wneud mewn tri maes i sicrhau na allai camdriniaeth o'r fath ddigwydd eto:

- ein polisiâu i sicrhau bod ein staff, plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn
- y systemau a'r llwybrau sydd ar waith gennym i alluogi pobl i wneud cwyn, mynegi pryder neu chwythu'r chwiban

### Taliadau diswyddo:

Taliadau diswyddo: pob aelod o staff (gan gynnwys uwch reolwyr)

Band taliadau	I Ebrill 2016–31 Mawrth 2017		I Ebrill 2015–31 Mawrth 2016	
	Gwariant £000oedd	Nifer	Gwariant £000oedd	Nifer
O dan £10k	348	59	286	45
£10k–£50k	6,622	220	5,675	189
£50k–£75k	5,672	92	5,104	81
£75k–£100k	3,880	44	5,036	58
£100k–£150k	16,567	124	9,809	75
Dros £150k	0	0	0	0
Cyfanswm	33,089	539	25,910	448

– y swyddogaethau a'r galluoedd sydd gennym o fewn y sefydliad i ymchwilio'n effeithiol i gwynion o'r fath, boed yn fewnol neu'n allanol

Rydym yn parhau i adolygu a datblygu ein harferion yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal arfer gorau yn y meysydd hyn.

Drwy gydol 2016/17, cynhaliwyd cyfweiriadau a grwpiau ffocws â thimau o gyflogeion o bob rhan o'r sefydliad i wrando ar adborth ac awgrymiadau er mwyn sicrhau ein bod yn darparu cymorth priodol ac yn canolbwyntio ar 'wneud y BBC yn lle gwell fyth i weithio yn ddo'. Rydym wedi seilio ein gweithgareddau ar bedwar maes allweddol:

- symleiddio ein ffyrdd o weithio – ceisio symleiddio neu ddileu arferion cymhleth a dod o hyd i ffyrdd o alluogi staff i wneud eu gwaith gorau
- gweithredu fel Un BBC – cydweithio a chydabod ein bod yn gryfach pan fyddwn yn cydweithio
- gwerthfawrogi ein gilydd a dathlu llwyddiant – parchu ein cyfraniadau amrywiol a chymryd amser i gydnabod ansawdd y gwaith a gynhrychir gan bob aelod o staff
- bod yn weladwy a chymryd rhan – sicrhau bod pob aelod o staff yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ganddo ac yn cymryd rhan lawn, a bod rheolwyr ac arweinwyr yn weladwy nid yn unig i'w timau a'u hadrannau eu hunain, ond i'r sefydliad cyfan, gan wrando, rhannu ac ysbrydoli

Rydym wedi cyflwyno ymgyrch 'Symlach, Doethach, Gwyrddach' o fewn y sefydliad, gan gasglu awgrymiadau a gwneud gwelliannau. Ym mis Chwefror 2017, gwnaethom ailwampio gwerthoedd y BBC a chyflwyno Cod

Ymddygiad y BBC – dogfen sy'n dwyn ein polisiau, ein safonau a'n disgwyliadau o ran ymddygiad ynghyd mewn un man, gan nodi'n glir i'n cyflogeion a'n gweithwyr llawrydd yr hyn y mae'n rhaid iddynt fod yn ymwybodol ohono a'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan y BBC.

Rydym wedi atgyfnerthu'r cymorth sydd ar gael i'n rheolwyr timau yn y BBC drwy gydol y flwyddyn drwy gyflwyno adnoddau cyfathrebu newydd, sioeau teithiol a gweithgareddau datblygu.

Cynhaliwyd ein harolwg ymgysylltu blynyddol ar ddechrau 2017. Cymerodd 67% o staff ran yn yr arolwg (o gymharu â 54% y tro diwethaf) a chynyddodd ein sgôr ymgysylltu gyffredinol 2% i 69%. Mae hyn 9% yn uwch nag ymgysylltiad canolrifol y DU (Ffynhonnell: Ipsos Mori – 2017).

Cynhaliwyd arolwg arall hefyd ymysg ein gweithwyr llawrydd a'n contractwyr asiantaeth, a gafodd gyfradd ymateb o 53% – cynnydd o 19% o gymharu â'r tro diwethaf.

Yr hyn yr oedd yn werth ei nodi oedd y ffaith bod 93% o'r cyflogeion yn cytuno â'r datganiad eu bod yn falch o weithio i'r BBC. Roedd sgorau wedi gwella yn y rhan fwyaf o feysydd ac mae cynlluniau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â meysydd penodol y mae angen eu gwella.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n hundebau ac yn ymrwymedig i feithrin cydberthnasau cadarnhaol ac adeiladol â'n holl bobl a'u cynrychiolwyr. Yn ystod 2016/17 cafwyd dau achos ar wahân o fynd ar streic. Roedd un wedi para 24 awr ac yn cynnwys 12 o gyflogeion ac roedd y llall wedi para 36 awr ac yn cynnwys 86 o gyflogeion.

**Hawliau dynol**

Mae'r BBC yn cymryd hawliau dynol o ddifrif; yma yn y DU a ledled y byd.

Mae gan bob aelod o staff yr hawl i ddychwelyd adref yn yr un cyflwr iechyd â phan adawodd i fynd i'r gwaith, ac i ffurfio undebau llafur. Mae'n ofynnol i rai aelodau o staff weithio mewn amgylchiadau risg uchel, fel y rheini mewn sefyllfaoedd gelyniaethus, fflmio cudd neu ddarlledu o ddigwyddiadau fel digwyddiadau terfysgol. Mae ein Tîm Risg Uchel yn cynghori ac yn goruchwyllo'r broses o hyfforddi ac o ddarparu cyfarpar i staff er mwyn sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n ddigonol i ymgymryd â'u rôl. Mae ein Telerau Masnach yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyflenwyr rydym yn cydweithio â hwy, ac unrhyw isgcontractwyr a ddefnyddir ganddynt, ddilyn y codau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon.

**Datganiad caethwasiaeth fodern Grŵp y BBC**

Mae Grŵp y BBC yn ymrwymedig i redeg ei fusnes mewn ffordd gyfrifol a chynnal arferion masnach mesegol ac amgylcheddol o safon uchel.

Mae'r BBC yn cefnogi nodau Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a, thrwy gyhoeddi datganiad blynyddol, mae'r BBC yn cydnabod pwysigrwydd y rôl y gall ei chwarae wrth atal masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth yn y meysydd lle mae ganddo ddylanwad, er mwyn creu diwylliant o ymwybyddiaeth a thryloywder a helpu i ddod â chaethwasiaeth fodern i ben.

Cyhoeddir y datganiad hwn yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'n nodi'r camau a gymerwyd gan y BBC a chwmnïau perthnasol eraill y grŵp yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol i atal caethwasiaeth fodern a marchnata mewn pobl yn eu cadwyni busnes a chyflenwi.

 Mae'r datganiad llawn ar gael yn: [downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/pdf/bbcmrsa2016.pdf](https://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/pdf/bbcmrsa2016.pdf)

**Datblygu ein pobl**

Drwy Academi'r BBC, darperir hyfforddiant a chyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer holl staff y BBC. Caiff llawer iawn o hyfforddiant ei gynnal ar-lein neu o bell, er mwyn rhoi hyblygrwydd i staff ac er mwyn cynyddu effeithlonrwydd a lleihau teithio hefyd. Cwblhawyd dros 65,000 o sesiynau hyfforddi unigol yn 2016/17, 60% ohonynt ar-lein.



**Bwletin Ysgol**

Cymerodd myfyrwyr rhwng 11 ac 16 oed o bron i 900 o ysgolion ledled y DU ran yn Mwletin Ysgol BBC Newyddion.



Mae BBC Studios a Radio wedi cael cymorth wrth iddynt symud i amgylchedd cyflenwi rhaglenni mwy cystadleuol. Cyflwynwyd gweithdai radio creadigol i gannoedd o bobl ac, yn BBC Studios, canolbwyntiwyd ar ddatblygu sgiliau busnes a masnachol yn ogystal â sgiliau crefft.

Yn fyd-eang, mae'r Academi wedi chwarae rôl flaenllaw yn y gwaith o ehangu'r World Service dros y pedair blynedd nesaf (World Service 2020), ac mae wedi creu cynnwys hyfforddi ar-lein mewn pum iaith ychwanegol (Bangla, Kyrgyz, Somali, Sbaeneg ac Wcreineg). Mae'r rhain wedi helpu newyddiadurwyr i sicrhau bod safonau fel didueddrwydd a chywirdeb yn cael eu cynnal pan gaiff deunydd sy'n bodoli eisoes ei gyfieithu neu pan gaiff cynnwys gwreiddiol ei greu.

Yn ogystal, mae rhaglenni hyfforddi cynhwysfawr wedi cael eu datblygu a'u cyflwyno i fwy na 1,000 o newyddiadurwyr newydd yn Nairobi, Lagos, Moscow, Delhi a Cairo, yn ogystal â'r DU. Mae'r rhaglenni hyn yn meithrin sgiliau technegol, golygyddol a chynhyrchu hanfodol, gan roi'r hyder a'r gallu i bobl gyfrannu at nod y BBC o gyrraedd cynulleidfa fyd-eang o hanner miliwn.

Darparwyd cymorth arall i'r adran Newyddion a'n newyddiadurwyr drwy gyrsiau hyfforddi wyneb yn wyneb ac ar-lein er mwyn helpu i lansio system gyfrifiadurol newydd Newyddion y BBC, Open Media. Dros y pedair blynedd nesaf, bydd mwy na 10,000 o ddefnyddwyr yn symud i'r system hon mewn dros 100 o safleoedd yn y DU a thramor. Mae bron 5,000 o oriau o hyfforddiant ar ddarparu cynnwys fideo ar lwyfannau digidol wedi cael eu cyflwyno i gyflogion Newyddion.

Ym mhob rhan o'r BBC, yn y DU a thramor, mae dros 30,000 o gyrsiau iechyd a diogelwch wedi cael eu cwblhau eleni drwy gyfuniad o ddulliau ar-lein ac wyneb yn wyneb.

### Talent newydd: prentisiaethau a chynlluniau hyfforddi

Rydym yn ymrwymedig i barhau i fuddsoddi mewn prentisiaethau (ar gyfer rhai nad ydynt yn raddedigion) a hyfforddeion (graddedigion yn bennaf) ac rydym wedi pennu uchelgais y bydd 2.3% o'n cyflogion yn brentisiaid neu'n hyfforddeion erbyn 2018.

Ym mis Medi 2016, roedd 237 o brentisiaid wedi'u gwasgaru o fewn y BBC, mewn adrannau cynhyrchu, newyddiaduraeth, peirianeg, digidol, busnes a chyfreithiol. Ar y cyd â'n 100 o hyfforddeion graddedig, mae hyn yn golygu ein bod yn darparu 337 o gyfleoedd cyflogedig o ansawdd uchel i bobl ifanc ddechrau eu gyrfa yn y sector darlledu.

Mae ein cyfleoedd wedi'u gwasgaru ar draws y DU – yn Llundain, Birmingham, Bryste, Caerdydd, Salford, Glasgow a Belfast ac o fewn rhwydwaith teledu rhanbarthol a radio lleol y BBC. Mae gweithio gyda sefydliadau partner yn ein galluogi i ddod o hyd i dalent o ansawdd uchel mewn cymunedau nad oes ganddynt gysylltiadau da â'r diwydiant darlledu yn draddodiadol. Mae 29% o'n Prentisiaid Busnes ar lefel gradd a 24% o'n Prentisiaid Cynhyrchu ar lefel gradd yn dod o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ('BAME') ac, ym maes cynhyrchu, mae hyfforddeion sydd wedi datgan anabledd yn cyfrif am 23%, tra bod y ffigur hwn yn cynyddu i 32% yn achos prentisiaid.

Mae ein holl raglenni yn parhau i fod yn boblogaidd iawn. Cafwyd dros 6,000 o geisiadau ar gyfer ein Cynllun Cynhyrchwyr dan Hyfforddiant, 3,500 ar gyfer ein Cynllun Newyddiadurwyr dan Hyfforddiant a 3,000 ar gyfer ein Prentisiaeth Gynhyrchu.

Yn sgil y Brentisiaeth Gradd Peirianeg Darlledu, sydd bellach yn ei phedwaredd flwyddyn, rydym wedi recriwtio a hyfforddi 74 o beirianwyr darlledu hyd yma, y mae rhai ohonynt wedi mynd ymlaen i ddilyn cymhwyster Meistr y BBC mewn Peirianeg Darlledu. Yn ogystal â'n cyfleoedd cyflogedig, gwnaethom hefyd ddarparu 1,176 o leoliadau profiad gwaith gyda'r BBC yn ystod 2016. Mae tua 1,700 o bobl ifanc ledled y DU wedi dilyn hyfforddeiaeth (cyn cyflogaeth) Make It Digital y BBC, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Chanolfannau Gwaith ledled y DU, yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau a llywodraethau'r gwledydd datganoledig ac rydym bellach wedi lansio hyfforddeiaeth Make It Digital rithwir y BBC sy'n cynnig cyngor ar gyflogadwyedd i bobl ifanc.

### Allgymorth a chyflwyno sgiliau newydd i'r diwydiant

Yn unol ag ymrwymadau ein Siarter, rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gyflwyno digwyddiadau a chyfleoedd dysgu ar gyfer sector y cyfryngau yn ehangach.

Cynhaliwyd Bwletin Ysgol BBC Newyddion ar 16 Mawrth 2017 mewn nifer o safleoedd y BBC, a chafodd myfyrwyr rhwng 11 ac 16 oed o bron 900 o ysgolion ledled y DU gyfle i baratoi eu bwletinâu eu hunain ar gyfer cynulleidfa go iawn, gan ddefnyddio cynlluniau gwersi, adnoddau dysgu'r BBC a help mentoriaid gwirfoddol y BBC. Mae'n addysgu pobl ifanc sut y caiff straeon newyddion eu paratoi: sut i greu stori newyddion a sut i gadarnhau ffeithiau a ffynonellau, sy'n gynyddol bwysig wrth iddynt ddod ar draws pob math o 'newyddion ffug'.

Trefnwyd wythnosau digwyddiadau Dinasoedd Digidol yn Birmingham, Bryste, Manceinion, Belfast, Caerdydd a Glasgow. Maent yn cynnwys ystod eang o weithgareddau a ddarperir gan y BBC, Creative Skillset a llawer o bartneriaid eraill mewn lleoliadau ar draws y ddinas ac yn rhoi cyfle i hyrwyddo cydweithio a dysgu traws-sector, gan dynnu sylw at gyfleoedd i ddatblygu sgiliau ac ystyried y gyfres nesaf o gyfleoedd digidol.

Mewn partneriaeth â Creative Skillset, gwnaethom lansio'r Rhaglen Hyfforddi Cydlynu Cynhyrchu er mwyn llenwi bwloch sgiliau sydd i'w weld ym mhob rhan o'r diwydiant. Mae'r 28 hyfforddai cyntaf, llawer ohonynt o gefndiroedd y tu allan i'r cyfryngau, wedi dilyn cwrs cynhwysfawr gan ddysgu popeth o iechyd a diogelwch i sgiliau negodi. Byddwn yn recriwtio 34 arall erbyn yr haf. Mae ein partneriaeth â'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol wedi parhau, gan ddarparu nifer o gyrsiau byr dan frand cyfun i lenwi bylchau sgiliau ym maes drama barhaus. Llwyddwyd i recriwtio myfyrwyr talentog i rolau drama crefft mewn amryw o gynyrchiadau'r BBC fel *Eastenders*, *Holby City* a *Doctors*.

Cynhaliwyd cyfres o ddiwrnodau hyfforddiant a sgiliau dan frand cyfun mewn partneriaeth â BAFTA, y Gymdeithas Deledu Frenhinol a Women in Film & Television, gan gynnwys y fenter amrywiaeth lwyddiannus – Diwrnod Merched Arbenigol, pan gafodd nifer o arbenigwyr benywaidd eu hyfforddi i gyfrannu yn eu meysydd pwnc ar gyfer allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC ar deledu, radio ac ar-lein yn y dyfodol.

# Amrywiaeth a chynhwysiant

Mae gan y BBC un o'r gweithluoedd mwyaf amrywiol a chynhwysol yn y DU yn barod. Mae'r amrywiaeth hon ymysg ein pobl yn ein galluogi i adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU gyfan yng nghynnwys ein hallbwn a'n gwasanaethau.



BBC Young Dancer 2017



Rydym wedi cyrraedd y targedau a bennwyd yn flaenorol ar gyfer 2017 ac rydym ar y trywydd cywir i gyrraedd targedau mwy heriol 2020.

Yn ystod 2016, gwnaethom ddiweddarau ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant gydag ymrwymiadu i gyflawni'r canlynol erbyn 2020:

- bydd ein gweithlu o leiaf yr un mor amrywiol ag unrhyw weithlu arall yn y diwydiant
- byddwn wedi cyrraedd targedau portreadu sy'n cwmpasu ystod lawer ehangach o amrywiaeth nag unrhyw ddarlledwr arall
- byddwn wedi ymgorffori amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn

Rydym eisoes wedi gwneud llawer o gynnydd tuag at y nodau hyn ac yn dilyn cyfrifiad diweddar, mae ein hystadegau amrywiaeth a chynhwysiant yn dangos ein bod wedi cyrraedd y targedau a bennwyd yn flaenorol ar gyfer 2017 a'n bod ar y trywydd cywir i gyrraedd targedau mwy heriol 2020.

[Mae manylion llawn ar gael yn yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb: \[bbc.co.uk/corporate2/diversity/newsandevents/equality-information-report-2017\]\(http://bbc.co.uk/corporate2/diversity/newsandevents/equality-information-report-2017\)](http://bbc.co.uk/corporate2/diversity/newsandevents/equality-information-report-2017)

O ganlyniad i'n gweithlu mwy amrywiol, mae portreadau yn ein cynnwys a'n gwasanaethau

yn gwella'n sylweddol. Rydym yn gweld ac yn clywed ystod ehangach o straeon a lleisiau nag erioed o'r blaen. O gynnwys teledu newydd, ffres i'n hoff frandiau treftadaeth. Ar deledu, iPlayer a radio, drwy ein harlwy chwaraeon, cynnwys plant a mentrau BBC Learning ac ar lwyfan gyda'n grwpiau perfformio ac mewn gwaith dylunio cynnyrch hygyrch.

Rydym yn parhau i noddii nifer o fenrau o fewn y BBC. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu Canllawiau Comisiynu Amrywiaeth a Chynhwysiant, rhaglen Arweinyddiaeth Clore, Interniaethau Mynediad Creadigol,

Rhaglen Datblygu Comisiynwyr Cynorthwyol a Chronfa Datblygu Amrywiaeth gwerth £2.1 miliwn. Yn allanol, rydym yn cydweithio â nifer o bartneriaid ac yn aelod gweithgar o'r Rhwydwaith Amrywiaeth Greadigol, lle rydym wedi chwarae rhan allweddol yn y fenter traws-ddiwydiant gan greu Diamond, system monitro amrywiaeth. Mae disgwyl i ganlyniadau cyntaf y system hon gael eu cyhoeddi erbyn diwedd 2017 a byddant yn mesur y cynnydd rydym yn ei wneud o safbwynt ein targedau portreadu ar sgrin o 5% ar gyfer anabledd ar sgrin a 15% ar gyfer grwpiau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar sgrin.

Gweithlu	31 Mawrth 2017	Targed 2017	Targed 2020
Merched (pob aelod o staff)	<b>48.2%</b>	dd/g	50%
Merched (arweinyddiaeth)	<b>42.1%</b>	dd/g	50%
Anabledd (pob aelod o staff)	<b>10.2%</b>	5.3%	8%
Anabledd (arweinyddiaeth)	<b>9.6%</b>	5%	8%
BAME (pob aelod o staff)	<b>14.5%</b>	14.2%	15%
BAME (arweinyddiaeth)	<b>10.3%</b>	10%	15%
LGBT (pob aelod o staff)	<b>10.5%</b>	dd/g	8%
LGBT (arweinyddiaeth)	<b>11.5%</b>	dd/g	8%

# Gwaith elusennol

Mae'r BBC wedi bod yn darlledu apeliadau ar gyfer elusennau ers 1923 ac maent yn rhan bwysig o'n cylch gwaith fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.



DIY SOS ar gyfer Plant mewn Angen.



Cododd y BBC dros £123 miliwn yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17.

Ynghyd â chefnogaeth ar gyfer ein dwy elusen gorfforaethol – BBC Plant mewn Angen a BBC Media Action, a phartneriaethau â Comic Relief a St Martin-in-the-Fields, mae apeliadau wythnosol a misol ar gyfer ystod eang o elusennau. Cododd y BBC dros £123 miliwn yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17.

## BBC Plant mewn Angen

Yn 2016, daeth pobl o bob cwr o'r DU ynghyd er mwyn helpu i wneud newid cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc dan anfantais mewn cymunedau lleol.

Unwaith eto, cefnogodd y BBC yr elusen drwy lu o raglenni ysbrydoledig. O raglen BBC Plant mewn Angen *Rocks for Terry*; noson o adloniant yng nghwmni'r sêr i ddatlu bywyd y darlledwr

poblogaidd Syr Terry Wogan, i Her Rickshaw *The One Show* a ddychwelodd am flwyddyn arall, lle bu pobl ifanc sy'n cael cymorth gan brosiectau a ariennir gan BBC Plant mewn Angen yn pedlo 470 o filltiroedd gyda Matt Baker. Twymodd rhaglenni elusennol arbennig gan *DIY SOS*, *Countryfile* a *Songs of Praise* galonau gwylwyr tra rhoddodd ffilm wych, *Prison, My Parents & Me*, sylw i'r anawsterau sy'n wynebu plant a phobl ifanc sydd wedi colli rhiant yn y system cyfiawnder troseddol. Yn y cyfamser, defnyddiodd gorsafoedd radio'r BBC, wedi'u hysbrydoli gan ymgyrch codi arian 'Do Your Thing', ddiddordebau, hobiau ac ofnau i godi arian. Hefyd, yn unol â phwylsais yr elusen ar godi arian drwy gydol y flwyddyn, ymgysylltodd digwyddiadau fel Gung-Ho!, her cwrs rhwystrau, a CarFest North a South a gyflwynwyd gan Chris Evans â chodwyr arian drwy gydol 2016.

Uchafbwynt yr apêl oedd y cyhoeddiad bod £46.6 miliwn o arian wedi cael ei godi, y swm mwyaf erioed, yn ystod sioe apêl fawreddog mis Tachwedd. Mae'r swm hwn wedi parhau i gynyddu a chaiff y cyfanswm terfynol ei gyhoeddi'r haf hwn.

Mae'r heriau sy'n wynebu plant a phobl ifanc yn amrywiol ac yn gymhleth – colli rhiant, anabledd, salwch meddwl, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant. Mae bron un o bob tri phlentyn yn y DU yn byw mewn tldi. Mae tua 1.6 miliwn o blant yn byw mewn tldi difrifol, sy'n golygu eu bod yn byw heb o leiaf un angenrhaidd sylfaenol fel prydau bwyd rheolaidd, dillad gaeaf priodol neu gartref cynnes, diogel i fyw ynddo. Mae BBC Plant mewn Angen, gyda chymorth y BBC, yn gweithio'n ddiflino i ariannu dros 2,400 o brosiectau sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn, gyda syniadau gwreiddiol a newydd sy'n helpu'r rhai mwyaf agored i niwed, yn datblygu eu hyder a'u gwydnwch ac yn gwneud newid cadarnhaol, parhaol i'w bywydau ifanc.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: [bbcchildreninneed.co.uk](http://bbcchildreninneed.co.uk)

## BBC Media Action

Mae elusen datblygu rhyngwladol y BBC yn defnyddio'r cyfryngau a dulliau cyfathrebu i drawsnewid bywydau, gan weithio gyda phartneriaid i gyrraedd mwy na 200 miliwn o bobl y flwyddyn mewn rhai o'r manau mwyaf heriol yn y byd.

Mae BBC Media Action yn helpu pobl i wella eu hiechyd, cymryd rhan mewn bywyd dinesig, arfer eu hawliau, gwella eu diogelwch a'u cyfleoedd economaidd a goroesi trychinebau.

Mae ei raglenni hyfforddi 'lifeline' yn helpu darlledwyr ac asiantaethau cymorth i roi gwybodaeth sy'n achub bywydau i bobl ar ôl argyfyngau dyngarol. Mae'n mentora ac yn hyfforddi newyddiadurwyr a darlledwyr ac yn cynhyrchu rhaglenni teledu, radio ac aml-gyfrwng.

Y llynedd, cynhaliodd yr elusen 100 o brosiectau mewn mwy nag 16 o wledydd. Roedd hyn yn cynnwys Affganistan, lle mae llai na hanner yr holl blant rhwng un a dwy oed wedi cael eu himiwneiddio'n llawn rhag clefydau plentyndod ataliadwy fel polio. Y llynedd, lansiodd BBC Media Action raglen gylchgrawn radio er mwyn annog rhieni i drafod iechyd teuluol. Ar ôl ychydig fisoedd yn unig ar yr awyrd, dangosodd dadansoddiad o'r gynulleidfa fod y rhaglen wedi cymhell pobl i frechu eu plant. Yn Kenya, lle mae etholiadau wedi esgor ar drais cyfundrefnol yn



y gorffennol, datblygodd yr elusen sioe drafod newydd i annog pobl ifanc i gymryd rhan fwy blaenllaw mewn bywyd gwleidyddol. Yn Ne Sudan, lle mae rhannau mawr o'r boblogaeth yn gorffod symud o ganlyniad i wrthdaro, bu BBC Media Action yn hyfforddi a mentora cynhyrchwyr radio i wneud rhaglenni am ddatblygu heddwch, iechyd mamau ac addysg. O ganlyniad, dywedodd sawl gorsaf fod eu staff wedi dysgu sgiliau newydd ym maes dod o hyd i ffynonellau a chadarnhau ffeithiau, cyfsweld a chynhyrchu. Yn Syria, lansiodd ddrama er mwyn pontio rhaniadau cymdeithasol, gwleidyddol a chrefyddol rhwng pobl y mae'r rhyfel cartref hir wedi effeithio arnynt.

Yn 2016/2017, cafodd BBC Media Action gymorth gan ystod o gyllidwyr gan gynnwys Sefydliad Bill a Melinda Gates, EU Humanitarian Aid and Civil Protection ('ECHO'), Swedish International Development Cooperation Agency ('SIDA'), Adran Datblygu Rhyngwladol y DU ('DFID'), asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig ac USAID. Cyfanswm yr incwm yn 2016/17 oedd £43 miliwn.

**Darllenwch fwy am brosiectau BBC Media Action:** [bbc.co.uk/mediaaction](http://bbc.co.uk/mediaaction)

**Apeliadau darlledu**

Mae'r syniad o roi amser ar yr awyr ar y BBC, i elusennau llai o faint yn aml, yn dyddio'n ôl i'r Arglwydd Reith. Caiff proses ddethol drylwyr ar gyfer yr apeliadau wythnosol a misol ei harwain gan Bwyllgor Cynghori ar Apeliadau'r BBC. Mae timau cynhyrchu'r BBC yn gweithio'n galed gyda phob elusen, gan ei galluogi i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle hwn. Mae cyflwynwyr yn rhoi o'u hamser yn hael. Mae budd yr apêl yn llawer mwy na'r arian a godir; caiff yr elusennau fudd hefyd o'r cyfle i rannu eu gwaith â chynulleidfâ lawer ehangach a chodi ymwybyddiaeth y gynulleidfâ honno. Eleni, mae apeliadau Radio 4 a Lifeline BBC One wedi codi dros £1.1 miliwn ar gyfer 60 o elusennau, gydag amrywiaeth eang o achosion yn y DU a thramor.

**Gallwch weld y canlyniadau yma:** [bbc.co.uk/charityappeals/about/amounts-raised](http://bbc.co.uk/charityappeals/about/amounts-raised)

Gall elusennau sy'n bodloni'r meini prawf wneud cais am apêl ar y BBC yma: [bbc.co.uk/charityappeals/appeals/apply-now](http://bbc.co.uk/charityappeals/appeals/apply-now).

Mae proses ddethol ar wahân ar gyfer apeliadau darlledu ar ledu a radio'r BBC yng Ngogledd Iwerddon, a ddarlledodd 13 apêl y llynedd yn ogystal ag apêl arbennig adeg y Nadolig.



**Comic Relief**  
WIA yn hyrwyddo Diwrnod Trwynau Coch 2017.

Dynododd apêl Nadolig BBC Radio 4 bartneriaeth hir, 90 mlynedd o hyd, â St-Martin-in-the-Fields, sy'n gweithio gyda phobl ddigartref a'r rhai dan fgyrthiad o ddigartrefedd ledled y DU. Cododd yr apêl y swm uchaf erioed: £2,846,596. Bu llawer o gyflwynwyr Radio 4 yn helpu i gymryd cyfraniadau dros y ffôn ar ddiwrnod yr apêl. Darlledodd y BBC ddwy apêl ar gyfer y Pwyllgor Argyfyngau hefyd, a helpodd i godi cyfanswm o £22 miliwn ar gyfer Yemen a £55 miliwn ar gyfer Dwyrain Affrica.

**Comic Relief**

Gyda chred gyffredin ym mhŵer adloniant i gymell y genedl i newid bywydau yma a thramor, mae partneriaeth y BBC yn parhau i fod yn rhan gwbl ganolog a hanfodol o bopeth y mae Comic Relief yn ei wneud yn ystod ei ymgyrchoedd Diwrnod Trwynau Coch a Sport Relief.

Roedd Diwrnod Trwynau Coch 2017 yn enghraifft eithriadol o'r ffordd y mae'r BBC cyfan yn cefnogi'r digwyddiad elusennol cenedlaethol hwn.

Neilltuodd teledu'r BBC nos Wener gyfan i'r ymgyrch ac addasodd lawer o'i raglenni arferol i greu rhaglenni arbennig ar gyfer Comic Relief. Cynhaliodd Radio 1 a Radio 2 hefyd ddigwyddiadau codi arian gyda'r DJ Sara Cox o Radio 2 yn dawnsio'n ddewr i gyfeilliant cerddoriaeth o'r 80au am 24 awr gan godi dros £1.2 miliwn yn y fargen.

Cymerodd *The One Show*, *Countryfile*, *Saturday Kitchen*, *Loose Ends*, *Let's Sing and Dance for Comic Relief* a sioeau eraill ran hefyd. Felly hefyd *Blue Peter* gyda'i ystafell ddosbarth gomedi. Cafodd rhaglen ddogfen ffeithiol, awr o hyd, dderbyniad da. Fel rhan o *The Red Nose Convoy*, gyrodd chwe seren boblogaidd i weld prosiectau yn Kenya ac Uganda, gan ddosbarthu

cyfarpar hanfodol gan gynnwys cyflenwadau meddygol, rhwydi mosgitos a beiciau.

Gweithiodd Comic Relief yn agos gyda'r BBC i annog y cyhoedd ym Mhrydain i gymryd rhan a chwerthin i godi arian. Ysgogodd Comic Relief lefel uchel o gyfranogiad ac ymgysylltiad ymysg y cyhoedd, felly cymerodd pobl o bob cwr o'r DU ran yn yr ymgyrch, boed hynny drwy wyllo'r teledu, gwrandao ar y radio, gwyllo sgetshis gwreiddiol digidol, codi arian, prynu trwyn neu wneud cyfraniad.

Ar 24 Mawrth, uchafbwynt yr ymgyrch oedd y noson arferol, na ellir ei cholli, o eitemau byw comediandd anrhagweladwy yn gymysg â sgetshis a ffilmiau apêl dirdynol. Cynhyrchwyd y noson gan BBC Studios gyda Richard Curtis, gyda chyfraniad gan ysgrifenywyr, cyfarwyddwyr ac artistiaid eraill hefyd. Yr uchelgais eleni oedd rhoi'r sylw canolog i ddigrifwyr unwaith eto a darparu detholiad o dalent a deunydd a apeliat at ystod eang o gynulleidfaoedd – hen ac ifanc – felly, cafodd y noson ei chyflwyno gan arlwy gomedi amrywiol a newydd gan gynnwys Syr Lenny Henry, Warwick Davis, Sally Phillips, Jonathan Ross, Romesh Ranganathan, Greg Davis, Miranda Hart a newydd-ddyfodiad fel Joe Lycett a Luisa Omeilan.

Ymysg yr uchafbwyntiau oedd agoriad wedi'i ysbrydoli gan *La La Land*, *Carpool Karaoke* gyda James Corden a *Take That*, fflim fer arbennig o *Red Nose Day Actually* a phytiau rhagflas WIA. Roedd Ed Sheeran a Kurupt FM a Rag 'n' Bone Man yn boblogaidd iawn hefyd.

Cynulleidfâ dros nos y noson oedd 6.2 miliwn o wylwyr gyda nifer y gwylwyr yn cyrraedd wyth miliwn ar ei uchaf.

Erbyn diwedd penwythnos Diwrnod Trwynau Coch, llwyddwyd i godi cyfanswm o fwy na £73 miliwn, a gaiff ei wario ar helpu pobl sy'n byw yng nghymunedau tlotaf y byd ac yma yn y DU.

**Darllenwch fwy am waith Comic Relief:** [comicrelief.com](http://comicrelief.com)

# Cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae ein strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol yn canolbwyntio ar leihau effeithiau amgylcheddol ein gweithrediadau, ymgorffori arferion cynaliadwy mewn prosesau gwneud rhaglenni ac ysbrydoli ein staff i weithredu.






Rydym wedi llunio adroddiadau ar ein perfformiad yn erbyn targedau amgylcheddol ers 2009 ac rydym wedi gwneud cynnydd da, gan gynnwys lleihau allyriadau carbon o'n hadeiladau 40%, gan dorri 60,000 tonnell o CO<sub>2</sub>e o'n hól troed. Cynyddodd cyfraddau ailgylchu i 67%, ac mae allyriadau trafniadaeth wedi gostwng 11% mewn termau absoliwt – dros 4,000 tonnell o CO<sub>2</sub>e ers 2008, a gostyngiad o 4% fesul teithiwr y BBC. Rydym wrthi'n pennu nodau newydd ar gyfer cyfnod y Siarter newydd.

Ers 1 Ebrill 2017, rydym yn prynu trydan adnewyddadwy i'w ddefnyddio yn y rhan fwyaf o'n safleoedd, a fydd yn cael effaith sylweddol, gan leihau ein hól troed carbon. Mae hwn yn gam cadarnhaol ac rydym yn parhau â'n hymdrechion i leihau ein galw am ynni drwy ddefnyddio ein heiddo a'n technoleg yn effeithlon.




Mae ein timau rhaglenni yn parhau i ddefnyddio ffyrdd mwy ecogyfeillgar o weithio, wrth i 81 o raglenni ychwanegol gael eu hardystio'n gynrychiadau cynaliadwy o dan gynllun albert BAFTA, a grëwyd yn wreiddiol yn y BBC. Ymysg y sioeau sydd wedi ennill y bathodyn a ddarledwyd yn ystod y flwyddyn mae *Eastenders*, *Still Open All Hours*, a Rhaglen Nadolig Arbennig *Doctor Who*.

Rydym yn hyrwyddo ffyrdd cynaliadwy o weithio yn y diwydiant a bellach, mae'n rhaid i gwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n gwneud rhaglenni teledu ar gyfer y BBC ddefnyddio cyfrifiannell carbon albert i fesur ôl troed eu cynhyrchiad teledu, yn ogystal â'n timau mewnol.

O fewn y BBC, caiff gwybodaeth ac ymwybyddiaeth staff eu hategu'n fewnol drwy hyfforddiant 'Llythrennedd Carbon', ac mae dros 320 o staff y BBC wedi dilyn y cwrs. Lansiodd Anne Bulford, y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, ymgyrch staff yn hyrwyddo ffyrdd 'symlach', doethach a gwyrdach' o weithio, gan ofyn i staff am eu syniadau a'u cefnogaeth.

Targedau amgylcheddol y BBC		Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17 yn erbyn y llinell sylfaen
		%	%
	Gostyngiad absoliwt yn y defnydd o ynni	-20%	-39%
	Gostyngiad absoliwt mewn allyriadau CO <sub>2</sub> o adeiladau	-20%	-40%
	Gostyngiad yn y defnydd o ddŵr (y pen)	-25%	-43%
	Gostyngiad mewn gwastraff (tunelli) i safleoedd tirlenwi (y pen)	-25%	-90%
	Faint o wastraff a gaiff ei ailgylchu	70%	67%
	Gostyngiad mewn allyriadau CO <sub>2</sub> o drafnidiaeth (fesul defnyddiwr y BBC)	-20%	-4%
<b>Allyriadau nwyon tŷ gwydr</b>			
Allyriadau nwyon tŷ gwydr (tunelli o allyriadau CO <sub>2</sub> , cwmpas 1 a chwmpas 2)			91,426
Dwysedd carbon (tunelli o allyriadau CO <sub>2</sub> /cyfanswm incwm y Grŵp £m):			18.5

Mae'r data ar nwyon tŷ gwydr ar gyfer swyddfeydd yn y DU a rhai sy'n cynrychioli'r World Service; ceir gwybodaeth fanwl a nodiadau esboniadol ar-lein yn: [bbc.co.uk/responsibility/environment](http://bbc.co.uk/responsibility/environment)  
Blwyddyn sylfaen: 2008

Cynhyrchu cynaliadwy		Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17
	Rhaglenni plant a theledu mewnol i ddefnyddio albert i nodi ôl troed carbon cynrychiadau	100% ar y trywydd iawn	88% ar y trywydd iawn
	Ôl troed carbon cyfartalog y BBC ar gyfer cynrychiadau teledu fesul awr gynhyrchu	Dd/g	15.8 tunnell CO <sub>2</sub>
	Cynrychiadau plant a theledu'r BBC i gwblhau proses ardystio cynhyrchu cynaliadwy albert	25 cynhyrchiad	81 cynhyrchiad

Ffordd o gyfrifo carbon yw albert sy'n helpu timau cynhyrchu yn y diwydiant darlledu i gyfrifo'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â chynhyrchiad teledu  
Mae ardystiad albert yn helpu cynrychiadau i gymryd camau i leihau effeithiau amgylcheddol. Dyfernir gradd un, dwy neu dair seren i gynrychiadau llwyddiannus a gallant arddangos bathodyn yn ystod y cydnabyddiaethau ar ddiwedd rhaglen. Mae cynrychiadau sydd wedi cwblhau'r broses wedi symud ymlaen i'r cam archwilio

 Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: [bbc.co.uk/responsibility/environment](http://bbc.co.uk/responsibility/environment)

# Bwrdd y BBC

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus fel y'u nodir yn y Siarter. Disodlodd strwythur dwy haen Ymddiriedolaeth y BBC a Bwrdd Gweithredol y BBC fel corff llywodraethu'r Gorfforaeth ar 3 Ebrill 2017.

Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan Syr David Clementi ac mae'n cynnwys deg cyfarwyddwr anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd, a phedwar cyfarwyddwr gweithredol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol.



Syr David Clementi  
Cadeirydd



Tony Hall  
Yr Arglwydd Hall o Benbedw  
CBE  
Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Olygydd



Anne Bulford OBE  
Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol



Simon Burke  
Cyfarwyddwr anweithredol  
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg



Tim Davie  
Prif Swyddog Gweithredol,  
BBC Worldwide



Tanni Grey-Thompson,  
Y Farwnes Grey-Thompson  
DBE  
Cyfarwyddwr anweithredol





**Ian Hargreaves CBE**  
Cyfarwyddwr anweithredol  
Cadeirydd y Pwyllgor Canllawiau a  
Safonau Golygyddol



**Tom Ilube**  
Cyfarwyddwr anweithredol  
Cadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg

Caiff y Cadeirydd a phedwar cyfarwyddwr anweithredol y gwledydd eu penodi gan EM Y Frenhines ar sail argymhelliad Gweinidogion a chaiff gweddill y Bwrdd eu penodi gan y BBC drwy Bwyllgor Enwebiadau'r Bwrdd. Ni phenodwyd aelodau Cymru a Gogledd Iwerddon i'r Bwrdd eto.

Gellir darllen bywgraffiadau llawn holl aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys eu rolau eraill, ar wefan y BBC.

Dyma aelodaeth y Bwrdd ym mis Mehefin 2017. Drwy gydol y flwyddyn adrodd mae'r aelodaeth wedi newid. Gweler tudalennau 67 a 71 am ragor o fanylion.

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i is-bwyllgorau a rhoddir gwybodaeth am y pwyllgorau yn: [bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/](http://bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/)

**Pwyllgor Gweithredol**

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cadeirio Pwyllgor Gweithredol, sy'n gyfrifol am redeg y BBC o ddydd i ddydd. Mae naw cyfarwyddwr, sy'n rheoli rhannau gweithredol mawr o'r Gorfforaeth, hefyd yn eistedd ar y Pwyllgor hwn. Yr unigolion hyn yw:

- Tony Hall, y Cyfarwyddwr Cyffredinol
- Anne Bulford, y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol
- Tim Davie, Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide
- James Harding, Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes
- Valerie Hughes D'Aeth, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y Grŵp
- Mark Linsey, Cyfarwyddwr BBC Studios
- Ken MacQuarrie, Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau
- Charlotte Moore, Cyfarwyddwr Cynnwys
- Matthew Postgate, Prif Swyddog Technoleg a Chynhyrchion
- James Purnell, Cyfarwyddwr Radio ac Addysg

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC yn unol â'r strategaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd, ynghyd â phob agwedd ar reoli gweithredol.

 [Dysgwch fwy: \[bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/managementstructure/seniormanagement\]\(http://bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/managementstructure/seniormanagement\)](http://bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/managementstructure/seniormanagement)



**Ken MacQuarrie**  
Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r  
Rhanbarthau



**Steve Morrison**  
Cyfarwyddwr anweithredol  
Aelod yr Alban  
Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth



**Syr Nicholas Serota CH**  
Cyfarwyddwr anweithredol



**Ashley Steel**  
Cyfarwyddwr anweithredol  
Aelod Lloegr

# Adroddiad Llywodraethu

## Cydymffurfiwn ag arfer gorau llywodraethu corfforaethol

### Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol y BBC

Diffinnir fframwaith llywodraethu corfforaethol y BBC yn ei Siarter Frenhinol a'r Cytundeb Fframwaith cysylltiedig. Mae'r Siarter a'r Cytundeb ar gael ar wefan y BBC yn: [bbc.co.uk/corporate2/insidethebbc/whoware/bbc\\_royal\\_charter](http://bbc.co.uk/corporate2/insidethebbc/whoware/bbc_royal_charter)

Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ystyried egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol. Er nad yw'r BBC yn gwmni rhestredig, eto i gyd mae wedi dewis mabwysiadu arfer gorau a dilyn darpariaethau Rheolau Rhestru'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2014 y Cyngor Adrodd Ariannol, lle bo hynny'n briodol, er mwyn cyrraedd yr un safonau llywodraethu â chwmnïau a restrir ar farchnad stoc a reoleiddir gan yr UE.

Mae'r wedi cydymffurfio â gofynion llywodraethu corfforaethol y Siarter a'r Cytundeb ac wedi sicrhau cryn gydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU. Mae nifer o elfennau o God Llywodraethu Corfforaethol y DU nad ydynt yn briodol i amgylchiadau'r BBC neu lle mae cydymffurfiaeth â Siarter neu Gytundeb y BBC yn drech na chydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU. Nodir y rhain isod.

Roedd a wnelo'r prif feysydd lle bu Siarter y BBC yn drech na Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn ystod 2016/17 â'r strwythur llywodraethu a gweithrediad cyrff llywodraethu blaenorol y BBC. Yn ystod y cyfnod hwn roedd gan y BBC strwythur llywodraethu dwy haen, a oedd yn cynnwys Ymddiriedolaeth y BBC a'r Bwrdd Gweithredol. Ar 3 Ebrill 2017, yn sgîl cyflwyno Siarter newydd, sefydlwyd Bwrdd unigol yn ei le. Cydymffurfiodd y BBC â gofynion ei Siarter ac felly ni allodd fodloni egwyddorion canlynol y Cod Llywodraethu Corfforaethol:

- rhannu cyfrifoldebau rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr (egwyddorion A.2.1 ac A.3.1 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU)
- gwerthuso'r Cadeirydd (egwyddor B6.3 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU)
- cyfansoddiad y Bwrdd (egwyddor B.1.2 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU)

O ganlyniad i'r newid oedd ar ddot i'r trefniadau llywodraethu, ni wnaeth y BBC gydymffurfio â'r egwyddor ganlynol ychwaith:

- gwerthusiad allanol o'r Bwrdd (egwyddor B.6.2 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU)

Hefyd, mae dau faes lle nad yw Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn berthnasol i'r BBC, sef:

**Cyfansoddiad cydnabyddiaeth (egwyddor D.1.1 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU):** Mae'r BBC yn pennu lefelau cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol a ddylai fod yn ddigonol i ddenu, cadw a chymhell cyfarwyddwyr o'r safon angenrheidiol i redeg y sefydliad yn llwyddiannus, yn unol â'r egwyddor hon. Fodd bynnag, o dan yr egwyddor hon mae'n rhaid hefyd gysoni cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol â'r syniad o wella gwerth i gyfranddalwyr drwy sicrhau bod elfennau o gydnabyddiaeth ar sail perfformiad yn gyfran sylweddol o gyfanswm y gydnabyddiaeth. Gan fod y BBC yn cael ei ariannu gan ffi'r drwydded a bod ganddo statws fel corfforaeth gyhoeddus, mae'r BBC wedi penderfynu y dylai swm y gydnabyddiaeth amrywiadwy (neu gydnabyddiaeth ar sail perfformiad) y gall staff ei hennill yn y gwasanaeth cyhoeddus fod yn gyfyngedig. Ni roddir tâl amrywiadwy i unrhyw un o gyfarwyddwyr gweithredol Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC a rhoddwyd y gorau i dalu taliadau bonws. Mae Tim Davie yn cael elfen o gyflog ar sail perfformiad yn ei rôl fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide, sef is-gwmni masnachol o dan berchenogaeth lawn y BBC.

**Rhyngweithio â rhanddeiliaid (egwyddorion B.7.1, B.7.2, D.2.4 ac adran E o God Llywodraethu Corfforaethol y DU):** Nid yw'r BBC yn gwmni sy'n anelu at wneud elw sydd â chyfranddalwyr ac felly mae darpariaethau sy'n ymwneud â rhyngweithio â chyfranddalwyr yn amherthnasol.

### Cost cydymffurfio

Yn 2016/17, amcangyfrifwyd bod y BBC wedi mynd i gostau o £15.6 miliwn (2015/16: £14.2 miliwn) er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â phob darn o ddeddfwriaeth berthnasol. Mae hyn yn cynnwys ffi reoleiddio flynyddol y BBC i Ofcom, sef £1.4 miliwn.

# Adroddiad cydnabyddiaeth

## Crynodeb

Dyma'r adroddiad cydnabyddiaeth diwethaf i'w lunio o dan fframwaith y Siarter a'r Cytundeb blaenorol. Yn ystod y cyfnod hwn, rhoddwyd cryn dipyn o sylw i gyflogau uwch aelodau o staff yn y BBC, yn gysylltiedig â dull mwy manwl a chyson o reoli'r gweithlu cyfan.

Ers 2011, lleihawyd nifer yr uwch reolwyr 172 o benaethiaid, gan arbed cyfanswm o £15.2 miliwn a chyflawni 169% o'r targed. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, lleihawyd nifer yr uwch reolwyr 47 o benaethiaid, gan arbed £4.4 miliwn.

Bu'n rhaid lleihau niferoedd fel hyn er mwyn sicrhau bod cymaint o arian â phosibl ar gael ar gyfer cynnwys a chreadigrwydd, a rhoi'r gwerth gorau posibl am arian i dalwyr ffi'r drwydded. Nawr mae'n hanfodol bod y BBC yn gallu edrych i'r dyfodol ac, mewn hinsawdd gystadleuol iawn am y bobl orau, gynnig pecyn i staff sy'n ddeniadol ond hefyd yn briodol i amgylchedd nodedig darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

O ystyried y newidiadau a wneir i system lywodraethu'r BBC, cytunwyd â'r Ymddiriedolaeth nad y llynedd oedd yr amser i gyflwyno strategaeth wobrwyo ffurfiol newydd. Fodd bynnag, gwnaed gwaith paratoi a fydd yn galluogi Bwrdd newydd y BBC i ddatblygu strategaeth glir ar gyfer y cyfnod i ddod. Mae hyn wedi cynnwys gwaith ar themâu Un BBC, recriwtio a chadw, rheoli perfformiad a diwylliant sefydliadol.

Mae'r BBC yn gweithredu mewn marchnad sy'n newid yn gyflym lle mae cystadleuaeth ddwys am dalent, a gwelwyd twf aruthrol ymysg rhai cwmnïau newydd yn y cyfryngau sy'n cynnig pecynnau hynod ddeniadol. Bydd strwythur newydd y BBC, gan gynnwys BBC Studios, a strategaeth newydd yn dilyn yr adolygiad o'r Siarter, yn sicrhau y gall y sefydliad apelio i bobol sy'n teimlo'n gyffrous am y cyfleoedd i weithio ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth flynyddol a dderbyniwyd gan aelodau staff y Bwrdd Gweithredol (y cyfarwyddwyr gweithredol) ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17. Fe'i paratowyd ar y sail bod gofynion Rheoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2013 a Rheolau Rhestru yn gymwys i'r BBC lle bynnag y bo'r darpariaethau datgelu hyn yn berthnasol. Archwiliwyd yr adrannau ar bensiynau a chydabyddiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol gan Ernst & Young LLP, archwiliwyr statudol y BBC.

Lluniwyd adroddiadau cydnabyddiaeth 2016/17 gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol a fodolai o dan drefniadau llywodraethu'r BBC ar gyfer y Siarter flaenorol. Mae Bwrdd y BBC bellach wedi sefydlu Pwyllgor Cydnabyddiaeth newydd, a fydd yn cymeradwyo adroddiadau o'r fath yn y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, parhaodd y BBC i weithredu yn unol ag egwyddorion Strategaeth Cyflogau Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr 2011, gyda chytundeb Ymddiriedolaeth y BBC. Mae'r strategaeth flaenorol yn parhau i gynnig gwerth i'r sefydliad ac rydym wedi rhagori ar dargedau allweddol o ran niferoedd a'r bil cyflog yn sylweddol. Erbyn hyn yflogir 312 o uwch reolwyr, o gymharu â tharged o 414. Mae'r bil cyflog bellach wedi gostwng £15.2 miliwn, sef 169% o'r targed.

Yn ystod y flwyddyn, mae gwaith wedi mynd rhagddo ar ad-drefnu a symleiddio'r BBC, wrth i ni weithio tuag at y diffiniad o grŵp uwch arweinwyr newydd a fydd yn cyfrif am lai nag 1% o'r holl weithlu. Caiff y strwythur newydd hwn ei ddiffinio a'i gadarnhau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Ar hyn o bryd mae cymhareb uwch reolwyr i gyfanswm y boblogaeth yn 1.6% ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu ag 1.7% ar 31 Mawrth 2016.

Ni fu unrhyw newidiadau o bwys i'n dull o reoli cyflogau uwch aelodau o staff yn ystod y flwyddyn, ac mae'n werth nodi ein bod yn parhau i weithredu gostyngiad sylweddol o'n cyflogau lefel uwch i'r farchnad, er ein bod yn gweithredu mewn marchnadoedd masnachol mwyfwy cystadleuol am y dalent orau a disgleiriaf.

Fel rhan o'r gwaith o ad-drefnu'r Gorfforaeth, gwnaed nifer o newidiadau i'r Bwrdd Gweithredol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o ran strwythur ac aelodaeth. Ymunodd Mark Linsey â'r Bwrdd ym mis Ebrill 2016 fel Cyfarwyddwr BBC Studios. Yna, ym mis Gorffennaf 2016, newidiodd Anne Bulford ei rôl, wrth iddi gael ei phenodi'n Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, a phenodwyd Charlotte Moore i'r Bwrdd fel Cyfarwyddwr Cynnwys. Ym mis Awst, ymunodd Syr Nicholas Serota â'r Bwrdd fel cyfarwyddwr anweithredol ac, ym mis Hydref 2016, cyhoeddwyd y byddai is-adran newydd, sef Radio ac Addysg, yn cael ei chreu. Gan fod James Purnell wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr Radio ac Addysg ar 31 Hydref, arhosodd ar y Bwrdd, gyda Helen Boaden yn gadael, ar ôl ymddiswyddo fel Cyfarwyddwr Radio.

## Polisi cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol

### Pwyllgorau Cydnabyddiaeth: cyfansoddiad a gweithrediad

Mae Ymddiriedolaeth y BBC, hyd at 31 Mawrth 2017, wedi bod yn gyfrifol am bennu'r strategaeth cydnabyddiaeth i'r Bwrdd Gweithredol ynghyd â phob agwedd ar gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r cyfarwyddwyr anweithredol.

Bu Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer pob un o aelodau gweithredol y Bwrdd Gweithredol, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Roedd ei aelodau yn gyfarwyddwyr anweithredol: Y Fonesig Fiona Reynolds (Cadeirydd), Alice Perkins a Dharmash Mistry.

Gan gydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol 2012 y DU, mae'r Pwyllgor wedi cael cyngor arbenigol gan gynghorwyr proffesiynol allanol ar rai materion, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag arfer y farchnad. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cyngor annibynnol gan Willis Towers Watson ar faterion yn ymwneud â chymharu cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn y farchnad.

Sefydlwyd Pwyllgor Cydnabyddiaeth yr Uwch Reolwyr gan y Pwyllgor ym mis Medi 2012, gan ei wneud yn gyfrifol am gysoni anghenion gweithredol y BBC â'r fframwaith strategol a bennwyd gan yr Ymddiriedolaeth ac a weithredwyd gan y Pwyllgor.

### Aelodaeth a strwythur y Bwrdd Gweithredol

Ar 31 Mawrth 2017, roedd y Bwrdd Gweithredol yn cynnwys chwe chyfarwyddwr gweithredol a oedd wedi'u cyflogi yn y gwasanaeth cyhoeddus; Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide a gyflogir gan BBC Worldwide; a chwe chyfarwyddwr anweithredol. Ceir manylion aelodaeth a chydabyddiaeth lawn y Bwrdd Gweithredol ar dudalen 71.

### Elfennau cyflog cyfarwyddwyr gweithredol

Mae'r BBC yn ymrwymedig i bennu cyflog priodol i gyfarwyddwyr gweithredol sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r bobl orau i arwain y BBC a sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded. Dylai strategaeth cyflog cyfarwyddwyr gweithredol y BBC fod yn deg, yn dryloyw ac yn gyson yn gyffredinol â'r ffordd yr ymdrinnir â chyflogau pob cyflogai yn y BBC. Parheir i wneud cynnydd tuag at y nodau hyn, gan gynnwys lleihau fesul cam y gwahaniaethau hanesyddol yn y ffordd yr ymdrinnir â chyflog a buddiannau rhwng uwch aelodau o staff ac aelodau eraill o staff.



Mae'r BBC yn cael adborth rheolaidd ynglŷn â chyflog uwch aelodau o staff gan gyflogeion yn ystod cyd-drafodaethau cyflog blynyddol drwy'r undebau llafur a thrwy'r arolwg blynyddol o ymgysylltu â staff. Ystyrir yr adborth hwn wrth bennu'r strategaeth cyflog i'r cyfarwyddwyr gweithredol. Wrth adolygu'r cyflog i'r cyfarwyddwyr gweithredol, mae'r Pwyllgor yn ystyried pob elfen o'r pecyn cydnabyddiaeth cyfan wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn:

Elfen	Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth	Y ffordd y mae'n gweithredu	Y cyfle mwyaf
<b>Cyflog sylfaenol</b>	<p>Mae cyflog sylfaenol yn gyson â chanolrif y farchnad ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth uniongyrchol (cyflog, bonws blynyddol a chymhelliant hirdymor blynyddol).</p> <p>Caiff disgownt o 50-80% o gymharu â chyfanswm cydnabyddiaeth uniongyrchol yn y sector masnachol ei gymhwyso at rolau cyfarwyddwyr gweithredol.</p>	<p>Defnyddir tri ffactor i bennu lefel y cyflog sylfaenol a roddir i gyfarwyddwr gweithredol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>– a fyddai'r gyfradd yn gyson â'r gyfradd wedi'i phennu'n is yn y farchnad ar gyfer y swydd?</li> <li>– a yw perfformiad personol y Cyfarwyddwr Gweithredol yn cyfiawnhau lefel y cyflog sylfaenol?</li> <li>– a yw'r lefel yn fforddiadwy i'r BBC ac a dybir nad yw'n ormodol?</li> </ul>	Ni phennir unrhyw uchafswm cyflog nac uchafswm cynnydd.
<b>Tâl amrywiadwy</b>	Mae gan gyfarwyddwyr gweithredol a gyflogir gan fusnesau masnachol y BBC hawl gytundebol i gael taliad bonws blynyddol ar sail perfformiad a ariennir gan y busnes masnachol ac nid ffi'r drwydded. Mae'n cynnig gwobr am gyflawni nodau strategol byrdymor a thwf mewn elw.	<p>Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol yn y Gwasanaeth Cyhoeddus yr hawl i gael taliad bonws ar sail perfformiad mwyach.</p> <p>Mae taliadau bonws cytundebol ymysg busnesau masnachol y BBC yn amodol ar gyflawni prif elw cyffredinol a tharged arian parod i'r busnes.</p>	<p>Nid oes unrhyw gyfarwyddwr gweithredol yn y gwasanaeth cyhoeddus wedi cael taliad bonws ers 2008.</p> <p>Yr uchafswm bonws sy'n daladwy i gyfarwyddwr gweithredol a gyflogir yn un o fusnesau masnachol y BBC yw 70% o'i gyflog lle mae'r bonws targed yn 50% o'i gyflog.</p>
<b>Buddiannau</b>	<p>Cynigir pensiynau yn unol â threfniadau pensiwn pob cyflogai.</p> <p>Yn ogystal â phensiynau, y prif fuddiannau cytundebol eraill yw aswiriad bywyd.</p>	<p>Gall cyfarwyddwyr ddewis ymuno â'r cynllun cyfraniadau diffiniedig, LifePlan.</p> <p>Mae cynllun buddiannau diffiniedig y BBC wedi'i gau i staff newydd sy'n ymuno.</p>	<p>Mae'r polisi cyfredol yn darparu cynllun cyfraniadau diffiniedig heb gap cyflog, ac uchafswm cyfraniad o 10% o gyflog gan y cyflogwr.</p> <p>Mae aelodau presennol o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yn destun cap ar lefel yr uchafswm cyflog ar gyfer eu cynllun pensiwn neu'n destun cap mewn twf mewn cyflog pensynadwy.</p> <p>Darperir aswiriad bywyd yn achos marwolaeth mewn swydd o ddwywaith eu cyflog sylfaenol i gyfarwyddwyr gweithredol. Darperir aswiriad bywyd yn achos marwolaeth mewn swydd o bedair gwaith eu cyflog sylfaenol lle maent yn aelodau o Gynllun Pensiwn y BBC neu LifePlan (cynllun cyfraniadau diffiniedig y BBC).</p> <p>Yr uchafswm budd lwfans car a gaiff unrhyw gyfarwyddwr gweithredol yw £12,900 y flwyddyn. Mae hwn yn fudd hanesyddol i gyfarwyddwyr Gwasanaeth Cyhoeddus.</p>
	Ym mis Ebrill 2012, dilëwyd budd y lwfans car i bob cyfarwyddwr gweithredol newydd gan y BBC er mwyn sicrhau bod y polisi yn y dyfodol yn gyson â threfniadau i holl gyflogeion y BBC.	<p>Mae'r cyfarwyddwyr gweithredol a oedd eisoes yn cael lwfans car wedi'i gadw.</p> <p>Helen Boaden oedd yr unig gyfarwyddwr gweithredol a gafodd daliad lwfans car yn 2016/17. Cafodd y lwfans car ei rewi wrth ei dyrchafu i'r Bwrdd Gweithredol.</p> <p>Mae gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol hawl i gael car â gyrrwr o dan drefniadau blaenorol ond nid oes ganddo hawl i lwfans car personol na lwfans tanwydd.</p> <p>Yn ystod 2016/17, bu car â gyrrwr ar gael i'w rannu rhwng yr holl gyfarwyddwyr gweithredol eraill.</p>	

Elfen	Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth	Y ffordd y mae'n gweithredu	Y cyfle mwyaf
	Ym mis Ebrill 2011, dilëwyd budd gofal iechyd preifat i bob cyfarwyddwr gweithredol newydd gan y BBC er mwyn sicrhau bod y polisi yn y dyfodol yn gyson â threfniadau i holl gyflogeion y BBC.	Mae'r cyfarwyddwyr gweithredol a oedd eisoes â hawl i gael yswiriant meddygol preifat wedi'i gadw.  Y cyfarwyddwyr gweithredol a ddewisodd gael yswiriant meddygol preifat a ariennir yn 2016/17 oedd: Helen Boaden, Charlotte Moore, Mark Linsey a Tim Davie.	Yr uchafswm yswiriant a gynigir yw yswiriant teuluol. Budd hanesyddol ydyw.
<b>Contractau cyflogaeth a diswyddo</b>	Mae contractau cyflogaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnwys cyfnod rhybudd o chwe mis ar y mwyaf, ond gellir eu terfynu'n gynt am reswm penodol.	Nid oes hawl gytundebol i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol os terfynir contract yn gynnar oni bai ei fod yn cael ei derfynu ar sail diswyddo.	Os caiff swydd cyfarwyddwr gweithredol ei dileu, mae ganddo hawl i gael taliadau sy'n hafal i fis y flwyddyn hyd at uchafswm taliad o £150,000.
<b>Cydnabyddiaeth arall</b>	Nid oes unrhyw hawl i unrhyw gydnabyddiaeth arall, felly ni chafwyd unrhyw daliadau o'r fath yn ystod y flwyddyn.	Fodd bynnag, petai taliadau eraill yn cael eu cynnig byddent drwy eithriad ac ystyrid y risgiau i enw da'r BBC a chytunid ar lefel y taliad gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol fesul achos.	Nid oes unrhyw uchafswm penodedig.

**Pensiwn**

Mae cyfarwyddwyr gweithredol a ymunodd â'r BBC cyn I Rhagfyr 2010 yn gymwys i fod yn rhan o Gynllun Pensiwn y BBC ('y Cynllun'), sy'n darparu buddiannau pensiwn ar sail buddiannau diffiniedig. Mae cyfarwyddwyr gweithredol a ymunodd â'r BBC ar neu ar ôl I Rhagfyr 2010 yn gymwys i ymuno â LifePlan, sef trefniant cyfraniad diffiniedig y BBC. Mae'r BBC yn talu cyfraniadau cyfatebol i LifePlan am gyfraniadau cyflogeion rhwng 4% a 5%. Caiff cyfraniadau cyflogeion rhwng 6% a 7% eu cyfateb ynghyd ag 1% ychwanegol. Mae cyfraniadau cyflogeion o 8% neu fwy yn cael y cyfraniad cyflogwr uchaf o 10%. Nid oes unrhyw uchafswm cyflog pensiynadwy i'r rhai sy'n cyfrannu at LifePlan.

Caiff cyfarwyddwyr gweithredol sy'n penderfynu peidio ag ymuno â LifePlan neu nad ydynt eisoes yn aelod presennol o'r Cynllun, yn amodol ar fodloni'r meini prawf perthnasol, eu cofrestru'n awtomatig â'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol ('NEST'). Mae'r BBC a chyflogeion yn talu 1% o enillion cymwys i NEST ar hyn o bryd. Gall unigolion ddewis eithrio o hyn.

Cynllun	Budd diffiniedig 'hen' fuddiannau	Budd diffiniedig buddiannau 'newydd'	Budd diffiniedig CAB 2006	Budd diffiniedig CAB 2011	Cyfraniad diffiniedig LifePlan	Cyfraniad diffiniedig (trefniant cofrestru awtomatig) Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol ('NEST')
Dyddiad y caewyd	30 Medi 1996	31 Hydref 2006	30 Tachwedd 2010	1 Ionawr 2012	Yn agored i bob cyflogai cymwys	Yn agored i bob cyflogai cymwys
Croniad	60fed cronriad	60fed cronriad	1.67% o gronriad wedi'i addasu yn unol â chwyddiant	1.67% o gronriad wedi'i addasu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr	Bydd y BBC yn cyfrannu uchafswm o 10% o gyflog os bydd cyflogai yn cyfrannu 8% gyda graddfa symud is.	Bydd y BBC yn cyfrannu 1% o enillion cymwys
Cyflog	Pensiynadwy terfynol	Pensiynadwy terfynol	Enillion wedi'u hailbriso cyfartaledd gyrfa	Enillion wedi'u hailbriso cyfartaledd gyrfa		
Oedran pensiynadwy arferol	60	60	65	65	Dd/G	Dd/G
Cap ar enillion	Dyddiad ymuno cyn I Mehefin 1989, heb ei gapio, wedi'i gapio fel arall £150,600	Wedi'i gapio ar £150,600	Wedi'i gapio ar £150,600	Wedi'i gapio ar £144,000	Heb ei gapio	Isafswm enillion £5,824 y.f. Uchafswm enillion £43,000 y.f.
Twf mewn cyflog pensiynadwy cyn i'r cap ar enillion gael ei gymhwyso	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f.	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f.	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f.	Dim cyfyngiad	Dd/G	Dd/G
Cyfraniad cyflogai (% o gyflog pensiynadwy)	7.5%	7.5%	4%	6%	Isafswm cyfraniad y cyflogai yw 4%	1% o enillion cymwys

Caiff trefniadau pensiwn cyfarwyddwyr gweithredol eu hadolygu a'u diwygio mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth neu ddatblygiadau tebyg.

Mae manylion Cynllun Pensiwn y BBC ar gael yn: [bbc.co.uk/mypension/](http://bbc.co.uk/mypension/)

**Sut mae'r polisi cyflog ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol yn y Gwasanaeth Cyhoeddus yn wahanol i'r polisi ar gyfer pob un o gyflogeion eraill y BBC?**

Ni thalwyd bonysau i gyfarwyddwyr gweithredol yn y Gwasanaeth Cyhoeddus ers 2008 ac mae'r BBC yn symud i ffwrdd o'r strwythur buddiannau dwy haen blaenorol drwy roi'r gorau i gynnig yswiriant meddygol preifat a lwfansau car yn raddol. Ni chafodd unrhyw gyfarwyddwr gweithredol newydd y buddiannau hyn ers mis Awst 2011. Mae'r newidiadau hyn wedi symleiddio trefniadau cyflog ymysg cyflogeion ac wedi'u gwneud yn gyfartal. Gall pob aelod o staff ar bob lefel o'r sefydliad brynu ystod lawn o fuddiannau o dan ein trefniadau buddiannau hyblyg.

Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol nac uwch reolwyr yr hawl i gael yr adolygiad blynyddol o gyflog y cytunwyd arno â Chyd-gyngor Cenedlaethol yr Undebau Llafur ac nid oes ganddynt hawl awtomatig i gael unrhyw fath o godiad blynyddol na thaliad datblygiad. Adolygwyd cyflogau uwch reolwyr ym mis Awst 2016 ac fe'u pennwyd fesul achos, gyda chap o £1,000.

**Y Pwyllgor Enwebiadau**

**Penodiadau i'r Bwrdd**

O dan drefniadau llywodraethu Siarter 2006, roedd angen Pwyllgor Enwebiadau i oruchwyllo'r broses o gynnig aelodau o'r Bwrdd. Gwnaed penodiadau gan y Bwrdd Gweithredol, ac mae angen cymeradwyaeth Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer penodi aelodau anweithredol. Roedd aelodaeth o'r Pwyllgor Enwebiadau yn ddiabyddol ar p'un a oedd yn delio â phenodiadau aelodau gweithredol neu anweithredol.

Penodwyd Charlotte Moore, Cyfarwyddwr Cynnwys, i'r hen Fwrdd Gweithredol, a hynny o 13 Gorffennaf 2016. Daeth Mark Linsey yn Gyfarwyddwr Studios ar 26 Ebrill 2016, ac yn aelod o'r hen Fwrdd Gweithredol ar yr un dyddiad. Ar ôl cymeradwyaeth Ymddiriedolaeth y BBC, penododd y Pwyllgor Enwebiadau Nicholas Serota yn gyfarwyddwr anweithredol newydd o'r Bwrdd Gweithredol o 1 Awst 2016 hefyd.

O dan Siarter 2016, mae Pwyllgor Enwebiadau'r Bwrdd yn gyfrifol am benodi cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol i'r Bwrdd, ac eithrio'r Cadeirydd ac aelodau'r gwledydd. Penodwyd y Bwrdd presennol o dan drefniadau trosiannol penodiadau fel y'u nodir yn y Siarter.

**Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol a'i Bwyllgorau**

	Bwrdd Gweithredol	Y Pwyllgor Archwilio		Y Pwyllgor Masnachu Teg		Y Pwyllgor Enwebiadau	Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth	
	Cyffredin	Aelod	Yn bresennol	Aelod	Yn bresennol	Aelod	Aelod	Yn bresennol
Nifer y cyfarfodydd ar gyfer y cyfnod	12	6		4		4	8	
<b>Cyfarwyddwyr gweithredol</b>								
Tony Hall	12		6			4		8
Helen Boaden	6/7							
Anne Bulford	12		6		4	4		7/7*
Tim Davie	10							
James Harding	12							
Mark Linsey	11							
Charlotte Moore	8/9							
James Purnell	10							
<b>Cyfarwyddwyr anweithredol</b>								
Simon Burke	11	6						
Y Fonesig Fiona Reynolds	12	6		4		4	8	
Howard Stringer	9			4		4		
Alice Perkins	11			4			7	
Nicholas Serota	7/8							
Dharmash Mistry	11	6					8	

\* Ni chafodd Anne Bulford ei gwahodd i unrhyw gyfarfod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth am ei fod yn ymwneud â'i sefyllfa hi ei hun

Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys busnes a gynhaliwyd all-lein na chyfarfodydd diweddarau lle na chafodd unrhyw fusnes ffurfiol ei ystyried



# Cydnabyddiaeth y Bwrdd

## Cydnabyddiaeth flynyddol Bwrdd Gweithredol y BBC

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion llawn y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau'r Bwrdd Gweithredol a chyfanswm cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr ar gyfer 2016/17 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

### Cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol ac Ymddiriedolwyr Manylion y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Dyddiad y'i penodwyd i'r Bwrdd		Cyflwg sylfaenol	Buddiannau	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn	Cysylltiedig â pherfformiad	Cyfanswm
<b>Cyfarwyddwyr gweithredol</b>							
Tony Hall	02/04/2013	<b>2016/17</b> 2015/16	<b>£450</b> £450	<b>£17</b> £15	<b>£0</b> £0	<b>£0</b> £0	<b>£467</b> £465
Anne Bulford	21/06/2013	<b>2016/17</b> 2015/16	<b>£424</b> £395	<b>£0</b> £0	<b>£0</b> £0	<b>£0</b> £0	<b>£424</b> £395
Tim Davie	01/11/2012	<b>2016/17</b> 2015/16	<b>£400</b> £400	<b>£2</b> £2	<b>£40</b> £38	<b>£223</b> £224	<b>£665</b> £664
James Harding	12/08/2013	<b>2016/17</b> 2015/16	<b>£340</b> £340	<b>£0</b> £0	<b>£34</b> £34	<b>£0</b> £0	<b>£374</b> £374
Mark Linsey	26/04/2016	<b>2016/17</b> 2015/16	<b>£316</b> dd/g	<b>£2</b> £0	<b>£41</b> £0	<b>£0</b> £0	<b>£359</b> £0
Charlotte Moore	06/07/2016	<b>2016/17</b> 2015/16	<b>£233</b> dd/g	<b>£2</b> £0	<b>£31</b> £0	<b>£0</b> £0	<b>£266</b> £0
James Purnell	19/03/2013	<b>2016/17</b> 2015/16	<b>£295</b> £295	<b>£0</b> £0	<b>£30</b> £30	<b>£0</b> £0	<b>£325</b> £325
<b>Cyfanswm cyfarwyddwyr gweithredol</b>		<b>2016/17</b> 2015/16	<b>£2,458</b> £1,880	<b>£23</b> £17	<b>£176</b> £102	<b>£223</b> £224	<b>£2,880</b> £2,223
<b>Cyn-gyfarwyddwyr gweithredol a oedd yn aelodau o'r Bwrdd</b>							
Helen Boaden	15/04/2013	<b>2016/17</b> 2015/16	<b>£198</b> £340	<b>£9</b> £15	<b>£0</b> £40	<b>£0</b> £0	<b>£207</b> £395
<b>Cyfanswm cyn-gyfarwyddwyr gweithredol</b>		<b>2016/17</b> 2015/16*	<b>£198</b> £658	<b>£9</b> £25	<b>£0</b> £77	<b>£0</b> £0	<b>£207</b> £760
<b>Cyfanswm y Bwrdd Gweithredol</b>		<b>2016/17</b> 2015/16	<b>£2,656</b> £2,538	<b>£32</b> £42	<b>£176</b> £179	<b>£223</b> £224	<b>£3,087</b> £2,983
<b>Cyfarwyddwyr anweithredol (2016/17)</b>							
Simon Burke	01/01/2011		£37	£0	£0	£0	£37
Dharmash Mistry	01/09/2014		£33	£0	£0	£0	£33
Alice Perkins	01/04/2014		£33	£0	£0	£0	£33
Y Fonesig Fiona Reynolds	01/01/2012		£47	£0	£0	£0	£47
Nicholas Serota	01/08/2016		£22	£0	£0	£0	£22
Syr Howard Stringer	01/01/2014		£33	£0	£0	£0	£33
<b>Cyfanswm cyfarwyddwyr anweithredol</b>			<b>£205</b>	<b>£0</b>	<b>£0</b>	<b>£0</b>	<b>£205</b>

\* Mae'r cyfanswmiau ar gyfer cyn-gyfarwyddwyr gweithredol 2015/16 yn cynnwys y rhai a adawodd yn ystod y flwyddyn nad ydynt yn bresennol yn yr adroddiad hwn  
Gwneir cyfraniadau pensiwn cyflogion fel arfer drwy drefniant aberthu cyflog fel cyfraniad y cyflogwr, gyda gostyngiad cyfatebol mewn cyflog. Nid yw cyflogau sylfaenol cyfarwyddwyr gweithredol wedi'u haddasu i adlewyrchu effaith y cyflog a aberthir er mwyn ei gwneud yn bosibl i gymharu â blynyddoedd blaenorol cyn i'r trefniant aberthu cyflog gael ei gyflwyno  
Buddiannau trethadwy: lwfans car, yswiriant meddygol preifat a threuliau trethadwy eraill  
Yn gyffredinol, cyfrifir y ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn fel 20 gwaith y cynnydd yn y pensiwn cronwed dros y flwyddyn yn glir o chwyddiant, llai cyfraniadau buddiannau diffiniedig y cyfarwyddwyr, ynghyd â chyfraniadau diffiniedig y cyflogwr. Dangosir hyn yn fanwl hefyd yn y tabl hawliadau posibl pensiwn buddiannau diffiniedig ar dudalen 72  
Ariennir swydd Tim Davie fel Prif Swyddog Gweithredol BBC WorldWide yn llwyr gan weithrediadau masnachol y BBC ac nid yw ffi'r drwydded yn talu amdani nac yn ei chymorthdalu. Mae gan Tim Davie hawl gytundebol i fonws, a ariennir yn llwyr gan weithrediadau masnachol y BBC. Telir y bonws yn amodol ar gyflawni prif elw ac arian parod cyffredinol i'r busnes hwnnw. Roedd y gydnabyddiaeth ar sail perfformiad i Tim Davie yn ymwneud â symiau a enillwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017  
Penodwyd Charlotte Moore a Mark Linsey i'r Bwrdd Gweithredol yn ystod 2016/17, ac o ganlyniad mae eu henillion ar sail pro rata am y flwyddyn yr oeddent yn aelod o'r Bwrdd ac ni chynhwysir enillion ar gyfer 2015/16 yn nhabl cydnabyddiaeth y Bwrdd

Cyfanswm cydnabyddiaeth	2016/17	2015/16
<b>Cyfarwyddwyr gweithredol</b>	<b>£3,087</b>	£2,983
Cyfarwyddwyr anweithredol	£205	£208
<b>Cyfanswm y Bwrdd Gweithredol</b>	<b>£3,292</b>	£3,191
Cyfanswm yr Ymddiriedolwyr	£535	£534
<b>Cyfanswm cydnabyddiaeth flynyddol</b>	<b>£3,827</b>	£3,725

**Darpar-gadeirydd**

Penodwyd Syr David Clementi yn Ddarpar-Gadeirydd y BBC ar 16 Chwefror 2017 i gyflawni'r gwaith o drosi i'r trefniadau llywodraethu newydd a amlinellir yn Siarter y BBC. Caiff ffioedd y Cadeirydd ac aelodau newydd y Bwrdd eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon; ffioedd y Cadeirydd yw £100,000 y.f. Yn ystod 2016/17 talwyd £12,202 i Syr David Clementi. Daeth y trefniadau llywodraethu newydd i rym ym mis Ebrill 2017 ac, fel y cyfryw, caiff ei enillion eu hadlewyrchu yn nhablau taliadau cronol cyfarwyddwyr mewn blynyddoedd i ddod.

**Hawliadau posibl pensiwn buddiannau diffiniedig**

	Oedran ar 31 Mawrth 2017	Adran	Pensiwn a gronnydd ar 31 Mawrth 2017 (neu ymddeol/gadael y Bwrdd os yn gynharach)	Pensiynau a gronnydd ar 31 Mawrth 2016 (neu ymuno â'r Bwrdd os wedi hynny)	BD Cyfarwyddwr (drwy drefniant aberthu cyflog) 2016/17	Ffigur unigol sy'n gysylltiedig â phensiwn
Mark Linsey	56	CAB 2006	£24	£22	£5	£41
Charlotte Moore	48	Buddiannau newydd	£25	£24	£8	£31
Tim Davie	49	CAB 2011	£12	£10	£9	£40

- 1 Ymunodd Mark Linsey â'r BBC ar 1 Mai 2007. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn ei benodi'n gyfarwyddwr
- 2 Ymunodd Charlotte Moore â'r BBC ar 1 Mai 2006. Mae'r pensiwn a ddangosir yn cynnwys ffigurau cyn ei bod yn gyfarwyddwr
- 3 Mae Tim Davie yn aelod gweithredol o adran CAB 2011 o fis Ionawr 2012 ac mae'n cadw buddiannau gohiriedig yn yr adran buddiannau newydd ar gyfer ei wasanaeth hyd at y dyddiad hwnnw. Mae'r pensiwn cronedig a ddangosir yn ymwneud â CAB 2011 yn unig

**Cyflog cymharol drwy'r BBC cyfan: sut mae cyflog cyfarwyddwyr gweithredol yn cymharu â chyflog cyflogaion eraill y BBC?**

Yn 2011, cytunodd y BBC o'i wirfodd i nodi lluosrif yr enillion uchaf o'i gymharu â'r enillion canolrifol fel y cynigiwyd yn adroddiad Hutton 'Fair Pay in the Public Sector'. Ers 2011, mae'r BBC wedi cyhoeddi'r ffigurau hyn yn flynyddol.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol o'u cymharu ag enillion canolrifol staff y BBC ac enillion cyfarwyddwyr gweithredol o'u cymharu â ffigurau enillion canolrifol ers 2011. Mae lluosrif y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi lleihau ychydig i 10.2 (yn amodol ar archwiliad).

	2017	2016	2015	2014	2013	2012	2011
Enillion CC	<b>10.2</b>	10.4	10.7	10.9	11.0	16.5	16.8
Enillion canolrifol y cyfarwyddwyr gweithredol	<b>7.7</b>	8.2	8.2	8.2	8.1	8.7	8.9

Mae'r cyfrifiad o enillion yn cynnwys: cyflog sylfaenol, bonws, lwfansau sy'n parhau, goramser a lwfansau eraill nad ydynt yn parhau. Cyfrifir ffigurau enillion canolrifol drwy ddefnyddio cyflogau blynyddol y Cyfarwyddwr Cyffredinol a holl aelodau'r Bwrdd Gweithredol

Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide yr ariennir ei swydd yn llwyr gan weithrediadau masnachol y BBC

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r newidiadau i enillion arian parod y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer 2016/17 o gymharu â'r newid yn enillion canolrifol y BBC cyfan dros yr un cyfnod. Mae hyn yn dangos cynnydd cadarnhaol mewn enillion canolrifol drwy'r BBC cyfan, ond yn dangos hefyd na fu unrhyw newid yn enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol.

	2016/17	Newid ers 2015/16
Enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol	<b>450</b>	0%
Enillion canolrifol drwy'r BBC cyfan	<b>44</b>	2%

\* Gan fod y data yn ymwneud â Darledu Gwasanaeth Cyhoeddus, nid yw Tim Davie, Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide wedi'i gynnwys

### Taliadau diswyddo

Ni thalwyd unrhyw daliadau diswyddo i gyfarwyddwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017.

### Buddiannau allanol

Drwy gytundeb ymlaen llaw gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, gall aelodau gweithredol y Bwrdd Gweithredol ddal swyddi cyfarwyddwyr allanol â chydabyddiaeth. Dylai prif ddiben swydd cyfarwyddwr allanol ymwneud â chefnogi datblygiad personol a datblygiad gyrfa a thrwy hynny gyfrannu at y BBC. Gall yr unigolyn gadw cydnabyddiaeth sy'n deillio o swyddi cyfarwyddwyr allanol. Gall cyfarwyddwyr gweithredol hefyd ddal swyddi na thelir cydnabyddiaeth mewn perthynas â hwy y tu allan i'r BBC. Ni chaniateir mwy nag un neu ddau ddiwrnod y mis i gyflawni'r holl ddyletswyddau allanol.

Yn ystod y flwyddyn, roedd gan un cyfarwyddwr gweithredol swydd cyfarwyddwr allanol arall â chydabyddiaeth, lle ildwyd ffioedd. Mae cofrestr buddiannau'r Bwrdd Gweithredol ar gael ar-lein: [bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/managementstructure/biographies/](http://bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/managementstructure/biographies/).

### Busnesau masnachol y BBC

Yn ystod 2016/17, roedd gan y BBC staff a gyflogwyd gan dri is-gwmni masnachol:

- BBC Worldwide
- BBC Studioworks
- BBC Global News Ltd

Mae polisi cydnabyddiaeth yr is-gwmnïau yn cynnwys darparu bonws blynyddol cytundebol sydd ar gael i staff cymwys, gan gynnwys cyfarwyddwyr, ac mae'n amrywio rhwng endidau masnachol. Caiff cost lawn cyflog sylfaenol a'r bonws blynyddol eu hunanariannu gan refferniw masnachol pob is-gwmni ac ni chânt eu cymorthdalw drwy ffi'r drwydded.



# Adroddiad y Pwyllgor Archwilio

Ym mlwyddyn olaf Siarter a Chytundeb blaenorol y BBC, parhaodd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol i oruchwylio systemau adrodd ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg y BBC.

Ar yr un pryd, ceisiodd, i'r graddau y bo'n bosibl, gefnogi'r BBC wrth iddo drosi i drefniadau llywodraethu newydd, tra hefyd yn ystyried y ffyrdd yr oedd risgiau amlycaf y BBC yn newid ac yn datblygu, o ystyried y technolegau newydd oedd yn dod i'r amlwg.

Parhaodd y Pwyllgor i fanteisio ar grŵp sefydledig a phrofiadol o gyfarwyddwyr anweithredol, a gefnogwyd gan ysgrifenyddiaeth effeithiol. Sicrhaodd hyn fod agendâu, papurau a thrafodaethau o'r radd flaenaf ac yn canolbwyntio ar y materion oedd fwyaf perthnasol i anghenion y BBC a dibenion y Pwyllgor.

Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith yn ystod y flwyddyn, gydag aelodau perthnasol o dîm uwch reolwyr y BBC yn bresennol. Cyfarfu'n breifat â'r archwilwyr allanol bob tro ac adolygwyd eu heffeithiolrwydd.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Pwyllgor y canlynol: adolygu canfyddiadau a chamau gweithredu yn deillio o weithgarwch archwilio mewnol ac allanol; goruchwylio rheolaeth a statws risgiau allweddol y BBC; ac adolygu a chymeradwyo'r Adroddiad

Blynyddol a Chyfrifon. Rhoddwyd crynodebau o weithgareddau'r Pwyllgor i'r prif Fwrdd Gweithredol ac uwchgyfeiriwyd materion i'w datrys lle bo'n briodol.

Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor adolygiadau ffurfiol o rai meysydd risg neu feysydd arwyddocaol penodol, a herio rheolwyr yn eu cylch. Roedd y rhain yn cynnwys:

- risgiau a chyfleoedd y BBC o fewn y dirwedd dechnoleg newidiol, gan gynnwys camau lliniaru yn ymwneud â diogelu data a seiber-ddiogelwch
- datblygiad a gweithrediad strategaeth rheoli treth y BBC
- hynt a buddiannau prosiectau mawr a gweithgarwch newid
- risgiau masnachu a gweithredol BBC Worldwide

Hefyd, adolygodd y Pwyllgor y trefniadau i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ddod yn archwilwyr allanol y BBC, yn lle EY, ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, yn ogystal â darparu mewnbwn a goruchwyliaeth mewn perthynas â thrafodion ariannol allweddol yn ymwneud â phortffolio eiddo'r BBC.

Yn ystod ei holl weithgareddau parhaodd y Pwyllgor i roi sylw i flaenoriaethau cynulleidfaoedd a gwerth am arian.

Ni nodwyd unrhyw faterion fel rhan o adolygiad perfformiad blynyddol y Pwyllgor a dangosodd y Pwyllgor ddealltwriaeth glir ac wedi'i datblygu o'r prif risgiau a heriau sy'n wynebu'r BBC. Yn gyffredinol, bydd yr adroddiad hwn yn dangos bod y Pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

Nawr, wrth i'r Siarter newydd ddechrau ac wrth i drefniadau llywodraethu newydd y BBC gael eu rhoi ar waith, edrychaf ymlaen at gadeirio'r Pwyllgor Archwilio a Risg a gweithio gyda'r aelodau newydd, Ashley Steel a Tom llube, er mwyn parhau i gefnogi, cwestiynu a herio'r BBC wrth iddo ymdrin â'r prif risgiau a heriau dros y blynyddoedd i ddod.

**Simon Burke**  
22 Mehefin 2017

**Adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol**

Cafodd adroddiad archwilio 2016/17 ei baratoi gan Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol a fodolai o dan drefniadau llywodraethu blaenorol y BBC. Mae'r adroddiad wedi cael ei drafod gan y Pwyllgor Archwilio a Risg newydd a'i gymeradwyo ar ran y BBC gan Fwrdd newydd y BBC.

**Rôl**

Prif ddiben Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol ('PAG'), fel y'i sefydlwyd o dan Siarter a Chytundeb 2006, oedd adolygu a goruchwyllo trefniadau llywodraethu corfforaethol y BBC, yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Er mwyn cael y sicrwydd hwn, mae PAG yn gyfrifol am y canlynol:

- monitro ac adolygu uniondeb datganiadau ariannol y BBC a'r barnau adrodd arwyddocaol a geir ynddynt
- adolygu effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y BBC
- adolygu'r broses o nodi a rheoli risgiau strategol a gweithredol allweddol i'r BBC a chyflwyno adroddiadau arnynt
- adolygu'r prosesau sicrwydd sydd ar waith er mwyn profi a monitro'r ffordd y gweithredir rheolaethau a gynlluniwyd i reoli risgiau allweddol
- monitro ac adolygu effeithiolrwydd ac adnoddau'r swyddogaeth archwilio mewnlol
- adolygu perfformiad yr archwilydd allanol, gan gynnwys annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwilydd, cwmpas y gwaith, darparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio a ffioedd
- adolygu systemau'r BBC ar gyfer canfod ac atal twyll, llwgrwobrwyo a gwyngalchu arian

- adolygu trefniadau i staff y cwmni godi pryderon, yn gyfrinachol, ynglŷn ag achosion posibl o amhriodoldeb mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag adrodd ariannol, anghyfreithlondeb neu faterion eraill

Mae Rheolau Sefydlog PAG yn amlinellu cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn fanylach. Cafodd y rhain eu hadolygu yn rheolaidd a chawsant eu diweddarau ddiwethaf ym mis Medi 2016.

**Aelodaeth**

Roedd PAG yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol, yr oedd yn rhaid bod o leiaf un ohonynt yn meddu ar brofiad ariannol diweddar a pherthnasol. Yr aelodau a wasanaethodd yn ystod 2016/17 oedd:

- Simon Burke (Cadeirydd)
- Y Fonesig Fiona Reynolds
- Dharmash Mistry

Mae gan Simon Burke, y Cadeirydd, brofiad ariannol sylweddol, diweddar a pherthnasol. At hynny, roedd pob aelod o'r Pwyllgor yn unigolion sy'n dal neu sydd wedi dal uwch swyddi mewn sefydliadau o faint tebyg ac sy'n meddu ar y profiad a'r sgiliau i gyflawni eu cyfrifoldebau'n briodol. Lle y bo'n briodol, ategwyd sgiliau a phrofiadau aelodau gan gyngor gan weithwyr proffesiynol mewnlol ac allanol - er enghraifft ar faterion megis datblygiadau ym maes adroddiadau ariannol.

Mynychodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Cwnsler Cyfreithiol Cyffredinol y BBC, y Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd, ac uwch gynrychiolwyr archwilio mewnlol, rheoli risg, cyllid a'r archwilydd allanol gyfarfodydd y Pwyllgor hefyd.

Cyfarfu'r Pwyllgor yn rheolaidd ag archwilydd mewnlol ac allanol yn breifat hefyd, heb fod unrhyw reolwyr yn bresennol.

**Cyfarfodydd**

Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith yn ystod 2016/17, ar adegau allweddol yn y calendr adrodd ac archwilio.

Roedd cofnodion o'r cyfarfodydd ar gael i'r Bwrdd Gweithredol ac i Ymddiriedolaeth y BBC. At hynny, adroddai Cadeirydd y Pwyllgor yn ôl i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod ar unrhyw faterion lle'r oedd angen cymryd camau neu wella.

Treuliodd y Pwyllgor amser ar y meysydd canlynol.

**Cywirdeb adroddiadau ariannol**

Adolygodd y Pwyllgor gywirdeb datganiadau ariannol y BBC. Wrth wneud hynny, gwnaeth y canlynol:

- drwy drafodaethau â rheolwyr a'r archwilydd allanol nododd risgiau allweddol o ran camddatganiadau yn natganiadau ariannol y BBC, gan gynnwys y meysydd hynny lle'r oedd angen llunio barn ariannol arwyddocaol ac sydd wedi dylanwadu ar y datganiadau ariannol
- trafodwyd y risgiau hyn gyda'r archwilydd pan adolygwyd a chytunwyd ar gynllun archwilio'r archwilydd allanol
- adolygodd a heriodd bapurau manwl a gyflwynwyd gan reolwyr ar y meysydd hynny lle'r oedd angen llunio barn ariannol arwyddocaol, gan ystyried barn yr archwilydd

Isod nodir y prif feysydd o fam a sut y gwnaeth Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol a, lle bo angen, wrth adolygu'r datganiadau ariannol llawn, y Pwyllgor Archwilio a Risg newydd, fynd i'r afael â hwy.

Maes llunio barn	Ymateb y Pwyllgor
<p><b>Cynllun pensiwn – tybiaethau sy'n effeithio ar y diffyg pensiwn cyfrifyddu</b></p> <p>Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys diffyg sylweddol o £1,141 miliwn ar y fantolen ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig y BBC.</p> <p>Mae'n ofynnol llunio barn ynglŷn â'r tybiaethau sylfaenol a ddefnyddiwyd gan yr actiwariad wrth gyfrifo diffyg y pensiwn. Gall newidiadau yn y tybiaethau hyn arwain at newid mawr yn y ffigurau terfynol a ddatgelir.</p>	<p>Cafodd y Pwyllgor gyngor gan actiwariad annibynnol ynglŷn â phriodoldeb y tybiaethau a ddefnyddiwyd, gan gynnwys sut mae'r rhain yn cymharu â'r rhai a ddefnyddir gan sefydliadau eraill. Canolbwyntiodd gwaith craffu yn benodol ar y tybiaethau a ddefnyddiwyd o ran cyfraddau disgowntio, cyfraddau chwyddiant a disgwyliad marwolaethau/oes a sut y byddai newidiadau yn y tybiaethau hyn yn effeithio ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys unrhyw symudiadau yn y rhain o gymharu â blynyddoedd blaenorol.</p> <p>Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn y datganiadau ariannol yn rhesymol, yn briodol i'r BBC ac yn cael eu cefnogi gan arbenigwyr actiwariad annibynnol.</p>

Maes llunio barn	Ymateb y Pwyllgor
<p><b>Eiddo – triniaeth gyfrifyddu adeiladau'r BBC ac ailgyllido'r Ganolfan Ddarlledu Newydd</b></p> <p>Mae'r BBC yn dal portffolio eiddo sylweddol, sy'n parhau i gael ei resymoli er mwyn lleihau costau. Mae'r ystad yn cynnwys eiddo rhydd-ddaliadol yn ogystal ag eiddo a ddelir o dan brydlesau cyllid a phrydlesau gweithredu. Mae adeiladau sydd wedi cael eu his-osod neu sydd ar gael i'w his-osod wedi'u dosbarthu'n eiddo buddsoddi. Mae barn yn ymwneud â'r bwriadau ar gyfer unrhyw adeiladau gwag yn y dyfodol a therfynau amser cysylltiedig. Gall hyn newid y driniaeth gyfrifyddu briodol ac effeithio ar werth cario'r eiddo ar y fantolen. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y tybiaethau a ddefnyddiwyd i gyfrifo asedau a rhwymedigaethau prydles gyllidol eu diweddarau er mwyn bodloni IFRS.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn ailgyllidwyd strwythur prydlesu'r Ganolfan Ddarlledu Newydd, gan gynnwys ailgaffael y rhydd-ddaliad sylfaenol gan y BBC. Drwy'r trafodyn, llwyddodd y BBC i ddileu anwadalrwydd chwyddiant a chyflawni budd llif arian parod tan 2033. Gofynnodd y trafodyn am gyfres o gofnodion cyfrifyddu newydd (gan gynnwys cyfrif am yr asedau a rhwymedigaethau deilliannol o'r trafodyn). Gweithredwyd y trafodyn mewn modd a oedd yn cyfyngu ar unrhyw gynnydd yn amlygiad credyd y BBC i'r gwrth-bartïon deilliannol dan sylw.</p>	<p>Adolygodd y Pwyllgor adroddiadau manwl gan reolwyr a esboniodd y driniaeth ar gyfer yr adeiladau pwysicaf, gan gynnwys y terfynau amser a ragwelir ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol a'r rhesymeg dros y driniaeth.</p> <p>Ystyriodd hefyd farn yr archwilwyr ar y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer yr adeiladau hyn.</p> <p>O ran trafodyn ailgyllido'r Ganolfan Ddarlledu Newydd, gofynnodd y Pwyllgor am friffiad penodol ar y trefniadau a chafodd waith papur manwl ar strwythur, rhesymeg a thriniaeth gyfrifyddu'r cytundeb. Parhawyd i fonitro triniaeth fanwl y trafodyn drwy gydol y flwyddyn gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn gweithredu fel aelod o'r Is-Bwyllgor a ddirprwyodd awdurdod i adolygu telerau'r trafodyn a'i gymeradwyo. Cafodd y trafodyn ei ystyried a'i gymeradwyo gan Ymddiriedolaeth y BBC hefyd.</p> <p>Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y ffordd y caiff yr adeiladau hyn eu trin yn y datganiadau ariannol yn gyson â bwriad rheolwyr ac yn unol â safonau cyfrifyddu a dderbynnir.</p>
<p><b>Prosiectau – cyfalafu/leihad yng ngwerth prosiectau cyfalaf</b></p> <p>Mae'r BBC yn ymgymryd â sawl prosiect cyfalaf ar unrhyw adeg benodol. Os nad oes modd cwblhau prosiect cyfalaf perthnasol ar amser, neu os na fydd y BBC yn cael budd ohono yn y dyfodol, gallai hyn ysgogi tâl lleihad mewn gwerth.</p> <p>Mae angen i benderfyniadau ynghylch a yw'n briodol cyfalafu costau prosiect gael eu gwneud yn unol â'r safonau cyfrifyddu cyfredol.</p>	<p>Adolygwyd adroddiadau gan reolwyr a esboniodd statws prosiectau cyfalaf mawr a'r ffordd yr aseswyd p'un a oedd angen tâl lleihad mewn gwerth ai peidio.</p> <p>Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr asesiadau o leihad mewn gwerth a gynhaliwyd gan y rheolwyr yn briodol ac yn unol â safonau cyfrifyddu a dderbynnir.</p>
<p><b>Cydnabod refeniw</b></p> <p>Mae risg ariannol annatod yn gysylltiedig â chydnabod refeniw sy'n ymwneud ag amseriad cydnabod incwm. Mae natur y risg yn amrywio rhwng incwm ffi'r drwydded yn y gwasanaethau cyhoeddus a'r incwm masnachol. Fodd bynnag, yn y ddau achos mae'r risg sylfaenol oddeutu torbwynt diwedd y flwyddyn.</p>	<p>Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai systemau rheolaeth ariannol presennol y BBC sicrhau y caiff incwm ei drin yn briodol yn y datganiadau ariannol. Hyderir bod rheolwyr yn deall y risgiau yn y maes hwn a bod ganddynt reolaethau addas ar waith.</p>
<p><b>Darpariaethau</b></p> <p>Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys darpariaethau o £37.8 miliwn fel rhan o raglen ailstrwythuro'r BBC. Mae barnau yn y maes hwn yn ymwneud yn bennaf ag amseriad cydnabod y darpariaethau hyn, y swm i'w gydnabod a'r swm a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol.</p> <p>Mae darpariaethau eraill llai arwyddocaol gwerth £33.3 miliwn i gyd yn gofyn am lunio barn ynglŷn â'r tybiaethau a ddefnyddiwyd i fesur amlygiad y BBC i hawliadau gan wahanol bartïon, a pha mor debygol ydyw y bydd yr hawliadau hynny yn llwyddo.</p>	<p>Adolygodd a thrafododd y Pwyllgor lefel y darpariaethau gyda rheolwyr. Roedd hyn yn cynnwys ystyried darpariaethau newydd ac unrhyw ddarpariaethau presennol a gafodd eu rhyddhau a'u defnyddio. Cadarnhaodd y rheolwyr eu bod wedi defnyddio dull cyson o gydnabod a rhyddhau darpariaethau ym mhob rhan o grŵp y BBC. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn fodlon ar lefel y darpariaethau a gariwyd a'r hyn a ddatgelir mewn perthynas â'r darpariaethau hynny.</p>
<p><b>Trwyddedau gwasanaeth – torbwynt costau a dyrannu rhwng trwyddedau gwasanaeth</b></p> <p>Defnyddiwyd trwyddedau gwasanaeth gan Ymddiriedolaeth y BBC er mwyn rheoleiddio gwasanaethau a ariennir gan ffi'r drwydded. Roeddent yn cynnwys cyllideb y cytunwyd arni ac a awdurdodwyd gyda throthwy goddefiant o 10%. Roedd cyllidebau gwasanaeth yn cynnwys costau a ddaw o nifer o wahanol is-adrannau ac felly mae angen llunio barn wrth dyrannu costau uniongyrchol a gorbenion ymysg yr amrywiol wasanaethau.</p>	<p>Adolygodd y Pwyllgor yr alldro yn erbyn cyllidebau trwyddedau gwasanaeth. Cawsom gadarnhad gan reolwyr bod y sail dros dyrannu costau yr un fath ag mewn blynyddoedd blaenorol.</p> <p>Daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn fodlon bod y costau wedi cael eu dosbarthu'n briodol yn ystod y flwyddyn ac mewn ffordd oedd yn gyson â'r flwyddyn flaenorol.</p>

Cadarnhaodd rheolwyr wrth y Pwyllgor nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau perthnasol na chamddatganiadau nad oeddent yn berthnasol a wnaed yn fwriadol er mwyn rhoi darlun penodol. Nododd yr archwilwyr unrhyw gamddatganiadau yr oeddent wedi dod ar eu traws wrth wneud eu gwaith ac nad oedd

unrhyw symiau perthnasol nas addaswyd o hyd. Nododd yr archwilwyr unrhyw gamddatganiadau yr oeddent wedi dod ar eu traws wrth wneud eu gwaith ac ystyriwn fod symiau nas addaswyd o hyd yn amherthnasol.

Ar ddiwedd y flwyddyn, ar ôl adolygu'r cyflwyniadau a'r adroddiadau gan reolwyr

ac ymgynghori â'r archwilwyr allanol lle y bo angen, roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg newydd yn fodlon bod y datganiadau ariannol yn ymdrin yn briodol â'r barnau beirniadol a'r amcangyfrifon allweddol (o ran y symiau a nodwyd a'r datgeliadau). Roedd y Pwyllgor hefyd yn fodlon bod y tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i

bennu gwerth asedau a rhwymedigaethau wedi bod yn destun prosesau craffu a herio priodol, a'u bod yn ddigon cadarn.

Adolygodd y Pwyllgor Archwilio a Risg ddatganiadau ariannol y grŵp a'u lle yn yr Adroddiad Blynyddol ehangach. Er mwyn cynorthwyo'r adolygiad hwn ystyriwyd adroddiadau gan reolwyr a chan yr archwilwyr mewnol ac allanol a gwmpasodd:

- ansawdd a derbynioldeb polisiau cyfrifyddu, gan gynnwys cydymffurfiaeth â safonau cyfrifyddu
- cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rheoleiddio
- eglurder datgeliadau a'u cydymffurfiaeth â gofynion adrodd perthnasol
- a oedd yr Adroddiad Blynyddol yn ei gyfarwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac a yw'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i asesu perfformiad a strategaeth y BBC

**Effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a'r fframwaith rheoli risg**

Sicrwydd rheolaethau mewnol Adolygodd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnol yn ystod 2016/17, gan ystyried canfyddiadau adroddiadau archwilwyr mewnol ac allanol a gweithgarwch arall ynglŷn â sicrwydd, gan ystyried nifer o feysydd penodol yn ystod y flwyddyn:

- y tueddiadau a'r themâu yn deillio o weithgarwch archwilio mewnol, a holwyd cynrychiolwyr archwilio mewnol ynglŷn â chanlyniadau eu gwaith. Cafodd crynodeb o bob archwiliad mewnol, gan gynnwys canfyddiadau allweddol a graddau sicrwydd ei adolygu gan y Pwyllgor
- cafodd camau gweithredu yn deillio o weithgarwch annibynnol ynglŷn â sicrwydd, gan gynnwys gwaith archwilio mewnol ac allanol, adolygiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth y BBC, eu monitro gan y Pwyllgor er mwyn sicrhau y cawsant eu cwblhau. Roedd hwn yn faes y rhoddwyd ystyriaeth ddilynol iddo ym mhob cyfarfod er mwyn sicrhau yr ymdriniwyd yn briodol â'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o ran unrhyw wendidau a nodwyd
- o ran meysydd a ystyrid yn rhai proffil uchel neu a fu'n destun canfyddiadau sicrwydd critigol, sicrhaodd y Pwyllgor fod gwaith dilynol a gwaith craffu addas ynglŷn â chwblhau unrhyw gynlluniau gwella neu gamau gweithredu y cytunwyd arnynt
- adolygodd y Pwyllgor y cynlluniau sicrwydd a'r canfyddiadau ar gyfer gweithgarwch prosiectau mawr a newidiadau yn y BBC, gan gynnwys sicrwydd a roddwyd gan Swyddfa Rheoli Prosiect y BBC, archwilwyr mewnol ac arbenigwyr allanol

- cymeradwyodd y Pwyllgor ddatganiad Caethwasiaeth Fodern y BBC ac adolygodd y dull o sicrhau cydymffurfiaeth
- adolygwyd hefyd adroddiadau twyll a lladrad, gan gynnwys y trefniadau sydd ar waith i atal, lleihau a chanfod achosion o dwyll a llwgrwobrwyo. Nododd y Pwyllgor na chafwyd unrhyw achosion mawr o dwyll yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- cafodd canfyddiadau a hynt camau gweithredu sy'n deillio o archwiliadau o is-gwmnïau masnachol y BBC eu hystyried hefyd. Mynychodd Prif Swyddog Cyllid BBC Worldwide er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am amgylchedd rheolaeth a dulliau rheoli risg BBC Worldwide

**Rheoli risgiau**

Ystyriodd y Pwyllgor y prosesau ar gyfer rheoli risgiau sylweddol yn y BBC. Dylanwadwyd ar y gwaith hwn gan yr asesiad o brif risgiau'r BBC (a nodir ar dudalen 78). Cafodd newidiadau i'r proffil risg eu hadolygu'n rheolaidd ac aseswyd effeithiolrwydd y broses rheoli risg.

Effeithiolrwydd archwilwyr mewnol Cafodd gwaith archwilio mewnol 2016/17 ei oruchwylio gan y Pwyllgor. Roedd hyn yn eitem reolaidd ym mhob cyfarfod a fyny chir gan y Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd. Yn ystod y flwyddyn gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- cymeradwywyd y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan sicrhau ei fod yn seiliedig ar risg ac yn taro cydbwysedd rhwng rhoi sicrwydd ynglŷn â phrosesau busnes craidd a meysydd risg strategol a ddeuai i'r amlwg
- ystyriwyd canfyddiadau archwiliadau, gan ganolbwyntio ar unrhyw archwiliadau â chanlyniadau anfodhaol a chynlluniau rheolwyr i fynd i'r afael â'r rhain
- ystyriwyd gofynion archwilio mewnol o ran adnoddau a gallu

Yn ystod 2015/16, gwnaeth y Pwyllgor adolygu a chymeradwyo cynllun i ailstrwythuro'r swyddogaeth archwilio mewnol o dîm o adnoddau mewnol ar y cyfan i un lle y darperir adnoddau gan ddarparu'r allanol cymeradwy yn bennaf. Cafodd y broses drosi hon ei monitro gan y Pwyllgor yn ystod 2016/17 er mwyn sicrhau cynnydd boddhaol.

Hefyd cyfarfu Cadeirydd y Pwyllgor â'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd cyn pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio, heb fod unrhyw reolwyr yn bresennol, er mwyn cael trafodaeth agored.

Annibyniaeth ac effeithiolrwydd yr archwilwyr allanol

Roedd gan PAG ddyletswydd i ystyried ailbenodi'r archwilydd allanol a chylchdroi Partner Archwilio'r Grŵp o bryd i'w gilydd er

mwyn sicrhau bod y broses archwilio allanol yn parhau i fod yn effeithiol ac yn annibynnol.

Yn 2014 penododd y BBC Ernst & Young LLP ('EY') yn archwilwyr allanol y BBC ar ôl proses dendro ffurfiol. Daeth eu penodiad i ben ddiwedd 2016/17, pan benodwyd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn archwilwyr statudol y BBC, yn unol â mandad y Siarter Frenhinol newydd.

**Y berthynas â'r archwilwyr allanol**

Goruchwyliodd y Pwyllgor y berthynas ag EY, gan gynnwys cwmpas ei waith a'i ddulliau gweithredu, ei ffioedd, ei berfformiad a'i annibyniaeth (gan gynnwys cymeradwyo polisi ar waith nad yw'n waith archwilio a chydymffurfiaeth ag ef). Ymysg y meysydd penodol y canolbwyntiwyd arnynt eleni mae:

- nodi risgiau archwilio a chysoni hyn ag asesiadau risg rheolwyr
- her i'r archwilwyr ynglŷn â sut yr aethant i'r afael â'r risgiau archwilio hyn
- trafodaethau preifat gyda'r archwilwyr heb fod rheolwyr yn bresennol

**Newid archwilwyr allanol**

Ar gyfer blynyddoedd ariannol 2017/18 ymlaen, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fydd archwilwyr allanol y BBC. Cydnabu'r Pwyllgor bwysigrwydd y newid hwn ac adolygodd y cynlluniau trosi gyda'r rheolwyr.

**Gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio**

Fel un o'r mesurau i ddiogelu annibyniaeth yr archwilwyr allanol, aeth y Pwyllgor ati i ddatblygu a goruchwylio polisi'r BBC ar gyfer comisiynu'r archwilwyr i ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio.

Mae'r polisi hwn yn diffinio'r mathau o wasanaethau y gall ac na all yr archwilwyr allanol eu darparu. At hynny, mae'n cynnwys trothwyon lle mae'n rhaid i waith nad yw'n waith archwilio y cynigir y dylai'r archwilwyr allanol ei wneud, gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Pwyllgor. Mae hefyd yn pennu pryd y mae'n rhaid i waith fod yn destun tendr cystadleuol.

Ni chafodd EY ei ystyried ar gyfer gwaith a allai beryglu ei allu i roi barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol y BBC. Roedd yn rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan PAG cyn recriwtio unrhyw un o EY i unrhyw swydd uwch reolwr yn y BBC: ni chafwyd unrhyw benodiadau o'r fath yn ystod y flwyddyn.

Cadarnhaodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon bod yr archwilwyr allanol wedi cyflawni eu cyfrifoldebau gyda diwydrwydd ac amheuaeth broffesiynol.



# Risgiau a chyfleoedd

Mae risgiau a chyfleoedd yn effeithio ar allu'r BBC i gyflawni rhwymedigaethau ei Siarter a'i ddibenion cyhoeddus. Mae angen i'r ffordd rydym yn ymdrin â risg adlewyrchu natur unigryw'r BBC.

## Allwedd i newidiadau risg: Newid yn y risg a ragwelir dros y 12 mis nesaf

- ▲ Risg yn cynyddu
- Dim newid yn y risg
- ▼ Risg yn lleihau

## Dibenion cyhoeddus:

- |          |   |          |   |
|----------|---|----------|---|
| <b>1</b> | Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch | <b>4</b> | Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu'r cymunedau amrywiol yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU a, thrwy wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y DU |
| <b>2</b> | Cefnogi dysgu i bobl o bob oed  | <b>5</b> | Adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd   |
| <b>3</b> | Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau                        |          |   |

Er mwyn cyflawni ein hamcanion mae'n rhaid i ni barhau i gymryd risgiau creadigol. Mae'n rhaid i ni hefyd gymryd ein cyfrifoldebau rheoleiddio a statudol o ddifrif. Yn yr un modd ag y mae cymryd risgiau wrth wraidd y broses o gyflawni ein dibenion, mae

asesiadau risg trylwyr a mesurau lliniaru risg yn sail i'r broses o gyflawni'r hyn a wnawn.

Cyhoeddwyd ein Siarter a'n Cytundeb newydd. Mae'r BBC yn cydnabod heriau o ran anghenion cynulleidfaoedd sy'n datblygu a'r chyfleoedd y mae hyn yn eu cynnig i'r

Gorfforaeth dros yr 11 mlynedd nesaf. Drwy bob rhan o'r Gorfforaeth, mae ystyriaeth ofalus o risgiau a chyfleoedd yn cyfrannu at ansawdd ein rhaglenni a rhagoriaeth y gwasanaeth a ddarparwn, ac felly ein gallu i wasanaethu ein cynulleidfaoedd. Nodir ein prif risgiau a chyfleoedd strategol a gweithredol isod.

## Risgiau a chyfleoedd strategol

Prif risgiau a chyfleoedd	Camau lliniaru allweddol
<p><b>1. Diwallu anghenion cynulleidfaoedd</b> Mae tirwedd y cyfryngau yn newid yn sylweddol, a hefyd arferion a chwaeth ein cynulleidfaoedd. Ein nod yw ail-greu'r BBC ar gyfer cenhedlaeth newydd, neu fel arall wynebwn y risg o fethu â diwallu anghenion ein cynulleidfao, yn enwedig pobl ifanc a grwpiau nad ydynt yn cael gwasanaeth digonol.</p> <p>1 2 3 4 5 ➤</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- ailwerthuso ein strategaeth cynulleidfaoedd yn rheolaidd, wedi'i lywio gan waith monitro parhaus ar berfformiad cynulleidfaoedd a thueddiadau'r farchnad a thueddiadau ymysg cystadleuwyr</li> <li>- cynllun blynyddol ac ailasesu blaenoriaethau yng nghyd-destun cynulleidfaoedd yn barhaus</li> </ul>
<p><b>2. Diogelu cyflenwad o raglenni</b> Mae cadw amrywiaeth eang o gyflenwyr yn bwysig i'r BBC. Mae hyn yn sicrhau y gall y BBC barhau i ddarparu'r amrywiaeth orau o gynnwys Prydeinig i gynulleidfao'r DU am brisiau fforddiadwy. Gallai newidiadau ym marchnad y cyfryngau beryglu hyn.</p> <p>2 3 4 5 ▼</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- nod lansio BBC Studios yw sicrhau cyflenwad o gynnwys o'r ansawdd gorau i gynulleidfaoedd y DU yn yr hirdymor</li> <li>- deialog parhaus â'r gymuned o gynhyrchwyr annibynnol a rhanddeiliaid er mwyn llywio ein strategaeth gyflenwi</li> <li>- asesu dyraniad adnoddau'n barhaus yn ôl dimadaeth cynulleidfaoedd a pherfformiad</li> </ul>
<p><b>3. Denu a chadw talent</b> Mae'r gallu i ddenu, datblygu a chadw'r dalent greadigol orau ym mhob disgyblaeth a chrefft yn effeithio ar ansawdd ein hallbwn a'n cyfraniad i economïau creadigol a digidol.</p> <p>3 ▲</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- ailwerthuso strategaethau cyflogi, ymgysylltu â staff a thalent ar yr awyr yn rheolaidd</li> <li>- meithrin talent lefel mynediad drwy weithgarwch allgymorth</li> </ul>

## Risgiau a chyfleoedd strategol

Prif risgiau a chyfleoedd	Camau lliniaru allweddol
<p><b>4. Gweithredu'r Siarter</b> Mae Siarter a Chytundeb newydd bellach ar waith, sy'n nodi'r trefniadau llywodraethu a rheoleiddio newydd sydd eu hangen.</p> <p>1 2 3 4 5 ▼</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>– mae'r Siarter newydd yn cynnig sefydlogrwydd hirdymor a sylfeini cadarn i'r BBC er mwyn iddo barhau i hysbysu, addysgu a diddanu'r cyhoedd ym Mhrydain</li> <li>– sefydlwyd Bwrdd newydd y BBC</li> <li>– cyflwynwyd Fframwaith Gweithredu gan Ofcom, sy'n cwmpasu prosesau rheoleiddio perfformiad y BBC, ei effaith ar gystadleuaeth a chydymffurfiaeth â safonau cynnwys; mae'n ofynnol i'r BBC gydymffurfio â'r fframwaith hwnnw</li> </ul>
<p><b>5. Newid yn y BBC</b> Mae'r BBC yn nghanol cyfnod o newid gweithredol, sefydliadol a diwylliannol sylweddol. Gallai'r pwysau ar y sefydliad o ganlyniad i hyn effeithio ar ein gallu i ymateb yn gyflym i heriau newydd, neu effeithio ar y ffordd rydym yn cyflawni blaenoriaethau creadigol a strategol.</p> <p>3 &gt;</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>– parhau â'r gwaith i leihau cymhlethdod a chost drwy symrlwydd sefydliadol, gan sicrhau bod gweithgarwch allweddol ac amseriadau yn gyson</li> <li>– Swyddfa Rheoli Prosiectau corfforaethol yn goruchwyllo'r gwaith o gyflawni prosiectau mawr; gan asesu hyder o ran cyflawni</li> <li>– y tîm arweinyddiaeth yn parhau i roi pwyslais ar feithrin diwylliant agored lle mae pawb yn teimlo'n hyderus i godi materion</li> <li>– adolygu cysondeb strategaeth y gweithlu ag amcanion a chyflawni gwerth am arian</li> </ul>
<p><b>6. Cadw enw da'r BBC</b> Gallai brand y BBC gael ei niweidio o ganlyniad i fethiannau rheoli canfyddedig, neu drwy anallu i ymateb yn gyflym, yn rhesymol ac yn gymesur i ddiwyddiadau pwysig.</p> <p>1 4 5 &gt;</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>– monitro canfyddiadau o enw da'r BBC ym mhob cynulleidfâ yn barhaus, gan ymateb yn ôl yr angen</li> <li>– Canllawiau Golygyddol i'w diweddarau yn 2017</li> </ul>
<p><b>7. Cadw safle'r BBC yn y farchnad</b> Gallai brand y BBC gael ei niweidio o ganlyniad i fethiannau rheoli canfyddedig, neu drwy anallu i ymateb yn gyflym, yn rhesymol ac yn gymesur i ddiwyddiadau pwysig.</p> <p>3 4 5 &gt;</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>– nod y cynnig ar gyfer BBC Studios yw cynnal llif o gynnwys o dan berchenogaeth lawn y BBC yn yr hirdymor, ochr yn ochr â datblygu'r llif o gynhyrchwyr annibynnol yn strategol</li> <li>– asesu ein dyraniad adnoddau'n barhaus yn ôl dirnadaeth a pherfformiad cynulleidfaoedd</li> <li>– llwyddiant profedig is-gwmnïau masnachol i greu enillion ariannol cynaliadwy, gan hyrwyddo'r BBC yn llwyddiannus yn fyd-eang, arddangos creadigrwydd ac arloesedd y DU, a meithrin cydberthnasau busnes, golygyddol a chreadigol cadarn</li> <li>– yn agored i ddatblygiadau o fewn y diwydiant a'r sgil-effaith ar strategaeth</li> </ul>

## Risgiau a chyfleoedd gweithredol

Prif risgiau a chyfleoedd	Camau lliniaru allweddol
<p><b>1. Parhad busnes</b> Gallai methiant technegol, rhyngddibyniaethau seilwaith, gweithredoedd trydydd partition (e.e. amharu ar ein gwasanaethau neu eu hatal oherwydd ymosodiad seiber, gweithred neu fethiant cyflenwr) arwain at amharu ar wasanaethau darlledu, gydag effaith ganlyniadol ar gynulleidfaoedd a fydd yn arwain at niweidio enw da'r BBC.</p> <p>&gt;</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>– polisiâu ac arferion parhad busnes cadarn yn gyson â'r safon ryngwladol</li> <li>– monitro risgiau seiber; gan sicrhau ymateb cyflym</li> <li>– cymryd rhan weithredol yn fforymau diogelwch y diwydiant yn y DU ac yn fyd-eang</li> <li>– adolygiadau risg manwl a rheolaidd o wendidau posibl mewn systemau a phrosesau</li> </ul>
<p><b>2. Cydymffurfiaeth olygyddol</b> Gallai methiant i gynnal ein gwerthoedd a'n safonau golygyddol yn ein holl gynnwys effeithio ar ein gallu i gynnal lefelau uchel o ymddiriedaeth ymysg cynulleidfaoedd, niweidio ein brand neu beri i ni gael ein hamlygu i achos cyfreithiol.</p> <p>&gt;</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>– prosesau cydymffurfio golygyddol hirsefydledig ac effeithiol wedi'u hategu gan hyfforddiant priodol</li> <li>– gweithdrefnau cadarn ar gyfer atgyfeirio a monitro rhaglenni risg uchel</li> <li>– Canllawiau Golygyddol a ddisbarthwyd yn eang, y bwriedir eu diweddarau yn 2017</li> <li>– proses ymddiriedd â chwynion</li> </ul>
<p><b>3. Amddiffyn plant</b> Byddai methiant i amddiffyn plant ar safleoedd y BBC neu pan fyddant yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r BBC yn cael effaith ganlyniadol ar yr unigolion, a gallai arwain at niweidio enw da'r BBC a her gyfreithiol i'r BBC.</p> <p>▼</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>– canlyniad cadarnhaol o archwiliad annibynnol o bolisiâu a phrosesau'r BBC</li> <li>– cyhoeddi'r ymateb terfynol i adroddiad y Fonesig Janet Smith</li> <li>– dilyn arferion recriwtio cadarn; y gofyniad i gael gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd/Amddiffyn Grwpiau sy'n Agored i Niwed ynghyd â hyfforddiant gorfodol ar Amddiffyn Plant a Gweithio gyda Phlant</li> <li>– bydd hyfforddiant ffurfiol, achrededig neu gydnabyddedig i hebryngwyr yn parhau mewn partneriaeth â PACT a phartneriaid eraill yn y diwydiant; gwaith llobo o fewn y diwydiant cyfan ar gyfer gwelliannau mewn hyfforddiant gan awdurdodau lleol</li> <li>– proses o uwchyfeirio a datrys problemau posibl</li> <li>– datblygu strategaeth tair blynedd â'r NSPCC</li> </ul>
<p><b>4. Diogelu data</b> Gallai peryglu data a gwasanaethau'r BBC drwy hacio, math arall o ymosodiad mewnol neu allanol neu wall arwain at amharu ar wasanaethau neu ddatgelu data cyfrinachol, gan gynnwys deunydd golygyddol sensitif neu ddata personol sensitif, gan arwain at niweidio enw da'r BBC a chosbau ariannol posibl.</p> <p>▲</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>– polisiâu ac arferion diogelu data</li> <li>– buddsoddi mewn gallu technegol, gan gynnwys ystod o waliau monitro ac amddiffyn rhag hacio, maleiswedd ac ymosodiadau eraill</li> <li>– ymwybyddiaeth gyffredinol ymysg y staff ac ymgyrchoedd addysg yn cyfleu negeseuon allweddol ynglŷn â diogelwch</li> <li>– bod yn wyliadwrus ynghylch effeithiau posibl darlledu mewn tiriogaethau newydd</li> </ul>

Risgiau a chyfleodd gweithredol

Prif risgiau a chyfleodd	Camau lliniaru allweddol
<p><b>5. Iechyd, diogelwch a diogeledd</b>                      Gallai methiant i gyflawni cyfrifoldeb corfforaethol am iechyd, diogelwch, lles a diogeledd staff, gweithwyr llawrydd, cyfranwyr a chynulleidfaoedd arwain at effaith ar yr unigolion a'u teuluoedd, amlygiad cyfreithiol ac ariannol, niweidio enw da'r BBC a cholli ymddiriedaeth.</p> <p>▲</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- hyfforddiant iechyd a diogelwch cadarn yn y DU a thramor; cyfarpar arbenigol a phrosesau a gweithdrefnau risg uchel pwrpasol ar gyfer gweithgareddau mewn amgylcheddau gelyniaethus dynodedig</li> <li>- ymateb rhagweithiol i fygythiadau sy'n newid, gyda chynghor ac arweiniad wedi'u teilwra gan dimau diogelwch arbenigol</li> <li>- cydgysylltu'n agos ag awdurdodau diogelwch y DU ynglŷn â lefel y bygythiad i ddiogelwch y DU, gan fod yn wylidwrus ynghylch sefyllfaoedd bregus cydnabyddedig a chyflwyno hyfforddiant a negeseuon wedi'u targedu</li> <li>- gweithio gyda fforymau diogelwch y cyfryngau a darlledwyr eraill er mwyn codi safonau yn y diwydiant cyfan</li> </ul>
<p><b>6. Hylifedd ac arbedion</b>                      Wrth i ni bontio i setliad newydd ffi'r drwydded, gan gynnwys ymrwymadau newydd, gallai methiant i gyflawni targedau arbedion newydd ac ymestynnol iawn effeithio ar wasanaethau a niweidio ein henw da a'n perthynas â chynulleidfaoedd a rhanddeiliaid.</p> <p>➤</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- trefniadau llywodraethu a fframweithiau cadarn ar gyfer ein rhaglenni newid er mwyn ei gwneud yn bosibl i wireddu ein gweledigaeth strategol o fewn y cyllid sydd ar gael</li> <li>- mae'r Siarter a setliad ffi'r drwydded yn cynnig mwy o sicrwydd ynghylch strategaethau cynllunio ariannol a chynnwys</li> </ul>
<p><b>7. Cydymffurfiaeth reoleiddiol</b>                      Gallai methiant i gydymffurfio ag amrywiaeth eang o ofynion cyfreithiol a gofynion rheoleiddiol eraill, neu fethiant i fod yn ymwybodol o newidiadau, arwain at her gyfreithiol neu reoleiddiol, perygl i wasanaethau neu gosbau ariannol.</p> <p>➤</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- monitro gofynion cydymffurfio'n rheolaidd</li> <li>- cynlluniau hyfforddiant a chyfathrebu yn cael eu diweddarau'n rheolaidd er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth dda o'r angen i gydymffurfio â deddfwriaeth newydd ei chyflwyno</li> <li>- parhau i adolygu a chynllunio ar gyfer effeithiau deddfwriaeth newydd, gan gynnwys gweithio gyda'r diwydiant i fonitro a datblygu atebion arfer gorau i sicrhau cydymffurfiaeth effeithiol</li> </ul>

### Prosesau atebolrwydd a rheolaeth fewnol y BBC

Yn ystod 2016/17, roedd y Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am reolaeth strategol a gweithredol y BBC (heblaw am Uned Ymddiriedolaeth y BBC). Roedd hyn yn cynnwys diogelu ei asedau a chael gwerth am arian drwy sicrhau bod proses ar waith ar gyfer rheoli risgiau sylweddol i'r BBC.

Mae'r BBC wedi cydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU, yn unol â gofynion y Siarter, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd gynnal systemau rheoli risg a rheolaeth fewnol cadarn ac adolygu eu heffeithiolrwydd o leiaf unwaith y flwyddyn. Dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd llwyr rhag cam-ddatgan perthnasol neu golled y gall systemau o'r fath ei roi. Mae system reolaeth y BBC wedi'i chynllunio i reoli (yn hytrach na dileu) y risg o fethu â chyflawni amcanion busnes a rhoi sicrwydd rhesymol y caiff yr asedau eu diogelu, y caiff trafodion eu hawdurdodi'n briodol ac y caiff gwallau perthnasol neu achosion o afreoleidd-dra eu hatal neu eu canfod yn amserol.

**Fframwaith rheoli risg a rheolaeth fewnol**  
Mae proses y BBC o nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol i'r BBC yn gyson â'r arfer gorau a nodwyd yng Nghaneliau'r Cyngor Adrodd Ariannol ar Reoli Risg, Rheolaeth Fewnol ac Adroddiad Busnes ac Ariannol Cysylltiedig. Ceir dulliau o reoli risg o fewn is-adrannau yn bennaf, gyda gweithgarwch cydgyssylltu canolog ar waith i reoli ac uwchgyfeirio materion o fewn y BBC cyfan, megis safonau golygyddol a diogelwch. Cafodd y Bwrdd Gweithredol ei frifio'n rheolaidd a chynhaliodd drafodaethau ar y prif risgiau strategol a gweithredol a wynebai'r BBC.

Goruchwyliodd y Bwrdd Gweithredol gynllun busnes i gyflawni strategaeth y BBC a gymeradwywyd gan yr Ymddiriedolaeth. I ategu hyn, cyflwynwyd strwythur cyfundrefnol priodol, gyda fframwaith polisi ar gyfer gweithgareddau rheoli perthnasol ac awdurdodau dirprwyedig clir. Bu prosesau adrodd misol, chwarterol a blynyddol, o fewn is-adrannau ac i fyny at y Bwrdd Gweithredol, ar waith.

### Asesu effeithiolrwydd rheoli risg a rheolaeth fewnol

Defnyddiodd y Bwrdd Gweithredol nifer o ddulliau i'w helpu i asesu effeithiolrwydd y system rheoli risg a rheolaeth fewnol o fewn y busnes. Roedd y rhain yn cynnwys:

**Goruchwyllo risg:** Dirprwyodd y Bwrdd gyfrifoldeb am adolygu prosesau risg a rheolaeth yn benodol i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol. Cyfarfu PAG yn rheolaidd i gyflawni swyddogaethau craffu a goruchwyllo, er mwyn sicrhau bod rheolaethau'n effeithiol a bod risgiau yn cael eu rheoli'n effeithiol (rhoddir rhagor o wybodaeth ar dudalen 74).

**Archwilio mewnol:** Mae gan y swyddogaeth archwilio mewnol linell adrodd annibynnol i Gadeirydd PAG a chynhaliodd raglen archwilio yn unol â'r prif risgiau a wynebir gan y BBC. Cyflwynwyd adroddiadau ar ganfyddiadau'r archwiliadau i uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, a chaiff camau adferol eu holrhain er mwyn sicrhau y cânt eu cwblhau.

**Archwiliadau allanol:** Mae'r archwilwyr allanol wedi cyflawni eu harchwiliad diwedd blwyddyn statudol ac mae'r canfyddiadau wedi'u hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio. Caiff unrhyw gamau a argymhellwyd eu holrhain er mwyn sicrhau y cânt eu cwblhau. Hefyd, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi archwilio Datganiad yr Ymddiriedolaeth ar Ffi'r Drwydded ac mae wedi parhau â'i rhaglen o archwiliadau Gwerth am Arian.

**Chwythu'r chwiban:** Mae polisi datgelu gwarchoddedig ar waith, a ategir gan linell gymorth 'chwythu'r chwiban', a weinyddir gan gwmni allanol annibynnol er mwyn sicrhau y gellir codi mater yn ddiennw. Cafodd yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol ei enwi yn y polisi fel y cyswllt ar gyfer codi'r pryderon mwyaf difrifol.



# Datganiad ynghylch hyfywedd

Yn unol â darpariaeth C2.2 o ddiwygiad 2014 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU, mae'r Bwrdd wedi asesu rhagolygon y Gorfforaeth dros gyfnod hwy na'r 12 mis sy'n ofynnol o dan y ddarpariaeth 'Busnes Gweithredol'. Mae'r Bwrdd yn ystyried cynllun tair blynedd treigl ar gyfer y BBC yn flynyddol.

Cymeradwyodd yr hen Fwrdd Gweithredol y cynllun tair blynedd diweddaraf ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2020 ym mis Mawrth 2017 ac fe'i cadarnhawyd gan y Bwrdd ym mis Mai 2017. Ystyrir bod gorwel tair blynedd yn briodol gan fod hyn yn unol â phroses gyllidebu a chynllunio'r BBC. Mae'r cynllun tair blynedd yn ystyried llifau arian parod yn ogystal â'r cyfamodau ariannol a chyfleusterau credyd.

Y prif dybiaethau sy'n sail i'r cynllun tair blynedd, a'r rhagamcan llif arian parod cysylltiedig, yw setliad ffi'r drwydded a bennodd baramedrau ariannol y BBC rhwng 2017/18 a 2021/22, a'n dogfen o 2015 sef Balch Beiddgar Creadigol a nododd weledigaeth y BBC, ei nodau strategol a'i arlwy i'r cyhoedd.

Cynhaliwyd asesiad cadarn o'r prif risgiau sy'n wynebu'r Gorfforaeth, fel y'u disgrifir yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar dudalennau 78 i 80, gan gynnwys y rhai a fyddai'n peryglu ei model busnes, perfformiad yn y dyfodol, solfedd neu hylifedd. Cymhwysir dadansoddiad sensitifrwydd at y llif arian parod er mwyn modelu'r effeithiau posibl pe bai prif risgiau'n codi mewn gwirionedd, yn unigol neu ar y cyd. Nodwyd tri phwynt straen pan gafodd cyfuniad o risgiau difrifol ond credadwy ei fodelu, ond arhosodd y llifau arian parod o fewn y terfyn benthycy drwy gydol y cyfnod a fodlwyd.

Gan ystyried sefyllfa bresennol y Grŵp, prif risgiau a'r dadansoddiad sensitifrwydd a nodir uchod, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol y bydd y Gorfforaeth yn gallu parhau i weithredu a bodloni ei rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros gyfnod tair blynedd yr asesiad.

# Adroddiad masnachu teg

## Adroddiad Pwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd Gweithredol

Lluniwyd y datganiad isod gan Bwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd Gweithredol a fodolai o dan drefniadau llywodraethu'r BBC ar gyfer y Siarter flaenorol. Paratowyd adroddiad masnachu teg 2016/17 gan y Pwyllgor hwnnw ac fe'i sicrhawyd ac fe'i cymeradwywyd ar ran y BBC gan Fwrdd newydd y BBC.

Hwn yw adroddiad olaf Pwyllgor Masnachu Teg Bwrdd Gweithredol y BBC. Yn ystod y Siarter ddiwethaf, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei gyfrifoldebau, fel darlledwr cyhoeddus, o ran masnachu'n deg ac ystyried effaith ei wasanaethau ar y farchnad ehangach. Er mwyn cyflawni hyn, goruchwyliodd y Pwyllgor gyfundrefn masnachu teg sefydledig a thrylwyr y craffwyd arni'n fewnol ac yn allanol. Wrth gwrs, yn ystod y cyfnod hwn, mae'r farchnad y mae'r BBC yn gweithredu ynddi wedi newid yn sylweddol hefyd, gyda nifer o newydd-dyffodiaid a chystadleuwyr sy'n tyfu'n gyflym.

Rhan greiddiol o'r system masnachu teg yw bod tîm Masnachu Teg a Chyfraith Cystadleuaeth y BBC yn gweithio'n agos gyda staff ym mhob rhan o'r sefydliad er mwyn sicrhau bod prosesau, prosiectau a mentrau mewnol newydd yn cydymffurfio â gofynion masnachu teg. Mae'r tîm hefyd yn rheoli rhaglen hyfforddiant wedi'i thargedu at staff sy'n debygol o ddod ar draws materion masnachu teg. Bu'r Pwyllgor Masnachu Teg yn monitro cydymffurfiaeth â'r prosesau hyn drwy gydol y flwyddyn ac roedd yn fodlon bod trefniadau effeithiol ar waith.

Roedd gwaith y Pwyllgor, a gwaith y tîm Masnachu Teg, yn hynod bwysig eleni ar adeg o newid i'r BBC. Dros y 12 mis diwethaf, rhoddodd y tîm gyngor ar ystod eang o faterion, a'r mwyaf arwyddocaol o'u plith oedd y cynnig i BBC Studios ddod yn is-gwmni masnachol. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan Ymddiriedolaeth y BBC ym mis Rhagfyr 2016. Talwyd sylw agos hefyd i adolygiad yr Ymddiriedolaeth o drefniadau prisio trosglwyddiadau rhwng y BBC a'i is-gwmniau masnachol. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod adolygiad yr Ymddiriedolaeth wedi canfod bod trafodion rhwng gwasanaethau masnachol y BBC a gwasanaethau a ariennir gan ffi'r drwydded yn cael eu cynnal yn deg, yn unol â rheolau yn atal aflunio'r farchnad, a chan dalu prisiau teg. Hefyd ystyriodd y Pwyllgor nifer o faterion masnachu teg ar gyfer prosiectau allweddol y BBC, gan gynnwys cefnogi'r gwaith o ddarparu newyddion lleol a datblygu technoleg bersonoli i ategu gwasanaethau'r BBC. Rhoddodd gyngor ar y rhain hefyd.

Efen bwysig arall o'r gyfundrefn masnachu teg yw'r broses o ymdrin â chwynion masnachu teg. Eleni cafwyd un gŵyn oedd yn dal heb ei datrys (a ddaeth i law yn y flwyddyn adrodd flaenorol), yr ymdriniwyd â hi yn unol â'n gweithdrefnau cyhoeddiedig. Yn y pen draw cadarnhaodd Ymddiriedolaeth y BBC ganfyddiadau'r BBC ar bob elfen o'r gŵyn. Ni ddaeth unrhyw gwynion newydd i law eleni.

Unwaith eto, roedd y Pwyllgor yn falch o weld bod y Fframwaith Masnachu Teg wedi cael barn archwilio ddiadmod gan ein harchwilwyr allanol.

Gyda'i gilydd, cred y Pwyllgor fod yr adroddiad hwn yn profi bod system gynhwysfawr, sy'n gweithio'n dda, ac sydd â lefel isel o gwynion allanol, a pherfformiad cyson a chadarnhaol yn erbyn prosesau goruchwyllo mewnol ac allanol, ar waith. Rhydd hyn sylfaen gadarn ar gyfer trosi i'r gyfundrefn reoleiddio newydd yn ystod cyfnod y Siarter nesaf, a oruchwylir gan Ofcom.

Bydd effaith y BBC ar y farchnad, ynghyd ag effaith ei is-gwmniau masnachol, yn parhau i fod yn uchel ar agenda'r BBC. Gall pob rhanddeiliad, yn cynnwys talwyr ffi'r drwydded a'r rhai y gallai gweithgareddau'r BBC effeithio arnynt, fod yn hyderus bod y BBC yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydymffurfio â'i rwymedigaethau rheoleiddiol, a gynlluniwyd i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y marchnadoedd y mae'n gweithredu ynddynt.

## Aelodaeth a chylch gwaith Pwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd Gweithredol

Prif swyddogaeth Pwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd Gweithredol ('PMTG') oedd goruchwyllo cydymffurfiaeth Bwrdd Gweithredol y BBC â rhwymedigaethau masnachu teg. Mae PMTG yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol: Y Fonesig Fiona Reynolds (Cadeirydd), Alice Perkins a Syr Howard Stringer. Mynychwyd cyfarfodydd PMTG gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Cwnsler Cyffredinol y Grŵp, y Cwnsler Cyffredinol Cynorthwyl, y Pennaeth Masnachu Teg a Chyfraith Cystadleuaeth a'r Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd hefyd. Rhoddir tabl yn cofnodi presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Masnachu Teg ar dudalen 70.

Ymysg cyfrifoldebau PMTG roedd:

- adolygu Canllawiau Masnachu Teg y BBC yn rheolaidd
- ymdrin â chwynion ynglŷn â masnachu teg yn erbyn y BBC drwy benodi Panel Cwynion Masnachu Teg a gadeirir gan gyfarwyddwr anweithredol ac sy'n cynnwys mwyafrif o gyfarwyddwyr anweithredol
- adolygu cydymffurfiaeth barhaus â phedwar maen prawf masnachol y BBC
- comisiynu archwiliad blynyddol o fasnachu teg gan archwilwyr annibynnol

Mae'r BBC wedi gweithredu o dan Fframwaith Masnachu Teg gweithredol manwl sy'n gymwys i'n holl weithgareddau. Mae hwn bellach wedi'i ddisodli gan ofynion Fframwaith Gweithredu Ofcom sy'n rheoleiddio prosesau rhyngweithio'r BBC â'r farchnad, drwy ei weithgareddau Gwasanaeth Cyhoeddus a rhai ei gangen fasnachol. Y Pwyllgor Masnachu Teg newydd, a sefydlwyd gan Fwrdd y BBC, fydd yn gyfrifol am oruchwyllo cydymffurfiaeth y BBC â'r Fframwaith newydd.

O dan y Fframwaith Masnachu Teg, byddai'r BBC yn cael ei archwilio gan archwilwyr annibynnol bob blwyddyn. Nodir adroddiad yr Archwilydd Annibynnol ar dudalen 115.

Yng Nghytundeb y BBC a gwmpasai'r cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2016 a'r trefniadau trosiannol a geir yn y Siarter newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2017 a 2 Ebrill 2017, fe'i gwnaed yn ofynnol i Fwrdd Gweithredol y BBC sicrhau bod ein holl wasanaethau masnachol yn bodloni'r meini prawf canlynol. Mae'n rhaid i wasanaethau masnachol:

- gyd-fynd â'r dibenion cyhoeddus
- dangos effeithlonrwydd masnachol
- sicrhau nad ydynt yn peryglu enw da'r BBC na gwerth brand y BBC
- cydymffurfio â Chanllawiau'r BBC ar Fasnachu Teg, ac yn benodol osgoi aflunio'r farchnad

Ar ôl cael adroddiadau gan yr uwch reolwyr perthnasol, mae'r BBC yn fodlon bod pob un o'i wasanaethau masnachol wedi bodloni'r meini prawf uchod yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

O dan y Fframwaith Masnachu Teg, roedd gan y BBC broses cwynion ac apeliadau masnachu teg a gyhoeddwyd. Ni chafodd y BBC unrhyw gwynion masnachu teg yn ystod y flwyddyn. Ceir manylion cwynion masnachu teg blaenorol a'r rhai a fu'n destun apeliadau i Ymddiriedolaeth y BBC yn ein Bwletin Masnachu Teg yn: [bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/policiesandguidelines/fairtrading/complaints\\_bulletins.html](http://bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/policiesandguidelines/fairtrading/complaints_bulletins.html).

**Adroddiad yr archwilydd masnachu teg annibynnol i'r BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017**

Yn ein rôl fel archwilydd masnachu teg y BBC, rydym wedi archwilio'r system o reolaethau mewnol a sefydlwyd yn y BBC i roi sicrwydd rhesymol i'r BBC bod Bwrdd Gweithredol y BBC ('y Bwrdd Gweithredol') wedi cydymffurfio â gofyniad Polisiâu a Fframwaith Masnachu Teg Ymddiriedolaeth y BBC a Chanllawiau Masnachu Teg Bwrdd Gweithredol y BBC a oedd ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ('y Trefniadau Masnachu Teg').

Cytunwyd ar ein cyfarwyddiadau ar gyfer yr ymrwymiad hwn, gan gynnwys cwmpas y gwaith sydd i'w wneud, ar y cyd â Phwyllgor Masnachu Teg Bwrdd Gweithredol y BBC cyn ei ddiwedd. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn cynnwys cytundeb y dylai ein harchwiliad gael ei gynnal yn unol â'r Safon Ryngwladol ar Ymrwymiadau Sicrwydd ('ISAE') 3000, cytundeb ynglŷn â therfyn ein hatebolrwydd o ran y gwaith hwn a chytundeb mai i'r BBC yn unig y mae arnom ddyletswydd gofal o ran y gwaith hwn. Rydym yn fodlon bod cwmpas ein harchwiliad y cytunwyd arno yn ddigonol i'n galluogi i fynegi'r farn a nodir isod.

**Priod gyfrifoldebau Ymddiriedolaeth y BBC, Bwrdd Gweithredol y BBC a'r archwilydd masnachu teg**

Ar gyfer y flwyddyn adrodd a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, roedd yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn gweithredu yn unol â Threfniadau Masnachu Teg y BBC.

Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth ddyletswydd ar y Bwrdd Gweithredol i sefydlu a gweithredu system o reolaethau mewnol sydd â'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth â Threfniadau Masnachu Teg y BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017, gan gynnwys nodi ac asesu'r risgiau a allai beryglu masnachu teg a llunio a gweithredu ymatebion i risgiau o'r fath.

Fel archwilydd masnachu teg y BBC, ein cyfrifoldeb yw llunio barn annibynnol, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, ynglŷn â'r graddau y mae'r BBC wedi sefydlu, ac wedi cymhwyso, system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol iddo gydymffurfio â gofynion ei Drefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017. Dim ond i'r graddau ag sy'n angenrheidiol i lunio barn ar y ffordd y cymhwysir y system o reolaethau mewnol rydym wedi adolygu penderfyniadau penodol a wnaed gan y BBC mewn perthynas â materion masnachu teg.

Paratowyd ein barn i'r BBC ac i'r BBC yn unig yn unol â'r cyfarwyddiadau y cytunwyd arnynt â Phwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd Gweithredol ar ran y BBC. Wrth roi'r farn hon, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall nac i unrhyw berson arall ac eithrio'r rheini o fewn y BBC y dangosir yr adroddiad hwn iddynt neu y mae'n cael ei roi iddynt, ac ni fydd hawl gan unrhyw berson arall i ddibynnu ar ein barn, oni chytunwn i hynny'n ysgrifenedig ymlaen llaw.

**Ein dull gweithredu**

Rydym wedi mynd ati i gyflawni ymrwymiad sicrwydd rhesymol fel y diffinnir yn ISAE 3000.

Amcan ymrwymiad sicrwydd rhesymol yw cynnal y cyfryw weithdrefnau er mwyn cael gwybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol, yn ein barn ni, i roi tystiolaeth briodol ddigonol i ni fynegi casgliad ar gydymffurfiaeth y BBC â'i Drefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017.

Roedd ein gwaith yn cynnwys ymchwiliad a phroffion i'n galluogi i lunio barn ynghylch a oedd system briodol o reolaethau mewnol ar waith. Cynhaliwyd dadansoddiad seiliedig ar risg er mwyn nodi'r agweddau hynny ar reolaethau masnachu teg y BBC sy'n peri'r risg fwyaf i fasnachu teg, gan ganolbwyntio ein profion manwl ar y meysydd hynny.

Dewiswyd achosion unigol o gofnod masnachu teg y BBC i'w hadolygu. Ym mhob achos, archwiliwyd cofnodion ysgrifenedig gennym a chyfwelwyd â phartion perthnasol er mwyn i ni gael sicrwydd rhesymol bod y system o reolaethau mewnol wedi cael ei chymhwyso, a phriodoldeb y canlyniad. Roedd yr achosion a archwiliwyd, a'r meysydd risg sylweddol y canolbwyntiodd y gwaith arnynt, yn cwmpasu pob un o dri is-gwmni gwasanaeth masnachol y BBC ac yn cynnwys archwiliad o drefniadau prisio trosglwyddiadau a gwahanu, y defnydd a wnaed o frand y BBC a thaliadau amdano, a'r camau a gymerwyd i gymhwyso gofyniad yr Ymddiriedolaeth y dylai'r BBC, wrth gyflawni'r dibenion cyhoeddus, leihau unrhyw effaith negyddol ar y farchnad i'r eithaf.

**Cyfyngiadau annatod**

Fel yn achos unrhyw system reoli, nid yw'n ymarferol sicrhau nad oes unrhyw wallau nac achosion o afreoleidd-dra wedi digwydd heb gael eu canfod. Roedd ein gwaith archwilio wedi'i gynllunio i roi sicrwydd rhesymol i'r Bwrdd Gweithredol ynglŷn â digonolrwydd y system o reolaethau mewnol a oedd ar waith ac sy'n cael ei chymhwyso i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017. At hynny, oherwydd bod materion masnachu teg yn gofyn am farn a allai yn y pen draw gael ei phrofi mewn llys barn, gan yr awdurdod cystadleuaeth neu yn rhywle arall, mae bob amser risg o her hyd yn oed lle y dilynwyd y system o reolaethau mewnol a lle y gwnaed penderfyniadau gyda'r gofal mwyaf.

**Barn**

Yn seiliedig ar ganlyniadau ein gweithdrefnau, yn ein barn ni, mae'r BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol iddo gydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017.

**Deloitte LLP**

Llundain  
22 Mehefin 2017

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd o ran yr ABCCh

Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC baratoi adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon archwiliedig.

Mae'r Bwrdd wedi derbyn ei gyfrifoldeb am baratoi adroddiad strategol, datganiadau o gydymffurfiaeth â chodau a rheoliadau cymwys (gan gynnwys adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd) a'r datganiad o gyfrifon y bwriedir iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r BBC a'i is-gwmnïau (y 'Grŵp') a'r incwm a'r gwariant ar gyfer y cyfnod hwnnw. Mae'r Bwrdd wedi paratoi'r cyfrifon yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ('IFRS') fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE. Ni chaiff y Bwrdd gymeradwyo'r datganiad o gyfrifon (neu'r 'datganiadau ariannol') oni fydd yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o asedau, rhwymedigaethau a sefyllfa ariannol y Grŵp a'r gwarged neu'r diffyg yn y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd wedi gwneud y canlynol:

- dewis polisiâu cyfrifyddu addas a'u cymhwysu'n gyson
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbobus
- nodi p'un a gawsant eu paratoi yn unol ag IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, am ei fod o'r farn y bydd y BBC yn parhau i weithredu

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y BBC a datgelu sefyllfa ariannol y Grŵp yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'i alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol ac adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd yn cydymffurfio â'r Siarter. Hefyd mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol i gymryd y cyfryw gamau sy'n rhesymol agored iddo er mwyn diogelu asedau'r BBC ac atal a chanfod unrhyw dwyll ac anghysondebau eraill.

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gynnal gwefan y BBC a sicrhau ei bod yn gywir. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r Bwrdd a oedd mewn swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, y caiff eu henwau a'u swyddogaethau eu rhestru yn adran Llywodraethu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred:

- fod y datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol ag IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE, yn rhoi darlun gwir a theg o asedau, rhwymedigaethau, sefyllfa ariannol a diffyg y Grŵp
- bod yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys adolygiad teg o ddatblygiad a pherfformiad y busnes a sefyllfa'r Grŵp, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebir ganddo
- bod yr Adroddiad Blynyddol, yn ei gyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar randdeiliaid i asesu perfformiad, model busnes a strategaeth y Grŵp


## Datganiad datgelu gwybodaeth i archwilywyr

Mae aelodau'r Bwrdd a oedd mewn swydd ar adeg cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilywyr y BBC yn ymwybodol ohoni; ac mae pob aelod o'r Bwrdd wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd fel aelod o'r Bwrdd er mwyn dod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a phennu bod archwilywyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Busnes gweithredol

Mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi rhagamcanion llif arian parod am gyfnod y tu hwnt i flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, ac maent wedi adolygu'r rhagamcanion hyn, ynghyd â'r materion sensitif a'r ffactorau lliniarol yng nghyd-destun yr arian sydd ar gael. Mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod y BBC mewn sefyllfa dda i reoli'r risgiau a bod ganddo ddigon o adnoddau i barhau i weithredu yn y dyfodol agos. O ganlyniad mabwysiadwyd sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Cafodd y datganiad hwn ei gymeradwyo gan y Bwrdd.



## Syr David Clementi

Cadeirydd  
22 Mehefin 2017



# Adolygiad olaf Ymddiriedolaeth y BBC

t.87

## Adroddiad Diwedd y Siarter

Cyn-gadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC, Rona Fairhead, yn darparu crynodeb o berfformiad y BBC yn 2016/17

Yr Hen Ganolfan Ddarlledu

t.88

## Presenoldeb mewn cyfarfodydd

Cyfarfu Ymddiriedolwyr drwy gydol 2016/17 cyn diddymu Ymddiriedolaeth y BBC ar 2 Ebrill 2017

t.90

## Cydnabyddiaeth a gwariant yr Ymddiriedolaeth

Ffioedd Ymddiriedolwyr a chost rhedeg Ymddiriedolaeth y BBC yn 2016/17

Ymddiriedolaeth y BBC oedd corff llywodraethu'r BBC rhwng mis Ionawr 2007 a 2 Ebrill 2017. Pennodd amcanion strategol y BBC a rhoddodd drwydded gwasanaeth i bob un o wasanaethau'r BBC gan nodi'r hyn roedd yn disgwyl iddo gael ei gyflawni a faint y gellid ei wario. Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth safonau golygyddol y BBC a diogelodd ei annibyniaeth. Roedd yr Ymddiriedolaeth ar wahân i Fwrdd Gweithredol y BBC, a arweinir gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, sy'n darparu arweinyddiaeth olygyddol a chreadigol y BBC ac yn rheoli'r broses o ddarparu ei wasanaethau.

**Trafodwyd busnes rheolaidd mewn cyfarfodydd misol o'r Ymddiriedolaeth lawn a'i his-bwyllgorau. Yn y cyfarfodydd hyn, gwnaed penderfyniadau yn ymwneud â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth, ac ystyriwyd cynigion gan y Bwrdd Gweithredol. Cyhoeddwyd cofnodion cyfarfodydd misol yr Ymddiriedolaeth, yn ogystal â thystiolaeth ac ymchwil yr oedd penderfyniadau yn seiliedig arnynt, canfyddiadau pob penderfyniad apêl golygyddol, a chanlyniadau adolygiadau gwerth am arian a thrwyddedau gwasanaeth.**

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth ei Hadroddiad Diwedd Cyfnod y Siarter ar ei hasesiad o berfformiad y BBC yn ystod 2016/17, gan ddefnyddio'r data a oedd ar gael ar ddiwedd mis Rhagfyr 2016. Mae'r Adroddiad Diwedd Cyfnod y Siarter ar gael yn: [https://downloads.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/our\\_work/charter/cy\\_end\\_of\\_charter\\_review.pdf](https://downloads.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/our_work/charter/cy_end_of_charter_review.pdf)

**Cyflwyniad y Cadeirydd i'r Adroddiad Diwedd Cyfnod y Siarter – Mawrth 2017**  
Rona Fairhead, Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC (Hydref 2014 – Mawrth 2017)

Mae'r Siarter a'r Cytundeb newydd yn sicrhau bod y BBC mewn sefyllfa gadarn ar gyfer y dyfodol, gan ei alluogi i barhau i fod yn feiddgar, yn greadigol ac yn annibynnol.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi blwyddyn olaf Ymddiriedolaeth y BBC, a diwedd Siarter 2006 a bennodd ddiben, dyletswyddau a threfniadau llywodraethu'r BBC dros y degawd diwethaf.

Ar 1 Ionawr, daeth y Siarter a'r Cytundeb newydd yn weithredol, yn dilyn proses hir o adolygu, casglu tystiolaeth, trafod manwl, a phroses anferth o ymgysylltu â'r cyhoedd a gynhaliwyd gan yr Ymddiriedolaeth, y BBC a'r Llywodraeth. Ein blaenoriaeth oedd sicrhau bod safbwyntiau cynulleidfaoedd y BBC yn cael eu clywed yn glir, a bod y Llywodraeth yn eu cymryd i ystyriaeth.

Cyflawnwyd hyn ar sawl cyfrif; mae'r Siarter yn sicrhau y gall y BBC ymateb i'r hyn y mae cynulleidfaoedd am ei gael – BBC a all fod yn hyderus, arloesol, nodedig ac uchelgeisiol yn greadigol. BBC a fydd yn parhau i gynnig rhywbeth i bawb.

Roedd diogelu annibyniaeth y BBC yn hollbwysig yn ein trafodaethau. Bydd y Siarter 11 mlynedd yn sicrhau mwy o fwlch rhwng etholiadau cyffredinol sydd ar droed a phenderfyniadau am ddyfodol y BBC. Annibyniaeth y BBC yw prif ddatganiad egwyddor y Siarter bellach, a bydd gan aelodau newydd y Bwrdd – y bydd dim ond lleiafrif ohonynt yn cael eu penodi gan y Llywodraeth ar y pryd – ddyletswydd glir i amddiffyn annibyniaeth y Gorfforaeth.

Er bod y fframwaith annibyniaeth yn gadarn, bydd angen i'r Bwrdd newydd barhau i

warchod sefyllfa'r BBC yn gadarn yn wyneb heriau'r dyfodol. Un maes y dyldid ei nodi'n benodol yw setliad ariannu ffi'r drwydded. Roedd proses y ddau setliad blaenorol yn anfodddhaol ac mae'r Siarter newydd yn cynnig rhywfaint o welliant, yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth ymgynghori â'r BBC ar unrhyw gynnig ariannu yn y dyfodol. Fodd bynnag, un peth nad yw'n ei wneud eto yw cynnig unrhyw dryloywder cyhoeddus gan y Llywodraeth cyn penderfynu ar y setliadau ariannu hynny. Mae hyn yn destun pryder o hyd yn fy marn i.

Daw system newydd o lywodraethu a rheoleiddio'r BBC yn weithredol ym mis Ebrill, a chredaf y bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder ac arwahanrwydd i rolau, yn unol â'r hyn y gwnaeth yr Ymddiriedolaeth alw amdano ar ddechrau'r broses. Dymunaf bob llwyddiant i'r Bwrdd newydd a'i Gadeirydd, Syr David Clementi.

Mae perfformiad y BBC yn 2016 yn golygu ei bod yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol. Mae 95% o oedolion yn defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos – cyflawniad rhyfeddol mewn byd lle ceir cymaint mwy o ddewis dros y ddau ddegawd diwethaf. Eto, mae'r BBC yn parhau i sicrhau cyflawniadau gorchestol: *Planet Earth II* oedd y rhaglen hanes naturiol fwyaf poblogaidd yn y DU ers 15 mlynedd o leiaf; cyflawnodd cyfres olaf y BBC o *The Great British Bake Off* y nifer fwyaf o wylwyr erioed, ynghyd â *Today* ar Radio 4, a gynigiodd ohebu awdurdodol a diduedd mewn blwyddyn a welodd ddigwyddiadau newyddion arwyddocaol iawn i bobl y DU, yr UD, Ewrop a ledled y byd. Yn rhyngwladol, mae cynulleidfaoedd y BBC yn parhau i dyfu, ac, ym mis Tachwedd, cyhoeddodd y BBC 11 o wasanaethau iaith newydd fel rhan o'r broses ehangu fwyaf i'r World Service ers y 1940au.



Fodd bynnag, ni ddylid diystyru'r heriau cystadleuol a rheolaethol sy'n wynebu'r sefydliad dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Rhaid i'r BBC sicrhau £800m arall o arbedion cost y flwyddyn, ar ôl degawd o arbedion effeithlonrwydd sylweddol ac wrth i incwm llawer o'i brif gystadleuwyr barhau i gynyddu. Rhaid i'r BBC barhau i ddilyn y llwybr o symleiddio'r sefydliad, bod yn bartner o ddewis yn y diwydiant a chynnig hyd yn oed mwy o werth am arian. Ond er hyn, bydd angen gwneud dewisiadau anodd. Rhaid i'r BBC weithredu mewn marchnad fyd-eang ar gyfer syniadau a thalent ac, er bod ganddo'r fraint o wybod beth fydd ei incwm am sawl blwyddyn i ddod, gŵyr hefyd bod yr incwm hwnnw yn sefydlog i raddau helaeth.

Mae'r Siarter newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC bennu'r safonau golygyddol uchaf posibl. Rhaid hefyd sicrhau ei fod yn cynrychioli ac yn portreadu pob rhan o gymdeithas a phob rhan o'r DU. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi annog y BBC i adolygu ei wasanaethau yn y gwledydd, ac rydym yn croesawu'n fawr y cyhoeddiad ym mis Chwefror eleni y bydd buddsoddiadau newydd yng Nghymru a'r Alban, a'r cyhoeddiad sydd ar droed ar gyfer buddsoddiad yng Ngogledd Iwerddon. Bydd croeso mawr i'r broses o greu sianel newydd ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban a sicrhau cynnydd o 50% mewn rhaglenni iaith Saesneg o Gymru ac ar gyfer Cymru, gan gydnabod ymrwymiad y BBC i wasanaethu pob rhan o DU sy'n fwyfwy datganoledig ac amrywiol.

Erys her arall – nid dim ond i'r BBC ond hefyd i'r cyfryngau darlledu yn gyffredinol – sef sut i gyrraedd cymunedau a danwasanaethir – fel pobl 16-34 oed a chynulleidfaoedd o gefndiroedd pobl dduon, pobl Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Hyd yn oed wrth i'r BBC geisio creu cynnwys eithriadol ar ei sianelau presennol, ar yr un pryd, bydd hefyd angen iddo fuddsoddi mewn gwasanaethau digidol, symudol a phersonol er mwyn bod yn ymwybodol o newidiadau technolegol a disgygliadau cynulleidfaoedd.

Wrth wraidd y ddatl y nghylch darlledwr cenedlaethol a ariennir yn gyhoeddus, mae'r angen am wybodaeth ddibynadwy a diduedd i lywio ein democratiaeth. Er bod y BBC ymhell ar y blaen i bob darparwr newyddion arall pan ofynnwyd i gynulleidfaoedd yn y DU ddewis un ffynhonnell y maent yn ymddiried ynddi, mae rhai sgorau perfformiad ar gyfer BBC News yn gostwng (fel y dangosir yn yr Arolwg o Gylchoedd Gwaith Dibenion) ac, ar adeg pan mae cynnydd yn y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol yn dwysáu'r risgiau a ddaw yn sgil newyddion ffug, rhaid i newyddiaduraeth y BBC fod yn uchelgeisiol o ran difrifoldeb a dadansoddiad ei ohebu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gynnig arlwy nodedig, yr ymddiriedir ynddo i gynulleidfaoedd. Rhaid i'r BBC egluro'r newyddion, nid dim ond ei adrodd.

